# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:
**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**
Dyddiad: Dydd Iau, 14 Medi 2023
Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
**Naomi Stocks**
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6565
SeneddPlant@senedd.cymru

**Cytunwyd yn y cyfarfod ar 12 Gorffennaf y byddai'r cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn breifat ond oherwydd newid i fusnes a drefnwyd bydd y cyfarfod hwn bellach yn gyhoeddus.**

## Rhag-gyfarfod preifat

(09.10 - 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Gwasanaethau i blant sydd â phrofiad o ofal: trafod diwygio radical - sesiwn graffu ar waith y Gweinidog

(09.30 - 11.30) (Tudalennau 1 - 56)

Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Albert Heaney, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, Llywodraeth Cymru
Alistair Davey, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Gyfarwyddiaeth Galluogi, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:
Briff Ymchwil
Llythyr at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Ymateb gan Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

## 3 Papurau i'w nodi

(11.30)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**3.1 Gwybodaeth gan randdeiliaid**

(Tudalennau 57 - 58)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Undeb y Prifysgolion a Cholegau (Saesneg yn unig)

**3.2 Gwaith craffu cyffredinol ar waith y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**

(Tudalennau 59 - 70)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

**3.3 Blaenraglen waith**

(Tudalennau 71 - 106)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

**3.4 Blaenraglen waith**

(Tudalennau 107 - 139)

Dogfennau atodol:
Llythyr at Weinidog y Gymraeg ac Addysg

**3.5 Cytundebau masnach ryngwladol**

(Tudalennau 140 - 147)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

**3.6 Cytundebau masnach ryngwladol**

(Tudalennau 148 - 149)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at Brif Weinidog Cymru

**3.7 Cytundebau masnach ryngwladol**

(Tudalennau 150 - 151)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan y Prif Weinidog at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

**3.8 P-06-1342 Ariannu mwy o leoedd mewn ysgolion arbenigol a staff i blant ag anghenion dysgu ychwanegol yng Nghymru**

(Tudalen 152)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau

**3.9 Gweithredu diwygiadau addysg**

(Tudalennau 153 - 159)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

**3.10 Gweithredu diwygiadau addysg**

(Tudalennau 160 - 166)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

**3.11 Gweithredu diwygiadau addysg**

(Tudalennau 167 - 168)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**3.12 Gweithredu diwygiadau addysg**

(Tudalennau 169 - 170)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Gonffederasiwn GIG Cymru

**3.13 Gweithredu diwygiadau addysg**

(Tudalennau 171 - 174)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Gonffederasiwn GIG Cymru (Saesneg yn unig)

**3.14 Gweithredu diwygiadau addysg**

(Tudalennau 175 - 177)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Gomisiynydd Plant Cymru at Weinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol (Saesneg yn unig)

**3.15 Gweithredu diwygiadau addysg**

(Tudalennau 178 - 180)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gomisiynydd Plant Cymru (Saesneg yn unig)

**3.16 Cymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch**

(Tudalennau 181 - 182)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Gyfarwyddwr Dros Dro Y Brifysgol Agored yng Nghymru (Saesneg yn unig)

**3.17 Cymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch**

(Tudalennau 183 - 184)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Brif Swyddog Gweithredu Prifysgol De Cymru (Saesneg yn unig)

**3.18 Cymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch**

(Tudalennau 185 - 186)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Lywydd ac Is-ganghellor Prifysgol Metropolitan Caerdydd (Saesneg yn unig)

**3.19 Blaenraglen waith**

(Tudalennau 187 - 188)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

**3.20 Gwasanaethau i blant sydd â phrofiad o ofal: trafod diwygio radical**

(Tudalennau 189 - 190)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Gomisiynydd Plant Cymru

**3.21 Gwasanaethau i blant sydd â phrofiad o ofal: trafod diwygio radical**

(Tudalennau 191 - 239)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gomisiynydd Plant Cymru

**3.22 Gwasanaethau i blant sydd â phrofiad o ofal: trafod diwygio radical**

(Tudalennau 240 - 241)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Gomisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol

**3.23 Gwasanaethau i blant sydd â phrofiad o ofal: trafod diwygio radical**

(Tudalennau 242 - 243)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

**3.24 Gwasanaethau i blant sydd â phrofiad o ofal: trafod diwygio radical**

(Tudalennau 244 - 247)

Dogfennau atodol:

Nodyn briffio gan Kinship Cymru (Saesneg yn unig)

**3.25 Gwaith craffu blynyddol ar waith Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

(Tudalennau 248 - 249)

Dogfennau atodol:

Gwybodaeth ystadegol gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg

**3.26 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

(Tudalennau 250 - 251)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg

3.27 **Gwaith craffu cyffredinol ar waith y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

(Tudalennau 252 - 253)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

3.28 **Gwaith craffu cyffredinol ar waith Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

(Tudalennau 254 - 255)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan y Cadeirydd at Weinidog y Gymraeg ac Addysg

3.29 **Gwaith craffu cyffredinol ar waith Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

(Tudalennau 256 - 274)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg

3.30 **Craffu cyffredinol ar waith Gweinidog yr Economi**

(Tudalennau 275 - 276)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Weinidog yr Economi

3.31 **Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022**

(Tudalennau 277 - 281)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg

3.32 **Gwybodaeth gan randdeiliaid**

(Tudalen 282)

Dogfennau atodol:
Gwybodaeth gan Plant yng Nghymru, Achub y Plant Cymru, Barnardo's Cymru, Gweithredu dros Blant Cymru, NSPCC Cymru, Cymdeithas y Plant, TGP Cymru, Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru, Home-Start Cymru

3.33 **Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical**

(Tudalennau 283 - 284)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan NSPCC Cymru (Saesneg yn unig)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o'r cyfarfod cyfan ar 27 Medi

(11.30)

## 5 Gwasanaethau i blant sydd â phrofiad o ofal: trafod diwygio radical - ystyried y dystiolaeth.

(11.30 - 12.15)
Bydd cyfle i blant a phobl ifanc a wyliodd y cyfarfod o'r oriel gyhoeddus gwrdd â'r Aelodau i drafod y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiwn.

## 6 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 - trafod y dull o weithredu

(12.15 - 12.30) (Tudalennau 285 - 298)
Dogfennau atodol:
Dull ar gyfer craffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25

## 7 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? - Y newyddion diweddaraf am yr ymchwiliad

(12.30 - 12.40) (Tudalennau 299 - 307)
Dogfennau atodol:
Y newyddion diweddaraf am yr ymchwiliad

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog

Julie Morgan AS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

14 Gorffennaf 2023

**Gwahoddiad gan y Pwyllgor a chais am wybodaeth**

Annwyl Brif Weinidog a Dirprwy Weinidog,

Rydym yn falch bod y Dirprwy Weinidog wedi cytuno i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor yn ein cyfarfod nesaf ar 14 Medi, ac yn ddiolchgar iddi am ymateb yn gyflym i'n gwahoddiad. Bydd y sesiwn hon yn caniatáu inni ystyried ymhellach ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad, Os nad nawr, pryd?, a materion cysylltiedig. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu sylwadau gan y Prif Weinidog o gofio'i ymrwymiad personol i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Fodd bynnag, deallwn fod gan y Prif Weinidog ymrwymiadau blaenorol yng Ngogledd Cymru ar y dyddiad hwn ac nad yw, ar hyn o bryd, yn bwriadu bod yn bresennol yn sesiwn. Os bydd hyn yn newid, a fyddech cystal â rhoi gwybod inni cyn gynted â phosibl, ac erbyn 25 Awst fan bellaf.

Fel y clywsoch yn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn, rydym yn siomedig ag ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad. Yn anffodus, nid oedd digon o amser yn ystod y ddadl i drafod yn fanwl yr holl faterion yr hoffem eu hystyried ymhellach.

Byddem yn ddiolchgar felly pe gallech anfon papur ysgrifenedig cyn y sesiwn, ac erbyn 25 Awst fan bellaf, yn cynnwys:

- unrhyw wybodaeth ychwanegol a fyddai, ym marn Llywodraeth Cymru, yn helpu'r Pwyllgor i ddeall yr ymateb;
- ymatebion i'r cwestiynau yn atodiad 1.

Rydym yn ymwybodol y byddwch chi a'ch swyddogion yn gweithio i ymateb i'n cais dros doriad yr haf. Cofiwch gysylltu â chlercod y Pwyllgor os oes gennych unrhyw bryderon am ddarparu'r wybodaeth rydym yn gofyn amdani erbyn y dyddiad uchod.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Atodiad 1: Cwestiynau'n ymwneud ag ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sef 'Os nad nawr, pryd?'

**Materion cyffredinol**

1. Yn achos pob argymhelliad a dderbynnir yn rhannol, hoffem ddadansoddiad clir o ba ran ohono'n union sy'n cael ei derbyn a pha ran ohono syn cael ei gwrthod.

**Y Rhaglen Drawsnewid / Y Grŵp Cyflawni / Y Bwrdd Goruchwylio Gweinidogol**

2. Yn achos pob un o'r uchod, eglurwch:

- Y cylch gorchwyl
- Yr aelodaeth
- Y statws (ee a yw'n gwneud penderfyniadau neu'n cynghori, i bwy y mae'n atebol)
- Trosolwg cryno o'r cynllun gweithredu / rhaglen waith gan gynnwys dyddiadau a'r canlyniadau disgwyliedig
- Naratif o'r gydberthynas rhyngddynt

**Dyletswyddau deddfwriaethol**

3. Esboniad o safbwynt cyffredinol Llywodraeth Cymru ar y dyletswyddau deddfwriaethol ychwanegol a argymhellwyd gan y Pwyllgor, a pham nad yw'n gallu neu'n fodlon derbyn cynifer o argymhellion a fyddai'n gofyn am newid deddfwriaeth sylfaenol.

4. Esboniad o'r sail dystiolaeth sy'n caniatâu i Lywodraeth Cymru fod yn hyderus y gellir sicrhau diwygiadau radical heb gyflwyno mesurau diogelu cyfreithiol ychwanegol ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Yn benodol, sut y mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd mesurau anneddfwriaethol yn arwain at:

- ostyngiad yn nifer y swyddi gwag ar gyfer gweithwyr cymdeithasol gofal plant ac yng nghanran y staff asiantaeth a ddefnyddir. Beth yw'r targed ar gyfer cyfraddau'r swyddi gwag ar gyfer staff gofal cymdeithasol/staff asiantaeth a phryd y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i hyn gael ei gyflawni drwy'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Gofal Cymdeithasol Cymru a chyrff llywodraeth leol?

- sicrwydd y bydd gan bob plentyn sydd â phrofiad o fod mewn gofal yr hawl i gael asesiadau iechyd meddwl parhaus a'r hawl i gael cymorth iechyd meddwl therapiwtig arbenigol. Mae'r dyletswyddau cyfreithiol i asesu anghenion cymorth plant ar ôl mabwysiadu yn gynsail i'r argymhelliad i roi hawl deddfwriaethol iddynt gael asesiad o'u hanghenion. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru, yn ei hymateb, yn dweud bod gan blant mewn gofal 'hawliau cyfartal' ond byddai'n croesawu rhagor o fanylion er mwyn ymdrin â'n pryderon nad yw hawliau mynediad cyfartal, mewn gwirionedd, yn sicrhau cydraddoldeb o ran y gwasanaethau therapiwtig sydd eu hangen. Mae'n bosibl na fydd 'cryfhau'r cymorth' sydd ar gael a thrin plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn yr un modd â phlant yn gyffredinol yn adlewyrchiad priodol o ddulliau rhianta corfforaethol ymarferol.

**Argymhelliad 3, yn ymwneud ag ychwanegu'r 'profiad o fod mewn gofal' at y rhestr o nodweddion gwarchodedig.**

5. Eglurhad pellach o'r sail resymegol dros wrthod y dull hwn o lobïo i ychwanegu'r 'profiad o fod mewn gofal' at y rhestr o nodweddion gwarchodedig, sef argymhelliad a gynigiwyd gan blant a phobl ifanc yn uniongyrchol.

**Argymhelliad 6, yn ymwneud â data**

6. Mewn perthynas â'r data na chaiff ei gasglu a'i gyhoeddi fel mater o drefn yng Nghymru ar hyn o bryd (fel y nodir ar dudalennau 50 i 52 o'n hadroddiad ac adroddiad WCPP), hoffem ragor o wybodaeth am y sail resymegol dros haeriad Llywodraeth Cymru nad yw hyn yn angenrheidiol / yn bosibl / yn ddefnyddiol wrth lywio ymateb polisi yng Nghymru.

**Argymhelliad 18, yn ymwneud â lleoliadau anghofrestredig**

7. Rhagor o wybodaeth am waith y Bwrdd Rhaglen Dileu Elw ac am y canlynol yn benodol:

- Sut y bydd yn ymdrin â gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru?
- Y data meintiol y mae'n disgwyl ei gasglu.
- Sut y bydd plant a phobl ifanc sydd â phrofiad uniongyrchol o leoliadau anghofrestredig yn cael y cyfle i gyfrannu at ddealltwriaeth lawn o'r sefyllfa fel y nodir yn yr ymateb.
- A gaiff yr adolygiad llawn ei gyhoeddi?
- Unrhyw gamau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau'r defnydd o leoliadau heb eu cofrestru ar unwaith.

**Argymhelliad 19, yn ymwneud â lleoliadau heb eu rheoleiddio**

8. Roedd y Pwyllgor eisoes wedi gweld yr ystadegau sydd ar gael i'r cyhoedd ac a nodir yn ymateb Llywodraeth Cymru. A oes unrhyw wybodaeth arall y gellid ei rhoi i'r Pwyllgor yn ymwneud â defnyddio lleoliadau heb eu rheoleiddio (heb gymorth) ar gyfer pobl ifanc 16-21 oed sy'n gadael gofal?

**Argymhelliad 20, yn ymwneud â Gorchmynion Amddifadu o Ryddid**

9. Rhagor o fanylion ynghylch a oes neu a fydd strategaeth / cynllun gweithredu i leihau'r defnydd o'r Gorchmynion hyn yng Nghymru a barn Llywodraeth Cymru ynghylch pwy sy'n gyfrifol am hyn.

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

10 Awst 2023

Annwyl Jane,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 14 Gorffennaf 2023 ynglŷn ag ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor “Os nad nawr, pryd?”.

Roeddwn yn falch o dderbyn y gwahoddiad i'r sesiwn graffu gyda'r Pwyllgor. Rwy'n croesawu'r cyfle i gael trafodaeth adeiladol bellach ar ein hymateb i adroddiad y Pwyllgor.

Nodaf eich cais am bapur ysgrifenedig yn ymateb i'r cwestiynau a amlinellir yn yr atodiad i'ch llythyr. Rwy'n bwriadu rhoi ymateb i'r Pwyllgor i gwestiynau 1 a 2 yn yr atodiad erbyn 25 Awst, yn unol â’ch cais. Ni fydd modd darparu ymateb ysgrifenedig i weddill eich cwestiynau erbyn y dyddiad hwnnw. Fodd bynnag, byddaf yn ymateb yn fanwl i'r holl gwestiynau a godwyd, yn bersonol, yn y sesiwn ar 14 Medi.

Yn gywir

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant, AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru,
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

10 Awst 2023

Annwyl Gadeirydd,

Rwy’n ysgrifennu yn dilyn fy llythyr dyddiedig 14 Gorffennaf 2023 ynghylch cais y Pwyllgor am ragor o wybodaeth ysgrifenedig cyn y sesiwn graffu a drefnwyd ar 14 Medi.

Rwy'n falch o rannu gyda'r Pwyllgor ymateb i gwestiynau 1 a 2 yn atodiad eich llythyr gwreiddiol.  Edrychaf ymlaen at ateb gweddill cwestiynau'r Pwyllgor yn y sesiwn ar 14 Medi.

Yn gywir

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

| **Cwestiwn - Materion cyffredinol**<br>Yn achos pob argymhelliad a dderbynnir yn rhannol, hoffem ddadansoddiad clir o ba ran ohono'n union sy'n cael ei derbyn a pha ran ohono syn cael ei wrthod. |
|---|
| **Argymhelliad 4.**<br>Fel rhan o'r diwygiadau ymbarél i rianta corfforaethol (gweler diwygiad radical #3), dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sy'n gwneud darpariaeth benodol yn ymwneud â rhianta corfforaethol. Dylai'r ddeddfwriaeth:<br>• nodi pa gyrff sy'n cael eu hystyried yn 'rhieni corfforaethol', gan gynnwys o leiaf awdurdodau lleol, byrddau iechyd, ymddiriedolaethau'r GIG, Gweinidogion Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a chyrff eraill fel y gwêl Llywodraeth Cymru yn dda ar ôl ymgynghori;<br>• nodi'r dyletswyddau cyffredinol a osodir ar bob rhiant corfforaethol, gan gynnwys o leiaf ddyletswyddau i: baratoi a chyhoeddi cynlluniau sy'n ymwneud â'u gwaith fel rhieni corfforaethol; gweithio ar y cyd lle byddai gwneud hynny yn diogelu neu'n hyrwyddo lles y plentyn neu'r person ifanc; cyhoeddi adroddiadau ar sut y maent wedi arfer eu cyfrifoldebau rhianta corfforaethol; darparu gwybodaeth y gofynnir amdani yn rhesymol i Weinidogion Cymru; a dilyn canllawiau neu gyfarwyddiadau a gyhoeddir gan y Gweinidogion.<br>• cyd-fynd â dyletswyddau ac argymhellion rhianta corfforaethol penodol pellach yn erbyn yr adrannau perthnasol yn yr adroddiad hwn. Gweler: iechyd meddwl (tudalen 48), tai (tudalen 127) ac addysg uwch (tudalen 134). |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru:**<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn annog pob corff cyhoeddus a phreifat i gofrestru i fod yn rhieni corfforaethol drwy'r Siarter Rhianta Corfforaethol a gyhoeddwyd ar 29 Mehefin. Ni fydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn yr un modd â'r awdurdodau lleol, y byrddau iechyd lleol neu'r sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach y bydd yn eu hariannu a'u rheoleiddio. Felly, mae cwestiwn ynghylch a fyddai'n gorff addas i fod yn 'rhiant corfforaethol' ar sail statudol fel y disgrifir yn yr adroddiad. Fodd bynnag, bydd gan y Comisiwn ei gyfrifoldebau statudol ei hun ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal (gweler yr ymateb i argymhelliad 27 isod), ac rydym yn rhagweld y bydd yn un o lofnodwyr y Siarter Rhianta Corfforaethol.<br><br>I gefnogi'r Siarter, bydd Llywodraeth Cymru yn cryfhau canllawiau gan gynnwys pennod benodol ar rianta corfforaethol i gefnogi awdurdodau lleol yn eu rôl fel rhieni corfforaethol yn y Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n derbyn |

| gofal a phlant sy’n cael eu lletya) o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud ar draws y Llywodraeth i nodi'r canllawiau presennol y gellid eu cryfhau hefyd i gynorthwyo cyrff cyhoeddus yn ehangach i weithredu'r Siarter.. | |
|---|---|
| **Derbyniwyd**<br><br>Nodi pa gyrff sy’n cael eu hystyried yn ‘rhieni corfforaethol’, gan gynnwys o leiaf awdurdodau lleol, byrddau iechyd, ymddiriedolaethau’r GIG, Gweinidogion Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a chyrff eraill fel y gwêl Llywodraeth Cymru yn dda ar ôl ymgynghori.<br><br>Nodi’r dyletswyddau cyffredinol a osodir ar bob rhiant corfforaethol, gan gynnwys o leiaf ddyletswyddau i: baratoi a chyhoeddi cynlluniau sy’n ymwneud â’u gwaith fel rhieni corfforaethol; gweithio ar y cyd lle byddai gwneud hynny yn diogelu neu’n hyrwyddo lles y plentyn neu’r person ifanc; cyhoeddi adroddiadau ar sut y maent wedi arfer eu cyfrifoldebau rhianta corfforaethol; darparu gwybodaeth y gofynnir amdani yn rhesymol i Weinidogion Cymru; a dilyn canllawiau neu gyfarwyddiadau a gyhoeddir gan y Gweinidogion.<br><br>Cyd-fynd â dyletswyddau ac argymhellion rhianta corfforaethol penodol pellach yn erbyn yr adrannau perthnasol yn yr adroddiad hwn. Gweler: iechyd meddwl (tudalen 48), tai (tudalen 127) ac addysg uwch (tudalen 134). | **Gwrthodwyd**<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sy'n gwneud darpariaeth benodol sy'n ymwneud â rhianta corfforaethol.<br><br>Nodi’r dyletswyddau cyffredinol a osodir ar bob rhiant corfforaethol.<br><br>Mae'r rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer tymor y Senedd hon eisoes wedi'i datblygu'n dda, yn seiliedig ar Faniffesto Llywodraeth Cymru a'r Cytundeb Cydweithio.<br><br>Byddwn yn defnyddio dulliau sy’n bodoli’n barod i gefnogi'r Siarter gan gynnwys pennod benodol ar Rhianta Corfforaethol, i gynorthwyo awdurdodau lleol yn eu rôl fel rhieni corfforaethol, yn y Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. |

| | |
|---|---|
| | |

**Argymhelliad 5.**
Fel rhan o’r diwygiadau ymbarél i rianta corfforaethol (gweler diwygiad radical 3), dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sy’n rhoi i bob plentyn sydd â phrofiad o fod mewn gofal yr hawl i gael gwasanaeth cymorth iechyd meddwl therapiwtig arbenigol. Dylai fod ganddynt yr hawl statudol i gael eu hanghenion wedi’u hasesu yn gyfnodol ac i’r anghenion hynny gael eu diwallu. Dylai’r gwasanaeth hwnnw fod ar gael o’r pwynt lle maent yn cael eu tynnu oddi ar eu rhieni geni i o leiaf y pwynt lle maent yn peidio â chael eu diffinio fel ymadawyr gofal. Dylai fod ar wahân ac yn annibynnol ar y gwasanaethau iechyd meddwl presennol, a dylai arbenigo mewn cymorth iechyd meddwl sy’n ystyriol o drawma.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**
Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod effaith yr heriau a wynebir gan blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gan gynnwys y potensial i gael eu trawmateiddio ymhellach gan y systemau sydd yno i’w cefnogi os na ddarperir gwasanaethau’n effeithiol.

O safbwynt iechyd meddwl, mae gan bob plentyn yng Nghymru hawliau cyfartal i fynediad at wasanaethau cymorth iechyd meddwl therapiwtig arbenigol o dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl gyfredol. Mae Mesur Iechyd Meddwl (2010) wedi sefydlu hawliau cadarnhaol i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, p’un a ydynt wedi cael diagnosis ai peidio, gael cymorth yn ddigon cynnar er mwyn osgoi’r risg o’u hiechyd meddwl yn dirywio ymhellach.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall plant mewn gofal wynebu heriau ychwanegol a chymhleth mewn perthynas â’u hiechyd meddwl a’u lles ac mae angen gwneud mwy i ymyrryd yn gynnar ac atal, cyn belled ag y bo’n ymarferol, y nifer anghymesur o blant sy’n derbyn gofal sydd angen cymorth gan wasanaethau iechyd meddwl plant a’r glasoed (CAMHS) a chymorth iechyd meddwl arbenigol.

Rydym wedi datblygu’r fframwaith NYTH, sef adnodd i helpu darparwyr gwasanaethau i ddatblygu a darparu gwasanaethau sy’n eu galluogi i “ddal ymlaen” ar fabanod, plant a phobl ifanc gyda chymorth oedolion y gellir ymddiried ynddynt, sydd wedi’u hyfforddi’n briodol, sy’n ystyriol o drawma ac sydd â mynediad rhwydd at arbenigedd. Nod y fframwaith yw creu dull system gyfan lle mae gwasanaethau’n integreiddio ac yn gweithio gyda’i gilydd fel y gellir cydlynu adnoddau ac arbenigedd i nodi a darparu’r cymysgedd cywir o wasanaethau y mae eu hangen i ddiogelu iechyd a lles y plentyn hwnnw.

<table>
<tr><td colspan="2">Drwy flaengaredd lleol a chyda chefnogaeth y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol rydym eisoes yn gweld rhai enghreifftiau rhagorol o wasanaethau’n dod at ei gilydd i ddarparu cefnogaeth gyfannol fel hyn.<br><br>Mae gwaith bellach ar y gweill i ddatblygu manyleb gwasanaeth ar gyfer CAMHS a fydd yn nodi disgwyliadau’r llywodraeth ar gyfer CAMHS yng Nghymru, a sut mae’n gweithio gyda gwasanaethau eraill i sefydlu’r trefniadau angenrheidiol i ddarparu gofal integredig. Bydd y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Plant yn nodi ein disgwyliadau tebyg ar gyfer awdurdodau lleol o ran integreiddio. Fel rhan o hyn a chan dynnu ar yr arferion gorau yr ydym eisoes yn eu gweld ledled Cymru, ein huchelgais yw y gallwn nodi dull cyson gan ddefnyddio egwyddorion allweddol NYTH o ddarparu gofal amserol, integredig sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn i bob plentyn sy’n derbyn gofal yng Nghymru.<br><br>I grynhoi, mae gennym waith eisoes ar y gweill a fydd yn cryfhau cefnogaeth i blant a phobl ifanc, ond heb yr angen am ddeddfwriaeth newydd.</td></tr>
<tr><td>Derbyniwyd<br><br>Gall plant mewn gofal wynebu heriau ychwanegol a chymhleth i'w hiechyd meddwl a'u lles ac mae angen gwneud mwy i ymyrryd yn gynnar ac atal. Rydym yn pennu dull cyson gan ddefnyddio egwyddorion allweddol NYTH i ddarparu gofal amserol, integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i bob plentyn sy'n derbyn gofal yng Nghymru</td><td>Gwrthodwyd<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sy’n rhoi i bob plentyn yr hawl i gael gwasanaeth cymorth iechyd meddwl therapiwtig arbenigol.<br><br>Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn darparu mynediad digonol i bob plentyn at wasanaethau cymorth iechyd meddwl therapiwtig arbenigol.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Argymhelliad 7.<br>Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sy’n rhoi i bob rhiant geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal yr hawl statudol i gael cymorth cofleidiol dwys er mwyn lleihau’r risg y bydd plant yn cael eu tynnu o’u gofal. Dylai’r cymorth gynnwys eiriolaeth rhieni arbenigol i lywio’r systemau gofal cymdeithasol a llysoedd teulu, a dylid ei fodelu ar wasanaethau sy’n seiliedig ar dystiolaeth megis Project Unity NYAS. Dylai’r cymorth fod ar gael o’r sgan 12 wythnos o</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="2">feichiogrwydd (neu’r pwynt cynharaf ar ôl 12 wythnos lle mae beichiogrwydd hyfyw yn cael ei gadarnhau). Os caiff plentyn ei dynnu oddi ar ei rieni geni yn y pen draw, dylai’r cymorth barhau y tu hwnt i dynnu’r plentyn i gefnogi’r rhieni geni i ddod i delerau â’u colled.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ymateb Llywodraeth Cymru<br>Mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu ymyrraeth gynnar ac atal fel rhan o waith y Bwrdd Plant a’r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant yng Nghymru, a bydd yn parhau i wneud hynny. Rydym yn gwybod bod prosiectau fel Project Unity yn chwarae rhan werthfawr wrth ddarparu cymorth emosiynol ac ymarferol i famau sydd â phrofiad o fod mewn gofal, ac mae Llywodraeth Cymru wedi gallu darparu cyllid blynyddol o £340,000 ar gyfer y rhaglen tan 2025, sy’n adlewyrchu ein hymrwymiad i gefnogi mamau sydd â phrofiad o fod mewn gofal a chadw teuluoedd gyda’i gilydd lle bynnag y bo modd.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad mewn egwyddor a bydd yn ystyried ac yn archwilio’r gofynion fel rhan o gyflawni’r Rhaglen Trawsnewid.</td></tr>
<tr><td>Derbyniwyd<br><br>Yr angen am gymorth cofleidiol, dwys ar ffiniau gofal ar gyfer yr holl rieni sydd wedi bod mewn gofal er mwyn lleihau’r risg y bydd plant yn cael eu tynnu o’u gofal. Mae angen modelu'r cymorth hwn a'i ddatblygu ar sail arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn cydnabod bod nifer o fodelau cymorth ar waith y gellir adeiladu arferion arnynt.<br><br>Dylai'r cymorth fod ar gael o sgan 12 wythnos y beichiogrwydd (neu o’r pwynt cynharaf ar ôl 12 wythnos pan gadarnheir beichiogrwydd hyfyw). Os caiff plentyn ei dynnu oddi ar ei rieni geni yn y pen draw, dylai’r cymorth barhau y tu hwnt i dynnu’r plentyn i gefnogi’r rhieni geni i ddod i delerau â’u colled.</td><td>Gwrthodwyd<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sy’n rhoi i bob rhiant geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal yr hawl statudol i gael cymorth cofleidiol dwys er mwyn lleihau’r risg y bydd plant yn cael eu tynnu o’u gofal.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu ymyrraeth gynnar ac atal, a bydd yn parhau i wneud hynny, a bydd hefyd yn ystyried yr angen am ddeddfwriaeth fel rhan o’r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Drawsnewid ar gyfer Gwasanaethau Plant.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Argymhelliad 8.<br>Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau mynediad cyffredinol, cenedlaethol at wasanaethau ar ffiniau gofal/ymyrraeth gynnar/ataliol llwyddiannus, megis Babi a Fi Barnardo's, sydd wedi dangos eu bod yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd plant yn gallu aros gyda'u rhieni geni. Hyd nes y bydd awdurdodau lleol yn gallu adennill manteision cost hirdymor y gwasanaethau hyn, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu model ariannu cynaliadwy, hirdymor cenedlaethol ar eu cyfer, gan gydnabod eu potensial o ran budd ariannol ar draws gwahanol gyrff gwasanaethau cyhoeddus.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ymateb Llywodraeth Cymru<br>Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn ac yn cydnabod y gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud gan wasanaethau ar ffiniau gofal, megis Babi a Fi, Reflect a Jig-So Barnardo's a'r budd y mae'r rhaglenni hyn yn ei gynnig i rieni newydd, gan gynnwys pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.  Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r gwerthusiad o'r prosiectau hyn wrth benderfynu ar y camau nesaf a'r hyn a gaiff ei gyflwyno yn y dyfodol.</td></tr>
<tr><td>Derbyniwyd<br><br>Yr angen am wasanaethau ar ffiniau gofal/ymyrraeth gynnar/ataliol llwyddiannus. Rydym yn cydnabod bod modelau ar waith sydd wedi dangos eu bod yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd plant yn gallu aros gyda'u rhieni geni.</td><td>Gwrthodwyd<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau mynediad cyffredinol, cenedlaethol at wasanaethau ar ffiniau gofal/ymyrraeth gynnar/ataliol llwyddiannus, megis Babi a Fi Barnardo's, sydd wedi dangos eu bod yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd plant yn gallu aros gyda'u rhieni geni.<br><br>Hyd nes y gellir adennill manteision cost hirdymor y gwasanaethau hyn, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu model ariannu cynaliadwy, hirdymor cenedlaethol ar eu cyfer, gan gydnabod eu potensial o ran budd ariannol ar draws gwahanol gyrff gwasanaethau cyhoeddus.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r gwerthusiad o brosiectau presennol cyn penderfynu ar y camau nesaf a'r broses o'u cyflwyno yn dyfodol. |

**Argymhelliad 10.**
Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i roi hawl statudol i rieni geni gael 'cynnig gweithredol' o weithiwr cymorth annibynnol pan fydd y plentyn yn cael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant neu ei wneud yn destun rhag-achos i'w cefnogi i gael mynediad at wasanaethau ymyrraeth gynnar a llywio'r system gofal cymdeithasol a llysoedd teulu. Os caiff plentyn ei dynnu oddi ar ei rieni geni yn y pen draw, dylai'r cymorth barhau y tu hwnt i dynnu'r plentyn i gyfeirio'r rhieni geni at wasanaethau a all eu helpu i ddod i delerau â'u colled.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**
Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid blynyddol o £300,000 i'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol i ddarparu Rhaglen Eiriolaeth Rhieni yng Ngwent, drwy ein Cynllun Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Mae'r Rhaglen yn paru rhieni ag eiriolwyr sy'n eu cynorthwyo i ddeall y ddeddfwriaeth, y prosesau a'r systemau sydd ynghlwm wrth y broses gofal ac amddiffyn plant. Yn ogystal, mae eiriolwyr yn helpu rhieni i gyfathrebu â gweithiwr cymdeithasol eu plentyn. Bydd y Rhaglen yn cael ei chynnal tan 2025.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn nodi ein bod wedi ymrwymo i ehangu'r ddarpariaeth o wasanaethau eiriolaeth i gefnogi rhieni y mae eu plant ar gyrion gofal, gan helpu i osgoi'r angen am ymyrraeth gan wasanaethau cymdeithasol statudol, atal anghenion rhag gwaethygu a lleihau'r risg y bydd plant yn dod yn rhan o'r system ofal.

Rydym yn buddsoddi o leiaf £1.5 miliwn o gyllid dros y tair blynedd nesaf, drwy'r Gronfa Newid Plant Sydd â Phrofiad o Ofal. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i gynyddu prosiectau presennol yn ymwneud ag Eiriolaeth Rhieni yn rhanbarthol a sicrhau bod gwasanaethau newydd yn cael eu sefydlu ym mhob un o'r saith rhanbarth yng Nghymru fel rhan o ddarpariaeth genedlaethol.

Er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau'n gyson ar hyd a lled Cymru fel rhan o broses gyflwyno genedlaethol, rydym yn datblygu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Rhieni gyda phartneriaid yn y trydydd sector. Mae hyn yn disgrifio meini prawf craidd y gwasanaeth y mae'n rhaid i bob rhanbarth eu cael ar waith.

| | |
|---|---|
| Mae llenyddiaeth academaidd ac adroddiadau cynnar yn dangos bod eiriolaeth rhieni yn llwybr addawol i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal.  Byddwn yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r fenter yng Ngwent ac o'r broses gyflwyno genedlaethol i benderfynu a ddylid rhoi mynediad cyffredinol at eiriolaeth rhieni. | |
| **Derbyniwyd**<br><br>Darparu cymorth i rieni geni pan fydd y plentyn yn cael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant neu ei wneud yn destun rhag-achos i'w cefnogi i gael mynediad at wasanaethau ymyrraeth gynnar a llywio'r system gofal cymdeithasol a llysoedd teulu. | **Gwrthodwyd**<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i roi hawl statudol i rieni geni gael 'cynnig gweithredol' o weithiwr cymorth annibynnol.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn aros am y gwerthusiad o'r Rhaglen Eiriolaeth Rhieni yng Ngwent a'r broses o gyflwyno gwasanaethau eiriolaeth rhieni yn ehangach ledled Cymru cyn ystyried pa gamau pellach y dylid eu cymryd. |
| **Argymhelliad 11.**<br>Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd ac argaeledd lleoliadau asesu rhianta. Dylai'r adolygiad ystyried moeseg, defnydd a gwerth am arian lleoliadau preswyl a lleoliadau maethu rhiant a phlentyn, a nodi pa newidiadau y gellir eu gwneud i wella'r broses i deuluoedd, ac unrhyw rwystrau sydd angen eu goresgyn er mwyn cymryd y camau hynny. Dylai'r adolygiad annibynnol gyflwyno ei adroddiad erbyn mis Rhagfyr 2023 fan bellaf. | |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru**<br>Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weld plant a phobl ifanc yn byw'n ddiogel gyda'u teuluoedd, gyda llawer llai yn gorfod mynd i ofal o gwbl. I'r plant hynny sy'n mynd i ofal, rydym am i'w harhosiad fod mor fyr ag sy'n gydnaws â diwallu eu hanghenion, yn agos at eu cartref a chyda chysylltiadau cryf â'u cymuned leol. Er mwyn cyflawni hyn, ac er mwyn sicrhau rhwydwaith cynaliadwy o ddarpariaeth, rhaid i siâp, graddfa a strwythur y trefniadau presennol ar gyfer llety a chymorth i blant a phobl ifanc newid yn sylfaenol i sicrhau bod darpariaeth sefydlog, integredig ac atebol yn lleol yn cael ei datblygu.   Bydd hyn yn cynnwys modelau gofal, cymorth cofleidiol a modelau perchnogaeth. | |

Yn ystod tymor y Senedd hon, fel rhan o’r gwaith hwn, byddwn yn adolygu’r trefniadau ar gyfer lleoliadau asesu rhianta yng Nghymru, gan gynnwys effeithiolrwydd, argaeledd a modelau perchnogaeth.

| **Derbyniwyd** | **Gwrthodwyd** |
| --- | --- |
| Yr angen am adolygiad o effeithiolrwydd ac argaeledd lleoliadau asesu rhianta fel rhan o'r gwaith i drawsnewid ffurf, graddfa a strwythur llety a chymorth i blant a phobl ifanc. | Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd ac argaeledd lleoliadau asesu rhianta.<br><br>Bydd hyn yn cael ei ddatblygu fel rhan o'n gwaith ehangach i drawsnewid gwasanaethau plant yng Nghymru. |

**Argymhelliad 14.**
Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ariannu a darparu (gan gynnwys deddfu yn ôl yr angen) cofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth, i’w chynnal gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Dylai’r gofrestr nodi manylion am statws cymeradwyo gofalwyr maeth, dyddiad adolygu’r gymeradwyaeth, lleoliad yr awdurdod lleol, nifer y lleoliadau ac a ydynt yn awdurdod lleol neu’n ddarparwr annibynnol. Dylid datblygu’r gofrestr honno law yn llaw â rhanddeiliaid allweddol, megis y Rhwydwaith Maethu, a dylai gynnwys ymgynghoriad trylwyr â gofalwyr maeth a darparwyr gwasanaethau maethu ledled Cymru.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**
Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y manteision posibl sy'n gysylltiedig â chofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth ac felly mae'n rhywbeth y mae’n awyddus i'w archwilio gyda'r sector.

Byddai cofrestr genedlaethol yn codi statws gofalwyr maeth yn y tîm o amgylch y plentyn, gan ganiatáu i'r rôl gael ei chydnabod a'i gwerthfawrogi yn y sector a chan y cyhoedd. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gofalwyr maeth yn rhan bwysig o'r tîm gofal cymdeithasol sy'n cefnogi'r plentyn neu'r person ifanc. Bydd hefyd yn mynd i'r afael â'r anhawster y mae gofalwyr maeth yn ei brofi wrth symud o un gwasanaeth i'r llall, drwy gynnig dull llai biwrocrataidd o drosglwyddo, gan leihau dyblygu ac oedi, a bydd yn cynnig mecanwaith diogelu cadarn a fydd yn amlinellu addasrwydd parhaus gofalwr maeth i faethu.

| | |
|---|---|
| Fodd bynnag, mae cyflwyno cofrestr o'r fath yn gymhleth a bydd angen ei chynnal mewn modd amserol a rheoledig ochr yn ochr â sicrhau y gellir rhoi adnoddau priodol ar ei chyfer. Mae trafodaethau cychwynnol â'r Rhwydwaith Maethu wedi cael eu cynnal a'r cam nesaf yw cynnal ymarfer cwmpasu i sefydlu ar ba ffurf y gallai cofrestr genedlaethol yng Nghymru fod, unrhyw ofynion deddfwriaethol ac ymarferoldeb ei gweithredu. Gwneir hyn mewn ymgynghoriad â'n partneriaid statudol a'n trydydd sector, gofalwyr maeth a defnyddwyr gwasanaethau. | |
| **Derbyniwyd**<br><br>Yr angen i weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ystyried ar ba ffurf y gellid sefydlu Cofrestr Faethu Genedlaethol yng Nghymru.<br><br>Dylid datblygu unrhyw gofrestr ochr yn ochr â rhanddeiliaid allweddol, megis y Rhwydwaith Maethu, a dylai gynnwys ymgynghori trylwyr â gofalwyr maeth a darparwyr gwasanaethau maethu ledled Cymru. | **Gwrthodwyd**<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ariannu a darparu (gan gynnwys deddfu yn ôl yr angen) cofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth, i'w chynnal gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Dylai'r gofrestr nodi manylion am statws cymeradwyo gofalwyr maeth, dyddiad adolygu'r gymeradwyaeth, lleoliad yr awdurdod lleol, nifer y lleoliadau ac a ydynt yn awdurdod lleol neu'n ddarparwr annibynnol.<br><br>Mae angen cynnal gwaith i ystyried ar ba ffurf y gellid sefydlu Cofrestr Faethu Genedlaethol ac i ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ynghylch dichonoldeb Cofrestr a'r costau fyddai'n gysylltiedig â hi cyn y gellir ystyried newidiadau deddfwriaethol. |
| **Argymhelliad 15.**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod adolygiad o gronfa ddata ar-lein '4 C' yn cael ei gynnal, sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol ac ymarferwyr rheng flaen, i nodi a gweithredu gwelliannau i'r gronfa ddata er mwyn symleiddio'r broses o gomisiynu lleoliadau. | |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru**<br>Datblygwyd yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant (CCSR) i ddechrau gan Lywodraeth Cymru gyda Data Cymru yn 2005 fel llyfrgell cronfa ddata ar gyfer chwilio am ddarparwyr. Yn 2012, dewisodd Consortiwm Comisiynu | |

Cymru ar gyfer Plant (4Cs) lwyfan CCSR gan ei fod yn llwyfan Cymreig parod gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – a ddatblygwyd ganddi, sy'n eiddo iddi ac yn ei cael ei rheoli ganddi – y gellid ei ddatblygu i ddiwallu anghenion comisiynu, contractio a chaffael.  Datblygodd borth e-dendro i ddarparu'r Fframwaith Cymru Gyfan (gofal preswyl a maeth) ac i ddarparu'r gallu i ganfod a chydweddu lleoliadau.

Mae'r rhan hon o system CCSR yn haen o fynediad cyfyngedig i ddarparwyr Awdurdodau Lleol a Fframwaith yn unig, wedi'u gwerthuso a'u sicrhau o ran ansawdd gan y Consortiwm, y mae'n ofynnol iddo, o dan Fframwaith Cymru Gyfan, ddiweddaru gwybodaeth am ofalwyr maeth, lleoliadau gofal a lleoedd gwag. Mae hyn yn effeithiol ac yn cael ei adolygu fel rhan o'r drefn ddyddiol o reoli'r contract.

Mae CCSR yn darparu manylion pob gofalwr maeth sy'n ddarparwr ar y Fframwaith Cymru Gyfan ynghyd â lleoedd gwag, a manylion cyfatebol holl leoliadau a lleoedd gwag gofal preswyl y Fframwaith. Caiff hyn ei fonitro gan y Consortiwm / Data Cymru ac mae'n gyfredol. Mae hefyd yn cynnwys adroddiadau arolygu darparwyr y Fframwaith gan Arolygiaeth Gofal Cymru a datganiad o ddibenion darparwyr. Mae gan CCSR y gallu i bob awdurdod lleol ychwanegu ei holl ddarpariaeth gofalwyr maeth a lleoliadau preswyl yn gyfrinachol ac yn ddiogel i'r system.

Mae CCSR hefyd yn darparu manylion gofalwyr maeth gan nifer bach o asiantaethau eraill nad ydynt ar y Fframweithiau ond sy'n dal i weld budd tanysgrifio i'r gwasanaeth (darparwyr nad ydynt ar fframwaith) ond mae'r ffi danysgrifio flynyddol y mae'n rhaid iddynt ei thalu am y gwasanaeth yn rhwystr i rai darparwyr llai rhag defnyddio'r system.

Gan fod cyfyngiadau ar fynediad, ni fyddai llawer o ddarparwyr a allai fod wedi cyfrannu at drafodaethau'r pwyllgor yn gallu gweld yr elfen hon o'r gronfa ddata ac felly mae'n bosibl na fyddant yn gwbl glir am ei swyddogaethau na natur fyw ei ddefnydd bob dydd. Fodd bynnag, byddai ganddynt fynediad i'r llyfrgell adnoddau lefel uchel sy'n uwch na modiwl tendro'r Consortiwm ac sy'n weladwy i ystod ehangach o randdeiliaid. Mae'r llyfrgell yn rhan o raglen ailddatblygu i'r dyfodol a fydd yn cael ei llywio ar sail barn rhanddeiliaid.

Er mwyn cefnogi gweithredu pellach, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried hefyd a fyddai hi'n ymarferol gorfodi pob asiantaeth faethu i gofrestru ar CCSR fel rhan o'u cofrestriad o dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol.  Byddai angen i'r gwaith hwn gyd-fynd â'n hystyriaeth ynghylch cyflwyno cofrestr faethu genedlaethol yng Nghymru.

| Derbyniwyd | Gwrthodwyd |
|---|---|
| Adolygu’r gronfa ddata 4C i ystyried a fyddai hi’n ymarferol gorfodi **pob** asiantaeth faethu i gofrestru ar CCSR fel rhan o'u cofrestriad o dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol.<br><br>Trefnu bod y gwaith hwn yn cyd-fynd â'n hystyriaeth ynghylch cyflwyno cofrestr faethu genedlaethol yng Nghymru. | Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod adolygiad o gronfa ddata ar-lein ‘4 C’ yn cael ei gynnal, sy’n cynnwys rhanddeiliaid allweddol ac ymarferwyr rheng flaen, i nodi a gweithredu gwelliannau i’r gronfa ddata er mwyn symleiddio’r broses o gomisiynu lleoliadau.<br><br>Mae'r gronfa ddata 4C yn system â mynediad cyfyngedig iddi ar gyfer darparwyr Awdurdodau Lleol a Fframwaith **yn unig**, a’r 4C sy’n ei gwerthuso ac yn sicrhau ei hansawdd. Mae’n ofynnol iddynt, o dan Fframwaith Cymru Gyfan, i gadw eu gwybodaeth am ofalwyr maeth, lleoliadau gofal a swyddi gwag yn gyfredol. Mae hyn yn digwydd ac yn cael ei adolygu fel rhan o’r gwaith o reoli contractau o ddydd i ddydd. |

**Argymhelliad 17.**
Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gofalwyr sy’n berthnasau, sefydliadau’r trydydd sector, llywodraeth leol ac eraill i ddeall yn well i ba raddau mae gofal gan berthnasau yn cael ei ddefnyddio fwyfwy fel dewis amgen i leoli plant mewn gofal maeth neu breswyl, profiadau plant mewn gofal gan berthynas ac anghenion cymorth gofalwyr sy’n berthnasau. Fel rhan o’r gwaith hwnnw, dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i’r potensial o ddiwygio drwy reoliadau y meini prawf y mae’n ofynnol i ofalwyr sy’n berthnasau eu bodloni er mwyn bod â’r hawl i gael yr un cymorth ariannol â gofalwyr maeth.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys nifer o ymrwymiadau allweddol ynghylch gweledigaeth newydd ar gyfer sut y caiff gwasanaethau plant yng Nghymru eu darparu. Yn ystod tymor y Senedd hon, byddwn yn gweithio i wneud diwygiadau radical i wasanaethau plant yng Nghymru er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i blant sydd mewn gofal. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Arbenigol Gwarcheidiaeth Arbennig a fydd yn edrych ar ddatblygu dull gwell a chyson sy'n seiliedig ar anghenion i gefnogi

teuluoedd Gwarcheidiaeth Arbennig ledled Cymru. Mae gan y grŵp hwn gynrychiolaeth o'r sector statudol a'r trydydd sector ochr yn ochr â defnyddwyr gwasanaethau, ac fel rhan o'i waith bydd yn edrych ar ffyrdd o gasglu barn plant a phobl ifanc. Y bwriad yw ehangu cwmpas y grŵp hwn maes o law i edrych ar y defnydd o ofalwyr maeth sy'n berthnasau yng Nghymru a'r cymorth sydd ar gael iddynt.

Yn ogystal, mae Maethu Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gofalwyr maeth sy'n berthnasau yn derbyn yr un cymorth â gofalwyr maeth prif ffrwd ac wedi lansio'i ymrwymiad cenedlaethol sy'n becyn cytunedig o hyfforddiant, cymorth a chydnabyddiaeth sydd ar gael yn gyson i bob gofalwr maeth (prif ffrwd a pherthnasau) yng Nghymru drwy bob un o'r 22 o asiantaethau maethu awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae Maethu Cymru wedi ymrwymo hefyd i sicrhau bod gofalwyr maeth sy'n berthnasau yn cael yr un cymorth ariannol â gofalwyr maeth prif ffrwd. Un o nodau ein gwaith presennol ar ffioedd a lwfansau yw sicrhau cysondeb, ochr yn ochr ag elfennau eraill o'r cymorth ariannol i bob gofalwr maeth cymeradwy. Ar hyn o bryd mae'r holl ofalwyr maeth cymeradwy ledled Cymru (gan gynnwys gofalwyr maeth prif ffrwd a pherthnasau) yn cael eu talu o leiaf y lwfans gofynnol cenedlaethol i ddiwallu anghenion y plant yn eu gofal. Yn ogystal, mae pob awdurdod lleol yn talu lwfans / ffi uwch i ofalwyr maeth prif ffrwd.

Trwy Maethu Cymru a chysoni gwaith ffioedd a lwfansau, rydym yn ceisio sicrhau bod lwfans / ffi uwch ar gael i'r holl ofalwyr maeth cymeradwy (gan gynnwys gofalwyr maeth prif ffrwd a pherthnasau) ar yr amod eu bod yn cael eu hasesu i fodloni'r meini prawf cymhwysedd fel y nodir yn y polisi cymhwysedd ar gyfer lwfans uwch.

Mae'r fframwaith cyfreithiol presennol, o dan Reoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018, yn ei gwneud yn ofynnol i ofalwyr maeth sy'n berthnasau gyrraedd yr un safon o addasrwydd i faethu â gofalwyr prif ffrwd. Yr unig wahaniaeth i ofalwyr maeth sy'n berthnasau yw eu bod yn cael eu cymeradwyo i fod yn ofalwr maeth i blentyn penodol o dan y rheoliadau hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod llawer o ymarferwyr, paneli a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wedi cael trafferth oherwydd nad yw'r fframwaith rheoleiddio presennol ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthnasau yn addas i'w ddiben.

Er mwyn cynorthwyo'r sector maethu, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal ymarfer cwmpasu i ystyried newidiadau deddfwriaethol y gellid eu cyflwyno i alluogi ffordd amgen a mwy 'addas i'r diben' yn y dyfodol ar gyfer asesu gofalwyr sy'n berthnasau.

| **Derbyniwyd**<br><br>Archwilio newidiadau deddfwriaethol i gefnogi gofalwyr sy'n berthnasau drwy alluogi ffordd amgen a mwy 'addas i'r diben' ar gyfer asesu gofalwyr sy'n berthnasau. | **Gwrthodwyd**<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gofalwyr sy'n berthnasau, sefydliadau'r trydydd sector, llywodraeth leol ac eraill i ddeall yn well i ba raddau mae gofal gan berthnasau yn cael ei ddefnyddio fwyfwy fel dewis amgen i leoli plant mewn gofal maeth neu breswyl, profiadau plant mewn gofal gan berthynas ac anghenion cymorth gofalwyr sy'n berthnasau.<br><br>Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn ein gwaith ehangach i wneud diwygiadau radical i wasanaethau cymdeithasol plant a'r gwaith a wneir gyda'r Grŵp Arbenigol ar Orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig. |
|---|---|
| **Argymhelliad 18.**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol gyhoeddi ar y cyd, heb fod yn hwyrach na mis Rhagfyr 2023, gynllun gweithredu sy'n nodi sut y byddant yn atal y defnydd o lety anghofrestredig anghyfreithlon yng Nghymru. Rhaid i'r cynllun gweithredu gynnwys dadansoddiad o'r troeon y mae wedi'i ddefnyddio yn ystod y 24 mis diwethaf, gydag amserlenni clir a dyraniadau cyllid i ddatblygu dewisiadau amgen diogel. | |
| Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i leihau niferoedd cyffredinol y plant sy'n derbyn gofal, ond mae'n cydnabod yr heriau sy'n wynebu rhai awdurdodau lleol o ran dod o hyd i leoliadau addas neu eu datblygu i ddiwallu anghenion y plant a'r bobl ifanc yn eu gofal.<br><br>Nid yw hyn yn ymwneud â chynyddu capasiti yn unig. Mae'n ymwneud hefyd â hyrwyddo modelau gofal sy'n ystyriol o drawma a sicrhau bod trefniadau comisiynu ar y cyd priodol ar waith rhwng iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, fel bod anghenion plant yn cael eu diwallu, ac nad ydynt yn syrthio i'r bwlch rhwng gwahanol fathau o ddarpariaeth.   Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod hyn yn parhau. | |

<table>
<tr><td colspan="2">O dan ein Bwrdd Rhaglen Dileu Elw, rydym wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen awdurdodau lleol i ystyried mater gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru. Mae hyn er mwyn sicrhau bod dewis lleoliad a sefydlogrwydd mewn darpariaeth gofrestredig yn diwallu anghenion ein plant a'n pobl ifanc ac yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar eu cyfer<br><br>Mae'r grŵp yn cynnal adolygiad o wasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru er mwyn cael dealltwriaeth lawn, sy’n seiliedig ar dystiolaeth, o'r materion, yr heriau, y dulliau effeithiol a'r atebion posibl yn ogystal â'r effeithiau cysylltiedig ar blant.  Mae disgwyl i'r adolygiad gael ei gomisiynu’n fuan a bydd yn adrodd yn ddiweddarach eleni.</td></tr>
<tr><td>Derbyniwyd<br><br>Datblygu cynllun i ddeall y defnydd o leoliadau anghofrestredig a lleihau'r nifer a leolir ynddynt, fel rhan o'r gwaith i gyflawni ein hymrwymiad i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal ac i gyflawni diwygiadau radical.</td><td>Gwrthodwyd<br><br>Cyhoeddi cynllun gweithredu erbyn mis Rhagfyr 2023.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau y gellir ymdrin â'r heriau sy'n gysylltiedig â dod o hyd i leoliadau addas neu eu datblygu.  Bydd yn ystyried canfyddiadau'r adolygiad sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd cyn penderfynu ar y camau nesaf.<br><br>Cefnogir y gwaith hwn gan fuddsoddiad o £68m dros y tair blynedd 2022/23-2024/25.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Argymhelliad 19.<br>Dylai Llywodraeth Cymru gynnal a chyhoeddi dadansoddiad o’r defnydd o lety heb ei reoleiddio ar draws Cymru ar gyfer plant mewn gofal a’r rhai sy’n gadael gofal hyd at 21 oed. Dylai’r dadansoddiad nodi nifer y plant a phobl ifanc mewn llety heb ei reoleiddio, a dosbarthu hynny rhwng llety y mae o’r farn sy’n darparu llety a chymorth o ansawdd (megis llety â chymorth y mae’n ofynnol iddo fodloni safonau tai), a llety nad yw’n gwneud hynny (megis llety gwely a brecwast, Airbnb, hosteli ac ati). Dylai’r dadansoddiad rannu’r data hwnnw ymhellach yn ôl oedran a statws cyfreithiol y plant a’r bobl ifanc i ddangos yn glir faint sy’n destun gorchmynion gofal a faint sy’n gadael gofal. Ar ôl ei gwblhau, dylai Llywodraeth Cymru nodi ei safbwynt polisi mewn perthynas â llety heb ei reoleiddio, gan gynnwys y camau y</td></tr>
</table>

mae’n bwriadu eu cymryd law yn llaw ag awdurdodau lleol i leihau’r defnydd o lety heb ei reoleiddio amhriodol yng Nghymru.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu data ar nifer y plant 16 oed a hŷn sy'n gadael gofal yn ôl oedran a llety ar ddyddiad peidio â derbyn gofal. Mae ein data ystadegol cyhoeddedig ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022 yn dangos, o blith y 700 o bobl ifanc 16 oed a hŷn a adawodd ofal rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, fod 670 (96%) ohonynt mewn llety addas ar y dyddiad pan ddaeth eu gofal i ben. Ystyrir bod llety’n addas os yw'n cynnig darpariaeth saff, diogel a fforddiadwy i bobl ifanc. Mae cyfran y bobl ifanc sydd mewn llety addas wedi cynyddu o 92% yn 2016-17 pan ddechreuodd data gael eu casglu.

Roedd 28% o bobl ifanc mewn llety addas gyda rhieni neu berthnasau ac roedd 26% mewn llety cyffredin heb gymorth ffurfiol. Yn gyffredinol, mae cyfran y bobl ifanc sydd mewn llety cyffredin heb gymorth ffurfiol wedi cynyddu ers 2018-19, yn ogystal â'r gyfran mewn llety pontio lled-annibynnol (tua 18%). Yn gyffredinol, mae cyfran y bobl ifanc sydd gyda rhieni neu berthnasau, sy’n byw'n annibynnol ac mewn llety â chymorth addas, wedi gostwng dros y cyfnod hwn.

Ystyrir bod llety gwely a brecwast yn anaddas hefyd, ac ystyrir bod mathau eraill o lety yn anaddas os ydynt yn amlwg yn golygu bod y person ifanc yn agored i risg o niwed neu allgáu cymdeithasol. Mae nifer a chyfran y gadawyr gofal sydd mewn llety anaddas wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gostyngodd nifer y gadawyr gofal sydd mewn llety anaddas 5 (14%) o 35 i 30 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sy'n cyfateb i 4% o adawyr gofal mewn llety anaddas ar adeg gadael gofal yn ystod 2021-22. Dyma'r gyfran isaf ers i ddata ddechrau cael eu casglu yn 2016-17.

Er ei bod yn anodd gweld o dan ba amgylchiadau y byddai plentyn dan 16 oed yn cael ei roi mewn gwasanaeth heb ei reoleiddio gan y byddai angen gofal arno a fyddai'n golygu y byddai angen cofrestru'r gwasanaeth, rydym yn awyddus i ddysgu o brofiad Lloegr o wahardd rhoi pobl dan 16 oed mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio a byddwn yn parhau i adolygu hyn.

| **Derbyniwyd** | **Gwrthodwyd** |
| --- | --- |
| Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei safbwynt polisi mewn perthynas â llety heb ei reoleiddio, gan gynnwys y camau y mae’n bwriadu eu cymryd law yn llaw ag awdurdodau lleol i | Dylai Llywodraeth Cymru gynnal a chyhoeddi dadansoddiad o’r defnydd o lety heb ei reoleiddio ar |

| | |
|---|---|
| leihau’r defnydd o lety heb ei reoleiddio amhriodol yng Nghymru. | draws Cymru ar gyfer plant mewn gofal a’r rhai sy’n gadael gofal hyd at 21 oed.<br><br>Mae'r wybodaeth hon eisoes yn cael ei chasglu a'i chyhoeddi mewn o ran pobl sy'n gadael gofal. |
| **Argymhelliad 20.**<br>Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar unwaith i ddadansoddi’r defnydd o Orchmynion Amddifadu o Ryddid ledled Cymru am y 24 mis diwethaf, yn ôl awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb dros y plentyn, oedran y plentyn a hyd y gorchymyn, a dylid ei gyhoeddi erbyn mis Rhagfyr 2023 fan bellaf. Dylai Llywodraeth Cymru a’r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol gyhoeddi ar y cyd, erbyn mis Rhagfyr 2023 fan bellaf, gynllun gweithredu sy’n nodi sut y byddant yn lleihau’r defnydd o Orchmynion Amddifadu o Ryddid yng Nghymru. Rhaid i’r cynllun gweithredu gynnwys amserlenni a dyraniadau cyllid clir. | |
| **Ymateb Llywodraeth Cymru**<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad o'r defnydd o Orchmynion Amddifadu o Ryddid ledled Cymru am y 24 mis diwethaf, wedi'u dadansoddi yn ôl yr awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb dros y plentyn, oedran y plentyn a hyd y gorchymyn.<br><br>Bydd canlyniadau'r dadansoddiad hwn yn bwydo i Raglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant Llywodraeth Cymru. | |
| **Derbyniwyd**<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar unwaith i ddadansoddi’r defnydd o Orchmynion Amddifadu o Ryddid ledled Cymru am y 24 mis diwethaf, yn ôl awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb dros y plentyn, oedran y plentyn a hyd y gorchymyn. | **Gwrthodwyd**<br><br>Dylid cyhoeddi'r dadansoddiad heb fod yn hwyrach na mis Rhagfyr 2023.<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru a’r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol gyhoeddi ar y cyd, erbyn mis Rhagfyr 2023 fan bellaf, gynllun gweithredu sy’n nodi sut y byddant yn lleihau’r defnydd o Orchmynion Amddifadu o Ryddid yng Nghymru. Rhaid i’r cynllun gweithredu gynnwys amserlenni a dyraniadau cyllid clir. |

<table>
<tr><td></td><td>Bydd canlyniadau'r dadansoddiad cyfrannu at Raglen Drawsnewid ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Plant</td></tr>
<tr><td colspan="2">Argymhelliad 22.<br>Mae’r Pwyllgor yn argymell:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i godi’r trothwy uchaf ar gyfer yr holl gymorth a gynigir i bobl sy’n gadael gofal hyd nes eu bod yn 21 oed (fel y nodir yn adrannau 103 i 118 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, rheoliadau cysylltiedig, canllawiau a chodau ymarfer, gan gynnwys y cynllun Pan Fydda i’n Barod) i 25 oed ar gyfer pobl sy’n gadael gofal categori 3, categori 5 a chategori 6.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ymateb Llywodraeth Cymru<br>Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddeddfu yn nhymor y Senedd hon i sicrhau bod gan bob person sy'n gadael gofal hawl i Gynghorydd Personol hyd at 25 oed. Gellir gwneud y newidiadau hyn drwy Reoliadau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol am hyn, a’r disgwyliadau o ran y cyllid a ddarperir.</td></tr>
<tr><td>Derbyniwyd<br><br>Cyflwyno deddfwriaeth i godi'r trothwy uchaf er mwyn sicrhau bod gan bob person ifanc sy'n gadael gofal yr hawl i gael Cynghorydd Personol nes y bydd yn 25 oed.</td><td>Gwrthodwyd<br><br>Cyflwyno deddfwriaeth i godi'r trothwy uchaf ar gyfer yr holl gymorth a gynigir i bobl sy'n gadael gofal o 21 i 25 oed (fel y nodir yn adran 103 i 118 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, rheoliadau cysylltiedig, canllawiau a chodau ymarfer. Gan gynnwys y cynllun Pan Fydda i'n Barod) ar gyfer pobl sy'n gadael gofal categori 3, categori 5 a chategori 6.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Argymhelliad 23.<br>Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio adran 108 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a rheoliadau, canllawiau a’r cod ymarfer sy’n ymwneud â chynllun Pan Fydda i’n Barod i:</td></tr>
</table>

- ymestyn y terfyn oedran ar gyfer pob person ifanc sy'n dymuno cymryd rhan yn y cynllun i 25 oed; a
- dileu rhwystrau i'r cynllun, gan gynnwys y potensial i ddileu cymeradwyaeth gofalwyr maeth; y gostyngiad mewn taliadau i ofalwyr maeth; ac
- ystyried sut y gallai pobl ifanc ymuno â'r cynllun a derbyn yr holl gymorth sydd ar gael iddynt heb orfod ymrwymo i gytundebau tenantiaeth gyda'u gofalwyr maeth.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall y newid i fod yn oedolyn fod yn anoddach i'r rhai sy'n gadael gofal nag i lawer o'u cyfoedion o oedran tebyg. Felly mae'n bwysig bod y bobl ifanc hyn yn cael dilyniant pan fyddant yn dod yn oedolion. Bydd hyn yn helpu i sicrhau nad oes tarfu sydyn ar eu trefniadau byw, a allai gael effaith negyddol ar eu sefydlogrwydd emosiynol, eu haddysg, eu hyfforddiant neu eu cyflogaeth, neu ar eu gallu i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol.

Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi'r cynllun Pan Fydda i'n Barod a sicrhau bod pob person ifanc sydd mewn gofal maeth yn cael cynnig cyfle i barhau i fyw gyda'u gofalwyr maeth y tu hwnt i'w pen-blwydd yn 18 oed, hyd at 21 oed, neu hyd at 25 oed os ydynt yn cwblhau rhaglen addysg neu hyfforddiant y cytunwyd arni.

Rydym yn ymwybodol bod rhai heriau ynghlwm wrth y cynllun, ac yn ystod y Senedd hon byddwn yn cynnal adolygiad llawn o'r cynllun Pan Fydda i'n Barod gan fanteisio ar yr wybodaeth a gasglwyd am yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio, a chydweithio â'n rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau ledled Cymru ar y newidiadau gofynnol. Fel rhan o'r adolygiad hwn, byddwn yn ystyried a oes angen diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol a'r canllawiau presennol i gyflwyno newidiadau a fydd o fudd pellach i'n pobl ifanc a'r gofalwyr sy'n eu cefnogi, ochr yn ochr â darparu sylfaen gadarnach ar gyfer y cynllun Pan Fydda i'n Barod yng Nghymru. Ar yr un pryd, byddwn yn edrych ar ffyrdd o fonitro'r camau gweithredu er mwyn sicrhau dull mwy cyson ledled Cymru.

| **Derbyniwyd** | **Gwrthodwyd** |
|---|---|
| Cynnal adolygiad llawn o'r cynllun Pan Fydda i'n Barod, gan ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd am yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio, a chydweithio â'n rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau ledled Cymru mewn perthynas â'r newidiadau gofynnol. | Yn ystod tymor y Senedd hon, diwygio adran 108 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a rheoliadau, canllawiau a'r cod ymarfer sy'n ymwneud â chynllun Pan Fydda i'n Barod i: |

<table>
<tr>
<td>Ystyried a oes angen diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol a'r canllawiau presennol i gyflwyno newidiadau a fydd o fudd pellach i'n pobl ifanc a'r gofalwyr sy'n eu cefnogi, ochr yn ochr â darparu sylfaen gadarnach ar gyfer y cynllun Pan Fydda i’n Barod yng Nghymru.<br><br>Edrych ar ffyrdd o fonitro gweithrediad y cynllun er mwyn sicrhau dull mwy cyson ar draws Cymru.</td>
<td>• ymestyn y terfyn oedran ar gyfer pob person ifanc sy’n dymuno cymryd rhan yn y cynllun i 25 oed; a<br>• dileu rhwystrau i’r cynllun, gan gynnwys y potensial i ddileu cymeradwyaeth gofalwyr maeth; y gostyngiad mewn taliadau i ofalwyr maeth; ac<br>• ystyried sut y gallai pobl ifanc ymuno â’r cynllun a derbyn yr holl gymorth sydd ar gael iddynt heb orfod ymrwymo i gytundebau tenantiaeth gyda’u gofalwyr maeth.<br><br>Bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal yn ystod tymor y Senedd hon gyda'r bwriad o wneud unrhyw newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol yn ystod rhaglen ddeddfwriaethol nesaf y Senedd.</td>
</tr>
<tr>
<td colspan="2">Argymhelliad 24.<br>Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad a chynnwys pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal a rhanddeiliaid allweddol eraill i ganfod sut y gellir ymestyn Pan Fydda i’n Barod i bobl ifanc mewn gofal preswyl, y rhwystrau ynghlwm wrth hynny a pha gamau y gellir eu cymryd i oresgyn y rhwystrau hynny. Dylai’r adolygiad adrodd erbyn mis Rhagfyr 2023 fan bellaf.</td>
</tr>
<tr>
<td colspan="2">Ymateb Llywodraeth Cymru:<br>Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal adolygiad llawn o'r cynllun Pan Fydda i’n Barod yn ystod tymor y Senedd hon, gan ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd am yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio, a chydweithio â'n rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau ledled Cymru mewn perthynas â'r newidiadau gofynnol. Fel rhan o'r adolygiad hwn, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddichonoldeb ymestyn y cynllun Pan Fydda i’n Barod i bobl ifanc mewn gofal preswyl.<br><br>Bydd y gwaith yn cael ei wneud yn ystod tymor y Senedd hon gyda'r bwriad o wneud unrhyw newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol yn ystod rhaglen ddeddfwriaethol nesaf y Senedd.</td>
</tr>
<tr>
<td>Derbyniwyd</td>
<td>Gwrthodwyd</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| Cynnal adolygiad llawn o'r cynllun Pan Fydda i'n Barod yn ystod tymor y Senedd hon, ac fel rhan o'r adolygiad, ystyried pa mor ymarferol fyddai hi i bobl ifanc mewn gofal preswyl allu cael mynediad at ddarpariaeth Pan Fydda i'n Barod. | Dylai’r adolygiad adrodd erbyn mis Rhagfyr 2023 fan bellaf.<br><br>Bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal yn ystod tymor y Senedd hon gyda'r bwriad o wneud unrhyw newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol yn ystod rhaglen ddeddfwriaethol nesaf y Senedd. |

**Argymhelliad 25.**
Mae’r Pwyllgor yn argymell:
Fel rhan o ddiwygiadau ymbarél i rianta corfforaethol dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i wneud y canlynol:

- Diwygio Deddf Tai 1996 i sicrhau mai pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal sydd â’r brif flaenoriaeth wrth ddyrannu tai.
- Diwygio Deddf Tai 1996 i ddatgan y dylid diystyru ‘cysylltiad lleol’ ar gyfer pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal.
- Diwygio Deddf Tai (Cymru) 2014 i sicrhau bod pobl dros 21 oed sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cadw statws “angen blaenoriaethol” pan fyddant yn ddigartref.
- Diwygio Deddf Tai (Cymru) 2014 fel na ellir cyfeirio pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal sy’n wynebu digartrefedd at awdurdod lleol arall ar sail ‘cysylltiad lleol’ os nad ydynt yn dymuno i hynny ddigwydd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**
Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i ddiwygio cyfraith tai a gweithredu argymhelliad y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu cyflym.

Er mwyn datblygu'r ymrwymiad hwn mae Panel Adolygu Arbenigol wedi’i sefydlu i adolygu a gwneud argymhellion ar gyfer diwygio deddfwriaethol.  Cafodd y panel ei gynnull ym mis Awst 2022 a bydd yn adrodd ym mis Awst 2023.

<table>
<tr><td colspan="2">Fel rhan o'i drafodaethau, mae'r panel wedi ystyried y profiad o ddigartrefedd i'r rhai sy'n gadael gofal a pha fesurau atal wedi'u targedu, a hwylusir naill ai drwy ddeddfwriaeth neu drwy ddulliau polisi ehangach, fyddai’n atal digartrefedd yn well i'r grŵp hwn.<br><br>Ar ôl derbyn adroddiad terfynol y Panel Adolygu Arbenigol, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Papur Gwyn, a fydd yn nodi ein cynigion ar gyfer newid deddfwriaethol i sicrhau bod digartrefedd yn cael ei atal ar gyfer y rhan fwyaf o’r rhai sy’n wynebu risg; ac i sicrhau, pan na ellir ei atal, ei fod yn anaml, yn fyr, ac nad yw’n digwydd dro ar ôl tro.<br><br>Mae argymhellion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi llywio trafodaethau parhaus y panel a'r gwaith datblygu cyfochrog ar y Papur Gwyn ac rydym wedi ymrwymo i weithredu i atal digartrefedd i'r rhai sydd â phrofiad o fod mewn gofal drwy'r diwygiadau hyn.</td></tr>
<tr><td>Derbyniwyd<br><br>Rydym yn derbyn yr angen i archwilio argymhellion y Pwyllgor.</td><td>Gwrthodwyd<br><br>Fodd bynnag, ni allwn fwrw ymlaen â'r argymhelliad ar yr union ffurf a gynigir gan ei fod yn cyfeirio at gyfraith yr ydym yn ceisio’i diwygio.</td></tr>
</table>

**Cwestiwn 2**

**Y Rhaglen Drawsnewid / Y Grŵp Cyflawni / Y Bwrdd Trosolwg Gweinidogol**

**Yn achos pob un o'r uchod, eglurwch:**

- **Y cylch gorchwyl**
- **Yr aelodaeth**
- **Statws (ee a yw'n gwneud penderfyniadau neu'n cynghori, i bwy y mae'n atebol)**
- **Trosolwg cryno o'r cynllun gweithredu / rhaglen waith gan gynnwys dyddiadau a'r canlyniadau disgwyliedig**
- **Naratif o'r gydberthynas rhyngddynt**

## 1 Cylch gorchwyl

Yn Atodiad **A**, gweler copi o Gylch Gorchwyl y Bwrdd Trosolwg Gweinidogol wedi'i atodi.

Yn Atodiad **B**, gweler copi o Gylch Gorchwyl y Grŵp Cyflawni ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau Plant wedi'i atodi.

## 2 Aelodaeth

Mae aelodaeth y Bwrdd Trosolwg Gweinidogol fel a ganlyn:

Y Prif Weinidog (Cadeirydd, am yn ail â'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol)
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol (Cadeirydd, am yn ail â'r Prif Weinidog)
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol
Prif Weithredwr CAFCASS Cymru
Prif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru
Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Arweinydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Mae aelodaeth y Grŵp Cyflawni ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau Plant yn cynnwys cynrychiolwyr ar gyfer:

Dau berson ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan
Barnardo's Cymru
Cafcass Cymru
Arolygiaeth Gofal Cymru
Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
Plant yng Nghymru
Cwmpas
Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig
Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
NYAS Cymru
NSPCC Cymru
Gofal Cymdeithasol Cymru
Voices from Care Cymru
CLlLC

Swyddogion polisi Llywodraeth Cymru o'r adrannau a ganlyn:

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Swyddfa'r Cabinet
CAMHS ac Iechyd Meddwl Cyn-filwyr
Tegwch mewn Addysg
Llywodraeth Leol, Trawsnewid a Phartneriaethau
Polisi Tai
Cymunedau a Threchu Tlodi

## 3 Statws

Statws y Bwrdd Trosolwg Gweinidogol yw goruchwylio'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant a darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad gwleidyddol ar gyfer y Rhaglen.

Statws y Grŵp Cyflawni ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau Plant yw annog ac arwain y gwaith o gyflawni 8 o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ar gyfer gwasanaethau plant yn holistaidd, gan sicrhau bod yr ymrwymiadau hynny ar waith ac wedi'u sefydlu erbyn 2026. Mae'r Grŵp yn adrodd i'r Bwrdd Trosolwg Gweinidogol.

## 4 Trosolwg cryno o'r cynllun gweithredu / rhaglen waith gan gynnwys dyddiadau a'r canlyniadau disgwyliedig

Yn Atodiad **C**, mae copi o Fap Trywydd y Rhaglen Drawsnewid wedi'i atodi.

## 5 Naratif o’r gydberthynas rhyngddynt

Bydd y Grŵp Cyflawni ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau Plant yn adrodd ar gynnydd ac ar faterion i’r Bwrdd Trosolwg Gweinidogol. Bydd y Grŵp Cyflawni yn sicrhau bod polisïau a rhaglenni’r Llywodraeth ar y trywydd iawn a’u bod yn cael eu cyflawni ar amser ac o fewn cyllidebau.

## Trawsnewid Gwasanaethau Plant

## Cylch Gorchwyl: y Bwrdd Trosolwg Gweinidogol i Gymru

### Y cefndir

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys nifer o ymrwymiadau allweddol sy'n ymwneud â gweledigaeth newydd ar gyfer Gwasanaethau Plant. Maent yn ymwneud â newid y system yn gyfan. Yn y bôn, rydym am weld llai o blant a phobl ifanc yn mynd i ofal. Rydym hefyd am i'r cyfnod y mae pobl ifanc yn aros mewn gofal fod mor fyr â phosibl, a hynny'n gyson â diwallu anghenion y person ifanc. Rydym wedi ymrwymo i gadw teuluoedd gyda'i gilydd. Tra bo plant mewn gofal, rydym am iddynt aros yn agos i'w cartref fel y gallant barhau i fod yn rhan o'u cymuned.

Ein gweledigaeth yw ailgynllunio'r modd rydym yn gofalu am blant a phobl ifanc fel y gallwn sicrhau'r gorau i'n pobl ifanc, eu teuluoedd a'u cymunedau drwy ddarparu gwasanaethau sydd wedi'u lleoli'n lleol, wedi'u cynllunio'n lleol, ac sy'n atebol yn lleol. Y nod yw rhoi'r math cywir o ofal ar waith ar gyfer pob plentyn: diwygio a chysylltu gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant sydd ag anghenion cymhleth, a sicrhau cymorth gwell i'r rhai sy'n gofalu am blant.

Yn unol â'r Cynllun Plant, yr hyn sy'n allweddol i'n gwaith yw:

***Rhoi cymorth i blant fel y gallant aros gyda'u teuluoedd***

Mae gennym nifer o ymrwymiadau penodol yn y Rhaglen Lywodraethu sydd wedi'u grwpio ar sail:

**Diwygiadau radical**

- Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol
- Strategaeth Weithlu gryfach
- Swyddfa Genedlaethol (comisiynu, modelu, llunio rhagolygon, a data ynghylch perfformiad)
- Cryfhau canllawiau statudol, yn enwedig yng nghyswllt rhianta corfforaethol

Mwy o ymyrraeth a chymorth ar gyfer awdurdodau lleol nad ydynt yn cyflawni ein huchelgais i leihau nifer y plant mewn gofal yn sylweddol, neu nad ydynt yn cyflawni ymrwymiadau ynghylch dileu.

**Darparu gwasanaethau yn y dyfodol**

- Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal

- Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant sydd ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos i'w cartrefi â phosibl, ac yng Nghymru lle bynnag y bo hynny'n ymarferol
- Darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant sydd ag anghenion cymhleth a allai fod ar ffiniau gofal
- Cynorthwyo Maethu Cymru i gynyddu nifer ac amrywiaeth y gofalwyr maeth.

**Cydweithio ar sail system gyfan**

- Cryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel 'rhiant corfforaethol'
- Cynorthwyo teuluoedd drwy ariannu gwasanaethau eiriolaeth i rieni y mae eu plant mewn perygl o ddod i ofal, treialu Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol, a defnyddio cynadledda teuluol yn well. Sicrhau bod llais rhieni a phlant yn cael ei glywed.

**Diben y Bwrdd Trosolwg Gweinidogol i Gymru**

Diben y Bwrdd Trosolwg Gweinidogol yw goruchwylio'r Rhaglen Drawsnewid, gan ddarparu arweinyddiaeth a chyfeiriad gwleidyddol, a chymorth i gyflawni'r rhaglen.

Bydd Grŵp Cyflawni yn canolbwyntio ar y gwaith cyflawni ac yn monitro'r cynnydd ar draws y Rhaglen Drawsnewid. Bydd gan y Bwrdd Trosolwg Gweinidogol berthynas uniongyrchol â'r Bwrdd Cyflawni hwnnw a rhaid iddo sicrhau bod polisïau a rhaglenni yn cael eu cyflawni ar amser ac yn unol â'r gyllideb.

Bydd y Bwrdd hefyd:

- â throsolwg strategol ar y rhaglen drawsnewid
- yn darparu fforwm ar gyfer goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu dull cyson o drawsnewid gwasanaethau plant ledled Cymru gyda phartneriaid allweddol
- yn ystyried unrhyw newidiadau posibl y gall fod rhaid i Lywodraeth Cymru eu gwneud o ran cyfrifoldebau statudol sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth, canllawiau, polisïau neu ddyraniadau cyllid, o ganlyniad i gynlluniau ac argymhellion
- yn sicrhau bod partneriaid allweddol yn canolbwyntio ar ddysgu a bod mecanweithiau ar waith i ddangos bod canlyniadau'n cael eu cyflawni

**Yr aelodaeth arfaethedig**

Cytunir ar aelodaeth y Bwrdd yn y cyfarfod cychwynnol a chaiff ei hadolygu'n flynyddol. Cynigir y dylai'r cyfarfod gynnwys y canlynol:

Y Prif Weinidog (y Cadeirydd, bob yn ail â'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol)
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol (y Cadeirydd, bob yn ail â'r Prif Weinidog)
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol

Prif Weithredwr Cafcass Cymru
Prif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru
Swyddog arweiniol - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Swyddog arweiniol - Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Cynghorwyr Arbennig

**Yr Ysgrifenyddiaeth**
Darperir cymorth ysgrifenyddol gan Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio Llywodraeth Cymru (y Tîm Gwella Canlyniadau).

**Amlder cyfarfodydd, ac amserlenni**
Cynhelir y cyfarfodydd bob 4 mis i ddechrau (bydd hyn yn destun adolygiad) a byddant yn cael eu cynnal o bell drwy Microsoft Teams, neu wyneb yn wyneb yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag mewn lleoliadau eraill ledled Cymru, yn ôl y galw. Dylid cyflwyno eitemau ar gyfer yr agenda heb fod yn hwyrach na phythefnos cyn pob cyfarfod, gan ganiatáu hefyd ar gyfer cyflwyno materion brys yn ddiweddarach.

# Y Grŵp Cyflawni ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau Plant

## Cylch Gorchwyl

**Diben**
Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu agenda ddiwygio heriol ar gyfer gofal cymdeithasol plant yn Nhymor y Senedd 2021-2026, fel y nodir yn ei Rhaglen Lywodraethu, i gyflawni trawsnewid ar draws y system.

Mae'r Grŵp Cyflawni yn cael ei sefydlu i arwain a bwrw ymlaen â chyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu yn gyfannol, gan drawsnewid gwasanaethau plant a sicrhau bod yr ymrwymiadau hynny ar waith ac yn ymwreiddio erbyn 2026. Caiff y gwaith hwn ei symud ymlaen ar y cyd â'n partneriaid, a bydd hawliau a llais plant a phobl ifanc wrth wraidd y gwaith.

**Y rhesymeg dros y dull gweithredu hwn**
O gofio'r ystod o ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu, mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu rheoli a'u harwain mewn ffordd gydlynol, gan drawsnewid Gwasanaethau Plant trwy gefnogi plant yn well i aros gyda theuluoedd; cynnig darpariaeth sy'n seiliedig ar werthoedd sy'n diwallu anghenion ein plant mwyaf agored i niwed a sicrhau bod llais, hawliau a chanlyniadau yn rhan annatod o bopeth a wnawn.

Wrth wraidd y gwasanaeth rydym am weld llai o blant a phobl ifanc yn mynd i mewn i ofal. Rydym hefyd am i'r cyfnod y mae pobl ifanc yn aros mewn gofal fod mor fyr â phosibl, yn gyson â diwallu anghenion y person ifanc. Tra bo plant mewn gofal, rydym am iddynt aros yn agos at eu cartrefi fel y gallant barhau i fod yn rhan o'u cymuned - rhwydwaith y plentyn. Rydym am weld dull amlasiantaethol dim drws anghywir sy'n sicrhau'r un cyfleoedd bywyd i bob plentyn.

**Egwyddorion Gweithredu'r Grŵp**

**Egwyddor gyntaf:** Caiff yr holl weithgarwch a chanlyniadau eu cydgynhyrchu rhwng Llywodraeth Cymru a'r holl asiantaethau, rhanddeiliaid a phobl ifanc berthnasol.
**Ail egwyddor:** Bydd y Grŵp, bob amser, a rhwng yr holl aelodau'n dangos statws cyfartal gydag ymddiriedaeth, gonestrwydd, parch, empathi a thryloywder.
**Trydedd egwyddor:** Bydd y Grŵp yn cefnogi ac yn herio a yw gwaith cyflawni'r rhaglen ar y trywydd iawn ac yn argymell y camau gweithredu y mae eu hangen i gynnal cyflymder y cyflawni.
**Pedwaredd Egwyddor:** Mae'r Grŵp yn grŵp gweithredol gyda pharodrwydd uchel ond cyfrifol i dderbyn risg.
**Pumed egwyddor:** Bydd y Grŵp yn gyfeillgar i blant/pobl ifanc ac yn eu cynnwys ac yn cyfathrebu'n rheolaidd â hwy gan ddefnyddio iaith glir a chynhwysol

**Llywodraethiant**
Bydd y Grŵp Cyflawni yn adrodd ar gynnydd a materion i'r Bwrdd Goruchwylio Gweinidogol gan sicrhau bod polisi a rhaglenni'r Llywodraeth ar y trywydd iawn ac yn cael eu darparu yn brydlon ac o fewn y gyllideb.

**Rôl Aelodau'r Grŵp**

- Rhoi cyngor a chanllawiau i'r Cadeirydd ac i'w gilydd.
- Darparu cyngor ac argymhellion i'r Bwrdd Goruchwylio Gweinidogol.

- Cynrychioli a gweithio gyda phartneriaid ar draws sectorau i ddod â phersbectif system gyfan; a
- Gweithio o fewn ffiniau cyfrinachedd lle bo angen.

**Swyddogaeth y Grŵp**
Bydd y Grŵp yn –

- Sicrhau bod yr amodau ar gyfer llwyddiant yn cael eu sefydlu ac yn ymwreiddio.

- Cynnal gofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried wrth gyflawni ymrwymiadau Llywodraeth Cymru.

- Cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Plant a Phobl Ifanc Cymru i sicrhau bod plant yng Nghymru yn cael y plentyndod gorau posibl a'u bod yn parhau i fod wrth wraidd uchelgeisiau'r Llywodraeth.

- Ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth sicrhau ein bod yn gwella'r ddarpariaeth i sicrhau bod pob Plentyn a Pherson Ifanc yn cyflawni eu potensial ni waeth beth fo eu cefndir neu eu hamgylchiadau.

- Ystyried, cytuno, a datblygu datganiad cryno o weledigaeth ac uchelgais ar gyfer Gwasanaethau Plant, a fydd yn para yn ystod y tymor hwn o'r Senedd.

- Gweithio ar draws portffolios a sectorau i lywio, goruchwylio a hwyluso rhaglen waith a fydd yn cyflawni'r ymrwymiadau canlynol yn y Rhaglen Lywodraethu:

    - Atal teuluoedd rhag chwalu drwy ariannu gwasanaethau eirioli i rieni y mae eu plant mewn perygl o ddod yn rhan o'r system ofal.
    - Darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar gyrion y system ofal.
    - Edrych ar wneud diwygiadau radical i wasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal.
    - Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos at eu cartrefi â phosibl ac yng Nghymru lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.
    - Cryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel 'rhiant corfforaethol'.

- Sicrhau bod llai o blant a phobl ifanc yn cofnodi'r system ofal, drwy ddarparu'r cymorth cywir ar yr adeg gywir i deuluoedd sy'n wynebu cyfnodau anodd

- Sicrhau bod gan systemau casglu a rhannu gwybodaeth ganolbwynt clir yn yr holl waith sy'n cael ei wneud,. Ni ddylem fod yn ychwanegu at systemau ond yn hytrach yn ystyried sut y gallwn symleiddio gwybodaeth i gael gwybodaeth well ar adegau allweddol o wneud penderfyniadau.

- Darparu arweiniad a goruchwyliaeth ar gyfer cyllid i hwyluso'r  ymrwymiadau uchod.

- Ystyried sut y gallai'r Swyddfa Genedlaethol arfaethedig gefnogi'r gwaith hwn orau.

- Ystyried a chytuno ar safbwyntiau ar ddulliau arloesol a datblygu cynigion i lywio penderfyniadau'r Gweinidogion.

- Goruchwylio gwaith a chyflawni'r Tîm Trawsnewid.

- Cysylltu profiadau byw plant ac ymarferwyr â chyflawni'r ymrwymiadau hyn yn y Rhaglen Lywodraethu, gan sicrhau bod y materion a wynebir yn cael eu hystyried wrth ddatblygu Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol. Sicrhau hefyd fod ffocws clir ar leihau nifer y systemau gwybodaeth, symleiddio rhannu gwybodaeth sydd, yn ei dro, yn galluogi ein hymarferwyr.

**Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Cyflawni**

- Caiff swyddogaeth yr ysgrifenyddiaeth ei darparu gan aelodau o'r tîm Gwella Canlyniadau i Blant, y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio.

- Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu i'r aelodau mewn modd amserol.

- Efallai y bydd adegau pan fydd angen i'r Grŵp gynnal cyfarfod eithriadol i ymdrin â phenderfyniadau neu faterion penodol. Mewn rhai amgylchiadau, bydd aelodau'n cael papurau i'w hystyried  'y tu allan i'r pwyllgor'.

- Bydd papurau ar gyfer y Grŵp gan gynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am gyflawni'r Ymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu yn cael eu darparu o leiaf dri diwrnod gwaith cyn pob cyfarfod.


**Amseriad**

Bob deufis i ddechrau; caiff hyn ei adolygu'n rheolaidd i gadarnhau a yw'r amserlen hon yn briodol.

**Sut y mae'r Grŵp Cyflawni yn cyd-fynd â Gwella Canlyniadau i Blant/Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu - Tirlun**

**Allwedd**

Yn adrodd wrth –
Rhyngddibyniaethau â –



**Aelodaeth**

**Cynrychiolir y bobl / sefydliadau canlynol ar y Grŵp**

| |
|---|
| Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan |
| Dau berson ifanc sydd â phrofiad o'r system ofal |
| CLlLC |
| Arolygiaeth Gofal Cymru |
| Gofal Cymdeithasol Cymru |
| Swyddfa'r Comisiynydd Plant |
| Cafcass Cymru |
| Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol |
| Barnardo's Cymru |
| Plant yng Nghymru |
| NYAS Cymru |
| Voices from Care Cymru |
| NSPCC Cymru |
| EYST |
| Cwmpas |
| Swyddogion polisi Llywodraeth Cymru o<br><br>Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Swyddfa'r Cabinet<br>CAMHS ac Iechyd Meddwl Cyn-filwyr<br>Tegwch mewn Addysg<br>Trawsnewid a Phartneriaethau Llywodraeth Leol<br>Polisi Tai<br>Cymunedau a Threchu Tlodi |

# Cerrig Milltir ein Rhaglen Drawsnewid

2023 | 2024 | 2025 | 2026

## Cefnogi plant i aros gyda theuluoedd

**Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol newydd**
- Sefydlu grŵp arbenigol (Chwef 2023)
- Cydgynhyrchu cynnwys
- Drafft cyntaf y Fframwaith (Haf 2023)
- Ymgynghori (Haf 2023)
- Hyfforddiant, Ymwybyddiaeth a Chyflwyno (Diwedd 2023)

**Eiriolaeth rhieni**
- Cymeradwyo'r Fframwaith Eiriolaeth Rhieni
- Dechrau ei gyflwyno'n genedlaethol – Ebrill 2023

**Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol (FDAC)**
- Parhau i gefnogi cynllun peilot FDAC
- Cefnogi cam olaf gwerthusiad cynllun peilot FDAC
- Ystyried ei gyflwyno'n genedlaethol (gwanwyn 2024)

**Cefnogi cydweithio amlasiantaethol**
- Gweithdy amlasiantaethol - dysgu ar y cyd (gwanwyn 2023)

Tudalen y pecyn 56

## Darpariaeth ar sail anghenion a gwerthoedd

**Cyflwyno'r Model Ysgolion Rhithwir**
- Digwyddiad dysgu ar y cyd (hydref 2023)
- Gwerthuso'r cynllun peilot Ysgolion Rhithwir

**Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig**
- Cwblhau'r arolwg (Rhagfyr 2022)
- Sefydlu grwp arbenigol (gwanwyn 2023)
- Dadansoddi argymhellion yr arolwg (Cwblhau erbyn diwedd 2023)
- Datblygu cynllun gweithredu

**Datblygu Maethu Cymru**
- Adolygiad o'r Fframwaith Dysgu a Datb. (Ion 2023)
- Lwfans uwch a lansio cynllun cened. cyfeirio ffrind (gwanwyn 2023)
- Cynnig Craidd/Ymrwymiad Cenedlaethol (haf 2023)
- Datblygu pecyn adnodd (o Awst 2023)
- O bosib, cyflwyno harmoneiddio ffioedd (gwanwyn 2024)
- Swyddog recriwto penodol i bob ALI (erbyn gwanwyn 2024)

**Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal**
- Cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus a rhoi cyngor i'r Gweinidog (gwanwyn 2023)
- Gweithio ar gynllun gweithredu a deddfwriaeth (gwanwyn 2023)
- Cyfarfodydd I drafod Strategaethau Comisiynu Lleoliadau yr ALlau (2023)
- Dechreuwyr newydd– Nid-er-elw yn unig (Ebrill 2026)

## Llais plant a phobl ifanc

**Uwchgynadledd profiad o ofal**
- Uwchgynhadledd gyntaf (Rhag 2022)
- Llofnodi datganiad yr uwchgynhadledd a dechrau gwaith i gefnogi gweithredu
- Ail uwchgynhadledd (Rhagfyr 2023)

**Rhianta corfforaethol**
- Lansio'r siarter a'i llofnodi ar draws y sector (gwanwyn 2023)
- Canllawiau statudol cryfach yn dod i rym (gwanwyn 2024)

**Gweithio gydag ymarferwyr**
- Digwyddiad i ymarferwyr i rannu arferion gorau (haf 2023)

CARDIFF

Eitem 3.1

University and College Union
Undeb Prifysgolion a Cholegau

CAERDYDD

**Our Mission**
**Working together to foster fairness, equality and dignity in support of the advancement of knowledge and the education of students.**

---

☎ 02920 874443
💻 e-mail: ucu@cardiff.ac.uk
✉ 49b Park Place, Cardiff, CF10 3AT

Ms Jane Bryant MS
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

*10 July 2023*

Annwyl Ms Bryant,

The purpose of this letter is to call upon the Children, Young People and Education Committee to carry out an urgent inquiry into the state of higher education in Wales. This request comes amidst growing concerns over the funding of Welsh universities and the potential loss of hundreds of jobs because of the withdrawal of European Union structural funds. This situation was recently described as 'the precipice of disaster' by Swansea University's Vice Chancellor, while Cardiff University's Vice Chancellor has raised similar concerns over the sustainability of funding for Welsh universities. As academics we are deeply concerned about any future cuts to higher education funding and what impact this will almost certainly have on students, staff, and educational provision in Wales.

Our call for an inquiry also comes at a time when university staff across Wales have been taking months of industrial action due to disputes over pay, pensions, and working conditions. An inquiry into the state of higher education in Wales would provide the Committee with an opportunity to scrutinise the Minister for Education about the problems facing Welsh universities and the Welsh Government's response. It would also present an opportunity to question Welsh Vice Chancellors, the Higher Education Funding Council for Wales, as well as the two Welsh board members of the Universities and Colleges Employers Association. Once

again, as academic staff we are profoundly concerned about the difficulties facing Welsh universities and equally dismayed at the fact that University Vice Chancellors are repeatedly failing to address these concerns.

Thank you in advance for your attention to this matter.

Yours sincerely,

Aberystwyth University Universities and Colleges Union (UCU)

Bangor UCU

Cardiff Met UCU

Cardiff University UCU

University of South Wales UCU

Swansea University UCU

The Cardiff UCU office is normally staffed between 9.30am and 5pm on Monday - Thursday.
Email: ucu@cardiff.ac.uk

Find us on Facebook https://www.facebook.com/profile.php?id=100003083355273&sk=wall

**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/LN/1874/23

Jayne Bryant, AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

17 Gorffennaf 2023

Annwyl Jayne

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am gynnydd yn erbyn yr argymhellion yn yr adroddiad 'Iechyd Meddwl Amenedigol', sydd yn Atodiad A.

Fel y bydd y Pwyllgor yn gwybod, mae cefnogi gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol yn flaenoriaeth i mi. Yn ystod fy nghyfnod yn y swydd hon rydym wedi parhau i ddarparu cyllid parhaus i fyrddau iechyd i'w cynorthwyo i gydymffurfio â Safonau Cymunedol Coleg Brenhinol y Seiciatryddion ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Amenedigol.

Mae'r canlynol yn rhoi cipolwg ar gydymffurfiaeth â'r safonau ym mis Mawrth 2023:

| Bwrdd Iechyd | % Cydymffurfiaeth Math 1 | % Cydymffurfiaeth Math 2 | % Cydymffurfiaeth Math 3 |
|---|---|---|---|
| Aneurin Bevan | 91 | 83 | 77 |
| Betsi Cadwaladr | 91 | 75 | 62 |
| Caerdydd a'r Fro | 90 | 80 | 85 |
| Cwm Taf Morgannwg | 95 | 88 | 85 |
| Hywel Dda | 97 | 98 | 92 |
| Powys | 89 | 75 | 62 |
| Bae Abertawe | 87 | 55 | 77 |

Y targed presennol ar gyfer cydymffurfio yn erbyn y safonau hyn yw 100% ar gyfer math 1, 80% ar gyfer math 2 a 60% ar gyfer math 3. Mae Byrddau Iechyd wedi gwneud cynnydd da tuag at y safonau hyn ond maent yn cydnabod bod angen mwy o waith i sicrhau bod y gofal sy'n cael ei ddarparu i gleifion o'r safon uchaf.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


Mae'r Arweinydd Clinigol Cenedlaethol yn parhau i weithio gyda gwasanaethau i nodi lle mae bylchau o ran bodloni'r safonau a'u cefnogi i roi cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â'r rhain. Mae hyn yn cael ei wneud ar y cyd â swyddogion sydd bellach yn gweithio ar ddatblygu'r olynydd i'r strategaeth *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl*, lle bydd cefnogi iechyd meddwl amenedigol yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Bydd hyn yn cynnwys ffocws parhaus ar ymyrraeth gynnar a chefnogi iechyd meddwl babanod.

Ers cyhoeddi Ymchwiliad y Pwyllgor bu newidiadau sylweddol yn nhirwedd gwasanaethau, gyda phob bwrdd iechyd yn datblygu eu gwasanaethau cymunedol ymhellach. Yn ogystal, roedd agor yr Uned Mamau a Babanod yng Nghastell-nedd Port Talbot yn 2021 hefyd yn gam sylweddol ymlaen o ran darparu gwell cymorth iechyd meddwl amenedigol i famau yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod hyn yn rhy bell i fod yn wasanaeth priodol i'r rhai sy'n byw yn y Gogledd ac rydym yn parhau i weithio gyda GIG Lloegr i ddatblygu uned ar y cyd yng Nghaer i'w gwneud hi'n haws eto cael gwasanaethau yn y Gogledd. Mae rhagor o fanylion am sut mae hyn yn mynd rhagddo wedi'i gynnwys yn yr atodiad.

Bydd y gwaith hwn, ynghyd â datblygu'r strategaeth olynol a'r gwaith a arweinir gan yr Arweinydd Clinigol Cenedlaethol, yn parhau i gyflawni'r themâu allweddol yn argymhellion y Pwyllgor. Hoffwn eich sicrhau y bydd yr argymhellion yn parhau i ddylanwadu ar y gwaith ar wasanaethau iechyd meddwl amenedigol, gyda'r argymhellion yn parhau ar agor yn dilyn sawl thema allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys argaeledd data, gweithlu, cydymffurfio â safonau Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, cynyddu mynediad at therapïau seicolegol a datblygu'r ddarpariaeth uned mamau a babanod ymhellach ar gyfer y rhai sy'n byw yn y Gogledd. Felly, byddwn yn croesawu trafodaeth gyda chi am fformat diweddariadau yn y dyfodol.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei ffocws parhaus ar iechyd meddwl amenedigol.

Yn gywir



**Lynne Neagle AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

**Iechyd Meddwl Amenedigol - Diweddariad Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc**



| | Argymhelliad | Diweddariad Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2023 |
|---|---|---|
| 2 a 4 | Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau mai un o dasgau cyntaf y rhwydwaith clinigol a reolir newydd yw cytuno ar fesuriadau perfformiad seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol a’u cyhoeddi. Unwaith y bydd y rhain wedi’u datblygu, dylai Llywodraeth Cymru gasglu a chyhoeddi data cenedlaethol a lleol ar y mesurau, gyda darpariaeth gwasanaethau, gweithgarwch a gwelliannau yn cael eu monitro gan gorff cyhoeddus cysylltiedig penodol (e.e. Iechyd Cyhoeddus Cymru) fel y gellir nodi a gweithredu mwy o liferi ar gyfer gwella. | Mae'r gwaith ar set ddata graidd iechyd meddwl yn parhau i gael ei wneud drwy'r Bwrdd Data a Mesurau Canlyniadau Iechyd Meddwl. Sefydlwyd is-grŵp technegol i gefnogi'r gwaith hwn. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys arweinwyr digidol/perfformiad byrddau iechyd ac mae'n canolbwyntio ar ymarferoldeb casglu a rhannu data. Mae'r ffrwd waith yn adrodd i'r Bwrdd Goruchwylio Gweinidogol Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.<br><br>Cydnabyddir bod sefydlu set ddata lawn yn gymhleth ac rydym yn blaenoriaethu eitemau data penodol ar bob cam i sicrhau bod unrhyw ddata a gesglir yn gadarn ac yn addas i'r diben, gyda'r ffocws cychwynnol ar ddata atgyfeiriadau a derbyniadau. Byddwn hefyd yn blaenoriaethu data demograffig, fel oedran, rhywedd ac ethnigrwydd, a fydd yn cefnogi ein gallu i gynllunio gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion a gofynion ein poblogaeth.<br><br>Rydym yn deall yr angen i sicrhau bod data ar gael i'r cyhoedd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ac rydym yn gweithio tuag at gael dangosfwrdd cenedlaethol cychwynnol ar weithgarwch iechyd meddwl erbyn mis Medi, yna byddwn yn ehangu'r data sydd ar gael yn raddol wrth i'r set ddata graidd esblygu. Erbyn mis Rhagfyr, byddwn hefyd yn casglu set gytûn o fesurau profiad cleifion yn genedlaethol.<br><br>Mae hyfforddiant i helpu byrddau iechyd i gofnodi a defnyddio data canlyniadau profiad cleifion unigol yn well yn parhau. Mae cynrychiolwyr o dros 80% o'r timau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yng Nghymru bellach wedi cael hyfforddiant ar sut i roi mesurau o ganlyniadau a phrofiad a adroddwyd gan gleifion ar waith yn eu hymarfer o ddydd i ddydd.<br><br>Mae'r adborth ar yr hyfforddiant wedi bod yn gadarnhaol iawn, ond mae effaith y pandemig ar y gallu i drosi hyfforddiant yn arfer cyson wedi amrywio. O ganlyniad, rydym yn darparu cymorth ychwanegol i fyrddau iechyd dros y flwyddyn hon i wreiddio arferion ymhellach. Mae |

| | Argymhelliad | Diweddariad Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2023 |
|---|---|---|
| | | galluogi defnyddwyr gwasanaethau i ddisgrifio'r hyn sy'n bwysig iddynt, cael nodau a dyheadau, yn allweddol i ddarparu gofal effeithiol, diogel a thosturiol.<br><br>Ein disgwyliad yw blaenoriaethu safoni mesurau canlyniadau a adroddir gan gleifion (PROMS) a mesurau profiad a adroddir gan gleifion (PREMs) ar draws byrddau iechyd, cyn datblygu mesurau canlyniadau ehangach.<br><br>Mae'r gwaith hwn yn cael ei lywio gan waith gan Brifysgol De Cymru ar gomisiwn a oedd â'r nod o ddeall beth sy'n bwysig i bobl mewn perthynas â chanlyniadau gwasanaethau iechyd meddwl.<br><br>Byddwn yn defnyddio'r gwaith hwn i gefnogi datblygiad canlyniadau ategol yn y strategaeth iechyd meddwl nesaf. |
| 5 | Bod y rhwydwaith clinigol a reolir newydd (gweler argymhelliad 1) yn rhoi blaenoriaeth i gynhyrchu canllawiau i weithwyr proffesiynol a gwybodaeth i gleifion, yn seiliedig ar dystiolaeth, ynghylch sut gall cyfnod mewn uned mamau a babanod fod o fudd i famau, babanod a'u teuluoedd fel y gellir gwneud penderfyniadau mwy gwybodus am opsiynau triniaeth. | Mae'r Rhwydwaith Iechyd Meddwl Amenedigol yn cyfarfod fel mater o drefn i weithio tuag at gynllun gwaith cytûn. Mae rhagor o wybodaeth am y Rhwydwaith ar gael yma.<br><br>Mae gwaith diweddar y Rhwydwaith wedi cynnwys cytuno ar y cynnwys ar gyfer y taflenni gwybodaeth a nodwyd yn y diweddariad blaenorol. Mae deuddeg taflen wedi'u cwblhau a'u cyfieithu ac maent ar gael i'w gweld a'u cyrchu o'r ddolen ganlynol Taflenni cymorth a chyngor - Gweithrediaeth GIG Cymru.<br><br>Bydd yr Arweinydd Clinigol yn parhau i adolygu'r wybodaeth sydd ar gael i sicrhau ei bod yn cael ei diweddaru'n rheolaidd fel rhan o'r rhaglen waith 'busnes fel arfer'. Felly, rydym yn bwriadu cau'r argymhelliad hwn. |

| | Argymhelliad | Diweddariad Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2023 |
|---|---|---|
| 7 | Bod Llywodraeth Cymru, yng ngoleuni'r ffaith na fydd uned mamau a babanod sydd wedi'i lleoli yn ne Cymru o reidrwydd yn addas i famau a theuluoedd yng nghanolbarth a gogledd Cymru, yn ymgysylltu fel mater o frys â GIG Lloegr i drafod opsiynau ar gyfer creu canolfan yn y gogledd-ddwyrain a allai wasanaethu poblogaethau o boptu'r ffin. Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o sicrwydd mewn perthynas â gallu GIG Cymru i gomisiynu gwelyau mewn unedau mamau a babanod mewn canolfannau yn Lloegr lle pennir bod angen clinigol amdanynt. | Mae cydweithio â GIG Lloegr wedi arwain at achos busnes cymeradwy a chymorth ariannol i ddatblygu uned mamau a babanod bwrpasol ym Mhartneriaeth Swydd Gaer a Chilgwri i gynnwys 2 wely pwrpasol ar gyfer cleifion o Gymru. Derbyniwyd y gymeradwyaeth ariannol derfynol ac mae grŵp gweithredu yn cael ei sefydlu gan barhau â'r bartneriaeth rhwng GIG Lloegr a GIG Cymru. Er bod hyn yn cael ei arwain gan GIG Lloegr drwy Bartneriaeth Swydd Gaer a Chilgwri, mae GIG Cymru wedi cael mewnbwn sylweddol wrth ddatblygu'r gwasanaeth a'r achos busnes hyd yma gan gynnwys arbenigedd cydweithwyr GIG Cymru i lywio datblygiad y gwasanaeth.<br><br>Mae'r grŵp prosiect yn cydweithio â Gwasanaeth Iechyd Meddwl Amenedigol BIPBC ac Arbenigwyr trwy Brofiad o Ogledd Cymru i sicrhau bod Cymru a'r Gymraeg yn rhan annatod o wead yr uned mamau a babanod yn y ffyrdd canlynol:<br><br>• Cynnwys Arbenigwyr trwy Brofiad a'u teuluoedd<br>• Delweddau Cymraeg i'w defnyddio wrth addurno'r uned.<br>• Cynigir y bydd enw'r uned yn cael ei benderfynu gan yr holl Arbenigwyr trwy Brofiad a'u teuluoedd a bydd yn cael ei arddangos ar yr adeilad ac ym mhob dogfennaeth yn Gymraeg a Saesneg.<br>• Bydd yr arwyddion a ddefnyddir yn yr uned yn Gymraeg a Saesneg.<br>• Bydd gweithgareddau Therapi Galwedigaethol yn cael eu datblygu a fydd yn cynnwys Cymraeg a Saesneg a diwylliannau Cymru a Lloegr.<br>• Bydd gweithgareddau dan arweiniad Nyrs Feithrin yn cael eu datblygu gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg. Bydd Nyrsys Meithrin o Wasanaeth Iechyd Meddwl Amenedigol BIPBC yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr Uned ac Arbenigwyr trwy Brofiad o Gymru er mwyn sicrhau hyn.<br>• Bydd yr holl ddisgrifiadau swydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg<br>• Bydd y gallu i siarad Cymraeg yn nodwedd bersonol ddymunol ym mhob disgrifiad swydd.<br>• Bydd parodrwydd i ddysgu Cymraeg yn cael ei ystyried yn ystod y broses recriwtio.<br>• Cynigir y bydd cyrsiau Cymraeg ar gael i'r holl staff.<br>• Bydd llinell iaith sy'n cynnwys gwasanaeth Cymraeg ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. |

| | Argymhelliad | Diweddariad Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2023 |
|---|---|---|
| | | Bydd y bartneriaeth hon yn parhau wrth i'r gwasanaeth gael ei ddatblygu gyda disgwyl i'r uned agor yn ystod chwarter olaf 2024.<br><br>Bydd yr Arweinydd Clinigol Cenedlaethol a'r tîm yn parhau i gefnogi a hwyluso cyfarfodydd i ddod â defnyddwyr gwasanaethau a chydweithwyr yng Ngogledd Cymru at ei gilydd er mwyn ymgynghori â nhw chael adborth ganddynt ar gais tîm datblygu'r uned mamau a babanod. |
| 8 | Bod Llywodraeth Cymru'n darparu cynllun gweithredu clir i sicrhau bod canolfannau sy'n darparu gwelyau mewn unedau mamau a babanod, pa le bynnag y bônt (yng Nghymru neu yn Lloegr) wedi'u hintegreiddio'n agos â thimau iechyd meddwl amenedigol cymunedol arbenigol a'u bod yn cael eu rheoli, eu cydgysylltu a'u hariannu ar sail genedlaethol, Cymru gyfan i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithlon a bod mynediad teg iddynt, yn enwedig gan fod eu hangen ar frys mewn sefyllfaoedd argyfwng yn aml. | Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi cynnal adolygiad o uned mamau a babanod De Cymru ac mae bellach ar gael ar wefan y Pwyllgor. Mae'n argymell bod y gwasanaeth yn aros yn Nhonna wrth i ni ystyried capasiti a gofynion tymor hwy a wneir ar y cyd â datblygu'r olynydd tymor hwy i Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.<br><br>Bydd yr argymhelliad hwn yn cael ei ystyried yn barhaus fel rhan o argymhelliad 7. |
| 9 | Ar sail dadl "buddsoddi er mwyn arbed" ac yn dilyn dadansoddiad o'r gwerthusiad o wasanaethau sydd ar droed, a chanlyniadau ymchwil Mind-NSPCC-y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl, bod Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid ychwanegol i'r Byrddau Iechyd er | Mae'r Arweinydd Clinigol Cenedlaethol yn parhau i gwrdd yn rheolaidd ag Arweinwyr Timau Arbenigol a Rheolwyr Gwasanaethau a bydd yn defnyddio hyn fel cyfle i adolygu dogfennaeth Cymru gyfan sy'n cefnogi darpariaeth gwasanaethau, a meysydd datblygu sy'n cael eu nodi wrth i bob tîm gwblhau ei adolygiad blynyddol o'r safonau amenedigol. Bu cais diweddar hefyd i Arweinwyr Timau a Rheolwyr Gwasanaethau ddod at ei gilydd fel grŵp i adolygu eu safonau sydd heb eu bodloni a chydweithio i gefnogi ei gilydd a rhannu dysgu ac arferion gorau. |

| | Argymhelliad | Diweddariad Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2023 |
|---|---|---|
| | mwyn gallu mynd i'r afael ag amrywiadau yn well fel bod modd datblygu gwasanaethau a gwella ansawdd trwy ehangu'r timau presennol. Er mwyn sicrhau bod yr holl wasanaethau iechyd meddwl amenedigol cymunedol yn cyrraedd yr un safon â'r gorau, dylai'r dull a fabwysiedir gan Lywodraeth Cymru i ddyrannu cyllid ychwanegol anelu'n bennaf at yr angen i fynd i'r afael â'r gwahaniaeth mewn darpariaeth rhwng Byrddau Iechyd yng Nghymru | Mae'r themâu cyffredin a nodwyd i'w gwella yn cynnwys darparu gofod clinigol sy'n addas i deuluoedd, gofod swyddfa digonol ar gyfer timau, a darparu gwybodaeth ynghylch hawliau gofalwyr ac eiriolaeth. Byddwn yn gweithio gyda'r Arweinwyr Clinigol a'r byrddau iechyd i gefnogi'r gwaith hwn ymhellach.<br><br>Roedd Cyllid Gwella Gwasanaethau eleni hefyd yn cynnwys gofyniad i ystyried iechyd meddwl amenedigol fel maes blaenoriaeth ac mae cynnydd pellach wedi'i wneud yn erbyn y safonau staffio. Fodd bynnag, cydnabyddir bod swyddi sy'n dal heb eu llenwi ar lefel byrddau iechyd, yn bennaf mewn graddau / swyddi sydd wedi profi'n anodd recriwtio iddynt hefyd, felly byddwn yn cysylltu â byrddau iechyd unigol i ystyried y camau y mae angen eu cymryd i'n galluogi i ddangos cydymffurfiaeth. |
| 10 | Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y gwaith sy'n mynd rhagddo i wella mynediad at therapïau seicolegol ar gyfer menywod amenedigol (a dynion lle bo angen) yn cael ei flaenoriaethu o ystyried y cysylltiad sydd wedi'i sefydlu rhwng salwch amenedigol ac iechyd a datblygiad plentyn. Dylid rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod menywod beichiog a menywod sydd newydd roi genedigaeth sydd â phroblemau iechyd meddwl yn gallu cael therapïau siarad neu wasanaethau seicolegol (ar lefel gofal sylfaenol ac eilaidd) yn gyflym ac amserol, gydag amseroedd aros yn cael eu monitro a'u cyhoeddi. Gofynnwn am | Mae amcanion Rhwydwaith Gweithredu Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru ar gyfer 2023-24 yn cynnwys gwaith i archwilio ymhellach a chytuno ar yr ymyriadau seicolegol a gynigir ar draws y llwybr amenedigol. Bydd y gwaith hwn yn galluogi adnabod bylchau ac adnoddau ychwanegol y gallai fod eu hangen. Unwaith y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau, bydd ein Llwybr 10 yn cael ei ddiweddaru yn unol â hynny a bydd trafodaethau pellach gyda chydweithwyr yn AaGIC yn cael eu cychwyn - gweithrediaeth.gig.cymru/rhwydweithiau-a-chynllunio/rhwydweithiau/rhwydwaith-iechyd-meddwl-cymru/iechyd-meddwl-amenedigol/rhaglen-a-llwybrau-iechyd-meddwl-amenedigol-cymru/llwybrau-i-ymarferwyr-gofal-iechyd-proffesiynol/llwybr-10-cymorth-ac-ymyriadau-seicolegol/<br><br>Mae AaGIC wedi datblygu hyfforddiant newydd ar gyfer iechyd meddwl amenedigol ac maent yn cefnogi mwy o oruchwylwyr i fwrw ymlaen â hyn.<br><br>Mae gwaith i ddatblygu llwybr Trawma Amenedigol Cenedlaethol mewn cydweithrediad â chydweithwyr o Straen Trawmatig Cymru hefyd ar y gweill.<br><br>Mae swyddogion wedi derbyn yr argymhellion cenedlaethol yn ddiweddar yn dilyn adolygiad Gweithredol y GIG o Therapi Seicolegol ledled Cymru a byddant yn gweithio gyda |

| | Argymhelliad | Diweddariad Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2023 |
|---|---|---|
| | ddiweddariad ar gynnydd mewn perthynas â gwella mynediad at therapïau seicolegol ar gyfer menywod amenedigol (a dynion lle bo angen) o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn. | phartneriaid i weithredu ei ganfyddiadau a lle bo angen, bydd hefyd yn llywio'r olynydd i *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.* |
| 12 | Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y llwybr gofal clinigol Cymru gyfan newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol yn gofyn am gysondeb o ran canlyniadau (gan gynnwys cyfnodau atgyfeirio ac amseroedd aros) ond yn galluogi Byrddau Iechyd i gadw lefel yr hyblygrwydd sydd ei angen o ran dulliau cyflwyno er mwyn rheoli a diwallu anghenion lleol. Dylai datblygu a gweithredu llwybr gofal clinigol Cymru gyfan integredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth o fewn y 12 mis nesaf (gyda rhai gwasanaethau lleol) fod yn flaenoriaeth. Dylai'r llwybr helpu i ddarparu gwasanaethau integredig a chymell ymyrraeth gynnar ac ymagweddau cyfannol tuag at ofal a gwella. | Mae Llwybrau Cymru bellach wedi cael eu rhannu a'u profi fel rhan o broses profi modiwlau ar-lein Iechyd Meddwl Amenedigol a Babanod Cymru a chyflwyno hyfforddiant Sefydliad yr Ymwelwyr Iechyd (iHV) ar draws byrddau iechyd. Mae'r cyfle i roi adborth wedi'i gynnwys yn y broses ac mae tîm y rhwydwaith yn cyfarfod yn rheolaidd â chydweithwyr sy'n hwyluso hyfforddiant ar draws byrddau iechyd.<br><br>Mae'r canllaw adnoddau clinigol hefyd wedi cael ei brofi gyda chydweithwyr ledled Cymru ac mae bellach wedi'i ledaenu'n eang.<br><br>Mae'r llwybrau ar gael yma: Llwybrau i ymarferwyr gofal iechyd proffesiynol – Gweithrediaeth GIG Cymru<br><br>Gellir cau'r argymhelliad hwn nawr a bydd yn cael ei fonitro drwy drefniadau 'busnes fel arfer'. |
| 14 | Bod Llywodraeth Cymru yn adolygu gwybodaeth a ddarperir mewn pecynnau cynenedigol ac ôl-enedigol safonol i fenywod yng Nghymru i | Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru bellach wedi cyhoeddi'r cyntaf mewn cyfres o adnoddau newydd sydd wedi'u cynllunio i ddisodli *Naw Mis a Mwy* a *Bump, Baby and Beyond* fel y prif adnodd gwybodaeth iechyd a ddarperir gan y GIG i rieni tro cyntaf yng Nghymru. |

| | Argymhelliad | Diweddariad Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2023 |
|---|---|---|
| | sicrhau ei bod yn cynnwys y manylion angenrheidiol am les emosiynol, iechyd meddwl amenedigol a lle i ofyn am help a chymorth. | Mae ***'Pob Plentyn - Eich Beichiogrwydd a'r Enedigaeth'*** *a'r fersiwn Saesneg gyfatebol* ***'Every Child - Your Pregnancy and Birth'*** bellach wedi'u cyhoeddi, ac maent yn rhoi gwybodaeth am les emosiynol a ble i gael cymorth a chefnogaeth. Mae'r adnodd hwn hefyd ar gael fel e-Lyfr drwy'r ddolen hon everychildwales.co.uk/parent-information/<br><br>Gellir cau'r argymhelliad hwn nawr a bydd yn cael ei fonitro drwy 'drefniadau busnes fel arfer' gan y nodir y bydd tri adnodd arall yn dilyn i gefnogi teuluoedd trwy flynyddoedd cynnar bywyd eu plentyn. |
| 15 | Bod Llywodraeth Cymru yn dylunio fframwaith cenedlaethol ar gyfer dosbarthiadau cynenedigol, yn ei ddarparu i bob Bwrdd Iechyd a'i gwneud hi'n ofynnol iddynt wneud mwy i annog presenoldeb mewn dosbarthiadau. Dylai'r fframwaith gynnwys sgyrsiau am les emosiynol a realiti rhianta er mwyn chwalu'r stigma sylweddol a niweidiol ynghylch salwch meddwl amenedigol. | Cyhoeddwyd £7m o gyllid ar gyfer cam gweithredu rhaglen Mamolaeth Ddigidol Cymru gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Rhagfyr 22. Bydd rhaglen Mamolaeth Ddigidol Cymru yn cael ei chynnal gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru a bydd yn gweithredu ateb Cymru gyfan a fydd yn cynnwys mynediad digidol i gleifion i'w nodiadau mamolaeth trwy Ap GIG Cymru a gwefan. Bydd y gwaith yn cynnwys negeseuon iechyd cyhoeddus allweddol yn cael eu cyflwyno i fenywod mewn modd amserol drwy gydol y daith beichiogrwydd.<br><br>Comisiynodd Llywodraeth Cymru Gwelliant Cymru i ymgymryd â gwaith diagnostig mewn gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol fel rhan o gam cyntaf y Rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol (MatNeoSSP). Cyhoeddwyd Adroddiad Darganfod Gwelliant Cymru ar 11 Gorffennaf ac roedd yn amlygu enghreifftiau o arfer dda ledled Cymru yn ogystal â meysydd lle mae cyfle i wella. Roedd enghreifftiau o arfer da a nodwyd yn cynnwys addysg a pharatoi cynenedigol, sydd â'r gallu i gael eu hehangu gan yr hyrwyddwyr diogelwch lleol a benodwyd ym mhob bwrdd iechyd ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.<br><br>Mae'r adroddiad yn nodi'r flaenoriaeth i iechyd meddwl menywod trwy gydol eu taith beichiogrwydd. Gan sicrhau bod pob bwrdd iechyd yn ymgorffori rhaglen iechyd meddwl amenedigol Cymru gyfan a bod yr holl staff wedi'u hyfforddi, yn teimlo'n gymwys i ofyn am iechyd meddwl a chydnabod pwysigrwydd cofnodi'r wybodaeth hon gan gynnwys defnydd o feddyginiaethau. |

| | Argymhelliad | Diweddariad Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2023 |
|---|---|---|
| | | |
| 16 | Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r cyrff perthnasol i sicrhau bod iechyd meddwl amenedigol yn cael ei gynnwys yn hyfforddiant cyn-gofrestru a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yr holl weithwyr iechyd proffesiynol a chlinigwyr sy'n debygol o ddod ar draws menywod amenedigol. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod sylw i iechyd meddwl amenedigol fel pwnc ar ei ben ei hun ym maes bydwreigiaeth ac addysg ymwelwyr iechyd yn cael ei wella ac yn rhan o'r rhaglen nyrsio iechyd meddwl cyn cofrestru. Mae angen i gwricwlwm craidd Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol ar gyfer hyfforddiant ymarfer cyffredinol baratoi meddygon teulu yn well i ymdrin â phroblemau iechyd meddwl amenedigol hefyd. | Mae Fframwaith, Cynllun a Modiwlau Cwricwlaidd Iechyd Meddwl Amenedigol a Babanod Cymru yn cael eu profi. Bydd addasiadau i'r cynnwys yn cael eu gwneud wrth i adborth ddod i law, gyda chynllun i'w lansio'n ffurfiol ledled Cymru yn y gwanwyn.<br><br>Mae'r holl fyrddau iechyd bellach wrthi'n cyflwyno'r hyfforddiant iHV (Sefydliad yr Ymwelwyr Iechyd) i gydweithwyr ac mae'r rhwydwaith wedi darparu cyllid i Hyrwyddwyr PIMH barhau i gael mynediad at adnoddau wedi'u diweddaru gan yr iHV.<br><br>Mae hyfforddiant ar gyfer grŵp bach o hyfforddeion meddygon teulu wedi'i gynnal yn ddiweddar ac yn dilyn y peilot hwnnw, mae'r cynnwys yn cael ei addasu ar hyn o bryd.<br><br>Mae tîm y Rhwydwaith Gweithredu wedi cyfarfod â chydweithwyr AaGIC sy'n arwain ar hyfforddiant cyn cofrestru ac wedi cytuno i ddatblygu 'cyfres' o fodiwlau i fyfyrwyr nyrsio cyn cofrestru eu cwblhau. Bydd y modiwlau ar-lein PNMH a mynediad at y cynnig Hyfforddiant Iechyd Meddwl Amenedigol a Babanod Sefydliad yr Ymwelwyr Iechyd (iHV) ar draws byrddau iechyd yn cael eu cynnwys yn y cynnig hwn.<br><br>Cafwyd trafodaethau mwy diweddar gyda chydweithwyr ym maes gofal sylfaenol a chydweithwyr sy'n arwain ar gynlluniau hyfforddi meddygon teulu ledled Cymru. Rhoddwyd caniatâd hefyd gan Sefydliad yr Ymwelwyr Iechyd (iHV) i ddatblygu pecyn hyfforddi pwrpasol ar gyfer cydweithwyr gofal sylfaenol. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo.<br><br>Yn ogystal â chwrdd ag arweinwyr bydwreigiaeth, bu cyfarfodydd diweddar hefyd gyda chydweithwyr sy'n arwain ar gyrsiau Ymweliadau Iechyd Nyrsys Iechyd y Cyhoedd Cymunedol Arbenigol (SCPHN). Mae'r angen i sicrhau bod hyfforddiant PIMH yn cael ei gynnwys mewn hyfforddiant cyn cofrestru wedi dod yn fwy amlwg gyda'r Safonau NMC diweddaraf ar gyfer SCPHN gan gynnwys iechyd meddwl amenedigol a babanod.<br><br>Bydd yr Arweinydd Clinigol Cenedlaethol yn ymgysylltu â'r Arweinydd a benodwyd yn ddiweddar ar gyfer Gweithredu Strategaeth y Gweithlu Iechyd Meddwl ar hyn. |

| | Argymhelliad | Diweddariad Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2023 |
|---|---|---|
| 17 | Bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith i ddatblygu a chyflwyno strategaeth ar gyfer y gweithlu/fframwaith cymhwysedd er mwyn meithrin capasiti a chymhwysedd ar draws y gweithlu arbenigol, gan edrych ar brofiad yn Rhwydweithiau Clinigol a Reolir Lloegr a'r Alban sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb am hyfforddiant fel rhan o'u rôl arweinyddiaeth a chydlynu. | Mae Fframwaith Cwricwlaidd Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru bellach wedi'i gwblhau ac mae ar gael yma.<br><br>Mae'r Arweinydd Clinigol Cenedlaethol yn parhau i weithio gyda chydweithwyr AaGIC i gefnogi gweithredu CAMHS a modiwlau amenedigol yn ehangach ledled Cymru a bydd yn ein diweddaru'n rheolaidd wrth i hyn fynd yn ei flaen. Gwnaed cysylltiadau diweddar gyda chydweithwyr AaGIC i archwilio safoni disgrifiadau swydd bydwragedd ac ymwelwyr iechyd arbenigol.<br><br>Gyda'r gwaith hwn bellach yn parhau ar sail trefniadau 'busnes fel arfer', y bwriad yw cau'r argymhelliad hwn. |
| 19 | Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob Bwrdd Iechyd yn gweithio tuag at sefyllfa lle mae pob menyw yn cael perthynas barhaus gyda naill ai bydwraig neu ymwelydd iechyd. Er na fydd hi'n bosibl cyfarfod â'r un unigolyn ar bob achlysur, dylai pob Bwrdd Iechyd fynd ati i glustnodi adnoddau er mwyn ceisio sicrhau parhad gofal, gydag arweinydd a enwir yn gyfrifol am ofal ôl-enedigol pob menyw. | Cyhoeddwyd 'Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru - Gweledigaeth 5 Mlynedd ar gyfer y Dyfodol' ym mis Gorffennaf 2019 ac mae'n nodi'r weledigaeth ar gyfer y pum mlynedd hyd at 2024. Elfennau craidd y Weledigaeth yw parhad gofal ac iechyd amenedigol. Mae Cam 1 y rhaglen cefnogi diogelwch gofal mamolaeth a newyddenedigol wedi parhau â'r gwaith hwn ac wedi nodi enghreifftiau da mewn parhad gofal sydd â'r gallu i gael eu hehangu gyda'r hyrwyddwyr gwella a ariennir gan Lywodraeth Cymru ym mhob bwrdd iechyd.<br><br>Comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r offeryn aciwtedd cyfraddau geni sydd wedi dod i ben ac a fydd nawr yn llywio'r cynllun ar gyfer y gweithlu amenedigol sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Bydd datblygu Mamolaeth Ddigidol Cymru yn darparu data ar bob agwedd o ofal gan gynnwys parhad gofal.<br><br>Gyda'r gwaith hwn bellach yn parhau ar sail trefniadau 'busnes fel arfer', y bwriad yw cau'r argymhelliad hwn. |
| 20 | Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Byrddau Iechyd i sicrhau bod lefelau priodol o ddarpariaeth y | Mae cwmpasu i ddeall y darlun yng Nghymru o ddarpariaeth y trydydd sector i rieni ag anawsterau iechyd meddwl ysgafn-gymedrol wedi'i gwblhau ac mae'r canlyniadau'n dangos bod y ddarpariaeth yn anghyson ac yn ddibynnol ar gyllid byrdymor. Mae gwaith yn mynd |

| | Argymhelliad | Diweddariad Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2023 |
|---|---|---|
| | trydydd sector yn cael eu hariannu'n briodol, yn enwedig lle gwneir atgyfeiriadau gan ac i wasanaethau statudol. Dylid creu cyfeiriadur o wasanaethau'r trydydd sector i gynyddu ymwybyddiaeth eu bod ar gael a dylai darparwyr perthnasol yn y trydydd sector gael eu gwahodd fel mater o drefn i fynychu hyfforddiant ar y cyd â gwasanaethau statudol. | rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu canllawiau comisiynu'r trydydd sector a fydd yn rhoi eglurder ar yr hyn y dylem fod yn ei ystyried ar draws meysydd iechyd meddwl. Bydd y gwasanaeth cyntaf sy'n cael ei ystyried yn canolbwyntio ar orbryder ac iselder, bydd hyn wedyn yn cael ei ehangu, gan gynnwys ffocws ar iechyd meddwl amenedigol a bydd yn ein galluogi i fynd i'r afael â'r pwynt anghysondeb. Yna byddwn yn mynd ati i archwilio sut y gellir cefnogi trefniadau cyllido tymor hwy, bydd y gwaith hwn hefyd yn rhan o ddatblygu'r strategaeth iechyd meddwl nesaf.<br><br>Mae cydweithwyr sy'n gweithio i gefnogi rhieni yn y cyfnod amenedigol yn tynnu sylw o hyd at yr angen am ddull cenedlaethol a chyllid tymor hwy ar gyfer darpariaeth yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd, ar gyfer menywod a dynion ac ar gyfer cymorth 1:1 a grŵp ac mae nifer o feysydd lle mae'r trydydd sector yn cydweithio â phartneriaid yn y sector statudol.<br><br>Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi gweithio ar y cyd â'r Sefydliad Rhieni a Babanod ac wedi cyhoeddi eu canfyddiadau yn yr adroddiad Securing Healthy Lives (mae'r Sefydliad Rhieni a Babanod yn cyhoeddi 'Securing Healthy Lives' - Sefydliad Rhieni a Babanod (parentinfantfoundation.org.uk).<br><br>Mae yna hefyd nifer o wasanaethau'r trydydd sector sydd wedi'u comisiynu i gefnogi rhieni ag anawsterau iechyd meddwl ysgafn – cymedrol ac yn cynnwys Pregnancy in Mind yr NSPCC, Mum's Matter, Homestart a Dad Matters gan MIND.<br><br>Cydnabyddir y byddai cyfuniad o gymorth yn darparu model arfer gorau ar gyfer darpariaeth ar draws beichiogrwydd, ar ôl cael babi, ar gyfer menywod a dynion ac, ar sail unigol a grŵp.<br><br>Yn y cyfamser, mae'r Arweinydd Clinigol Cenedlaethol yn gweithio gyda chydweithwyr i dynnu sylw at hyn fel angen ac i annog cydweithwyr i ddechrau meddwl am sut y gellir mynd i'r afael ag ef yn eu meysydd, pa gysylltiadau y bydd angen eu gwneud a sut mae'n cysylltu â gwaith sydd eisoes yn digwydd, h.y. Dechrau'n dda, Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar a Pathfinders. |

| | Argymhelliad | Diweddariad Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2023 |
|---|---|---|
| 26 | Bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud hi’n ofynnol i Fyrddau Iechyd adrodd ar i ba raddau y mae eu timau iechyd meddwl amenedigol yn ymgysylltu â gwasanaethau eraill ac yn gweithio ar y cyd â nhw – gwasanaethau fel CAMHS, Unedau Dibyniaeth Cymunedol a thimau iechyd meddwl gofal sylfaenol ac eilaidd. | Fel y cadarnhawyd eisoes, mae hyn wedi'i ddatblygu fel rhan o ddatblygiad y llwybr Iechyd Meddwl Amenedigol a amlinellir yn argymhelliad 12,<br><br>Mae Llwybr Chwech yn benodol mewn perthynas â'r Tîm Atgyfeirio at Feddygon Teulu/Gofal Sylfaenol/Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol/Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol/y Glasoed. Mae'r llwybr hwn ar gael yma.<br><br>Ochr yn ochr ag argymhelliad 12 bydd hyn yn cael ei ddatblygu drwy drefniadau 'busnes fel arfer' ac felly rydym yn bwriadu cau'r argymhelliad hwn. |

Eitem 3.3

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jane Bryant, AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

SeneddPlant@senedd.cymru

12 Gorffennaf 2023

Annwyl Jane,

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod i chi bod fy adroddiad ar gydymffurfedd â’r ddyletswydd o dan adran un o Fesur Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, wedi’i osod gerbron y Senedd ar 12 Gorffennaf 2023.

Mae copi o’r adroddiad wedi’i atodi, sy’n cynnwys diweddariad ar y y gwaith sydd wedi’i wneud i weithredu’r argymhellion o adroddiad y Pwyllgor yn 2020 ar hawliau plant yng Nghymru.

Yn gywir,

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# ADRODDIAD CYDYMFFURFIAETH AR HAWLIAU PLANT 2023

Adroddiad ar Gydymffurfiaeth â’r ddyletswydd o dan adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Hydref 2020 a mis Mawrth 2023.

**Rhagair y Gweinidog – Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ....................3**

**Cyflwyniad a Chefndir ................................4**

I bwy mae'r adroddiad hwn?..............................4

Beth yw'r Adroddiad Cydymffurfiaeth ar Hawliau Plant?......................................................4

Beth yw CCUHP?.................................................4

Beth yw Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011?.......................................................5

Beth yw'r Cynllun Hawliau Plant? .......................5

Pwy yw'r Gangen Hawliau Plant? .......................6

**Ymgorffori Hawliau Plant ...........................7**

**Astudiaethau Achos – Ymgorffori .............8**

Astudiaeth Achos 1: Cynllun Plant a Phobl Ifanc – Polisi Cyffredinol i Blant..........................8

Astudiaeth Achos 2: Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 – Dyletswydd i Ddeall Hawliau ....................................................................8

**Cydraddoldeb a Pheidio â Gwahaniaethu ...................................................................10**

**Astudiaethau Achos – Cydraddoldeb a Pheidio â Gwahaniaethu...........................12**

Astudiaeth Achos 3 –Triniaeth iechyd meddwl i Blant a Phobl Ifanc: Cydgynhyrchu Fframwaith NYTH....................................................................12

Astudiaeth Achos 4 – Datblygu Strategaeth Tlodi Plant newydd..........................................................12

Astudiaeth Achos 5 –Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021.................................13

Astudiaeth Achos 6 – Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.................................................................14

**Grymuso ....................................................16**

**Astudiaethau Achos – Grymuso..............17**

Astudiaeth Achos 7 – Cynllun Codi Ymwybyddiaeth o Hawliau Plant.......................17

Astudiaeth Achos 8 – Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020...18

Astudiaeth Achos 9: Hawliau plant i fabanod a phlant bach..........................................................19

**Cyfranogi ..................................................21**

**Astudiaethau Achos – Cyfranogi.............22**

Astudiaeth Achos 10 – Adolygu Cymru Ifanc .22

Astudiaeth Achos 11 – Coronafeirws a Fi a Coronafeirws a Ni: Gwrando ar Blant yn ystod y Pandemig ..........................................................23

Astudiaeth Achos 12 – Y Warant i Bobl Ifanc.....24

Astudiaeth Achos 13 – Recriwtio Comisiynydd Plant Cymru ......................................................25

**Atebolrwydd ............................................26**

**Astudiaethau Achos – Atebolrwydd .......27**

Astudiaeth Achos 14 – Y Cenhedloedd Unedig: Adroddiadau Gwladwriaethau sy'n Barti..........27

Astudiaeth Achos 15 – Ymchwilwyr Ifanc: Adroddiad i'r Cenhedloedd Unedig ..................28

Astudiaeth Achos 16 – Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant.....................................................28

**Argymhellion o Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (Medi 2020) 30**

**Y Camau Nesaf: Beth yw'r camau nesaf i Lywodraeth Cymru? .................................32**

**Rhestr Termau ..........................................33**

**Rhagair y Gweinidog – Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Rwy'n croesawu'r cyfle i gyhoeddi'r adroddiad cydymffurfiaeth hwn sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Hydref 2020 a mis Mawrth 2023.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig cyfle i fyfyrio ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ei dyletswydd o dan adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 i roi sylw dyladwy i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'i Brotocolau Dewisol. Nodwyd sut y byddem yn cyflawni'r ddyletswydd hon yn ein Cynllun Hawliau Plant.

Mae Llywodraeth Cymru am i bob plentyn gael y dechrau gorau mewn bywyd a gwireddu ei botensial. Mae hawliau plant yn sail i'r uchelgais hon a dyna pam rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod hawliau plant wrth wraidd popeth a wnawn.

Ar adeg ysgrifennu, mae Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â chydweithwyr o weddill y DU, wedi bod yn cyflwyno adroddiad ar ein gwaith mewn perthynas â hawliau plant i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae hyn wedi rhoi cyfle inni dynnu sylw at ehangder ac amrywiaeth y gwaith sy'n cael ei wneud i wireddu hawliau i blant yng Nghymru.


Mae llawer i'w ddathlu. Bu cyflawniadau deddfwriaethol pwysig yn ystod y cyfnod adrodd, sy'n ymgorffori hawliau plant mewn ymarfer. Ar 21 Mawrth 2022, daeth adran 1 o Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 i rym.  Cafodd Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2021. Mae'r ddeddfwriaeth nodedig hon yn ei gwneud yn orfodol i wybodaeth a dealltwriaeth o hawliau plant gael eu hyrwyddo yn ein hysgolion ac yn sicrhau bod addysg hawliau yn un o sylfeini dysgu yng Nghymru.

Ond mae bob amser ragor i'w wneud. Mae'r ddwy flynedd a hanner diwethaf wedi bod yn anodd i lawer o bobl, yn enwedig plant. Rwyf wedi manteisio ar y cyfle yn yr adroddiad hwn i nodi rhai o'r ffyrdd yr ymatebodd Llywodraeth Cymru i bandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw sydd wedi cael, ac sy'n parhau i gael, effaith nas gwelwyd o'r blaen ar gynifer o blant a'u teuluoedd.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at ymdrechion Llywodraeth Cymru i wneud yn siŵr bod POB plentyn yn cael ei gydnabod a'i barchu a'i fod yn gwireddu ei botensial. Ni ddylai unrhyw blentyn syrthio drwy'r rhwyd. Dylai pob plentyn gael yr un cyfleoedd i fyw bywydau iach, hapus a diogel.

Rwy'n parhau'n gwbl ymrwymedig, fel eiriolwr a hyrwyddwr dros hawliau plant, i wneud popeth o fewn fy ngallu i ymgorffori hawliau plant yng ngwaith y llywodraeth.

.



**Julie Morgan AS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**

## Cyflwyniad a Chefndir

I bwy mae'r adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad hwn i unrhyw un sydd â diddordeb yn hawliau plant a gwaith Llywodraeth Cymru.

Gwybodaeth bwysig am yr adroddiad hwn:

- Yn yr adroddiad hwn ystyr plant yw unrhyw unigolyn 0-18 oed.
- Esbonnir unrhyw eiriau mewn **print du** yn y 'rhestr termau' ar dudalen 32.
- Yn y fersiwn ar-lein o'r adroddiad hwn, gallwch glicio ar wybodaeth wedi'i thanlinellu mewn print glas. Bydd hyn yn mynd â chi at adnoddau sy'n ymwneud â'r geiriau sydd wedi'u huwcholeuo.
- Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r math o eiriau a ddefnyddir yn aml mewn ysgolion gyda phlant 11 oed a hŷn. Gwnaethom asesu pa mor hawdd yw'r ddogfen i'w deall gan ddefnyddio Golygydd Apiau Hemmingway . Sgôr o 10 yw da ac unrhyw beth llai yw gwell. Cafodd rhai adrannau sgôr mor isel â 6. Cafodd rhannau eraill sy'n fwy technegol sgôr o 9. Sgôr gyfartalog y ddogfen hon yw 8.
- Os hoffech ddarllen yr adroddiad hwn mewn iaith wahanol, sgroliwch i waelod y dudalen we a chliciwch ar 'Ieithoedd Eraill.' Cliciwch ar yr iaith rydych am ddarllen yr adroddiad hwn ynddi.

Beth yw'r Adroddiad Cydymffurfiaeth ar Hawliau Plant?

Dywed y Cynllun Hawliau Plant fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ysgrifennu adroddiad er mwyn esbonio sut mae wedi rhoi **sylw dyladwy** i hawliau plant. Gelwir yr adroddiad hwn yn 'adroddiad cydymffurfiaeth'.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hadroddiad cydymffurfiaeth ar hawliau plant bob dwy flynedd a hanner. Mae'r adroddiad cydymffurfiaeth hwn yn ymdrin â gwaith sydd wedi'i wneud rhwng mis Hydref 2020 a mis Mawrth 2023.

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r un strwythur egwyddorol ag a ddefnyddiwyd gan **Gomisiynydd Plant Cymru** yn Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant.

Mae'r adroddiad yn cynnwys adrannau ar y canlynol:

1. Ymgorffori Hawliau Plant
2. Cydraddoldeb a Pheidio â Gwahaniaethu
3. Grymuso Plant
4. Cyfranogi
5. Atebolrwydd
6. Y Camau Nesaf

Beth yw CCUHP?

Mae CCUHP neu Gonfensiwn y Cenhedloedd ar Hawliau'r Plentyn yn gytundeb cyfreithiol sy'n nodi hawliau pob plentyn 0-18 oed. Mae gan bob plentyn hawliau, ni waeth beth fo lliw ei groen, ei

rywedd, ei gredoau crefyddol, ei rywioldeb, ei allu, yr iaith y mae'n ei siarad neu unrhyw beth arall. Mae gan bob plentyn hawliau, ni waeth beth fo'i gefndir.

Mae CCUHP yn nodi sut y dylai llywodraethau gydweithio er mwyn gwneud yn siŵr bod plant yn gwybod bod ganddynt hawliau a sut i'w hawlio. Mae hyn yn golygu cydweithio er mwyn sicrhau bod plant yn cael yr hanfodion sydd eu hangen arnynt i dyfu, bod yn ddiogel, bod yn iach, cael eu clywed a chyflawni eu potensial llawn.

## Beth yw Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011?

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella bywydau pobl yng Nghymru a sicrhau ei bod yn lle gwell i fyw a gweithio.

Yn 2011, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 (y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn fel 'y Mesur').

Mae adran 1(1) o'r Mesur yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru:

- i roi sylw dyladwy i Ran 1 o **CCUHP a'i rannau o'i Brotocolau Dewisol wrth wneud penderfyniadau**; ac

mae adran 5 o'r Mesur yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru:

- i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o Ran 1 o CCUHP a rhannau o'i Brotocolau Dewisol i'r cyhoedd (gan gynnwys plant a phobl ifanc).

Mae'r dyletswyddau hyn yn golygu bod yn rhaid i Weinidogion ystyried hawliau plant ym mhob a wnânt sy'n effeithio ar blant. Rhaid iddynt hefyd ystyried y penderfyniadau a wnânt sy'n effeithio ar bawb ac nid dim ond plant. Mae hyn yn cynnwys pethau megis yr amgylchedd, yr economi neu'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

## Beth yw'r Cynllun Hawliau Plant?

Dywed adran 2(1) o'r Mesur fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'r ffyrdd y mae Gweinidogion yn cyflawni eu dyletswyddau yn adran 1 o'r Mesur neu'r ffordd y byddant yn gwneud hynny. Cynllun Hawliau Plant Llywodraeth Cymru, neu'r 'Cynllun', yw'r ddogfen sy'n nodi'r pethau y mae angen i Weinidogion a'r rhai sy'n gweithio yn Llywodraeth Cymru eu gwneud er mwyn ystyried CCUHP yn eu gwaith.

Nod y cynllun yw:

- cefnogi'r gwaith o lunio polisïau o ansawdd uchel i wella bywydau plant a phobl ifanc.
- helpu plant i gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu polisïau sy'n effeithio arnynt;
- helpu plant a phobl ifanc i arfer eu hawliau.

Cyhoeddwyd fersiwn wedi'i diweddaru o'r Cynllun Hawliau Plant ym mis Rhagfyr 2021. Wrth ddiweddaru'r Cynllun, gwnaethom wrando ar farn plant a phobl ifanc drwy wneud y canlynol:

- cyhoeddi fersiwn i blant a phobl ifanc o'r cynllun drafft er mwyn ymgynghori arno.
- rhoi cyllid i sefydliad ymchwil gasglu barn 84 o blant a phobl ifanc.
- cynnwys argymhellion o adroddiad Hawliau Plant yng Nghymru y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Pwy yw'r Gangen Hawliau Plant?

Rôl y Gangen Hawliau Plant yn Llywodraeth Cymru yw gwneud yn siŵr bod y cynlluniau a nodir yn y Cynllun yn digwydd.

Mae hyn yn golygu:

- helpu pobl sy'n gweithio yn Llywodraeth Cymru i ddeall beth yw hawliau plant a sut y gallai eu gwaith effeithio ar yr hawliau hynny.
- arwain ymateb Llywodraeth Cymru i **adroddiadau CCUHP ac argymhellion Sylwadau Terfynol y Cenhedloedd Unedig.**
- diweddaru'r Cynllun Hawliau Plant.
- llunio Adroddiad Cydymffurfiaeth, fel hwn, er mwyn nodi sut mae Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd yn Adran 1 o'r Mesur, bob dwy flynedd a hanner.
- helpu'r bobl sy'n gweithio yn Llywodraeth Cymru i gynnwys plant yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.
- helpu'r bobl sy'n gweithio yn Llywodraeth Cymru i gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant. Mae Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant yn darparu tystiolaeth o'r ffordd y mae timau yn ystyried CCUHP wrth wneud penderfyniadau. Ceir rhagor o wybodaeth am Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant ar dudalen 26.
- gwneud yn siŵr bod cyfleoedd i blant gymryd rhan mewn prosesau llunio polisi. Mae'r Gangen Hawliau Plant yn gwneud hyn drwy roi cyllid i **Plant yng Nghymru** weithio gyda phlant.
- gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru sy'n gweithio gyda phlant yn gwybod am hawliau plant.
- gweithio gyda grŵp o arbenigwyr er mwyn gwneud yn siŵr bod y Llywodraeth yn llunio'r polisïau gorau posibl ac yn gwneud y penderfyniadau gorau posibl. Gelwir y grŵp hwn yn 'Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant' (CRAG).
- gweithredu fel y prif gyswllt rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru. Mae Comisiynydd Plant Cymru yn swyddfa annibynnol a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

# Ymgorffori Hawliau Plant

Beth mae hyn yn ei olygu?

Mae'r mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion i roi sylw dyladwy i CCUHP wrth ddatblygu neu adolygu deddfwriaeth a pholisïau. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Weinidogion roi ystyriaeth briodol i ofynion CCUHP, gan eu cydbwyso â'r holl ffactorau eraill sy'n berthnasol i'r penderfyniad dan sylw.

Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio a gweithio gydag eraill er mwyn gwireddu hawliau plant. Mae hyn yn golygu defnyddio CCUHP i wneud yn siŵr bod penderfyniadau yn gwella bywydau plant.

Dylai fod yn glir bod hawliau plant wedi cael eu hystyried pan wneir penderfyniadau.

Sut mae hawliau plant wedi'u hymgorffori yn Llywodraeth Cymru?

- Nodi'n glir sut mae cynlluniau a pholisïau yn cysylltu â CCUHP.
- Gwneud yn siŵr bod Gweinidogion a swyddogion yn meddu ar wybodaeth dda am hawliau plant.
- Nodi'n glir sut mae rhoi hawliau plant wrth wraidd penderfyniadau yn gwella gwaith y Llywodraeth.
- Gwneud yn siŵr bod pobl sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch plant yn cael hyfforddiant ar CCUHP.
- Gwneud yn siŵr bod tîm sy'n gyfrifol am hawliau plant yn Llywodraeth Cymru.
- Gwneud yn siŵr bod yr adnoddau sydd eu hangen i gefnogi a hyrwyddo hawliau plant ar gael.

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i ymgorffori hawliau plant?

- Datblygodd 'Cynllun Plant a Phobl Ifanc,'. Mae'r Cynllun yn esbonio'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi plant a phobl ifanc yng Nghymru.
- Rydym wedi nodi cynllun gweithredu ar sut i wneud Cymru yn **Genedl Noddfa.** Mae'r cynllun hwn yn cynnwys targedau a chamau gweithredu clir ar gyfer sicrhau bod Cymru yn wlad lle mae pobl sy'n dod i ailddechrau ac ymsefydlu o'r newydd yn gwybod bod eu hawliau i fod yn ddiogel ac yn rhydd rhag gwahaniaethu wedi'u gwarantu.
- Newidiodd y gyfraith a gwneud cosb gorfforol, megis smacio, yn anghyfreithlon.
- Datblygodd hyfforddiant ar effeithiau cam-drin domestig ar blant a phobl ifanc.
- Datblygodd ganllawiau er mwyn helpu awdurdodau lleol i helpu pobl ifanc â phrofiad o ofal i gael dyfodol llwyddiannus a byw'n annibynnol.

  Datblygodd gwricwlwm newydd sy'n gosod dyletswydd ar ysgolion i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o CCUHP a **Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau**.
- Mae gan bob plentyn yr hawl i amgylchedd glân ac iach. Rydym wedi nodi cynlluniau ynglŷn â sut y gallwn gydweithio ledled Cymru er mwyn creu amgylchedd glanach, gan wneud Cymru yn lle iachach i fyw.

**Astudiaethau Achos – Ymgorffori**

Astudiaeth Achos 1: Cynllun Plant a Phobl Ifanc – Polisi Cyffredinol i Blant

Yn 2021, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru eu Rhaglen Lywodraethu. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi'r pethau pwysig y byddant yn eu gwneud dros bobl sy'n byw yng Nghymru erbyn yr etholiad nesaf yn 2026. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiadau i blant. Dengys y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, a lansiwyd ar 1 Mawrth 2022, yr hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wireddu'r ymrwymiadau hyn i blant.

Rhannodd 173 o blant a phobl ifanc ledled Cymru eu barn ar y Cynllun drafft ym mis Ionawr 2022. Hefyd, cyfarfu pum person ifanc a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad â'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Chwefror 2022 er mwyn trafod eu barn ar flaenoriaethau'r Cynllun.

Mae'r cynllun yn nodi uchelgais Llywodraeth Cymru i sicrhau bod plant a phobl ifanc:

- yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.
- yn cael eu trin yn deg.
- yn cael cymorth drwy addysg a hyfforddiant a thu hwnt.
- yn cael eu cefnogi i deimlo'n gryf yn feddyliol ac yn emosiynol.
- yn cael eu cefnogi i gael cyfle teg mewn bywyd.
- yn byw mewn cartref da a diogel.
- yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i aros gyda'u teulu neu ailymuno ag ef, lle y bo'n bosibl.

Cyflwynir adroddiad ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y Cynllun Plant a Phobl Ifanc bob blwyddyn. Caiff y diweddariad blynyddol cyntaf ar y Cynllun ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2023. Caiff gwaith ei wneud i gynnwys plant yn y broses hon.

Mae'r Cynllun yn bwysig am fod Gweinidogion Cymru am gael y gorau i blant yng Nghymru, ni waeth beth fo'u cefndir, o ble y maent yn dod, nac ym mhle y maent yn byw. Mae hyn golygu sicrhau bod Cymru yn wlad hapus, iach a diogel i dyfu i fyny, byw a gweithio, nawr ac yn y dyfodol. Gwlad lle mae plant yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt ac yn eu gwerthfawrogi.

Dangosodd y Cynllun Plant a Phobl Ifanc sut mae cynlluniau Llywodraeth Cymru yn effeithio ar blant a'u hawliau. Mae'r cynllun yn cynnwys polisïau am addysg, diogelu a sut mae Llywodraeth Cymru yn gwrando ar blant. Mae hyn yn golygu un weledigaeth glir ar gyfer yr hyn y bydd y penderfynwyr lefel uchaf yn Llywodraeth Cymru yn ei wneud er mwyn gwneud yn siŵr bod hawliau plant yn cael eu cydnabod a'u parchu.

Astudiaeth Achos 2: Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 – Dyletswydd i Ddeall Hawliau

Mae hawliau dynol yn thema drawsbynciol yn y Cwricwlwm i Gymru. Yn 2021, pasiodd y Senedd Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

Mae adran 64 yn gosod dyletswydd ar ysgolion, lleoliadau a darparwyr Addysg Heblaw yn yr Ysgol gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion i wneud y canlynol:

1) hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o Ran 1 o CCUHP.

2) hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

i bobl sy'n addysgu ac yn darparu cyfleoedd dysgu yn eu lleoliadau.

Gall y Cwricwlwm i Gymru fod yn fan cychwyn i wireddu hawliau dynol mewn bywyd pob dydd. Pan fydd oedolion sy'n darparu cyfleoedd dysgu i blant yn gwybod am hawliau plant ac yn eu

deall, maent yn gallu addysgu amdanynt yn well. Mae hyn yn golygu bod plant yn gallu gwybod beth yw eu hawliau a sut i'w hawlio yn well. Gall oedolion sy'n deall hawliau plant yn well wneud yn siŵr bod profiadau plant o hawliau yn yr ysgol yn well hefyd. Er enghraifft, mewn cymorth bugeiliol neu deimlo bod pobl yn gwrando arnynt ac yn eu gwerthfawrogi fel dysgwyr.

# Cydraddoldeb a Pheidio â Gwahaniaethu

Beth yw Cydraddoldeb a Pheidio â Gwahaniaethu?

Ni ddylai unrhyw blentyn gael ei atal rhag hawlio ei hawliau oherwydd gwahaniaethu. Mae a wnelo cydraddoldeb â gwneud yn siŵr bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i fod yn iach, yn ddiogel a chystal ag y gall fod.

Ystyr cydraddoldeb yw trin pob plentyn yn deg, ni waeth beth fo ei fywyd gartref, ei allu, ei hil neu ei rywedd.

Ystyr cydraddoldeb yw gwneud yn siŵr bod anghenion unigol plant yn cael eu diwallu er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr un cyfleoedd ag eraill i gyflawni eu potensial.

O dan CCUHP (Erthygl 2) mae gan blant yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu. Dylai oedolion ddeall y rhwystrau y mae plant yn eu hwynebu wrth ddefnyddio gwasanaethau. Dylai oedolion hefyd ddeall bod plant yn aml yn dioddef gwahaniaethu oherwydd eu hoedran. Pan fydd oedolion yn cydnabod hyn, gellir cymryd camau i fynd i'r afael â'r achos o wahaniaethu.

Dylai oedolion ddeall y gall penderfyniadau a wneir heddiw wahaniaethu yn erbyn cenedlaethau o blant yn y dyfodol.

Sut mae cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu wedi'u hymgorffori yn Llywodraeth Cymru?

- Nodi ffyrdd clir o hyrwyddo cydraddoldeb a mynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn plant mewn polisïau a chynlluniau.

- Gwneud yn siŵr bod pobl sy'n gweithio yn Llywodraeth Cymru yn meddu ar wybodaeth gyfredol am Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant rheolaidd am anghenion gwahanol grwpiau o blant.

- Deall anghenion grwpiau penodol o blant er mwyn gwneud penderfyniadau gwell.

- Rhoi gwybodaeth i blant mewn iaith neu fformat sy'n briodol i'w hanghenion. Er enghraifft, eu hoedran.

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu?

- Datblygodd ganllawiau fel bod yn rhaid i oedolion sy'n gweithio gyda phlant wrando ar blant nad ydynt yn cael yr un cyfleoedd i gael eu clywed:
  - Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru ar gyfer 2021.
  - Polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion 2022.

- Datblygodd gynlluniau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn mynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn grwpiau penodol o blant. Mae hyn yn cynnwys:
  - gwaith gyda grwpiau o blant sydd wedi wynebu tlodi er mwyn datblygu fersiwn ddrafft newydd o'r Strategaeth Tlodi Plant i ymgynghori arni.
  - datblygodd Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol 2022.
  - cynllun i sicrhau mai Cymru yw'r genedl fwyaf cyfeillgar yn Ewrop i bobl LHDTC+.
  - ariannodd Ganolfan Cymorth Casineb Cymru, sydd ar agor ddydd a nos, er mwyn helpu dioddefwyr troseddau casineb. Mae hyn yn cynnwys cymorth penodol i blant a phobl ifanc.
  - cynhaliodd gynllun peilot lle roedd Bwndeli Babi yn cael eu rhoi i deuluoedd â babanod newydd. Mae'r bwndeli hyn yn cynnwys gwybodaeth am hawliau i gefnogi rhieni newydd.
  - sefydlu canolfannau Gofal Plant i blant gweithwyr allweddol a phlant a oedd yn agored i niwed yn ystod pandemig COVID-19.

- neilltuo £225m er mwyn sicrhau prydau ysgol am ddim i blant ledled Cymru erbyn 2024.
- sicrhau bod hawliau plant wrth wraidd ein systemau a'n dulliau o gefnogi iechyd meddwl a llesiant (NYTH).
- ehangodd raglen Dechrau'n Deg er mwyn cyrraedd tua 2,500 o blant ychwanegol 0-4 oed ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae gennym gynlluniau i ymestyn hyn yn 2023-24.

## Astudiaethau Achos – Cydraddoldeb a Pheidio â Gwahaniaethu

Astudiaeth Achos 3 –Triniaeth iechyd meddwl i Blant a Phobl Ifanc: Cydgynhyrchu Fframwaith NYTH

Mae'r Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid Cenedlaethol yn grŵp o bobl ifanc sydd yn aml â phrofiad bywyd o iechyd meddwl a llesiant. Mae'r grŵp yn gweithio i wneud y canlynol:

- mynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl a rennir gan bobl ifanc.
- gweithio gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill ledled Cymru er mwyn gwella gwasanaethau iechyd meddwl.

Mae'r Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid Cenedlaethol wedi cydgynhyrchu fframwaith er mwyn gwella gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant i fabanod, plant a phobl ifanc. Gelwir y fframwaith hwn yn NYTH.

Mae NYTH yn adnodd cynllunio i helpu pobl sy'n gweithio gyda babanod, plant a phobl ifanc i ddatblygu dull system gyfan o gefnogi iechyd meddwl a llesiant. Mae hyn yn golygu sefydliadau yn cydweithio i gynnig y cymorth cywir ar adeg gywir yn y ffordd gywir i fabanod, plant a phobl ifanc.

Mae cydgynhyrchu yn rhan bwysig o fframwaith NYTH. Bydd angen i unrhyw un sy'n defnyddio NYTH ystyried sut mae pobl, gan gynnwys plant, yn cael eu cynnwys yn y gwaith o greu gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant. Mae hyn yn golygu cydweithio â phobl sy'n defnyddio gwasanaeth mewn partneriaeth gyfartal gan mai nhw sydd yn y sefyllfa orau i helpu i'w gynllunio.

Ym mis Hydref 2022, symudodd NYTH i Lywodraeth Cymru ac mae bellach yn cael ei roi ar waith. Mae gan bob **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** y canlynol:

- unigolyn sy'n arwain NYTH
- cynllun ar gyfer y ffordd y caiff NYTH ei gyflwyno'n lleol
- grŵp rhanddeiliaid ieuenctid, sef grŵp o bobl ifanc y bydd y Bwrdd yn gweithio gyda nhw er mwyn gwneud yn siŵr y gwrandewir ar leisiau plant.

Bydd set o enghreifftiau arfer da o NYTH 'ar waith' ar gael yn fuan.

Fel rhan o waith NYTH gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid Cenedlaethol, mae pobl ifanc wedi llunio cerddi, straeon a gwaith celf sy'n adrodd eu hanes o iechyd meddwl a llesiant. Bydd gwaith yn y dyfodol yn cynnwys datblygu adnoddau hyfforddi a hunanasesu ar gyfer NYTH. Caiff yr adnoddau hyn eu cydgynhyrchu â phobl ifanc ac maent yn cynnwys y gwaith creadigol y maent wedi'i greu.

Astudiaeth Achos 4 – Datblygu Strategaeth Tlodi Plant newydd

Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chyhoeddi strategaeth tlodi plant a'i hadolygu'n rheolaidd.

Dylid datblygu'r strategaeth ddrafft gyda phobl sydd â phrofiad uniongyrchol o dlodi a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi. Rydym wedi bod yn gweithio'n galed i wrando ar leisiau pobl y bydd ein strategaeth yn effeithio arnynt.

Ym mis Mawrth 2023, ariannodd sefydliadau i ofyn i blant a phobl ifanc beth sy'n bwysig iddynt a beth fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf iddynt. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- siaradodd **Plant yng Nghymru** ac **Achub y Plant** â 76 o blant a phobl ifanc.
- ymgysylltodd **Voices from Care** â 26 o bobl ifanc â phrofiad o ofal.

- siaradodd **Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid (EYST)** Cymru â 54 o blant a phobl ifanc Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol ac ymgysylltodd **Women Connect First** â 14 o bobl ifanc Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.
- cynhaliodd 15 o sefydliadau a grwpiau cymunedol sesiynau drwy gynllun grantiau bach a oedd wedi'i dargedu at y rhai â nodweddion gwarchodedig. cymerodd 1070 o blant a phobl ifanc, gan gynnwys plant, plant a phobl anabl a **niwrowahanol**, pobl ifanc **LHDTC+**, pobl ifanc a oedd yn cael cymorth oherwydd digartrefedd a rhieni ifanc ran yn y sesiynau.
- arweiniodd **Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru** gynllun grantiau bach ar ein rhan, a oedd yn agored i bob Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol yng Nghymru. Drwy'r sesiynau ymgysylltu a gynhaliwyd drwy'r cynllun hwn cafodd 162 o blant a phobl ifanc eu cynnwys.

Hefyd, cynhaliodd sefydliadau a grwpiau cymunedol ledled Cymru sesiynau gyda phlant a phobl ifanc roeddent yn eu hadnabod neu roeddent yn gweithio gyda nhw eisoes. Cafodd y sesiynau hyn eu cyflwyno mewn nifer o ffyrdd gwahanol, fel rhan o sesiynau gweithgareddau chwarae neu weithgareddau i deuluoedd, ac mewn digwyddiadau. Drwy'r dull cymysg hwn roedd 1,402 o blant a phobl ifanc yn gallu dweud wrthym beth sy'n bwysig iddynt a llywio ein penderfyniad ynghylch beth i'w gynnwys yn ein strategaeth.

Roedd llawer o'r problemau y soniodd oedolion wrthym amdanynt yn debyg i'r pethau y dywedodd phlant a phobl ifanc eu bod yn bwysig iddyn nhw. Fodd bynnag, roedd rhai pethau y soniodd plant a phobl ifanc wrthym amdanynt mewn perthynas â'u profiadau na fyddent, o bosibl, yn cael eu deall yn llawn gan oedolion. Mae'r strategaeth ddrafft yn cynnwys yr hyn a glywsom gan blant a phobl ifanc â phrofiad o dlodi ac yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r materion y maent wedi dweud wrthym eu bod yn bwysig iddyn nhw a'u teuluoedd a sut y bydd yn ymateb iddynt.

Byddwn yn parhau i ymgynghori ar Strategaeth Tlodi Plant newydd i Gymru yn ystod haf 2023. Rydym yn anelu at gyhoeddi strategaeth derfynol erbyn diwedd mis Rhagfyr 2023.

<u>Astudiaeth Achos 5 –Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021</u>

Yn 2021, lansiodd Llywodraeth Cymru ei ‘Chod Ymarfer’ ar gyfer pobl sy'n gweithio gyda phlant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae gan bobl ag ADY anhawster neu anabledd dysgu sy'n gofyn am gymorth dysgu penodol sy'n wahanol i'r cymorth a roddir i bobl eraill o'r un oedran â nhw.

Mae'r Cod yn nodi'r rheolau a'r ffyrdd o weithio i'r rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc hyd at 25 oed sydd ag ADY. Mae'r rheolau hyn yn gymwys i Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, ysgolion, colegau a phrifysgolion.

Dywed y Cod (tudalen 36 o'r Cod yn benodol) fod yn rhaid gwrando ar blant ag ADY a'r rhieni, y teuluoedd a'r oedolion eraill sy'n eu cefnogi a'u cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae hyn yn golygu:

- gwrando ar farn, dymuniadau a theimladau plant, pobl ifanc a'u rhieni.
- deall pwysigrwydd cynnwys plant, pobl ifanc a rhieni cymaint â phosibl mewn penderfyniadau
- darparu gwybodaeth a chymorth i'r plant, y bobl ifanc a'r rhieni er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn y penderfyniadau hynny.

Bydd helpu plant, eu rhieni a'u teuluoedd i gyfranogi'n ystyrlon yn eu helpu i deimlo'n hyderus bod eraill yn gwrando ar eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau ac yn eu gwerthfawrogi, hyd yn oed os

byddant yn ei chael hi'n anodd eu cyfleu. Drwy gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dylai plant ag ADY a'u rhieni fod yn fwy ymwybodol o'u hawliau a'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt, a fydd yn eu helpu i deimlo bod ganddynt fwy o reolaeth dros eu dysgu. Mae anghenion plant yn fwy tebygol o gael eu deall ac mae'r cymorth a gânt yn fwy tebygol o weithio iddynt. Mae hyn yn golygu y gall plant gyflawni eu potensial a chael pob cyfle i ddatblygu i fod y fersiwn orau ohonyn nhw eu hunain.

Astudiaeth Achos 6 – Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Mae rhai pobl yng Nghymru yn wynebu hiliaeth. Weithiau mae yn yr ysgol neu yn y gwaith neu pan fyddant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau neu'n defnyddio gwasanaethau. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn gyfartal a'u parchu. Rydym am wneud mwy. Rydym am sicrhau bod Cymru yn wlad lle mae pawb yn ddiogel ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda phobl ledled Cymru i baratoi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol newydd. Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar 7 Mehefin 2022. Ei weledigaeth yw creu “Cymru sy'n Wrth-hiliaeth erbyn 2030'.

Nod y Cynllun yw newid bywydau pobl drwy fynd i'r afael â hiliaeth. Mae hyn wedi cynnwys, ac mae'n parhau i gynnwys, gweithio gyda phlant sydd wedi wynebu hiliaeth.

Mae hyn yn cynnwys:

- grwpiau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol
- Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr
- Cymunedau Mwslimaidd ac Iddewig a chymunedau ffydd eraill
- Ffoaduriaid neu geiswyr lloches.

Cyn i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol gael ei lunio, gwnaethom weithio mewn partneriaeth â Thîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid (EYST) Cymru i gynnal cyfres o 'sesiynau gweledigaeth' gyda phlant a phobl ifanc. Roedd y sesiynau hyn wedi galluogi plant a phobl ifanc â phrofiad o hiliaeth i rannu eu safbwyntiau. Gwnaeth y safbwyntiau hyn helpu i lywio gweledigaeth, cenhadaeth a diben Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Yn 2020-21, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun. Roedd yr ymgynghoriad ar gael mewn fformat hawdd ei ddeall, ynghyd â fideo i blant a phobl ifanc.

Ariannodd Llywodraeth Cymru grwpiau cymunedol a sefydliadau hil i gynnal sesiynau ymgysylltu ledled Cymru. Cymerodd bron 2000 o bobl o bob ystod oedran ran yn y sesiynau. Ymhlith enghreifftiau o'r ffordd y cafodd plant a phobl ifanc eu cynnwys mae'r canlynol:

- Casglodd **Tros Gynnal Plant (TGP)** farn pobl drwy gyfweliadau a sgyrsiau unigol. Fe'u cynhaliwyd gan staff prosiect yn benodol gyda phobl ifanc gan ddefnyddio gwahanol blatfformau ar-lein.
- gan ddefnyddio arolwg a ddatblygwyd gan **Race Council Cymru**, ymgysylltodd **Fforwm Cenedlaethol Ieuenctid Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol** â phobl ifanc drwy arolwg ar-lein, dros y ffôn neu drwy grwpiau ffocws ar-lein. Siaradodd y Fforwm Ieuenctid â 65 o gyfranogwyr ledled Cymru. Cofnodwyd 21 o grwpiau ethnig wrth fynd ati i feithrin dealltwriaeth o brofiadau pobl a chymunedau.
- Ymgysylltodd **Diverse Cymru** ag oedolion a phobl ifanc Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn ystyried eu hunain yn Ddu.

- Ymgysylltodd **Horn Development Association** â 256 o deuluoedd sy'n nodi eu bod yn bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n byw ledled Caerdydd.

Gellir darllen adroddiad yr ymgynghoriad llawn yma.

Fe wnaethoch gydnabod yn ystod y sesiwn graffu nad oes digon o athrawon Cymraeg eu hiaith eto i gyflawni rôl y system addysg o ran arfogi pobl ifanc â sgiliau Cymraeg, ar y raddfa a ragwelir gan agenda Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a'r continwwm dysgu sengl o dan y Cwricwlwm i Gymru.[6] Rydym wedi nodi cynllun deng mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg [7] a'r ymgynghoriad parhaus ar gynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg,[8] a fydd hefyd yn effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hymrwymiadau'n llwyddiannus mewn perthynas ag agenda Cymraeg 2050.

Rydym yn annog y dylid parhau i roi sylw i'r maes hwn, er mwyn sicrhau nad yw capasiti annigonol y gweithlu yn tanseilio effaith y Cwricwlwm i Gymru ar sgiliau Cymraeg dysgwyr.

## Pwysigrwydd gwaith clwstwr

Dadleuodd y Pwyllgor a'n rhagflaenodd, yn ystod gwaith craffu ar y ddeddfwriaeth, er na fydd unffurfiaeth ymhlith cwricwla ysgolion, bod yn rhaid sicrhau cysondeb digonol.[9] Mae'n ymddangos bod gwaith clwstwr effeithiol yn ffordd dda o sicrhau hyn a sicrhau'r cydbwysedd gorau posibl rhwng ymreolaeth ysgolion a'r cysondeb cenedlaethol a lleol angenrheidiol.

---

[5] Legislation.gov.uk, 'Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021: Adran 63'

[6] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/05/23, Cofnod y Trafodion, paragraffau 55-59

[7] Llywodraeth Cymru, 'Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg', 24/05/22

[8] Llywodraeth Cymru, 'Addysg Gymraeg: papur gwyn', 16/06/2023

[9] Senedd Cymru,'Rhaid sicrhau cysondeb ledled Cymru wrth gyflwyno'r 'Cwricwlwm i Gymru' – pwyllgor y Senedd', 04/12/20

Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i barhau i hyrwyddo gwaith clwstwr a mentrau cydweithio eraill er mwyn rhannu arfer gorau, lleihau llwyth gwaith a gwella cysondeb rhwng ysgolion.

## Anghenion dysgu ychwanegol

### Gweithredu'r system ADY a chymhwysedd ar gyfer Cynllun Datblygu Unigol

Mae'n amlwg i ni fod y system ADY yn cael ei gweithredu'n wahanol i'r hyn a ragwelwyd, neu o leiaf i'r hyn a ddatganwyd yn gyhoeddus, pan oedd y Senedd yn craffu ar y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau dilynol yn wreiddiol.[10] Nid yw nifer sylweddol o ddysgwyr y nodwyd yn flaenorol bod ganddynt AAA yn cael eu hadnabod fel rhai ag ADY, er bod y diffiniad mwy neu lai yr un peth.

Mae'r data'r cyfrifiad ysgolion diweddaraf yn dangos bod nifer y plant ag AAA neu ADY wedi gostwng eto, i 63,100 yn 2022/23, o 74,661 yn 2021/22 a 92,668 yn 2020/21. Mae'r nifer sydd wedi'u nodi fel rhai sydd ag AAA/ADY, felly, wedi gostwng traean (32%) yn ystod dwy flynedd gyntaf y system newydd.[11]

Gwnaethoch ddweud wrthym yn y Pwyllgor nad yw'r niferoedd is o AAA/ADY yn golygu bod yr angen wedi lleihau. Fe wnaethoch ychwanegu eich bod yn disgwyl i'r niferoedd gynyddu eto wrth i'r system newydd ymsefydlu.[12]

Fodd bynnag, yn eich llythyr dyddiedig 13 Mehefin rydych yn datgan eich bod yn disgwyl i fwy o ddysgwyr a oedd gynt ar lefel AAA gweithredu gan yr ysgol gael eu cefnogi fel rhan o addysgu gwahaniaethol ac arfer addysg gynhwysol.[13]

Rydym yn deall rhai o'r rhesymau pam nad yw nifer sylweddol o ddysgwyr sydd wedi'u nodi'n flaenorol fel rhai ag AAA yn cael eu nodi fel rhai ag ADY. Clywsom dystiolaeth gadarnhaol am sut y gall y system ADY newydd rymuso Cydlynwyr ADY i ddefnyddio'u crebwyll i benderfynu, mewn rhai achosion, y gellir diwallu anghenion y plentyn trwy ddarpariaeth gyffredinol, ac nad oes angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol a Chynllun Datblygu Unigol (CDU).

[10] Llywodraeth Cymru, 'Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', 11/04/17

[11] Ar gyfer ffigyrau 2020-21, gweler Llywodraeth Cymru, 'Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: Chwefror 2022', 31/08/22. Ar gyfer ffigurau 2021-2022 a 2022-23 gweler Llywodraeth Cymru, 'Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion (prif ystadegau): Ionawr 2023', 25/05/23

[12] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/05/2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 83-87

[13] Cyfeiriad at y llythyr pan gaiff ei gyhoeddi

Fodd bynnag, clywsom hefyd fod llawer o Gydlynwyr ADY yn cael trafferth gyda'r llwyth gwaith sy'n gysylltiedig ag adolygu anghenion dysgu pob plentyn a gafodd eu nodi'n flaenorol fel rhai ag AAA a pharatoi Cynlluniau Datblygu Unigol pan fo'u hangen.

Er ein bod yn cydnabod y gallai rhai anghenion lefel isel gael eu diwallu erbyn hyn drwy'r ddarpariaeth gyffredinol, rydym yn pryderu bod y gostyngiad serth yn nifer y plant sy'n cael eu cydnabod fel rhai sydd ag ADY o dan y system newydd, o gymharu â nifer y plant y nodwyd bod ganddynt AAA yn yr hen system, yn dangos bod anghenion rhai plant o bosibl yn parhau heb eu diwallu.

Pa mor hyderus ydych chi fod penderfyniadau ynghylch a oes gan blentyn ADY ac a oes angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol a CDU arno yn cael eu gwneud er budd gorau'r dysgwr ac nad ydynt yn gysylltiedig â phwysau adnoddau, capasiti a/neu lwyth gwaith?

Sut y byddwch yn sicrhau bod penderfyniadau i beidio â darparu CDU i blentyn y nodwyd yn flaenorol bod ganddo AAA er lles gorau'r plentyn, ac nad yw'n ganlyniad anfwriadol i'r diwygiadau ADY?

Nid yw'n glir i ni ychwaith a ydych yn credu y bydd nifer y plant yr ystyrir bod ganddynt AAA/ADY yn cynyddu wrth i'r system ymsefydlu, neu a yw dulliau gwahaniaethol a mwy cynhwysol o addysgu fel y'u hyrwyddir gan y Cwricwlwm i Gymru yn golygu bod y niferoedd yn debygol o aros yn is nag yr oeddent cyn gweithredu'r diwygiadau. A allech chi egluro eich barn ar y mater hwn, ac amlinellu eich disgwyliadau o ran trywydd y niferoedd AAA/ADY yn y dyfodol?

## Categorïau canolradd o ddysgwyr rhwng darpariaeth gyffredinol a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol

Mae'r ffordd y mae'r system ADY yn cael ei gweithredu yn golygu bod llawer o ysgolion i bob pwrpas yn cadw rhestrau o ddysgwyr sydd angen mwy na'r ddarpariaeth gyffredinol, ond nad yw eu hanghenion ar lefel sy'n gofyn am Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol a CDU. Rydych wedi ein cyfeirio at y gwaith y mae Estyn yn ei wneud i adolygu'r broses o weithredu, a fydd yn cynnwys ystyried sut mae ysgolion yn cefnogi'r grŵp hwn o ddysgwyr.[14]

Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried a oes angen arweiniad ychwanegol ynghylch sut y dylid cefnogi'r dysgwyr hyn, yn dilyn gwerthusiad Estyn o weithredu'r diwygiadau ADY, o ystyried eu bod yn ôl pob tebyg y tu allan i gwmpas y Cod ADY.

## Cyfrifoldeb rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion am Gynlluniau Datblygu Unigol

Mae tystiolaeth a gawsom yn awgrymu o bosibl bod anghytuno ac amwysedd ynghylch pryd y dylai awdurdod lleol, yn hytrach nag ysgol, fod yn gyfrifol am benderfynu a oes gan ddisgybl ADY, a

[14] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/05/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 90

pharatoi a chynnal y CDU sydd ei angen. Rydym wedi codi'r mater pwysig hwn gyda CLILC mewn gohebiaeth.

Gwnaethoch ddweud fod tua hanner yr awdurdodau lleol, yn unol â'r Cod ADY, wedi cyhoeddi cyfres o egwyddorion yn nodi sut y byddant yn cymhwyso'r paramedrau cyfreithiol o ran pwy ddylai fod yn gyfrifol. Rydych wedi nodi y bydd yr awdurdodau lleol eraill yn cyhoeddi'r rhain cyn blwyddyn academaidd 2023-24.[15]

Credwn ei bod yn hanfodol bod y rhain yn cael eu cyhoeddi cyn y flwyddyn academaidd newydd. Pa gamau y byddwch chi'n eu cymryd os bydd unrhyw awdurdodau lleol yn methu’r amserlen honno?

Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i fonitro cydbwysedd y cyfrifoldeb rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion yn fanwl mewn perthynas â pharatoi a chynnal Cynlluniau Datblygu Unigol. Pa gamau ydych chi'n eu cymryd ar hyn o bryd, ac y byddwch yn eu cymryd yn y dyfodol, i sicrhau bod cydbwysedd y cyfrifoldeb rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion yn briodol?

## Gweithio ar y cyd rhwng llywodraeth leol ac iechyd

**At y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol:**

Fel y gwyddoch, mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG ystyried, ar atgyfeiriad gan awdurdod lleol, a oes triniaeth berthnasol neu wasanaeth perthnasol sy’n debygol o fod o fudd o ran ymdrin ag ADY plentyn neu berson ifanc. Os daw’r corff GIG i’r casgliad bod triniaeth neu wasanaeth o’r fath yn bodoli, mae’n ofynnol iddo sicrhau bod y plentyn neu’r person ifanc yn cael mynediad at y driniaeth neu’r gwasanaeth[16] Mae'r Cod ADY yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG ymateb i gais i ystyried a oes triniaeth neu wasanaeth sy'n debygol o fod o fudd i'r plentyn, neu gais am wybodaeth neu gymorth wrth benderfynu sut i ddiwallu ADY plentyn neu berson ifanc, o fewn chwe wythnos. Mae eithriad i'r amserlen chwe wythnos os nad yw’n ymarferol i gorff y GIG wneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.[17]

Un o brif nodau'r diwygiadau oedd gwell cydweithredu rhwng addysg ac iechyd. Bwriad rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig oedd gwella'r sefyllfa. Fodd bynnag, mae’n amlwg o’r dystiolaeth yr ydym wedi’i chasglu bod heriau o hyd o ran sicrhau bod gweithwyr iechyd proffesiynol – gan gynnwys y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig – yn cefnogi’r holl ysgolion sydd ei angen. Mae mater amseroedd aros hir ar gyfer asesiadau iechyd, yn bennaf asesiadau awtistiaeth ac

[15] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/05/2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 96-97

[16] Legislation.gov.uk, ‘Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’rTribiwnlys Addysg (Cymru) 2018: Adran 20

[17] Llywodraeth Cymru, 'Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021', paragraffau 21.11 a 21.32

ADHD, wedi'i godi'n rheolaidd gyda ni fel pryder mawr a allai danseilio cyflawniad llwyddiannus y diwygiadau.

Rydym yn ymwybodol o'r Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth a'r £12 miliwn yr ydych wedi'i gyhoeddi dros dair blynedd i leihau'r pwysau yn y system i wella amseroedd aros ar gyfer asesiadau ac i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth bresennol mewn gwasanaethau plant ac oedolion.[18] Rydym hefyd yn nodi sylwadau Gweinidog y Gymraeg ac Addysg nad oes angen diagnosis er mwyn cael mynediad at gymorth addysgol.[19]

Mae'n ymddangos bod cydweithredu rhwng addysg ac iechyd yn parhau i fod yn rhwystr sylweddol i gefnogi dysgwyr ag anghenion ychwanegol. Er ein bod yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru na ddylai ysgolion aros am ddiagnosis bob amser, credwn fod absenoldeb mewnbwn gan weithwyr iechyd proffesiynol, ar adegau, yn rhwystro ac yn tanseilio'r cymorth sy'n cael ei roi ar waith i ddysgwyr. Rydym wedi ysgrifennu at CLlLC a Chydffederasiwn y GIG i gael eu safbwyntiau ar sut mae'r agwedd hon ar ddiwygio ADY yn gweithio.

Byddem yn ddiolchgar o gael gwybod eich asesiad o ran i ba raddau y mae gwasanaethau iechyd yn cydymffurfio'n ddigonol â'u dyletswyddau o dan Ddeddf 2018 a'r Cod ADY. Byddem hefyd yn gwerthfawrogi cael gwybod eich safbwynt ar sut y mae gwasanaethau iechyd, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â nodi ADY a'r ddarpariaeth ofynnol i gefnogi'r anghenion hyn, yn cefnogi gweithrediad y system ADY.

Rydym yn eich annog chi a Gweinidog y Gymraeg i weithio'n agos gyda'ch gilydd i sicrhau nad yw'r heriau sy'n gysylltiedig â'r cydweithio rhwng iechyd ac addysg yn tanseilio'r broses o gyflwyno'r system ADY newydd yn llwyddiannus.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

---

[18] Llywodraeth Cymru, 'Datganiad llafar: Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth', 02/05/23

[19] https://cofnod.senedd.cymru/Committee/13447Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10/05/2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 124

Eitem 3.10

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

30 Awst 2023

Annwyl Jayne

**RHOI DIWYGIADAU ADDYSG AR WAITH**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Gorffennaf ynghylch canlyniadau gwiriad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg o hynt y diwygiadau uchod yn ystod haf 2023.

Hoffem ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor am eu gwaith parhaus ar weithredu ein diwygiadau addysg. Mae atebion manwl i faterion penodol a godwyd yn eich llythyr ar gael yn y papur a atodir.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Ymateb Llywodraeth Cymru – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

# Rhoi diwygiadau addysg ar waith

## 1. Materion cyffredinol

### 1.1 Pwysau llwyth gwaith sy'n wynebu staff wrth weithredu'r diwygiadau

Rydym yn gwrando ynghylch y pwysau y mae partneriaid cyflenwi yn eu hwynebu wrth gyflwyno'r system ADY ac yn ymateb iddo. Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i fynd i'r afael â chwestiwn y llwyth gwaith. Rydym yn parhau i weithio ar y cyd ag undebau addysg, Estyn, awdurdodau lleol (ALlau) a chonsortia addysg i ddod o hyd i ffyrdd o leihau'r llwyth gwaith a chael gwared ar bwysau diangen o ran cyflawni. Fel y nodir yn y Datganiad Ysgrifenedig ar 13 Gorffennaf ar leihau llwyth gwaith a biwrocratiaeth i staff ysgolion, mae gennym gytundeb adeiladol ar gamau i'w cymryd yn y dyfodol.

Rydym yn effro i bryderon ynghylch ycynnydd yn y llwyth gwaith a roddir ar Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) a'r angen i benaethiaid, cyrff llywodraethu a phwyllgorau rheoli sicrhau bod digon o amser ac adnoddau yn cael eu rhoi i'r Cydlynwyr i ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn effeithiol. Mae'r Cod ADY yn ei wneud yn eglur nad yw dynodi CADY yn dileu'r cyfrifoldebau ar y gweithlu ehangach.

Rydym eisoes wedi cymryd camau i helpu gyda'r pwysau ar y gweithlu drwy ymestyn y cyfnod gweithredu gwreiddiol ar gyfer ADY am flwyddyn ychwanegol a chynyddu'n sylweddol y cyllid a gaiff ysgolion ar gyfer cefnogi rôl CADY. Mae'r grŵp Gorchwyl a Gorffen CADY, sy'n cynnwys ymarferwyr a chynrychiolwyr undebau llafur, wedi cyfarfod bum gwaith. Disgwylir adroddiad terfynol, gydag argymhellion, erbyn y dyddiad cau ym mis Rhagfyr 2023 a osodwyd gan Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru. Byddwn yn rhannu argymhellion y grŵp â'r Pwyllgor.

### 1.2 Swmp ac ansawdd y dysgu proffesiynol a ddarperir

Mae datblygu addysgu ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel drwy warantu dysgu proffesiynol a chefnogaeth gydol gyrfa i'r holl staff yn rhan ganolog o wireddu ein gweledigaeth ar gyfer addysg yng Nghymru ac mae'n un o'r pum amcan galluogol yn Cenhadaeth ein Cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb.' Byddwn yn cyhoeddi trefniadau newydd i sicrhau ansawdd addysg broffesiynol yng Nghymru ym mis Medi.

Er mwyn sicrhau tegwch mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol, mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ddatblygu ardal dysgu proffesiynol newydd ar ein platfform addysg ar-lein, Hwb. Bydd hyn yn darparu un pwynt mynediad at adnoddau dysgu proffesiynol o ansawdd uchel, hawdd eu llywio a fydd yn cyfrannu at ddatblygiad parhaus gweithwyr addysg proffesiynol ac yn cefnogi ein taith i ddiwygio addysg yng Nghymru. Ym mis Mai, fe wnaethom sefydlu Grŵp Cyfeirio Ymarferwyr i sicrhau bod y dull hwn yn cael ei ddatblygu gan ymarferwyr, ar gyfer ymarferwyr, i ddiwallu anghenion gweithlu'r ysgol gyfan a sicrhau bod ffocws cenedlaethol parhaus yn cael ei gynnal ar flaenoriaethau craidd y Cwricwlwm i Gymru, diwygio ADY, tegwch a'r Gymraeg.

# 2. Cwricwlwm

## 2.1. Iechyd meddwl plant a phobl ifanc – dull ysgol gyfan

Mae gan y Ganolfan bum datganiad gorfodol o'r hyn sy'n bwysig yn y Maes Iechyd a Llesiant ac mae'n cynnwys lles meddyliol ac emosiynol. Mae'r rhain yn cwmpasu'r gwahanol agweddau ar iechyd a lles dysgwyr neu'n dylanwadu arnynt. Maent wedi'u cynllunio i gael eu defnyddio'n gyfannol wrth ddysgu, gan gydnabod bod y rhain i gyd yn rhyng-gysylltiedig. Gall y datganiadau hyn hefyd gynnig sail i'r ffordd y mae ysgolion yn meddwl am eu dull ysgol gyfan ehangach. Mae hyn wrth gwrs yn ddull newydd o weithredu ac rydym yn gweithio gydag ymarferwyr a rhanddeiliaid, yn fwyaf arbennig Iechyd Cyhoeddus Cymru i nodi anghenion a sicrhau bod gan ysgolion y cymorth sydd ei angen i wreiddio'r Maes newydd hwn o'r cwricwlwm. Mae hwn yn gam pwysig, sy'n golygu bod lles meddyliol ac emosiynol yn ddysgu gorfodol o fewn cwricwlwm pob ysgol, ar bob cam o'r dysgu.

Mae'r canllawiau statudol ar gyfer y cwricwlwm, y mae'n rhaid i bob ysgol eu hystyried, yn glir iawn ynghylch pwysigrwydd y cyd-ddibyniaethau rhwng y cwricwlwm a dull ysgol gyfan:

> "*Dylai'r dull gweithredu ysgol gyfan fod yn sail i'r cwricwlwm yn ogystal â'i gefnogi, gan eu bod yn mynd law yn llaw. Dylai dull gweithredu ysgol gyfan tuag at iechyd a lles ymdreiddio i bob agwedd o fywyd ysgol a chael ei gefnogi gan arferion a pholisïau'r ysgol. Pe na byddai cydweithio rhwng y ddau, byddai'r dysgu yn y Maes yn gwanhau."*

Cafodd y canllawiau ym Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles ei gyd-ysgrifennu gan weithwyr o wahanol broffesiynau gyda'r dull ysgol gyfan mewn golwg.

Rydym wedi rhannu gwaith ymchwil gyda'r Pwyllgor a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23 ar ddyddiau cynnar gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Yn adroddiad ton 1, cyfeiriodd uwch arweinwyr at enghreifftiau o'r modd y galluogodd y cwricwlwm eu lleoliadau i ddarparu cwricwlwm cyfoethocach sy'n canolbwyntio ar y dysgwr i ddysgwyr a chyda mwy o ffocws ar lesiant. Roedd arweinwyr mewn ysgolion arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD) yn arbennig yn gwerthfawrogi'r cynnydd mewn hyblygrwydd a'r ymreolaeth a gynigir gan y Cwricwlwm, a'r gallu i ganolbwyntio ar iechyd a lles dysgwyr a chyfleoedd dysgu drwy brofiad. Rydym hefyd wedi cynnal grwpiau ffocws gyda dysgwyr i archwilio llesiant ac i ba raddau y maent yn teimlo'n gyffrous ac yn cael eu hysgogi gan y Cwricwlwm. Disgwyliwn i'r Cwricwlwm hefyd gyfrannu at ganlyniadau llesiant. Bydd y canfyddiadau hyn yn cael eu cyhoeddi yn yr adroddiad 'ton 2' nesaf ym mis Medi.

Mae'r ddyletswydd yn Adran 63 Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn darparu cyswllt pwysig rhwng dysgu yn y cwricwlwm a dull ysgol gyfan ysgolion o ymdrin ag iechyd meddwl: gan sicrhau bod ysgolion yn ystyried sut y gallai amrywiaeth o benderfyniadau ynghylch y cwricwlwm effeithio ar iechyd meddwl a lles emosiynol. Bydd ymgysylltu â'r ddyletswydd hon yn cael ei fonitro fel rhan o'n rhaglen Gwerthuso Ffurfiannol, a fydd yn cychwyn yr hydref hwn. Mae manylion y rhaglen hon wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Gwerthuso'r Cwricwlwm a gyhoeddwyd ar 5 Gorffennaf. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r proffesiwn, gan gefnogi partneriaid ac Estyn i

ddeall sut mae'r ysgolion yn ymgysylltu â'r ddyletswydd a pha gymorth pellach sydd ei angen arnynt, os o gwbl.

Fel rhan o'n rhaglen werthuso ehangach, byddwn hefyd yn defnyddio data'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion i'n helpu i ddeall unrhyw newidiadau yn llesiant dysgwyr dros amser.

**2.2 Y gweithlu Cymraeg mewn addysg**

Mae cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu'r Gymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau i fod yn flaenoriaeth, ochr yn ochr â datblygu sgiliau Cymraeg pob ymarferydd.

Ym mis Ebrill, amlinellodd y Datganiad Llafar y cynnydd a wnaed wrth gyflwyno cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg yn ystod ei flwyddyn gyntaf. Mae llawer o waith i'w wneud o hyd, a byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i symud tuag at ein huchelgais yn Cymraeg 2050.

**2.3 Pwysigrwydd gweithio clystyrau**

Rydym yn cytuno'n gryf ar bwysigrwydd gweithio mewn clystyrau a mentrau gweithio ar y cyd. Fel y nodir yn y datganiad llafar ar 11 Gorffennaf, mae'r cydweithio hwn yn hanfodol ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm, ADY a'n hagenda gwella ysgolion ehangach, wedi'i ategu gan y Canllawiau Gwella Ysgolion. Cydweithio yw sylfaen system hunan-wella, o fewn clystyrau a rhyngddynt. Mewn sawl ffordd, mae ein gwaith ar wella ysgolion yn hyrwyddo partneriaid addysgol ar gyfer gweithio ar y cyd a gweithio mewn clwstwr yn effeithiol, a hynny i gefnogi cynnydd ond hefyd yn fwy eang. Mae enghreifftiau o ymarfer rhagorol ledled Cymru ac rydym yn awyddus i sicrhau bod ein holl bartneriaid yn canolbwyntio ar alluogi ysgolion i gyflawni hyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi gweithio ar y cyd i feithrin dulliau cydlynol o lunio a gwella cwricwlwm yn ogystal â rhoi ADY ar waith.

Mae'n ofynnol i ymarferwyr wneud trefniadau yn eu hysgol neu leoliad (lleoliadau a ariennir nas cynhelir, UCD, darparwyr eraill Addysg Heblaw yn yr Ysgol), ar draws eu clwstwr, a chydag ysgolion y tu draw iddo, i gefnogi deialog broffesiynol barhaus rhwng ymarferwyr yn eu hysgolion/lleoliadau i ddatblygu a chynnal dealltwriaeth gyffredin o gynnydd ar draws y cwricwlwm perthnasol. Cyhoeddir yr adran berthnasol o ganllawiau Cwricwlwm i Gymru, o'r enw Dealltwriaeth gyffredin o gynnydd, a'r Cyfarwyddyd cysylltiedig ill dau ar Hwb.  Mae'r broses o ddatblygu dealltwriaeth gyffredin yn helpu ymarferwyr i sefydlu disgwyliadaucyffredin o ran sut y dylai dysgwyr wneud cynnydd a sut i sicrhau dilyniant cydlynol i ddysgwyr gydol eu taith ddysgu. Mae'r ddeialog hon yn llywio eu disgwyliadau cymharol ar gyfer cynnydd, er mwyn sicrhau cydlyniant a thegwch rhwng ysgolion.

Rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion ar gynhyrchu ac adnewyddu canllawiau ac adnoddau i gefnogi'r flaenoriaeth hon. Rydyn ni'n adnewyddu canllawiau Cwricwlwm i Gymru: y daith i weithredu'r cwricwlwm a byddwn yn ymgynghori ar hyn yn ystod yr hydref.  Nod yr adnewyddu hyn yw sicrhau bod disgwyliadau yn glir a hyrwyddo cysondeb rhwng ysgolion.

Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan ddeunyddiau newydd sydd wedi'u cynllunio i hwyluso gweithio ar y cyd mewn clystyrau, gan gynnwys y deunyddiau a ddatblygwyd gan brosiect Camau i'r Dyfodol, a gyhoeddir ym mis Medi.

## 3. Anghenion Dysgu Ychwanegol

### 3.1 Gweithredu’r system ADY a chymhwyster ar gyfer Cynlluniau Dysgu Unigol

***Gweithredu'r System ADY***

Rydym yn ymwybodol o'r pryderon, gan gynnwys y gostyngiad yn nifer y dysgwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) / dysgwyr ADY ers i'r gwaith gweithredu ddechrau, gan sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud er budd gorau dysgwyr a sicrhau cydbwysedd priodol rhwng ysgolion ac ALlau o ran cyfrifoldebau.

Nod y Cwricwlwm i Gymru a'r Ddeddf ADY yw trawsnewid, gyda'i gilydd, y disgwyliadau, y profiadau dysgu a'r deilliannau i blant a phobl ifanc. Dylai cwricwlwm ysgol godi dyheadau pob dysgwr ac ymateb i anghenion unigolion, ac felly dylai gefnogi adnabod, cynllunio a chynnydd ar gyfer dysgwyr ag ADY. Mae'r canllawiau gwella ysgolion yn amlinellu'r disgwyliadau ar gyfer ysgolion, Awdurdodau Lleol, Estyn ac eraill wrth gyfrannu at hyn.

Mae ein swyddogion yn gweithio'n agos gydag Estyn i archwilio heriau diwallu anghenion dysgwyr drwy eu harolygiadau a’u gweithgareddau thematig. Mae gan Estyn rôl greiddiol yn y gwaith o wella ansawdd addysg a hyfforddiant a gwella canlyniadau i bob dysgwr yng Nghymru. Mae Estyn wedi cynnal adolygiad thematig ar roi ADY ar waith yn ystod 2023 i annog meddwl ehangach a rhannu arfer effeithiol. Disgwylir iddo adrodd yn ôl ym mis Medi gan ddarparu argymhellion ar gyfer materion sy’n haeddu sylw a chefnogaeth pellach.

Drwy ei arolygu lleoliadau a gynhelir ac awdurdodau lleol, mae Estyn yn gwerthuso ‘r deilliannau a’r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, a dulliau lleoliadau o ymdrin ag ADY a chynhwysiant. Dangosir hyn yn eu Canllawiau i Arolygwyr ac fe'i ategir gan Canllawiau Atodol ar anghenion dysgu ychwanegol i gefnogi arolygwyr.

Wrth i ni symud i drydedd flwyddyn y broses o weithredu ADY, byddwn hefyd yn parhau i ofyn am adborth gan y sector, teuluoedd a rhanddeiliaid ehangach. Ochr yn ochr â hyn, mae gwerthusiad 4 blynedd o weithredu'r system ADY ar y gweill. Bydd hyn yn darparu dealltwriaeth a thystiolaeth allweddol i'n galluogi i fonitro a nodi effeithiau’r system ADY newydd ar ddysgwyr ag ADY/AAA,wrth iddynt ddod i’r amlwg, ac am effaith diwygio'r cwricwlwm arni.

***Rhannu dealltwriaeth gynnar o’r broses weithredu hyd yma***

Gwnaethom ysgrifennu at Awdurdodau Lleol ym mis Mehefin i rannu dealltwriaeth gynnar o amrywiaeth o ffynonellau am yr hyn oedd yn mynd yn dda a'r hyn roedd angen ei wella. Roedd y rhain yn cynnwys: anghysondeb ac amwysedd ynghylch y cyfrifoldeb dros gynnal Cynllun Datblygu Unigol (CDU) (ysgol neu ALl) yn enwedig pan fo gan ysgol adnoddau arbenigol yno; nodi beth yw Cynllun Dysgu Ychwanegol o fewn

CDU oherwydd cymhlethdodau cyfreithiol y CDU; ac eglurder ynghylch swyddogaeth yr awdurdod lleol o ran cynnal CDU.

Bydd tymor yr hydref yn bwynt allweddol ar gyfer pwyso a mesur cynnydd, tueddiadau pellach a dealltwriaeth o gyflymder, cysondeb gweithredu, symudiadau dysgwyr, gostyngiadau yn niferoedd AAA / ADY ac argymhellion ar gyfer rhagor o sylw a chymorth. Rydym yn rhagweld y bydd gennym, erbyn yr hydref, sylwadau cynnar gan Dribiwnlys Addysg Cymru, gwaith thematig Estyn ar weithredu ADY, ac Adroddiad Blynyddol Estyn o ganfyddiadau cryno o'u gwaith ar draws addysg a hyfforddiant yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23. Rydym hefyd yn rhagweld derbyn adroddiad cychwynnol sy'n ymdrin â chyfnod cwmpasu gwerthusiad y system ADY. Disgwylir i'r adroddiad gynnwys Damcaniaeth Newid a bydd yn cael ei lywio gan gyfweliadau â chynrychiolwyr polisi a chynrychiolwyr y sector a chan synthesis o'r dystiolaeth.

Byddwn yn ysgrifennu at Awdurdodau Lleol yn yr hydref i rannu tueddiadau, dealltwriaeth a data cenedlaethol ar lefel ALl i'w hatgoffa o'u cyfrifoldebau, gan gynnwys yr angen i gyhoeddi Dogfen Egwyddorion.

Byddwn hefyd yn cwrdd ag Awdurdodau Lleol drwy Is-grŵp ADY / Gwella Ysgolion Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru ym mis Medi ac yn cynnal gweithdy polisi arloesol gydag Awdurdodau Lleol yn ystod tymor yr hydref i ddadansoddi'r data a'r dystiolaeth ac archwilio cynnydd, tueddiadau a phatrymau gweithredu ADY hyd yma.

Mae'n dal i fod yn anodd rhagweld beth fydd y trywydd yn y dyfodol o ran niferoedd ADY, wrth roi'n diwygiadau ar waith ac wrth iddynt ymwreiddio. Y pwynt pwysicaf yw bod dysgwyr yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i ffynnu. Bwriad polisi Llywodraeth Cymru o hyd yw y dylai pob plentyn a pherson ifanc ag ADY gael CDU (os ydynt yn cydsynio i gael CDU, yn achosion pobl ifanc).

### 3.2 Categorïau canolradd o ddysgwyr rhwng darpariaeth gyffredinol a Darpariaeth Dysgu Ychwanegol

Mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi'i gynllunio i rymuso ysgolion i ddiwallu anghenion eu dysgwyr, gan roi'r hyblygrwydd iddynt ddarparu'r profiadau addysgu a dysgu gwahaniaethol sydd eu hangen i gefnogi hyn.

Rydym yn gwrando ar ymarferwyr ac yn cydnabod eu bod yn parhau i gasglu data a gwybodaeth am anghenion dysgwyr y tu hwnt i'r rhai ag ADY.

Yn dilyn y datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog ym mis Ionawr am wella ysgolion a gwybodaeth, rydym bellach yn cysylltu â lleoliadau i ddatblygu syniadau ynglŷn ag ecosystem wybodaeth newydd i Gymru. Bydd y dull hwn yn ein symud tuag at system fwy cyfannol sy'n hyrwyddo dysgu ac yn gosod dysgwyr, ymarferwyr, rhieni a gofalwyr yn ganolog i'r cwbl. Bydd y gwaith parhaus o gasglu data sy'n ymwneud â dysgwyr AAA blaenorol yn y categorïau Gweithredu gan Ysgolion, yn rhan o'r gwaith hwn.

### 3.3 Cyfrifoldeb am CDU rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynnal CDU os bydd gan y plentyn neu'r person ifanc ADY sy'n galw am Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol na fyddai'n rhesymol i'r corff llywodraethu ei sicrhau. Mae Pennod 12 o'r Cod ADY yn darparu eglurder ac

arweiniad i ALlau ar sut y dylent benderfynu a yw'n rhesymol i ysgol, UCD neu'r ALl sicrhau'r DDdY sy'n ofynnol ar gyfer plentyn neu berson ifanc.

Fel y cyfeiriwyd ato yn eich llythyr, mae hefyd yn ofynnol i ALlau sefydlu a chyhoeddi set o egwyddorion i'w dilyn wrth iddynt benderfynu a yw'n rhesymol i ysgol, UCD neu ALl sicrhau'r DDdY sydd ei hangen ar plentyn neu berson ifanc. Dylid sefydlu'r egwyddorion hyn mewn ymgynghoriad ag ysgolion a gynhelir gan yr ALl, sefydliadau addysg bellach yn eu hardal, ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol yn nhyb yr ALl. Dylid defnyddio'r Dogfennau Egwyddorion hyn i lywio proses gwneud penderfyniadau'r ALl ac ysgolion.

Mae gwaith ar y gweill yn yr Awdurdodau Lleol hynny nad ydynt eto wedi cyhoeddi eu Dogfennau Egwyddorion, i wneud hynny yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf. Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at Awdurdodau Lleol yn yr hydref i'w hatgoffa o'u cyfrifoldebau o dan y Cod ADY.

## 4. Gweithio ar y cyd rhwng llywodraeth leol ac iechyd

Nod y system ADY yw gwella cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau i sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu nodi'n gynnar a' bod yn cael y cymorth cywir i gyflawni canlyniadau cadarnhaol.

Mae pob Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i weithio rhyngasiantaethol ac wedi penodi Swyddogion Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig. Mae cydgysylltu mewnbwn y maes iechyd i'r broses ADY yn cael ei arwain gan y Swyddogion Arweiniol hyn, sy'n gweithio o fewn y Byrddau Iechyd i sefydlu gweithdrefnau i sicrhau ymatebion priodol ac amserol ar draws y Byrddau Iechyd ar gyfer ceisiadau gan addysg ar gyfer asesu, a darparu Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol y cytunwyd arno.

Maent yn hyrwyddo'r dull Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn ar draws meysydd iechyd ac addysg, ac wedi sefydlu perthnasoedd gwaith da. Maent yn canolbwyntio ar ddatblygu dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer adrodd ar gynnydd tuag at sicrhau darpariaeth briodol i blant a phobl ifanc ag ADY a fyddai'n elwa o DDdY iechyd.

Mae ymdrechion sylweddol yn cael eu cyfeirio at weithio amlasiantaeth. Mae pob Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i ddarparu cymaint o gymorth ag sy'n ymarferol i Awdurdodau Lleol ac ysgolion ac i gydweithio â nhw i ddeall sut orau i gefnogi unigolion a'u teuluoedd.

Mae rhai pryderon ynghylch rhoi ADY ar waith/ a'i ymwreiddio wedi'u nodi, ond mae strwythurau ar gael i gryfhau'r disgwyliad o weithio rhyngbroffesiynol o ansawdd da rhwng cyrff sy'n atebol ar y cyd ym meysydd addysg ac iechyd. Y disgwyliad yw bod yn rhaid bodloni amserlenni statudol ADY oni bai bod amgylchiadau eithriadol neu os oes oedi y cytunwyd arno er mwyn cael gwybodaeth ychwanegol mewn achosion cymhleth. Mae swyddogion ym maes Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio gyda'r Swyddogion Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig i gryfhau Dangosyddion Perfformiad Allweddol a threfniadau monitro.

Fel y nodwyd yn eich llythyr, nid oes angen diagnosis meddygol i gael mynediad at gymorth mewn addysg nac i lywio penderfyniad ar anghenion dysgu ychwanegol

dysgwr. Mae paratoi CDU gan yr ysgol, wedi'i seilio ar anghenion a ddangosir a nodwyd gan broses gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae CDU yn cael ei adolygu'n flynyddol ac yn cyflwyno nifer o gyfleoedd ar gyfer mewnbwn o ran iechyd.

30 Awst 2023

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Sharon Davies, Pennaeth Addysg
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cc: Pierre Bernhard-Grout, Swyddog Cyswllt/Polisi
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru

Cc: Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

17 Gorffennaf 2023

**Gweithredu diwygiadau addysg (ail Sesiwn gysylltu)**

Annwyl Sharon,

Efallai y gwyddoch fod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cynnal Ymchwiliad dros gyfnod y Senedd i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru a'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd. Rydym yn gwneud hyn drwy gyfres o 'sesiynau cysylltu' i ystyried cynnydd ac unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg a materion wedi'u sefydlu sy'n gysylltiedig â'i gweithredu.

Fel rhan o’n hail ymarferiad cysylltu fe wnaethom ymweld â sawl ysgol, cynhaliwyd grwpiau ffocws gydag ymarferwyr a chynhaliwyd sesiwn graffu gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar 10 Mai 2023. Cawsom hefyd amrywiaeth o dystiolaeth ysgrifenedig gan randdeiliaid.

Manteisiaf ar y cyfle hwn i’ch atgoffa y gallwch gyflwyno’ch barn inni mor aml ag y dymunwch, ar unrhyw adeg, ac am unrhyw fater sy’n ymwneud â diwygio addysg.

## Rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (DECLO)

Mae’r Pwyllgor yn awyddus i ddysgu rhagor am gydweithio o dan y system ADY newydd rhwng awdurdodau lleol, ysgolion, a byrddau iechyd. Mae gwelliannau o ran cydweithredu o'r fath yn un o fuddion arfaethedig y system newydd. Mae’r rôl statudol Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg newydd y mae'n ofynnol i fyrddau iechyd lleol ei ddynodi yn rhan allweddol o gyflawni hyn.

Rydym wedi clywed rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd am ysgolion ac awdurdodau lleol yn ei chael hi'n anodd cael mewnbwn y gwasanaethau iechyd, ac weithiau'n gorfod ysgrifennu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) os nad oes mewnbwn a gwybodaeth o'r fath ar gael gan y GIG lle mae angen mawr am hyn.

Byddem yn ddiolchgar o gael eich barn ar hyn, ac i ba raddau y mae'r system ADY newydd wedi arwain at y gwelliannau arfaethedig i gydweithio rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a'r GIG. Er enghraifft, faint o wahaniaeth y mae rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg statudol yn ei wneud ar lawr gwlad?

## Rolau ysgolion ac awdurdodau lleol mewn perthynas â Chynlluniau Datblygu Unigol.

Pwynt arall sydd wedi bod yn rhan o'n gwaith craffu yw'r cydbwysedd rhwng Cynlluniau Datblygu Unigol y mae ysgolion yn gyfrifol amdanynt a'r rhai y mae awdurdodau lleol yn gyfrifol amdanynt. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn datgan y dylai awdurdod lleol fod yn gyfrifol am baratoi a chynnal Cynllun Datblygu Unigol pan na all ysgol wneud hyn yn ddigonol, neu nad yw'n rhesymol iddi wneud hynny.

Mae'r Cod ADY yn nodi rhai meini prawf ar gyfer sut y gellid dehongli hyn, ac mae'n rhagweld y bydd awdurdodau lleol yn sefydlu ac yn cyhoeddi cyfres o egwyddorion y byddant yn eu defnyddio wrth benderfynu a yw'n rhesymol i ysgol yn hytrach na'r awdurdod lleol fod â chyfrifoldeb. Dywedodd y Gweinidog wrthym ar 10 Mai fod tua hanner yr awdurdodau lleol wedi gwneud hyn hyd yma a'i fod yn rhagweld y byddai'r gweddill yn gwneud hyn erbyn diwedd tymor yr haf.

Byddem yn gwerthfawrogi cael eich sylwadau ar sut y mae'r agwedd hon ar y diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gweithio'n ymarferol, pa mor aml y ceir safbwyntiau gwahanol rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol ynghylch pwy ddylai fod yn gyfrifol am Gynlluniau Datblygu Unigol, a diweddariad ar gynnydd awdurdodau lleol o ran cyhoeddi'r gyfres o egwyddorion i roi arweiniad o ran sut y byddant yn gwneud penderfyniadau o'r fath.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r llythyr hwn erbyn 31 Awst 2023 fan bellaf.

Rydym wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, pe baech yn dymuno anfon ymateb ar y cyd. Rydym hefyd wedi anfon copi at Weinidog y Gymraeg ac Addysg.

Yn gywir,

Jayne Bryant

Jayne Bryant AS

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Nesta Lloyd-Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol
Conffederasiwn GIG Cymru

Cc: Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Cc: Julie Morgan AS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

17 Gorffennaf 2023

**Gweithredu diwygiadau addysg allweddol (ail wiriad)**

Annwyl Nesta,

Mae'n bosibl eich bod yn ymwybodol bod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cynnal ymchwiliad dros dymor cyfan y Senedd i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru a'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd. Rydym yn gwneud hyn drwy gyfres o 'wiriadau' i ystyried cynnydd a materion sefydledig a rhai sy'n dod i'r amlwg sy'n gysylltiedig â gweithredu.

Fel rhan o'n hail wiriad, aethom i ymweld â nifer o ysgolion, cynnal grwpiau ffocws gydag ymarferwyr a chynnal sesiwn graffu gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar 10 Mai 2023. Rydym hefyd wedi cael amrywiaeth o dystiolaeth ysgrifenedig gan randdeiliaid.

Rwy'n achub ar y cyfle hwn i'ch atgoffa y gallwch gyflwyno eich barn i ni mor aml ag yr hoffech, ar unrhyw adeg, ac am unrhyw fater sy'n ymwneud â diwygio addysg.

## Rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA)

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddysgu mwy am gydweithio dan y system ADY newydd rhwng awdurdodau lleol, ysgolion a byrddau iechyd. Mae gwelliannau mewn cydweithio o'r fath yn fudd arfaethedig o'r system newydd. Mae rôl statudol newydd y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA) y mae'n ofynnol i fyrddau iechyd lleol ei dynodi yn rhan allweddol o gyflawni hyn.

Byddem yn ddiolchgar am eich safbwynt ynghylch i ba raddau y mae'r system ADY newydd wedi arwain at y gwelliannau arfaethedig i gydweithio rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a'r GIG. Er enghraifft, faint o wahaniaeth y mae rôl statudol y SACDA yn ei wneud ar lawr gwlad?

## Dyletswyddau statudol cyrff y GIG

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG ystyried a oes triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd wrth ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol y plentyn neu'r person ifanc, pan fo awdurdod lleol yn gofyn iddynt wneud hynny. Pan fo corff y GIG yn dod i'r casgliad bod triniaeth neu wasanaeth o'r fath, mae'n ofynnol iddo ei sicrhau i’r plentyn neu'r person ifanc.

Mae'r Cod ADY hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG ymateb i gais i ystyried a oes triniaeth neu wasanaeth sy'n debygol o fod o fudd i'r plentyn, neu gais am wybodaeth neu help wrth benderfynu sut i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol y plentyn, o fewn chwe wythnos. Eithriad i'r amserlen chwe wythnos yw pan fo'n anymarferol i gorff y GIG wneud hynny oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

Rydym wedi clywed rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd o ysgolion ac awdurdodau lleol yn cael trafferth cael mewnbwn gwasanaethau iechyd ac weithiau'n gorfod ysgrifennu Cynlluniau Datblygu Unigol yn niffyg mewnbwn a gwybodaeth o'r fath gan y GIG pan fo angen mawr am hyn.

Byddem yn ddiolchgar am eich safbwynt ynghylch i ba raddau y mae cyrff y GIG yn cydymffurfio'n llawn â'u dyletswyddau statudol i sicrhau darpariaeth pan fyddant yn ystyried ei bod yn debygol o fod o fudd, ac i roi gwybodaeth a help wrth asesu anghenion dysgwyr a nodi darpariaeth addas.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r llythyr hwn erbyn 31 Awst 2023 fan bellaf.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Weinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Children, Young People and Education Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

Dear Chair,

Thank you for the opportunity to provide evidence as part of a ‘check in’ in your inquiry into the implementation of the Curriculum for Wales and the new Additional Learning Needs (ALN) system. The following response was prepared on behalf of the seven Health Boards by the four Designated Education Clinical Lead Officers (DECLOs) and has been submitted by the Welsh NHS Confederation.

**Question 1**

*We would be grateful for your perspective on the extent to which the new ALN system has brought about the intended improvements to joint working between schools, local authorities and the NHS. For example, how much of a difference is the statutory DECLO role making on the ground?*

There has been a long and positive history of joint working between a range of NHS health services, education settings and Local Authorities prior to the advent of the Additional Learning Needs and Education Tribunal Act (ALNET) and the introduction of the DECLO role. This is evident in the range of services providing interventions in education settings including therapy, nursing, psychology as well as medical services. In addition, some Local Authorities and education settings have commissioned services from NHS Wales to provide enhanced partnership working. Without question, the ALN Transformation Programme and the implementation of the ALNET Act has brought a renewed energy and shared commitment to further improve collaborative working. Health Boards and their partner Local Authorities have remodelled existing processes and developed new approaches to meet the statutory requirements of the ALNET Act and to support its underpinning principles.

There are four DECLOs in post covering the seven Health Boards in Wales. The appointments of the majority of the DECLOs during the winter of 2020-2021, meant that they joined part-way through the ALN Transformation Programme (2018 –2022). The implementation of the ALNET Act started in September 2021.

The DECLO post is a strategic role. Each DECLO has strong links with multiagency groups at a strategic level (with variation across Wales due to differing local structures). DECLOs are often members of relevant sub-groups of the Regional Partnership Boards in addition to being integral members of well-established Regional ALN Strategic Groups (involving Health Boards, Local Authorities and Further Education Institutes). The Regional ALN Strategic Groups have functioned as one of the mechanisms for joint working under the ALNET Act with ‘flow through’ to groups supporting operational delivery.

Due to the strategic nature of the DECLO role, the DECLO is not directly involved in operational matters ‘on the ground’. However, DECLOs have built upon existing approaches to establish processes through which Health Board operational services collaborate with education partners under the ALNET Act. They have also worked hard to be visible to education settings via a range of means including attendance at ALNCO and Special School

fora, visits to individual education settings, delivering training, supporting contact with services, and presenting at education conferences. In addition, DECLOs serve as a central point of contact for education colleagues within their respective Health Boards, channelling enquiries to the relevant service/department/speciality and supporting joint problem solving. Whilst the aim is to build upon DECLO interaction and visibility to education settings as part of their role, any work of this nature must be framed within a context of size and scale. The ratio of DECLOs to Local Authority-maintained schools is approximately 1:365 (based on 1463 Local Authority maintained schools in Wales as sourced via the Schools' census result: January 2023 (revised)). Since their appointment, the DECLOs have received feedback from a variety of sources highlighting the value of the DECLO as a point of contact and support for developing joint solutions between Education and Health Boards, facilitating improved collaboration.

As mentioned above, joint working between Education and Health Boards has a long history for all learners who have a health need, regardless of whether they have ALN. With the facilitation, co-ordination and oversight of the DECLOs, operational NHS services are building upon this good collaborative working under the ALNET Act. However, it needs to be recognised that their endeavours in this area have been impacted by the legacy of the pandemic. Many services now have long waiting times which they did not previously have; increased referral rates; and Health Boards face severe financial pressures requiring services to deliver cost improvement plans despite waiting time challenges, increased demand and the new requirements of the ALNET Act.

In relation to the ALNET Act, a particular and growing demand on services is attendance at person-centred meetings (PCMs) to either support the identification of ALN and the subsequent development of an IDP, or for the review of the IDP. This has the greatest impact on children's therapy services. While attending PCMs is not a statutory requirement for Health Board staff under the ALNET Act, in practice attendance is often vital to ensure a truly joined-up and person-centred approach to meeting a child or young person's additional learning needs. The value of such meetings in supporting better outcomes and better experiences for children, young people and their families is becoming increasingly clear. However, this places an additional demand on stretched NHS services that needs to be recognised. Preliminary evidence from one Health Board in Wales, based upon the number of PCM invitations received by one service during the academic year 2021-2022, showed that 465 clinic appointments would have been lost if all PCMs had been attended. It should be noted that whilst invitations to annual reviews under the previous SEN legislation were for a proportion of the 2-3% of statemented pupils (i.e. those with significant healthcare needs), the percentage of pupils with ALN is likely to be close to 15%, with a significant proportion of these having healthcare needs that are relevant to their ALN. This is based on recent data showing that 13.5% of pupils currently have either SEN or ALN (Schools' census result: January 2023 (revised), published 16/08/2023).

To re-iterate: the benefits of NHS professionals' participation in these meetings to support children and young people getting to their person-centred outcomes is becoming increasingly clear. Positive feedback regarding the involvement of NHS professionals in PCMs has been received from NHS professionals, education partners and children and their families. However, it needs to be recognised that operational NHS services are required to manage this additional demand within existing resources, requiring difficult decisions to be made about the relative prioritisation of effective collaborative working through the ALNET Act and the provision of clinical services to children and young people.

**Question 2**

*We would be grateful for your perspective on the extent to which NHS bodies are fully complying with their statutory duties to secure provision where they consider it is likely to be of benefit, and to provide information and help in the process of assessing learners' needs and identifying suitable provision.*

Statutory duties for Health Boards under the ALNET Act include the duty to comply with section 65 requests from Local Authorities and the duty to respond to section 20 referrals from Local Authorities and Further Education Institutes. There are no statutory duties for Health Boards in relation to section 65 requests made by education settings, and section 20 referrals cannot be made by schools. This, however, is not always understood by all stakeholders, as evidenced via feedback received. This can lead to misalignment of expectations.

To address the question above, the response has been broken down into two parts, firstly addressing statutory requirements under section 20 of the Act before turning to requirements under Section 65. Some final thoughts are offered in closing.

*Securing of NHS ALP and identifying suitable provision (section 20 of the ALNET Act):*

Health Boards have a statutory duty to respond to referrals from Local Authorities under section 20 of the Act requesting them to consider whether there is a relevant treatment or service that is likely to be of benefit in addressing a child or young person's ALN. The DECLOs, in collaboration with Education partners, have developed a national approach to what constitutes NHS ALP and how this is captured within IDPs. Any NHS Additional Learning Provision identified through a section 20 referral is a treatment or service that the NHS would normally provide as part of the comprehensive Health service in Wales in accordance with the NHS (Wales) Act 2006 (c42). The statutory duty on Health Boards to secure the relevant identified treatment or service becomes active once the final IDP is issued. Based upon the evidence available, the number of section 20 referrals received from Local Authorities varies significantly between Health Boards across Wales. Evidence that is available demonstrates that section 20 referrals are responded to in most cases within the statutory six-week timeframe and that NHS ALP is secured, unless exceptional circumstances apply. However, it should be noted that there are currently some gaps in the data that is available, for reasons that are outlined below (Final Remarks).

| | Chynghorwyr Pobl Ifanc a'r broses cynllunio llwybr;<br>• yr effeithiau tebygol ar lwyth gwaith cyfunol Cynghorwyr Pobl Ifanc yn sgil y diwygiadau a nodir yn yr adroddiad hwn (yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â therfyn oedran uchaf ar gyfer cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal a'r rhai sy'n ymwneud â gwasanaethau eiriolaeth optio allan ar gyfer plant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal); ac<br>• unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen o ganlyniad. | | cadarnhau na fydd yr adolygiad yn effeithio ar yr ymrwymiad hirsefydlog i estyn y gefnogaeth hon hyd at 25 oed, rhywbeth y galwodd fy Swyddfa amdano yn 2017, ond sy'n dal heb ddigwydd.<br><br>Hoffwn weld yr adolygiad hwn yn archwilio materion adnoddau a chapasiti er mwyn canfod ffordd i estyn y ddarpariaeth hon mewn modd cynaliadwy.<br><br>Deddfu yn y maes hwn yw'r unig ffordd i sicrhau hawl pobl ifanc i gefnogaeth barhaus. Er bod awdurdodau lleol wedi cael cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu'r gefnogaeth hon yn y cyfamser, mae achosion a dderbyniwyd gan wasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor fy Swyddfa yn parhau i ddangos nad yw cynnig cefnogaeth hyd at 25 oed i bawb sy'n gadael gofal wedi ymsefydlu nac wedi dod yn arfer safonol. Byddai |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | newidiadau i'r ddeddfwriaeth hefyd, o ganlyniad, yn golygu bod pawb hyd at 25 oed sy'n gadael gofal yn dod o fewn cwmpas fy swyddfa o ran darparu cyngor a chefnogaeth, gan fod hynny ar hyn o bryd wedi'i gysylltu â'r hawliau a geir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. |
| Derbyn yn rhannol | Argymhelliad 4.<br><br>Mae'r Pwyllgor yn argymell:<br><br>Fel rhan o'r diwygiadau ymbarél i rianta corfforaethol (gweler diwygiad radical #3), dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sy'n gwneud darpariaeth benodol yn ymwneud â rhianta corfforaethol. Dylai'r ddeddfwriaeth:<br>• nodi pa gyrff sy'n cael eu hystyried yn 'rhieni corfforaethol', gan gynnwys o leiaf awdurdodau lleol, byrddau iechyd, ymddiriedolaethau'r GIG, Gweinidogion Cymru, Comisiynydd | Bydd Llywodraeth Cymru yn annog pob corff cyhoeddus a phreifat i gofrestru i fod yn rhieni corfforaethol drwy'r Siarter Rhianta Corfforaethol a gyhoeddwyd ar 29 Mehefin. Ni fydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn yr un modd â'r awdurdodau lleol, y byrddau iechyd lleol neu'r sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach y bydd yn eu hariannu a'u rheoleiddio. Felly, mae cwestiwn ynghylch a fyddai'n gorff addas i fod yn 'rhiant corfforaethol' ar sail statudol fel y disgrifir yn yr adroddiad. Fodd bynnag, bydd gan y Comisiwn ei gyfrifoldebau statudol ei hun ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal (gweler yr ymateb i argymhelliad 27 isod), ac rydym yn rhagweld y bydd yn un o lofnodwyr y Siarter Rhianta Corfforaethol. I gefnogi'r Siarter, bydd Llywodraeth Cymru yn cryfhau canllawiau gan gynnwys pennod benodol ar rianta corfforaethol i gefnogi | Rwy'n cefnogi'r argymhelliad hwn i osod cyfrifoldebau rhianta corfforaethol ar sail statudol. Yn 2020-21 a 2021-22, cyflwynodd fy Swyddfa argymhellion i Lywodraeth Cymru i gefnogi gweithredu'r Siarter Rhianta Corfforaethol trwy gyflwyno newid deddfwriaethol a rheoliadau i gefnogi sefydliadau i gydymffurfio â'u dyletswyddau.<br><br>Mewn ymateb i'n hargymhellion, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi sicrwydd y byddan nhw'n newid Canllawiau Rhan 6 fel rhan o'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Plant Cymru, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a chyrff eraill fel y gwêl Llywodraeth Cymru yn dda ar ôl ymgynghori;<br>• nodi'r dyletswyddau cyffredinol a osodir ar bob rhiant corfforaethol, gan gynnwys o leiaf ddyletswyddau i: baratoi a chyhoeddi cynlluniau sy'n ymwneud â'u gwaith fel rhieni corfforaethol; gweithio ar y cyd lle byddai gwneud hynny yn diogelu neu'n hyrwyddo lles y plentyn neu'r person ifanc; cyhoeddi adroddiadau ar sut y maent wedi arfer eu cyfrifoldebau rhianta corfforaethol; darparu gwybodaeth y gofynnir amdani yn rhesymol i Weinidogion Cymru; a dilyn canllawiau neu gyfarwyddiadau a gyhoeddir gan y Gweinidogion;<br>• cyd-fynd â dyletswyddau ac argymhellion rhianta corfforaethol penodol pellach yn erbyn yr adrannau perthnasol yn yr adroddiad hwn. Gweler: iechyd meddwl (tudalen 48), tai (tudalen 127) ac addysg uwch (tudalen 134). | awdurdodau lleol yn eu rôl fel rhieni corfforaethol yn y Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn ogystal, bydd gwaith yn cael ei wneud ar draws y llywodraeth i nodi pa rai o'r canllawiau y gellid eu cryfhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Siarter gan gyrff cyhoeddus ehangach. | gwaith hwn, ac yn defnyddio 'bachau deddfwriaethol' i gryfhau'r trefniadau gyda iechyd. Heb weld y cynigion, mae'n anodd penderfynu a fydd hynny'n ddigonol i sicrhau cydymffurfiaeth gyson â'r Siarter.<br><br>Yn yr hinsawdd presennol o wasgu ar gyllidebau gwasanaethau cyhoeddus, mae'n anochel y bydd sefydliadau'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n ofynnol ganddynt o ran eu dyletswyddau statudol. Er bod egwyddorion y Siarter Rhianta Corfforaethol i'w croesawu, efallai nad yw'n realistig credu y bydd hynny'n creu newid gweladwy yn arferion gwaith sefydliadau yn y cyd-destun hwn, heb fod gofyn i asiantaethau gyflawni rhai camau y tu hwnt i gytuno â chyfres o egwyddorion.<br><br>Wedi dweud hynny, mae fy Swyddfa wrthi ar hyn o bryd yn dangos sut bydd ein sefydliad yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cynnal egwyddorion y Siarter yn llwyr, ac yn trosi'r egwyddorion yn gamau gweithredu amlwg a fydd yn dangos ein hymrwymiad llawn i wella profiadau'r bobl ifanc hyn. |
| | Argymhelliad 5.<br><br>Mae'r Pwyllgor yn argymell:<br><br>Fel rhan o'r diwygiadau ymbarél i rianta corfforaethol (gweler diwygiad radical 3), dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sy'n rhoi i bob plentyn sydd â phrofiad o fod mewn gofal yr hawl i gael gwasanaeth cymorth iechyd meddwl therapiwtig arbenigol. Dylai fod ganddynt yr hawl statudol i gael eu hanghenion wedi'u hasesu yn gyfnodol ac i'r anghenion hynny gael eu diwallu. Dylai'r gwasanaeth hwnnw fod ar gael o'r pwynt lle maent yn cael eu tynnu oddi ar eu rhieni geni i o leiaf y pwynt lle maent yn peidio â chael | Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod effaith yr heriau sy'n wynebu plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gan gynnwys y potensial i gael eu trawmateiddio ymhellach gan y systemau sydd yno i'w cefnogi os na ddarperir gwasanaethau'n effeithiol. O safbwynt iechyd meddwl, mae gan bob plentyn yng Nghymru hawliau cyfartal i fynediad at wasanaethau cymorth iechyd meddwl therapiwtig arbenigol o dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl gyfredol. Mae Mesur Iechyd Meddwl (2010) wedi sefydlu hawliau cadarnhaol i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, p'un a ydynt wedi cael diagnosis ai peidio, gael cymorth yn ddigon cynnar er mwyn osgoi'r risg o'u hiechyd meddwl yn dirywio ymhellach. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall plant mewn gofal wynebu heriau ychwanegol a chymhleth mewn perthynas â'u hiechyd meddwl a'u lles ac mae angen gwneud mwy i ymyrryd yn gynnar ac atal, cyn belled ag y bo'n ymarferol, y nifer anghymesur o blant sy'n derbyn gofal sydd angen cymorth gan wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) | Mae'r argymhelliad hwn yn cyfateb i'r hawl sydd gan blant yn Erthygl 39 o CCUHP, lle nodir bod rhaid i blant sydd wedi profi esgeuluso, camdriniaeth neu ecsbloetio dderbyn cefnogaeth arbenigol i'w helpu i ymadfer.<br><br>Un o flaenoriaethau strategol allweddol fy Swyddfa yw herio'r diffyg cefnogaeth iechyd meddwl addas wrth baru anghenion plant a phobl ifanc yng Nghymru.[4]<br><br>Er fy mod yn cydnabod y dylai fod gan bob plentyn yng Nghymru hawliau cyfartal wrth gael mynediad i wasanaethau, realiti'r sefyllfa yn achos rhai |

[4] https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2023/05/ThreeYearStrategy_ENG.pdf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | eu diffinio fel ymadawyr gofal. Dylai fod ar wahân ac yn annibynnol ar y gwasanaethau iechyd meddwl presennol, a dylai arbenigo mewn cymorth iechyd meddwl sy’n ystyriol o drawma. | a chymorth iechyd meddwl arbenigol. Rydym wedi datblygu’r fframwaith NYTH, sef adnodd i helpu darparwyr gwasanaethau i ddatblygu a darparu gwasanaethau sy’n eu galluogi i “ddal ymlaen” ar fabanod, plant a phobl ifanc gyda chymorth oedolion y gellir ymddiried ynddynt, sydd wedi’u hyfforddi’n briodol, sy’n ystyriol o drawma ac sydd â mynediad rhwydd at arbenigedd. Nod y fframwaith yw creu dull system gyfan gyda gwasanaethau’n integreiddio ac yn gweithio gyda’i gilydd fel y gellir cydlynu adnoddau ac arbenigedd i nodi a darparu’r cymysgedd cywir o wasanaethau sydd eu hangen i ddiogelu iechyd a lles y plentyn hwnnw. Drwy fenter leol a chyda chefnogaeth y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol rydym eisoes yn gweld rhai enghreifftiau rhagorol o wasanaethau’n dod at ei gilydd i ddarparu cefnogaeth gyfannol fel hyn. Mae gwaith bellach ar y gweill i ddatblygu manyleb gwasanaeth ar gyfer CAMHS a fydd yn nodi disgwyliadau’r llywodraeth ar gyfer CAMHS yng Nghymru, a sut mae’n gweithio gyda gwasanaethau eraill i sefydlu’r trefniadau angenrheidiol i ddarparu gofal integredig. Bydd y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Plant yn nodi ein disgwyliadau tebyg ar gyfer awdurdodau lleol o ran integreiddio. Fel rhan o hyn a chan dynnu ar yr arferion gorau yr ydym eisoes yn eu gweld ledled Cymru, ein huchelgais yw y gallwn nodi dull cyson gan ddefnyddio egwyddorion allweddol NYTH o ddarparu gofal amserol, integredig sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn i bob plentyn sy’n derbyn gofal yng Nghymru. | plant, yn enwedig plant mewn gofal a all fod wedi newid lleoliad sawl tro, yw bod perygl na sylwir ar eu hanghenion, neu na chânt atgyfeiriad i wasanaethau. Gall hynny ddigwydd os bydd plant allan o’r ysgol am gyfnod, neu’n symud ar draws ffiniau byrddau iechyd.<br><br>Wrth i fanyleb y gwasanaeth CAMHS gael ei ddatblygu, mae cyfle i archwilio modelau newydd o gefnogaeth iechyd meddwl ac emosiynol integredig ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Dylid ystyried sut gellir alinio gwasanaethau i ddarparu cefnogaeth gadarn. Byddwn i’n croesawu cyfle i weld drafft o Fanyleb y Gwasanaeth a deall mwy o fanylion ynghylch sut bydd hynny’n cyfrannu at wella mynediad at wasanaethau i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | I grynhoi, mae gennym waith eisoes ar y gweill a fydd yn cryfhau cefnogaeth i blant a phobl ifanc, ond heb yr angen am ddeddfwriaeth newydd. | |
| | Argymhelliad 7.<br><br>Mae'r Pwyllgor yn argymell:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sy'n rhoi i bob rhiant geni sydd â phrofiad o fod mewn gofal yr hawl statudol i gael cymorth cofleidiol dwys er mwyn lleihau'r risg y bydd plant yn cael eu tynnu o'u gofal. Dylai'r cymorth gynnwys eiriolaeth rhieni arbenigol i lywio'r systemau gofal cymdeithasol a llysoedd teulu, a dylid ei fodelu ar wasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth megis Project Unity NYAS. Dylai'r cymorth fod ar gael o'r sgan 12 wythnos o feichiogrwydd (neu'r pwynt cynharaf ar ôl 12 wythnos lle mae beichiogrwydd hyfyw yn cael ei gadarnhau). Os caiff plentyn ei dynnu oddi ar ei rieni geni yn y pen draw, dylai'r cymorth barhau y tu hwnt i dynnu'r plentyn i gefnogi'r rhieni geni i ddod i delerau â'u colled. | Mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu ymyrraeth gynnar ac atal fel rhan o waith y Bwrdd Plant a'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant yng Nghymru, a bydd yn parhau i wneud hynny. Rydym yn gwybod bod prosiectau fel Project Unity yn chwarae rhan werthfawr wrth ddarparu cymorth emosiynol ac ymarferol i famau sydd â phrofiad o fod mewn gofal, ac mae Llywodraeth Cymru wedi gallu darparu cyllid blynyddol o £340,000 ar gyfer y rhaglen tan 2025, sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i gefnogi mamau sydd â phrofiad o fod mewn gofal a chadw teuluoedd gyda'i gilydd lle bynnag y bo modd. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad mewn egwyddor a bydd yn ystyried ac yn archwilio'r gofynion fel rhan o gyflawni'r Rhaglen Trawsnewid.<br><br>Goblygiadau ariannol: Oes, byddai angen edrych yn fanylach ar gostau o'r fath a gallent fod yn sylweddol. | Mae lleihau nifer y plant sy'n mynd i ofal wedi bod yn uchelgais i Lywodraeth Cymru ers cyfnod hir.<br><br>Ers cychwyn yn swydd y Comisiynydd, rwyf wedi bod yn awyddus i ddeall mwy am sut mae'r cyfeiriad polisi hwn yn cael ei gyflawni ar lefel awdurdod lleol. Er enghraifft, pa ddulliau gweithredu neu fentrau cymunedol sydd ar waith i wella'r hyn a gynigir i deuluoedd ar ffiniau gofal?<br><br>Er fy mod i'n cefnogi'r egwyddor y tu ôl i'r argymhelliad, bydd gallu adeiladu darlun o'r gefnogaeth sydd eisoes ar gael yn werthfawr er mwyn nodi bylchau yn y gefnogaeth, a chanfod arfer arloesol.<br><br>Byddwn i'n croesawu rhannu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | deilliannau cadarnhaol ac enghreifftiau o atgyfnerthu ymarfer fel rhan o adroddiadau Llywodraeth Cymru ar eu gwaith yn cyflawni diwygiadau radical. Er enghraifft, rhannu gwybodaeth am fentrau cymunedol a alluogwyd trwy eu llifoedd ariannu.<br><br>Mae hefyd yn bwysig nodi bod gwaith arall yn cael ei wneud yn y gofod hwn, megis Adolygiad Cyflym AGC o Drefniadau Amddiffyn Plant, a fydd yn cyfrannu gwersi pwysig o ran sut gwneir penderfyniadau ynghylch ychwanegu plant at y gofrestr amddiffyn plant neu eu tynnu oddi arni. Ymhellach, roedd Argymhelliad 2 yn Adolygiad Amddiffyn Plant Logan Mwangi yn galw ar Lywodraeth Cymru i “ystyried comisiynu adolygiad Cymru gyfan o ddulliau gweithredu wrth gynnal Cynadleddau Amddiffyn Plant, er mwyn canfod dulliau effeithiol o gadeirio/hwyluso, ffyrdd o |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | sicrhau presenoldeb a chyfranogiad amlasiantaeth llawn, a nodi arfer gorau".[5] Eto, gallai diweddariad ar gynnydd yr argymhelliad hwn helpu i lywio sut mae modd gwella ymarfer i gefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd. |
| | Argymhelliad 8.<br><br>Mae'r Pwyllgor yn argymell:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau mynediad cyffredinol, cenedlaethol at wasanaethau ar ffiniau gofal/ymyrraeth gynnar/ataliol llwyddiannus, megis Babi a Fi Barnardo's, sydd wedi dangos eu bod yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd plant yn gallu aros gyda'u rhieni geni. Hyd nes y bydd awdurdodau lleol yn gallu adennill manteision cost hirdymor y gwasanaethau hyn, dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu model ariannu cynaliadwy, hirdymor | Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn ac yn cydnabod y gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud gan wasanaethau ar ffiniau gofal, megis Babi a Fi, Reflect a Jig-So Barnardo's a'r budd y mae'r rhaglenni hyn yn ei gynnig i rieni newydd, gan gynnwys pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r gwerthusiad o'r prosiectau hyn wrth benderfynu ar y camau nesaf a'r hyn a gaiff ei gyflwyno yn y dyfodol.<br><br>Goblygiadau ariannol: Oes, bydd cefnogaeth barhaus Llywodraeth Cymru i'r prosiectau hyn yn gofyn am adolygiad ariannol. | Rwy'n croesawu'r ymrwymiad i gynnal adolygiad, ond byddwn i'n hoffi gweld amserlenni ar gyfer pryd cynhelir yr adolygiad, i osgoi cyfnodau yn ystod y gwerthuso pan na fydd gwasanaethau ar gael.<br><br>Byddwn i hefyd yn annog cynnal asesiadau effaith ar hawliau plant i lywio unrhyw newidiadau o ran cyfeiriad polisi neu gefnogaeth. Bydd nodi'r manteision a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol trwy'r asesiad effaith ar hawliau plant yn cryfhau unrhyw benderfyniad polisi a wneir, heb |

[5] https://www.cwmtafmorgannwgsafeguardingboard.co.uk/En/NewsEvents/pdfs/ChildPracticeReviewCTMSB042021ChildTFinalReportEMBARGOED.pdf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cenedlaethol ar eu cyfer, gan gydnabod eu potensial o ran budd ariannol ar draws gwahanol gyrff gwasanaethau cyhoeddus. | | sôn am y ffaith bod gofyn i Lywodraeth Cymru gynnal asesiad o'r fath wrth ymarfer eu swyddogaethau/wneud penderfyniadau. Mae hynny'n cynnwys unrhyw benderfyniad i beidio â pharhau â chynnig neu gefnogaeth penodol. |
| | Argymhelliad 10.<br><br>Mae'r Pwyllgor yn argymell:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i roi hawl statudol i rieni geni gael 'cynnig gweithredol' o weithiwr cymorth annibynnol pan fydd y plentyn yn cael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant neu ei wneud yn destun rhag-achos i'w cefnogi i gael mynediad at wasanaethau ymyrraeth gynnar a llywio'r system gofal cymdeithasol a llysoedd teulu. Os caiff plentyn ei dynnu oddi ar ei rieni geni yn y pen draw, dylai'r cymorth barhau y tu hwnt i dynnu'r plentyn i gyfeirio'r rhieni geni at wasanaethau a all eu helpu i ddod i delerau â'u colled. | Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid blynyddol o £300,000 i'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol i ddarparu Rhaglen Eiriolaeth Rhieni yng Ngwent, drwy ein Cynllun Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Mae'r Rhaglen yn paru rhieni ag eiriolwyr sy'n eu cynorthwyo i ddeall y ddeddfwriaeth, y prosesau a'r systemau sydd ynghlwm â'r broses gofal ac amddiffyn plant. Yn ogystal, mae eiriolwyr yn helpu rhieni i gyfathrebu â gweithiwr cymdeithasol eu plentyn. Bydd y Rhaglen yn rhedeg tan 2025. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn nodi ein bod wedi ymrwymo i ehangu'r ddarpariaeth o wasanaethau eiriolaeth i gefnogi rhieni y mae eu plant ar gyrion gofal, gan helpu i osgoi'r angen am ymyrraeth gan wasanaethau cymdeithasol statudol, atal anghenion rhag gwaethygu a lleihau'r risg y bydd plant yn ymuno â'r system ofal.<br><br>Rydym yn buddsoddi o leiaf £1.5 miliwn o gyllid dros y tair blynedd nesaf, drwy'r Gronfa Newid ar gyfer Plant sydd â Phrofiad o fod mewn Gofal. Bydd y cyllid hwn yn | Fel uchod, mae angen dealltwriaeth o'r gefnogaeth leol sydd ar gael ac yn cael ei chynnig i deuluoedd.<br><br>Byddai ymrwymiad i gynnal asesiad effaith ar hawliau plant i'w groesawu, er mwyn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hystyried yn systematig wrth lywio penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch y cynllun eiriolaeth rhieni. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cael ei ddefnyddio i ehangu prosiectau presennol sy'n ymwneud ag eiriolaeth rhieni yn rhanbarthol ac i sicrhau bod gwasanaethau newydd yn cael eu sefydlu ym mhob un o'r saith rhanbarth yng Nghymru fel rhan o broses gyflwyno genedlaethol. Er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau'n gyson ar hyd a lled Cymru fel rhan o broses gyflwyno genedlaethol, rydym yn datblygu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Rhieni gyda phartneriaid yn y trydydd sector. Mae hyn yn disgrifio meini prawf craidd y gwasanaeth y mae rhaid i bob rhanbarth eu cael ar waith. Mae llenyddiaeth academaidd ac adroddiadau cynnar yn dangos bod eiriolaeth rhieni yn llwybr addawol i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal. Byddwn yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r fenter yng Ngwent ac o'r broses gyflwyno genedlaethol i benderfynu a ddylid rhoi mynediad cyffredinol at eiriolaeth rhieni.<br><br>Goblygiadau ariannol: Oes. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn sylweddol a bydd angen eu talu o gyllidebau presennol. | |
| | Argymhelliad 11.<br><br>Mae'r Pwyllgor yn argymell:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd ac argaeledd lleoliadau asesu rhianta. Dylai'r adolygiad ystyried moeseg, defnydd | Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weld plant a phobl ifanc yn byw'n ddiogel gyda'u teuluoedd, gyda llawer llai yn gorfod mynd i ofal o gwbl. I'r plant hynny sy'n mynd i ofal, rydym am i'w harhosiad fod mor fyr ag sy'n gydnaws â diwallu eu hanghenion, yn agos at eu cartref a chyda chysylltiadau cryf â'u cymuned leol. Er mwyn cyflawni hyn, ac er mwyn sicrhau rhwydwaith cynaliadwy o ddarpariaeth, rhaid i siâp, graddfa a strwythur y trefniadau presennol ar gyfer llety a | Mae angen mwy o fanylion am yr adolygiad hwn gan Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, sut bydd y gwaith hwn yn ffitio i'r agenda diwygiadau radical, a sut bydd yn cael ei symud ymlaen?<br><br>Byddai archwilio dull |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | a gwerth am arian lleoliadau preswyl a lleoliadau maethu rhiant a phlentyn, a nodi pa newidiadau y gellir eu gwneud i wella'r broses i deuluoedd, ac unrhyw rwystrau sydd angen eu goresgyn er mwyn cymryd y camau hynny. Dylai'r adolygiad annibynnol gyflwyno ei adroddiad erbyn mis Rhagfyr 2023 fan bellaf. | chymorth i blant a phobl ifanc newid yn sylfaenol i sicrhau bod darpariaeth sefydlog, integredig ac atebol yn lleol yn cael ei datblygu. Bydd hyn yn cynnwys modelau gofal, cymorth cofleidiol a modelau perchnogaeth. Yn ystod tymor y Senedd hon, fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn adolygu'r trefniadau ar gyfer lleoliadau asesu rhianta yng Nghymru, gan gynnwys effeithiolrwydd, argaeledd a modelau perchnogaeth.<br><br>Goblygiadau ariannol: O bosibl. Bydd angen i adnoddau ar gyfer unrhyw oblygiadau ariannol ddod o gyllidebau presennol. | rhanbarthol o ymdrin â'r ddarpariaeth i'w groesawu, er mwyn sicrhau bod modd diwallu lefel isel o alw yn achos y teuluoedd hynny sydd angen cefnogaeth ar y lefel hon.<br><br>Rhaid i unrhyw adolygiad ymgysylltu â rhieni a theuluoedd sydd wedi defnyddio gwasanaethau presennol er mwyn canfod cryfderau a meysydd lle mae angen gwella. Dylid ymgysylltu hefyd â'r Byrddau Cyfiawnder Teulu lleol a'r Rhwydwaith Cyfiawnder Teulu er mwyn helpu i ddeall amlder defnydd yr asesiadau hyn mewn achosion ym mhob ardal, a'r deilliannau a ddaeth o bob achos. |
| | Argymhelliad 14.<br><br>Mae'r Pwyllgor yn argymell:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ariannu a darparu (gan gynnwys deddfu yn ôl yr angen) cofrestr | Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y manteision posibl sy'n gysylltiedig â chofrestr genedlaethol o ofalwyr maeth ac felly mae'n rhywbeth y mae'n awyddus i'w archwilio gyda'r sector. Byddai cofrestr genedlaethol yn codi statws gofalwyr maeth yn y tîm o amgylch y plentyn, gan ganiatáu i'r rôl gael ei chydnabod a'i gwerthfawrogi yn y sector a chan y cyhoedd. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod Llywodraeth Cymru yn | Rwy'n croesawu'r fenter hon i wneud rôl gofalwyr maeth, sydd yn amhrisiadwy wrth gefnogi plant, yn fwy proffesiynol.<br><br>Mae gwrando ar ofalwyr maeth yn uniongyrchol ynghylch y mater hwn yn allweddol, fel |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | genedlaethol o ofalwyr maeth, i'w chynnal gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Dylai'r gofrestr nodi manylion am statws cymeradwyo gofalwyr maeth, dyddiad adolygu'r gymeradwyaeth, lleoliad yr awdurdod lleol, nifer y lleoliadau ac a ydynt yn awdurdod lleol neu'n ddarparwr annibynnol. Dylid datblygu'r gofrestr honno law yn llaw â rhanddeiliaid allweddol, megis y Rhwydwaith Maethu, a dylai gynnwys ymgynghoriad trylwyr â gofalwyr maeth a darparwyr gwasanaethau maethu ledled Cymru. | cydnabod bod gofalwyr maeth yn rhan bwysig o'r tîm gofal cymdeithasol sy'n cefnogi'r plentyn neu'r person ifanc. Bydd hefyd yn mynd i'r afael â'r anhawster y mae gofalwyr maeth yn ei brofi wrth symud o un gwasanaeth i'r llall, drwy gynnig dull llai biwrocrataidd o drosglwyddo, gan leihau dyblygu ac oedi, a bydd yn cynnig mecanwaith diogelu cadarn a fydd yn amlinellu addasrwydd parhaus gofalwr maeth i faethu. Fodd bynnag, mae cyflwyno cofrestr o'r fath yn gymhleth a bydd angen ei chynnal mewn modd amserol a rheoledig ochr yn ochr â sicrhau y gellir rhoi adnoddau priodol ar ei chyfer. Mae trafodaethau cychwynnol â'r Rhwydwaith Maethu wedi cael eu cynnal a'r cam nesaf yw cynnal ymarfer cwmpasu i sefydlu ar ba ffurf y gallai cofrestr genedlaethol yng Nghymru fod, unrhyw ofynion deddfwriaethol ac ymarferoldeb ei gweithredu. Gwneir hyn mewn ymgynghoriad â'n partneriaid statudol a'n trydydd sector, gofalwyr maeth a defnyddwyr gwasanaethau.<br><br>Goblygiadau Ariannol: Gallai cyflwyno cofrestr genedlaethol ar gyfer gofalwyr maeth arwain at oblygiadau ariannol ac adnoddau sylweddol a bydd angen sefydlu'r rhain drwy'r gwaith cwmpasu y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud. Bydd angen ystyried y costau hyn cyn y gellir gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid cyflwyno swyddogaeth o'r fath yng Nghymru. | rhan o'r ymarferiad rhychwantu.<br><br>Os symudir i gyfeiriad cofrestru, byddai hynny'n golygu bod y rôl yn cyfateb i weithwyr gofal plant a staff gofal preswyl. Gall cofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol weithredu fel mesur diogelu ychwanegol i blant, felly byddwn i'n croesawu camau i'r cyfeiriad hwnnw. |
| | Argymhelliad 15. | Datblygwyd yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant (CCSR) i ddechrau gan Lywodraeth Cymru gyda | Bydd eraill mewn sefyllfa well i rannu barn ynghylch |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae'r Pwyllgor yn argymell:<br><br>Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod adolygiad o gronfa ddata ar-lein '4 C' yn cael ei gynnal, sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol ac ymarferwyr rheng flaen, i nodi a gweithredu gwelliannau i'r gronfa ddata er mwyn symleiddio'r broses o gomisiynu lleoliadau. | Data Cymru yn 2005 fel llyfrgell cronfa ddata ar gyfer chwilio am ddarparwyr. Yn 2012, dewisodd Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant (4Cs) lwyfan CCSR gan ei fod yn llwyfan Cymreig parod gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – a ddatblygwyd ganddi, sy'n eiddo iddi ac yn ei cael ei rheoli ganddi – y gellid ei ddatblygu i ddiwallu anghenion comisiynu, contractio a chaffael. Datblygodd borth e-dendro i ddarparu'r Fframwaith Cymru Gyfan (gofal preswyl a maeth) ac i ddarparu'r gallu i ganfod a chydweddu lleoliadau. Mae'r rhan hon o system CCSR yn haen o fynediad cyfyngedig i ddarparwyr Awdurdodau Lleol a Fframwaith yn unig, wedi'u gwerthuso a'u sicrhau o ran ansawdd gan y Consortiwm, y mae'n ofynnol iddo, o dan Fframwaith Cymru Gyfan, ddiweddaru gwybodaeth am ofalwyr maeth, lleoliadau gofal a lleoedd gwag. Mae hyn yn effeithiol ac yn cael ei adolygu fel rhan o o'r drefn ddyddiol o reoli'r contract. Mae CCSR yn darparu manylion pob gofalwr maeth sy'n ddarparwr ar y Fframwaith Cymru Gyfan ynghyd â lleoedd gwag, a manylion cyfatebol holl leoliadau a lleoedd gwag gofal preswyl y Fframwaith. Caiff hyn ei fonitro gan y Consortiwm / Data Cymru ac mae'n gyfredol. Mae hefyd yn cynnwys adroddiadau arolygu darparwyr y Fframwaith gan Arolygiaeth Gofal Cymru a datganiad o ddibenion darparwyr. Mae gan CCSR y gallu i bob awdurdod lleol ychwanegu ei holl ddarpariaeth gofalwyr | ymarferoldeb Cronfa Ddata Ar-lein '4C', gan nad yw fy Swyddfa yn ei defnyddio oherwydd nad ydym ni'n comisiynu lleoliadau i blant.<br><br>Mae gan y 4C rwydwaith ieuenctid cadarn gyda'u Grŵp Comisiynwyr Ifanc. Maen nhw wedi cefnogi fy swyddfa'n flaenorol ar brosiectau ac wedi rhannu peth o'r gwaith a wnaethon nhw i hybu llais y plentyn wrth gomisiynu lleoliadau.<br><br>Mae'r adnoddau 'Dyma Fi' a ddatblygwyd gan y Comisiynwyr Ifanc i'w canfod ar Hwb y Ffordd Gywir ar fy ngwefan.[6] |

[6] https://www.childcomwales.org.uk/resources/the-right-way-a-childrens-rights-approach/a-childrens-rights-approach-for-social-care-in-wales/

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | maeth a lleoliadau preswyl yn gyfrinachol ac yn ddiogel i'r system. Mae CCSR hefyd yn darparu manylion gofalwyr maeth gan nifer bach o asiantaethau eraill nad ydynt ar y Fframweithiau ond sy'n dal i weld budd tanysgrifio i'r gwasanaeth (darparwyr nad ydynt ar fframwaith) ond mae'r ffi danysgrifio flynyddol y mae'n rhaid iddynt ei thalu am y gwasanaeth yn rhwystr i rai darparwyr llai rhag defnyddio'r system. Gan fod hyn wedi cyfyngu ar fynediad, ni fyddai gan lawer o ddarparwyr a allai fod wedi cyfrannu at drafodaethau'r pwyllgor fynediad at yr elfen hon o'r gronfa ddata ac felly mae'n bosibl na fyddant yn gwbl glir am ei swyddogaethau na natur fyw ei ddefnydd bob dydd. Fodd bynnag, byddai ganddynt fynediad i'r llyfrgell adnoddau lefel uchel sy'n uwch na modiwl tendro'r Consortiwm ac sy'n weladwy i ystod ehangach o randdeiliaid. Mae'r llyfrgell yn rhan o raglen ailddatblygu i'r dyfodol a fydd yn cael ei llywio ar sail barn rhanddeiliaid. Er mwyn cefnogi gweithredu pellach, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried hefyd a fyddai hi'n ymarferol gorfodi pob asiantaeth faethu i gofrestru ar CCSR fel rhan o'u cofrestriad o dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol. Byddai angen i'r gwaith hwn gyd-fynd â'n hystyriaeth ynghylch cyflwyno cofrestr faethu genedlaethol yng Nghymru.<br>Goblygiadau ariannol: Oes. Gallai'r goblygiadau o ran adnoddau fod yn sylweddol a byddai angen eu canfod o'r cyllidebau presennol. | |
| | Argymhelliad 17. | Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys nifer o | Rwy'n croesawu'r ymrwymiad a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae'r Pwyllgor yn argymell:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gofalwyr sy'n berthnasau, sefydliadau'r trydydd sector, llywodraeth leol ac eraill i ddeall yn well i ba raddau mae gofal gan berthnasau yn cael ei ddefnyddio fwyfwy fel dewis amgen i leoli plant mewn gofal maeth neu breswyl, profiadau plant mewn gofal gan berthynas ac anghenion cymorth gofalwyr sy'n berthnasau. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i'r potensial o ddiwygio drwy reoliadau y meini prawf y mae'n ofynnol i ofalwyr sy'n berthnasau eu bodloni er mwyn bod â'r hawl i gael yr un cymorth ariannol â gofalwyr maeth. | ymrwymiadau allweddol ynghylch gweledigaeth newydd ar gyfer sut y caiff gwasanaethau plant yng Nghymru eu darparu. Yn ystod tymor y Senedd hon, byddwn yn gweithio i ddiwygio gwasanaethau plant yng Nghymru yn sylweddol, er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i blant sydd mewn gofal. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Arbenigol Gwarcheidiaeth Arbennig a fydd yn edrych ar ddatblygu dull gwell a chyson sy'n seiliedig ar anghenion i gefnogi teuluoedd Gwarcheidiaeth Arbennig ledled Cymru. Mae gan y grŵp hwn gynrychiolaeth o'r sector statudol a'r trydydd sector ochr yn ochr â defnyddwyr gwasanaethau, ac fel rhan o'i waith bydd yn edrych ar ffyrdd o gasglu barn plant a phobl ifanc. Y bwriad yw ehangu cwmpas y grŵp hwn maes o law i edrych ar y defnydd o ofalwyr maeth sy'n berthnasau yng Nghymru a'r cymorth sydd ar gael iddynt. Yn ogystal, mae Maethu Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gofalwyr maeth sy'n berthnasau yn derbyn yr un cymorth â gofalwyr maeth prif ffrwd ac wedi lansio'i ymrwymiad cenedlaethol sy'n becyn cytunedig o hyfforddiant, cymorth a chydnabyddiaeth sydd ar gael yn gyson i bob gofalwr maeth (prif ffrwd a pherthnasau) yng Nghymru drwy bob un o'r 22 o asiantaethau maethu awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae Maethu Cymru wedi ymrwymo hefyd i sicrhau bod gofalwyr maeth sy'n berthnasau yn cael yr un cymorth ariannol â gofalwyr maeth prif ffrwd. Un o nodau ein gwaith presennol ar ffioedd a lwfansau yw sicrhau cysondeb, ochr yn ochr ag elfennau eraill o'r cymorth ariannol i bob gofalwr maeth | nodwyd gan Lywodraeth Cymru i archwilio'r mater yma'n fanwl. Rhaid i sicrhau parch a chefnogaeth/darpariaeth cyfatebol rhwng gofalwyr maeth a gofalwyr sy'n berthnasau fod yn flaenoriaeth wrth i Gymru symud tuag at fodel nid-er-elw o ddarparu lleoliadau i blant mewn gofal. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cymeradwy. Ar hyn o bryd mae'r holl ofalwyr maeth cymeradwy ledled Cymru (gan gynnwys gofalwyr maeth prif ffrwd a pherthnasau) yn cael eu talu o leiaf y lwfans gofynnol cenedlaethol i ddiwallu anghenion y plant yn eu gofal. Yn ogystal, mae pob awdurdod lleol yn talu lwfans / ffi uwch i ofalwyr maeth prif ffrwd. Trwy Maethu Cymru a chysoni gwaith ffioedd a lwfansau, rydym yn ceisio sicrhau bod lwfans / ffi uwch ar gael i'r holl ofalwyr maeth cymeradwy (gan gynnwys gofalwyr maeth prif ffrwd a pherthnasau) ar yr amod eu bod yn cael eu hasesu i fodloni'r meini prawf cymhwysedd fel y nodir yn y polisi cymhwysedd ar gyfer lwfans uwch. Mae'r fframwaith cyfreithiol presennol, o dan Reoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018, yn ei gwneud yn ofynnol i ofalwyr maeth sy'n berthnasau gyrraedd yr un safon o addasrwydd i faethu â gofalwyr prif ffrwd. Yr unig wahaniaeth i ofalwyr maeth sy'n berthnasau yw eu bod yn cael eu cymeradwyo i fod yn ofalwr maeth i blentyn penodol o dan y rheoliadau hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod llawer o ymarferwyr, paneli a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wedi cael trafferth oherwydd nad yw'r fframwaith rheoleiddio presennol ar gyfer gofalwyr maeth sy'n berthnasau yn addas i'w ddiben. Er mwyn cynorthwyo'r sector maethu, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal ymarfer cwmpasu i ystyried newidiadau deddfwriaethol y gellid eu cyflwyno i alluogi ffordd amgen a mwy 'addas i'r diben' yn y dyfodol ar gyfer asesu gofalwyr sy'n berthnasau. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Goblygiadau ariannol: Oes Byddai'r goblygiadau o ran adnoddau i gefnogi cysoni gwaith ffioedd a lwfansau yn sylweddol a byddai angen cynnal trafodaeth bellach o fewn Llywodraeth Cymru a chydag awdurdodau lleol i ystyried opsiynau cyllido. Byddai goblygiadau adnoddau hefyd yn gysylltiedig ag unrhyw newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol i gefnogi asesu gofalwyr sy'n berthnasau. | |
| | Argymhelliad 18.<br><br>Mae'r Pwyllgor yn argymell:<br><br>Rhaid i Lywodraeth Cymru a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol gyhoeddi ar y cyd, heb fod yn hwyrach na mis Rhagfyr 2023, gynllun gweithredu sy'n nodi sut y byddant yn atal y defnydd o lety anghofrestredig anghyfreithlon yng Nghymru. Rhaid i'r cynllun gweithredu gynnwys dadansoddiad o'r troeon y mae wedi'i ddefnyddio yn ystod y 24 mis diwethaf, gydag amserlenni clir a dyraniadau cyllid i ddatblygu dewisiadau amgen diogel. | Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i leihau niferoedd cyffredinol y plant sy'n derbyn gofal, ond mae'n cydnabod yr heriau sy'n wynebu rhai awdurdodau lleol o ran dod o hyd i leoliadau addas neu eu datblygu i ddiwallu anghenion y plant a'r bobl ifanc yn eu gofal. Nid yw hyn yn ymwneud â chynyddu capasiti yn unig. Mae'n ymwneud hefyd â hyrwyddo modelau gofal sy'n ystyriol o drawma a sicrhau bod trefniadau comisiynu ar y cyd priodol ar waith rhwng iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, fel bod anghenion plant yn cael eu diwallu, ac nad ydynt yn syrthio i'r bwlch rhwng gwahanol fathau o ddarpariaeth. Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod hyn yn parhau. O dan ein Bwrdd Rhaglen Dileu Elw, rydym wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen awdurdodau lleol i ystyried mater gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru. Mae hyn er mwyn sicrhau bod dewis lleoliad a sefydlogrwydd mewn darpariaeth gofrestredig yn diwallu anghenion ein plant a'n pobl ifanc ac yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar eu cyfer | Mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn methu ymrwymo i'r amserlen sydd ynghlwm wrth yr argymhelliad hwn yn peri rhwystredigaeth.<br><br>Yn 2021-22, cyflwynodd fy Swyddfa argymhelliad i Lywodraeth Cymru ar y mater hwn, ac fe'i derbyniwyd.<br><br>Roedd yr argymhelliad hwnnw'n nodi bod rhaid i Lywodraeth Cymru sefydlu gweithgor yn 2022/23 i archwilio mater Llety heb ei Reoleiddio a Lleoliadau heb eu Rheoleiddio.<br>Rhaid mai nodau'r gwaith hwn fydd:<br>• Casglu data i ddatblygu dealltwriaeth o'r defnydd ohono yng |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Mae'r grŵp yn cynnal adolygiad o wasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru er mwyn cael dealltwriaeth lawn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, o'r materion, yr heriau, y dulliau effeithiol a'r atebion posibl yn ogystal â'r effeithiau cysylltiedig ar blant. Mae disgwyl i'r adolygiad gael ei gomisiynu'n fuan a bydd yn adrodd yn ddiweddarach eleni. | Nghymru;<br>• Ystyried anghenion y bobl ifanc mae hyn yn effeithio arnynt er mwyn canfod ble mae prinder llety addas; ac<br>• Archwilio a oes angen newidiadau i'r system reoleiddio yng Nghymru er mwyn rhoi amddiffyniad cryfach i bobl ifanc. Mae angen cwblhau'r gwaith yn ystod y tymor Senedd hwn, gan gynnwys unrhyw newidiadau rheoliadol sy'n ofynnol.<br><br>Rwy'n dal i bryderu mwyfwy ynghylch y cynnydd yn nefnydd y lleoliadau hyn. Y rheswm am hynny yw y gallai plant yn y lleoliadau hyn fod heb y mesurau diogelu gor-redol a geir mewn lleoliadau cofrestredig a arolygir. Rydym wedi clywed am blant yn cael eu gosod mewn amrywiaeth o leoliadau dros dro, o Airbnbs i Garafanau. Rydym hefyd wedi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | clywed am blant sy'n cael eu gosod mewn darpariaeth newydd arbenigol, nad yw eto wedi cwblhau'r broses gofrestru, felly mae'r math o leoliadau a ddefnyddir yn amrywio.<br><br>Rydym wedi codi'n pryderon gyda Llywodraeth Cymru ac AGC, a'u nodi yn ein hymateb i ymgynghoriad LlC ar ddeddfwriaeth sylfaenol.<br><br>Rydym hefyd wedi ysgrifennu at Benaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan a chwrdd â nhw i drafod ein pryderon ynghylch llety heb ei gofrestru.<br><br>Mae fy nhîm wrthi'n gweithio ar brosiect sy'n ceisio cyrraedd plant sy'n byw mewn lleoliadau heb eu cofrestru er mwyn deall eu profiadau'n well. Mae'n ddyddiau cynnar o ran y prosiect, ond rydym wedi cael cefnogaeth Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan i'n cynlluniau i greu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cysylltiad â phlant.<br><br>Mae ymateb Llywodraeth Cymru hefyd yn cyfeirio at “drefniadau comisiynu priodol ar y cyd sydd ar waith rhwng iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg”. Mae adroddiadau Dim Drws Anghywir fy Swyddfa innau wedi galw ar Lywodraeth Cymru i greu lleoliadau ‘llety diogel’ newydd, a gomisiynir ar y cyd, i ymateb i anghenion cymhleth. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad ac mae gwaith yn digwydd ym mhob rhanbarth, ond mae’r cynnydd o ran sicrhau bod y lleoliadau hyn yn agor ac ar gael i bobl ifanc yng Nghymru yn dal yn araf. Ar ben hynny, mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a’r asiantaethau sy’n rhan ohonynt wedi parhau i fynegi pryderon gyda’m swyddfa ynghylch y diffyg gorfodaeth i gomisiynu gwasanaethau ar y cyd, gydag asiantaethau unigol yn ‘gwarchod’ eu cyllidebau a’u |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | penderfyniadau gwario eu hunain. Mae hynny'n rhwystro anghenion plant rhag cael eu diwallu mewn dull gwasanaethau cyhoeddus cyfannol, Cymru gyfan, ac rwyf wedi gofyn i'r Llywodraeth roi mwy o sylw i'r materion comisiynu hyn. |
| | Argymhelliad 19.<br><br>Mae'r Pwyllgor yn argymell:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru gynnal a chyhoeddi dadansoddiad o'r defnydd o lety heb ei reoleiddio ar draws Cymru ar gyfer plant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal hyd at 21 oed. Dylai'r dadansoddiad nodi nifer y plant a phobl ifanc mewn llety heb ei reoleiddio, a dosbarthu hynny rhwng llety y mae o'r farn sy'n darparu llety a chymorth o ansawdd (megis llety â chymorth y mae'n ofynnol iddo fodloni safonau tai), a llety nad yw'n gwneud hynny (megis llety gwely a brecwast, Airbnb, hosteli ac ati). Dylai'r dadansoddiad rannu'r data hwnnw | Mae Llywodraeth Cymru yn casglu data ynghylch nifer y plant 16 oed a hŷn sy'n gadael gofal yn ôl oedran a llety a'r dyddiad pan maent yn gadael gofal. Mae ein data ystadegol cyhoeddedig ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022 yn dangos, o blith y 700 o bobl ifanc 16 oed a hŷn a adawodd ofal rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, fod 670 (96%) ohonynt mewn llety addas ar y dyddiad pan ddaeth eu gofal i ben. Ystyrir bod llety'n addas os yw'n cynnig darpariaeth saff, diogel a fforddiadwy i bobl ifanc. Mae cyfran y bobl ifanc sydd mewn llety addas wedi cynyddu o 92% yn 2016-17 pan ddechreuodd data gael eu casglu. Roedd 28% o bobl ifanc mewn llety addas gyda rhieni neu berthnasau ac roedd 26% mewn llety cyffredin heb gymorth ffurfiol. Yn gyffredinol, mae cyfran y bobl ifanc sydd mewn llety cyffredin heb gymorth ffurfiol wedi cynyddu ers 2018-19, yn ogystal â'r gyfran mewn llety pontio lled-annibynnol (tua 18%).<br><br>Yn gyffredinol, mae cyfran y bobl ifanc sydd gyda rhieni | Rwy'n siomedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi gallu ymrwymo i'r argymhelliad hwn.<br><br>Yn 2020-21 ac eto yn 2021-22, cyflwynodd fy swyddfa argymhellion ar gyfer archwilio'r 'defnydd cyfredol o ofal heb ei reoleiddio i rai o dan 18 oed, ac ystyried pa newidiadau allai fod yn ofynnol i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), i gryfhau'r arolygu a'r rheoleiddio ar ddarpariaeth gofal a llety i rai o dan 18 oed, nad yw'n rhan o gwmpas y Ddeddf ar hyn o bryd.'<br><br>Rhaid i bob plentyn o dan 16 oed sydd angen gofal fod mewn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ymhellach yn ôl oedran a statws cyfreithiol y plant a'r bobl ifanc i ddangos yn glir faint sy'n destun gorchmynion gofal a faint sy'n gadael gofal. Ar ôl ei gwblhau, dylai Llywodraeth Cymru nodi ei safbwynt polisi mewn perthynas â llety heb ei reoleiddio, gan gynnwys y camau y mae'n bwriadu eu cymryd law yn llaw ag awdurdodau lleol i leihau'r defnydd o lety heb ei reoleiddio amhriodol yng Nghymru. | neu berthnasau, sy'n byw'n annibynnol ac mewn llety â chymorth addas, wedi gostwng dros y cyfnod hwn. Ystyrir bod llety gwely a brecwast yn anaddas hefyd, ac ystyrir bod mathau eraill o lety yn anaddas os ydynt yn amlwg yn golygu bod y person ifanc yn agored i risg o niwed neu allgáu cymdeithasol. Mae nifer a chyfran y gadawyr gofal sydd mewn llety anaddas wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gostyngodd nifer y gadawyr gofal sydd mewn llety anaddas 5 (14%) o 35 i 30 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sy'n cyfateb i 4% o adawyr gofal mewn llety anaddas ar adeg gadael gofal yn ystod 2021-22. Dyma'r gyfran isaf ers i ddata ddechrau cael eu casglu yn 201617.<br><br>Er ei bod yn anodd gweld o dan ba amgylchiadau y byddai plentyn dan 16 oed yn cael ei roi mewn gwasanaeth heb ei reoleiddio gan y byddai angen gofal arno a fyddai'n golygu y byddai angen cofrestru'r gwasanaeth, rydym yn awyddus i ddysgu o brofiad Lloegr o wahardd rhoi pobl dan 16 oed mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio a byddwn yn parhau i adolygu hyn. | lleoliad cofrestredig a reoleiddir. Fodd bynnag, nid oes rhaid i rai pobl ifanc 16 ac 17 oed fyw mewn llety a reoleiddir, gan fod rhai yn gallu dechrau'r broses o adael gofal trwy fyw'n annibynnol o 16 oed ymlaen. Mae gadael gofal yn 16 ac 17 oed yn dal yn destun pryder i'm swyddfa, yn enwedig gan fod safon y llety yn gallu amrywio'n fawr. Er ein bod ni'n gwybod am rai lleoliadau cefnogol, ardderchog, gall rhai pobl ifanc fod yn agored iawn i niwed os ydynt yn byw mewn llety gwael heb lawer o gefnogaeth.<br><br>Rwy'n croesawu cynigion yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth sylfaenol i fyfyrio ar reoliadau RISCA er mwyn diffinio 'gofal tebyg i riant' yn well. Fodd bynnag, mae'n aneglur pa gamau, os o gwbl, mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i archwilio mater pobl ifanc yn byw'n annibynnol o 16 ac 17 oed ymlaen er mwyn deall |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | yn llawn effaith hynny ar bobl ifanc.<br><br>Rwyf innau wedi dadlau o blaid grymuso plant a chlywed eu lleisiau mewn ffordd ystyrlon wrth archwilio’r mater hwn. |
| | Argymhelliad 20.<br><br>Mae'r Pwyllgor yn argymell:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar unwaith i ddadansoddi’r defnydd o Orchmynion Amddifadu o Ryddid ledled Cymru am y 24 mis diwethaf, yn ôl awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb dros y plentyn, oedran y plentyn a hyd y gorchymyn, a dylid ei gyhoeddi erbyn mis Rhagfyr 2023 fan bellaf. Dylai Llywodraeth Cymru a’r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol gyhoeddi ar y cyd, erbyn mis Rhagfyr 2023 fan bellaf, gynllun gweithredu sy’n nodi sut y byddant yn lleihau’r defnydd o Orchmynion Amddifadu o Ryddid yng Nghymru. Rhaid i’r cynllun gweithredu gynnwys amserlenni a dyraniadau cyllid clir. | Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad o'r defnydd o Orchmynion Amddifadu o Ryddid ledled Cymru am y 24 mis diwethaf, wedi'u dadansoddi yn ôl yr awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb dros y plentyn, oedran y plentyn a hyd y gorchymyn. Bydd canlyniadau'r dadansoddiad hwn yn bwydo i Raglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant Llywodraeth Cymru. | Mae’n destun siom bod Llywodraeth Cymru wedi methu ymrwymo i elfen Cynllun Gweithredu yr argymhelliad hwn.<br><br>Amddifadu plentyn o’u rhyddid yw un o’r dulliau mwyaf arwyddocaol o rwystro plentyn rhag cael eu hawliau. Ac eto, mewn blynyddoedd diweddar rydyn ni wedi gweld cynnydd yn y Llysoedd yn defnyddio’u ‘hawdurdod cynhenid’ i roi’r Gorchmynion hyn ar waith. Y rheswm am hynny yw’r diffyg lleoliadau addas sydd ar gael i bobl ifanc mewn llety diogel. Mae’n fater y mae’r llysoedd teulu wedi bod yn ei godi gyda fy swyddfa innau a Llywodraeth Cymru ers cryn amser, gan fod |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | angen gweithredu ac ariannu i ymdrin ag argaeledd/â digonolrwydd lleoliadau.<br><br>Mae'r Nuffield Trust wedi bod yn gwneud gwaith ar y defnydd o amddifadu o ryddid (DOLS) yng Nghymru a Lloegr, ac maent yn gweithio i gyhoeddi data ar hyn, er bod hynny ar lefel Cymru a Lloegr.[7]<br><br>Mae'r defnydd o DOLS yn rhychwantu meysydd datganoledig a rhai heb eu datganoli. Gan fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi rhoi terfyn ar gynlluniau i symud oddi wrth y dull hwn[8], gallai'r Pwyllgor elwa o geisio diweddariad ynghylch gwaith ehangach Llywodraeth Cymru i symud i ffwrdd oddi wrtho yng Nghymru. |
| | Argymhelliad 22. | Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddeddfu yn | Yn 2016-17, cyflwynodd fy |

[7] https://www.nuffieldfjo.org.uk/news/legal-outcomes-of-cases-at-the-national-deprivation-of-liberty-court

[8] Written Statement: Update on the implementation of the Liberty Protection Safeguards (5 April 2023) | GOV.WALES

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae'r Pwyllgor yn argymell:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i godi'r trothwy uchaf ar gyfer yr holl gymorth a gynigir i bobl sy'n gadael gofal hyd nes eu bod yn 21 oed (fel y nodir yn adrannau 103 i 118 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, rheoliadau cysylltiedig, canllawiau a chodau ymarfer, gan gynnwys y cynllun Pan Fydda i'n Barod) i 25 oed ar gyfer pobl sy'n gadael gofal categori 3, categori 5 a chategori 6. | nhymor y Senedd hon i sicrhau bod gan bob person sy'n gadael gofal hawl i Gynghorydd Personol hyd at 25 oed. Gellir gwneud y newidiadau hyn drwy Reoliadau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol am hyn, a'r disgwyliadau o ran y cyllid a ddarperir.<br><br>Goblygiadau ariannol: Dim – bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol | Swyddfa argymhelliad i Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth newydd a fyddai'n sicrhau cefnogaeth Cynghorydd Personol i bawb sy'n gadael gofal hyd at 25 oed.<br><br>Er i arian gael ei ddarparu i Awdurdodau Lleol estyn hyn, nid yw'r gyfraith wedi cael ei newid i roi'r hawl hon ar waith i ymadawyr gofal. O ganlyniad, nid oes sail statudol i hyn. Byddwn yn croesawu amserlen bendant ar gyfer cyflawni'r ymrwymiad yma, cyn diwedd y Tymor Senedd hwn.<br><br>O ran elfen Pan Fydda i'n Barod yr argymhelliad hwn, nid yw'r estyniad yn rhywbeth mae fy Swyddfa wedi'i drafod gyda phobl ifanc, felly byddwn i'n croesawu ymgynghori pellach ag Ymadawyr Gofal ynghylch hyn. Fel y trafodir isod mewn perthynas ag argymhelliad 24, mae mynediad at y cynllun hwn yn rhywbeth mae fy Swyddfa wedi cyflwyno argymhellion yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ei gylch yn flaenorol.<br><br>Mae'n debygol na fydd 'Pan Fydda i'n Barod' yn addas i bob person ifanc, felly rhaid i wella'r opsiynau eraill ar gyfer pobl ifanc barhau'n flaenoriaeth hefyd. Dyna pam rydyn ni wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu safonau cenedlaethol ar gyfer rhoi sylw i bryderon ynghylch safon, digonolrwydd, ac addasrwydd llety lled-annibynnol i bobl ifanc hyd at 25 oed sydd â phrofiad o ofal. Cynigiwyd hyn gan Grŵp Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y cyd Llywodraeth flaenorol Cymru, ond mae'r cynnydd wedi dod i ben ar hyn o bryd.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad uchod, ac wedi dweud wrthyn ni eu bod yn 'datblygu a defnyddio modelau amgen… i sicrhau bod pob person ifanc yn gallu byw mewn amgylchedd cefnogol'. Ond ychydig iawn o fanylion a gafwyd ynghylch beth yn union |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | fydd y gwaith hwnnw.<br><br>Fel y soniwyd ar hyd yr ymateb hwn, byddwn i’n croesawu mwy o eglurder ynghylch yr ymrwymiadau hyn gan Lywodraeth Cymru, drwy sicrhau bod y cyfan yn cael ei gynnwys yn y ffordd ymlaen sy’n dangos sut bydd diwygiadau radical yn cael eu cyflwyno. |
| | Argymhelliad 23.<br><br>Mae'r Pwyllgor yn argymell:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio adran 108 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a rheoliadau, canllawiau a’r cod ymarfer sy’n ymwneud â chynllun Pan Fydda i’n Barod i:<br>• ymestyn y terfyn oedran ar gyfer pob person ifanc sy’n dymuno cymryd rhan yn y cynllun i 25 oed; a<br>• dileu rhwystrau i’r cynllun, gan gynnwys y potensial i ddileu cymeradwyaeth gofalwyr maeth; y gostyngiad mewn taliadau i ofalwyr maeth; ac | Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall y newid i fod yn oedolyn fod yn anoddach i adawyr gofal nag i lawer o'u cyfoedion o oedran tebyg. Felly mae'n bwysig bod y bobl ifanc hyn yn cael dilyniant pan fyddant yn oedolion. Bydd hyn yn helpu i sicrhau nad oes tarfu sydyn ar eu trefniadau byw, a allai gael effaith negyddol ar eu sefydlogrwydd emosiynol, eu haddysg, eu hyfforddiant neu eu cyflogaeth, neu ar eu gallu i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol. Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi'r cynllun Pan Fydda i’n Barod a sicrhau bod pob person ifanc sydd mewn gofal maeth yn cael cynnig cyfle i barhau i fyw gyda'u gofalwyr maeth y tu hwnt i'w pen-blwydd yn 18 oed, hyd at 21 oed, neu hyd at 25 oed os ydynt yn cwblhau rhaglen addysg neu hyfforddiant y cytunwyd arni. Rydym yn ymwybodol bod rhai heriau ynghlwm wrth y cynllun, ac yn ystod y Senedd hon byddwn yn cynnal adolygiad llawn o'r cynllun Pan Fydda i’n Barod | Mae’n allweddol sicrhau amserlenni a pharamedrau ar gyfer yr adolygiad hwn.<br><br>Byddwn hefyd yn hoffi gweld yr adolygiad hwn yn cynnwys gofalwyr maeth. Os yw Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i estyn y cynnig hwn hyd at 25 oed, rhaid rhoi gwybod i ofalwyr maeth am y disgwyliad hwnnw ar y cyfle cyntaf yn y broses recriwtio, er mwyn sicrhau bod y rhai sy’n gofalu am blant yn deall hynny. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • ystyried sut y gallai pobl ifanc ymuno â'r cynllun a derbyn yr holl gymorth sydd ar gael iddynt heb orfod ymrwymo i gytundebau tenantiaeth gyda'u gofalwyr maeth. | gan fanteisio ar yr wybodaeth a gasglwyd am yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio, a chydweithio â'n rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau ledled Cymru ar y newidiadau gofynnol.<br><br>Fel rhan o'r adolygiad hwn, byddwn yn ystyried a oes angen diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol a'r canllawiau presennol i gyflwyno newidiadau a fydd o fudd pellach i'n pobl ifanc a'r gofalwyr sy'n eu cefnogi, ochr yn ochr â darparu sylfaen gadarnach ar gyfer y cynllun Pan Fydda i'n Barod yng Nghymru.  Ar yr un pryd, byddwn yn edrych ar ffyrdd o fonitro'r camau gweithredu er mwyn sicrhau dull mwy cyson ledled Cymru.<br><br>Goblygiadau ariannol:  Oes, byddai angen mesur cost comisiynu ac ymgymryd â'r adolygiad | |
| | *Argymhelliad 24.*<br><br>*Mae'r Pwyllgor yn argymell:*<br><br>*Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad a chynnwys pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal a rhanddeiliaid allweddol eraill i ganfod sut y gellir ymestyn Pan Fydda i'n Barod i bobl ifanc mewn gofal preswyl, y rhwystrau ynghlwm wrth hynny a pha gamau y gellir eu cymryd i oresgyn y rhwystrau hynny. Dylai'r adolygiad adrodd erbyn mis* | Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal adolygiad llawn o'r cynllun Pan Fydda i'n Barod yn ystod tymor y Senedd hon, gan ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd am yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio, a chydweithio â'n rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau ledled Cymru mewn perthynas â'r newidiadau gofynnol.  Fel rhan o'r adolygiad hwn, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddichonoldeb ymestyn y cynllun Pan Fydda i'n Barod i bobl ifanc mewn gofal preswyl.<br><br>Bydd y gwaith yn cael ei wneud yn ystod tymor y Senedd hon gyda'r bwriad o wneud unrhyw newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol yn ystod rhaglen | Mae hyn yn rhywbeth godwyd gan fy Swyddfa yn 2016-17, pan wnaethon ni argymell i Lywodraeth Cymru fod cefnogaeth gyfatebol i'r cynllun Pan Fydda i'n Barod yn cael ei datblygu ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal preswyl.<br><br>Mae'n siom nad yw'r gwaith angenrheidiol i ddarparu cefnogaeth gyfatebol i ymadawyr gofal sy'n gadael cartrefi preswyl wedi gwneud |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *Rhagfyr 2023 fan bellaf.* | ddeddfwriaethol nesaf y Senedd.<br><br>Goblygiadau ariannol: Oes, byddai angen mesur y gost o gomisiynu ac ymgymryd â'r adolygiad, ochr yn ochr ag unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â newidiadau i'r cynllun yn y dyfodol. | cynnydd, er i Lywodraeth Cymru ei dderbyn yn 2016/17.<br><br>Mewn ymateb i'n hadroddiad blynyddol diweddaraf, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi eu bod yn 'datblygu a defnyddio modelau amgen… i sicrhau bod pob person ifanc yn gallu byw mewn amgylchedd cefnogol'. Ond ychydig iawn o fanylion a gafwyd ynghylch beth yn union fydd y gwaith hwnnw.<br><br>Ers cyflwyno'r argymhelliad hwn, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n byw mewn llety heb ei gofrestru. O ganlyniad, mae cyfran o ymadawyr gofal na fydd ganddynt berthynas â gofalwyr maeth y gallan nhw ddibynnu arni ar gyfer lleoliad Pan Fydda i'n Barod, ond sy'n dal yn debygol o fod angen lefel uchel o gefnogaeth ar ôl cyrraedd 18 oed. Mae angen felly i unrhyw adolygiad gymryd hyn i ystyriaeth, a sicrhau ein bod yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cynnig ystod eang o opsiynau llety cefnogol i bobl ifanc ag anghenion mwy cymhleth. |
| | *Argymhelliad 25.*<br><br>*Mae'r Pwyllgor yn argymell: Fel rhan o ddiwygiadau ymbarél i rianta corfforaethol (gweler Diwygiad Radical 3), ac fel rhan o'i diwygiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth tai, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i wneud y canlynol:*<br><br>• *Diwygio Deddf Tai 1996 i sicrhau mai pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal sydd â'r brif flaenoriaeth wrth ddyrannu tai.*<br><br>• *Diwygio Deddf Tai 1996 i ddatgan y dylid diystyru 'cysylltiad lleol' ar gyfer pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal.*<br><br>• *Diwygio Deddf Tai (Cymru) 2014 i sicrhau bod pobl dros 21 oed sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cadw statws "angen blaenoriaethol" pan fyddant yn ddigartref.* | Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i ddiwygio cyfraith tai a gweithredu argymhelliad y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu cyflym. Er mwyn datblygu'r ymrwymiad hwn mae Panel Adolygu Arbenigol wedi'i sefydlu i adolygu a gwneud argymhellion ar gyfer diwygio deddfwriaethol. Cafodd y panel ei gynnull ym mis Awst 2022 a bydd yn adrodd ym mis Awst 2023.<br><br>Fel rhan o'i drafodaethau, mae'r panel wedi ystyried y profiad o ddigartrefedd i'r rhai sy'n gadael gofal a pha fesurau atal wedi'u targedu, a hwylusir naill ai drwy ddeddfwriaeth neu drwy ddulliau polisi ehangach, fyddai'n atal digartrefedd yn well i'r grŵp hwn. Ar ôl derbyn adroddiad terfynol y Panel Adolygu Arbenigol, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Papur Gwyn, a fydd yn nodi ein cynigion ar gyfer newid deddfwriaethol i sicrhau bod digartrefedd yn cael ei atal ar gyfer y rhan fwyaf o'r rhai sy'n wynebu risg; ac i sicrhau, pan na ellir ei atal, ei fod yn anaml, yn fyr, ac nad yw'n digwydd dro ar ôl tro.<br><br>Mae argymhellion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi llywio trafodaethau parhaus y panel a'r gwaith datblygu cyfochrog ar y Papur Gwyn ac rydym wedi | Mae'n destun siom nad oes ymrwymiad cliriach gan Lywodraeth Cymru i roi sylw i'r mater hwn.<br><br>Mae fy ngwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor wedi derbyn nifer o ymholiadau sy'n dangos yr heriau mae pobl ifanc â phrofiad o ofal yn dal i'w hwynebu wrth geisio cael mynediad at dai neu gymorth gyda thai gan yr Awdurdod Lleol y lleolwyd nhw ynddo wrth gyrraedd oed gadael gofal. Mae hyn yn aml yn codi pan fydd Rhieni Corfforaethol (yr Awdurdod Lleol) wedi rhoi person ifanc mewn lleoliad y tu allan i'w hawdurdod cartref. Nid yw'r telerau a'r asesiadau o ran 'angen blaenoriaeth' a 'chysylltiad lleol' yn glir yn achos pobl ifanc â phrofiad o ofal, yn arbennig os ydyn nhw wedi bod yn byw tu allan i'w hawdurdod |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • *Diwygio Deddf Tai (Cymru) 2014 fel na ellir cyfeirio pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal sy'n wynebu digartrefedd at awdurdod lleol arall ar sail 'cysylltiad lleol' os nad ydynt yn dymuno i hynny ddigwydd.* | ymrwymo i weithredu i atal digartrefedd i'r rhai sydd â phrofiad o fod mewn gofal drwy'r diwygiadau hyn.<br><br>Goblygiadau ariannol: Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i'r ymateb i'r argymhelliad hwn. | cartref.<br><br>Gallai Llywodraeth Cymru gymryd camau mwy pendant yn y maes hwn, sy'n dal i achosi cymhlethdodau i bobl ifanc. |
| Gwrthod | Argymhelliad 1.<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth sy'n defnyddio'r dull deddfwriaethol a ddefnyddiwyd ar gyfer Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyfrifo uchafswm y llwythi achosion ar gyfer gweithwyr cymdeithasol plant sy'n galluogi gwaith cymdeithasol effeithiol, sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd, ac i gymryd pob cam rhesymol i gynnal y llwythi achosion hynny ar gyfer holl weithwyr cymdeithasol plant. | Rydym yn hynod ddiolchgar am y gwaith y mae gweithwyr cymdeithasol yn ei wneud bob dydd i gefnogi pobl sy'n wynebu sefyllfaoedd heriol a'u helpu i fyw bywydau mwy boddhaus ac annibynnol. Mae Brexit, adfer o'r pandemig, a'r argyfwng costau byw presennol yn cyflwyno heriau pellach i weithwyr cymdeithasol, ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i'w cefnogi drwy ddatblygu eu hymarfer proffesiynol a'u lles. Rydym yn cydnabod bod llwythi achosion uchel yn un o'r ffactorau allweddol sy'n rhoi pwysau ar weithwyr cymdeithasol, gan effeithio ar safonau gwasanaeth a boddhad swydd. Rheolir llwythi achosion ar lefel weithredol, a dylid dyrannu achosion yn seiliedig ar wybodaeth, profiad a llwyth gwaith y gweithwyr cymdeithasol, a'r hyn sy'n bwysig i blant a theuluoedd. Mae cymhlethdod achosion yn amrywio'n sylweddol, ac felly gallai fod yn wrthgynhyrchiol pennu uchafswm y llwythi achosion ar gyfer gweithwyr cymdeithasol. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru eisoes yn cynnal ymarfer cwmpasu, sy'n edrych ar ddulliau cynllunio'r gweithlu ar draws pob un o'r 22 awdurdod. Mae hyn yn cynnwys cyfweliadau â sefydliadau cenedlaethol allweddol a rhanddeiliaid, ac adolygiad o arferion gorau. Mae Gofal Cymdeithasol | Rwy'n cefnogi'r egwyddor y tu ôl i'r argymhelliad hwn i archwilio mesurau sy'n gallu helpu i ddatblygu ymarfer gwaith cymdeithasol ar sail perthnasoedd.<br><br>Fodd bynnag, nid yw'r cynnig penodol i gyflwyno uchafswm llwyth achosion yn rhywbeth rwyf wedi'i drafod gyda phlant na'r rhai sy'n eu cefnogi.<br><br>Rydym wedi rhoi pwysau'n barhaus ar Lywodraeth Cymru i gasglu a monitro data ar nifer y gweithwyr cymdeithasol mae plentyn yn cael yn ystod eu taith gyda'r gwasanaethau cymdeithasol, er mwyn bwrw goleuni ar y mater hwn. Ar hyn o bryd, mae nifer y lleoliadau a gaiff person ifanc o fewn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Cymru hefyd yn ymgymryd â gwaith i archwilio trefniadau hyfforddiant, cynefino a chymorth ar gyfer gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso ledled Cymru. Mae'r canllawiau presennol ar gyfer Y tair blynedd gyntaf o ymarfer gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso (gofalcymdeithasol.cymru) yn cynnwys cymhlethdod gwaith. Mae disgwyl adolygiad yn ddiweddarach eleni. I gydnabod y pwyntiau a godwyd yn yr adroddiad hwn sy'n ymwneud â llwythi achosion, bydd Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a rhanddeiliaid gwaith cymdeithasol eraill yn ystyried y ffordd orau o gefnogi'r gwaith o ddyrannu a rheoli llwythi achosion. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol ac eraill sy'n cyflogi gweithwyr cymdeithasol i ddeall yn well sut maen nhw'n rheoli llwythi achosion ar hyn o bryd, gan gynnwys sefydliadau yng Nghymru a meysydd eraill lle mae polisïau o ran llwythi achosion eisoes ar waith, ac yn tynnu ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. Wrth wneud hynny, byddem yn ystyried sut i gefnogi'r hyn sy'n bwysig i blant a theuluoedd ac anghenion lles y gweithlu gwaith cymdeithasol. | blwyddyn yn cael ei fesur, ond nid faint o weithiau mae'r gweithiwr cymdeithasol yn newid. Mae trosiant gweithwyr cymdeithasol yn golygu bod rhaid i bobl ifanc rannu eu storïau droeon gyda phobl newydd, a cheisio datblygu perthnasoedd newydd llawn ymddiriedaeth. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar bobl ifanc, yn gwneud iddyn nhw deimlo eu bod nhw ddim yn bwysig ac nad ydyn nhw'n haeddu'r lefel gyson hon o gefnogaeth, felly mae'n rhywbeth sydd wedi cael ei ailadrodd gyda'm swyddfa pan fyddwn ni'n ymgysylltu â phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Mae hwn yn bwynt allweddol o ran "beth sy'n bwysig i blant" y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymwybodol ohono ers blynyddoedd lawer bellach. |
| | *Argymhelliad 2.*<br><br>*Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar unwaith i ddechrau ymgynghori ar* | Social Care Wales (SCW) is currently consulting on a Workforce Strategy Action Plan 2023-26 that will support implementation of the second phase of the 10 year Health and Social Care Workforce Strategy | Fel uchod. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *gynllun digonolrwydd y gweithlu cynhwysfawr i lywio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu deddfwriaeth ar uchafswm y llwythi achosion ar gyfer gweithwyr cymdeithasol plant. Dylai'r cynllun digonolrwydd dynnu ar ganfyddiadau adroddiadau a gwblhawyd yn ddiweddar ar y gweithlu gofal cymdeithasol, ac adeiladu arnynt, a dylai ystyried y canlynol:*<br>*• llwybrau i mewn i waith cymdeithasol, gan gynnwys prentisiaethau a mathau eraill o lwybrau galwedigaethol i gymhwyster;*<br>*• cyflog, telerau ac amodau, gan gynnwys dichonoldeb a manteision ymestyn gweithio hyblyg;*<br>*• llwybrau gyrfa, gan gynnwys sut i gadw ymarfer rheng flaen ochr yn ochr â chamu ymlaen i rôl reoli neu arbenigedd fel ffordd o gadw profiad llwyth achosion a blaenoriaethu amser cyswllt gyda theuluoedd;*<br>*• dull cenedlaethol posibl o fynd i'r afael â chyflog ac amodau gweithwyr cymdeithasol, megis yr un sy'n goruchwylio cyflogau ac* | Workforce strategy which includes social workers. The Social Work Workforce Plan interprets the strategy for social work, and breaks it down into actions and goals. This is reviewed annually, and we will incorporate feedback from the wider workforce consultation.<br><br>The workforce strategy looks at workforce supply and shape, and improvements have been made in a number of areas such as the increase to the social worker bursary. SCW is undertaking work with local authorities to ascertain current workforce planning approaches for social services and areas in need of development of the future. These findings will be published later in 2023.<br><br>A wide range of work is being undertaken to improve the working conditions, training, and options for social workers, such as the social work qualifying (direct entry) sponsored positions for existing employees to progress into social work positions, and a pathway from the vocational social services practitioner (SSP) into gaining a Social Work practice qualification. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *amodau staff addysgu yng Nghymru, er mwyn sicrhau cysondeb ac uniondeb ar draws awdurdodau lleol.* | | |
| | Argymhelliad 3.<br><br>Mae'r Pwyllgor yn argymell:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru lobïo Llywodraeth y DU i ddiwygio adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i ychwanegu 'profiad o fod mewn gofal' fel nodwedd warchodedig. | Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r stigma a wynebir yn aml gan blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Roedd hwn yn faes a drafodwyd gan Weinidogion gyda'r llysgenhadon ifanc yn yr uwchgynhadledd gyntaf ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal ym mis Rhagfyr, y llynedd. Wrth lofnodi datganiad yr uwchgynhadledd ar 10 Mai, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio tuag ddileu'r stigma hwn.<br><br>Y Siarter Rhianta Corfforaethol, a gyhoeddwyd ar 29 Mehefin, yw ein cam cyntaf tuag at gyflawni hyn. Un o brif egwyddorion y Siarter y bydd sefydliadau'n cofrestru i'w chyflawni yw "Dileu Stigma – byddwn yn cydnabod plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal am bwy ydyn nhw, nid dim ond oherwydd eu profiad o fod mewn gofal. Mae hyn oherwydd bod gan bob plentyn hawl i beidio â gorfod dioddef gwahaniaethu yn ei erbyn". | Nid yw hwn yn bwnc rwyf wedi'i drafod gyda phlant a phobl ifanc, gan fod fy nghylch gorchwyl yn fy atal rhag ymgymryd â gwaith sy'n syrthio y tu allan i gwmpas pwerau datganoledig.<br><br>Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol bod Comisiynydd Plant Lloegr yn cynnal arolwg ar y mater hwn gyda phobl ifanc ar hyn o bryd.<br><br>Byddwn i'n annog Llywodraeth Cymru i fonitro canlyniadau'r arolwg hwn, a phlant Cymru a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi i fod yn rhan ohono, gan y gallai hynny ddarparu llwybr gwahanol ar gyfer symud y gwaith hwn ymlaen, wedi i Lywodraeth Cymru wrthod yr argymhelliad hwn.<br><br><u>Cefndir: Your views on care</u> |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | experience as a protected characteristic (smartsurvey.co.uk) |
| | Argymhelliad 6.<br><br>Mae'r Pwyllgor yn argymell:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru nodi mewn canllawiau statudol, neu fel arall, y gofynion ar gyrff cyhoeddus perthnasol, y trydydd sector a darparwyr annibynnol i gasglu a chyhoeddi data ar bob agwedd ar y system ofal, yn ychwanegol at y data sydd eisoes yn cael ei gyhoeddi, gan gynnwys y bylchau data a amlygir yn yr adroddiad hwn. Rhaid ymgynghori â rhanddeiliaid yn cynnwys academyddion fel mater o flaenoriaeth i lywio'r hyn sydd ei angen. Dylai'r canllawiau fod yn sensitif i bryderon nifer o bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal am eu statws gofal a'r stigma maent yn ei wynebu, a nodi'r canllawiau diogelu data arfer gorau yn unol â hynny. Dylai'r data gael ei wirio gan Lywodraeth Cymru, a chael ei gyhoeddi mewn fformat hygyrch bob chwarter o leiaf lle mae'n | Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ystod o ymarferion casglu data mewn perthynas â gofal cymdeithasol plant. Mae'n cynnal tri ymarfer casglu data bob blwyddyn. Mae dau ohonynt ar lefel unigol ac yn cwmpasu pob plentyn sy'n derbyn gofal a chymorth tra mae'r trydydd yn canolbwyntio'n benodol ar blant sy'n derbyn gofal. Mae hefyd yn cynnal ymarfer casglu data mawr mewn perthynas â pherfformiad a gweithgarwch awdurdodau lleol, sy'n cynnwys dros 50 o eitemau data ar blant yn benodol. Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru hefyd yn siarad â phlant ac yn archwilio eu profiadau fel rhan o'u harolygiadau. Ar hyn o bryd, mae Grŵp Cyflawni'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant yn adolygu'r broses casglu data fel rhan o'i waith ar fetrigau ar gyfer gwasanaethau plant er mwyn mesur cynnydd yn fwy effeithiol wrth inni drawsnewid gwasanaethau plant yng Nghymru. | Mae'n destun siom bod yr argymhelliad hwn wedi cael ei wrthod, yng ngoleuni'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn adolygu casglu data fel rhan o'i llif gwaith Trawsnewid. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ymwneud â'r gweithlu gofal cymdeithasol, ac yn flynyddol o leiaf ar gyfer yr holl ddata arall. | | |
| | Argymhelliad 12.<br><br>Mae'r Pwyllgor yn argymell:<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i ddarparu hawl statudol i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal i gymorth eiriolaeth annibynnol, hirdymor ar sail 'optio allan'. Dylid neilltuo eiriolwr i bob plentyn pan fydd yn mynd i mewn i'r system ofal i ddarparu cymorth eiriolaeth hirdymor ar draws ystod o faterion, a dylai barhau hyd nes y bydd y plentyn yn peidio â bod yn 'ymadawr gofal'. Gallai plant a phobl ifanc optio allan (ac yna optio i mewn yn ddiweddarach) os dymunant, ond rhaid iddynt fod ag eiriolwr neu ddarparwr penodedig bob amser yn ystod eu cyfnod mewn gofal. | Mae ein Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol eisoes yn darparu hawl statudol i gymorth eiriolaeth annibynnol, hirdymor sy'n galluogi plant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal i allu optio i mewn ac allan fel y dymunant. Caiff hyn ei fonitro gan y Fforwm Darparwyr Cenedlaethol dan gadeiryddiaeth Llywodraeth Cymru. Un o elfennau craidd y Dull Cenedlaethol yw'r Cynnig Gweithredol sy'n darparu hawl hirdymor absoliwt i eiriolaeth gan Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol statudol fel rhan o lwybr clir a chyson i ddarparu eu hawliau. Mae'r llwybr hwn wedi'i nodi'n fanwl yn yr adroddiad Etifeddiaeth a gyhoeddwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Eiriolaeth yn haf 2022. Mae'n sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn hysbysu plant am eu hawl i eiriolaeth, yn eu helpu i ddeall pwysigrwydd a manteision eiriolaeth a chyda chaniatâd y plentyn, mae'n hwyluso cyswllt annibynnol rhwng y plentyn a'r gwasanaeth eiriolaeth. Mae'r gwasanaeth eiriolaeth yn cysylltu'n annibynnol â'r plentyn i gwrdd â nhw ac i wneud y Cynnig Gweithredol cyn cadarnhau gyda'r awdurdod lleol a yw'r cynnig wedi'i dderbyn neu ei wrthod. Mae'r adroddiad Etifeddiaeth yn glir ac yn cadarnhau nad '...yw optio allan yn golygu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc hawl i eiriolwr mwyach. Os bydd y plentyn neu'r person ifanc yn penderfynu maes o law ei fod eisiau eiriolaeth, bydd y gweithiwr cymdeithasol yn rhoi ei fanylion i'r gwasanaeth | Trwy bresenoldeb fy Swyddfa yn y Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc rwyf wedi dod yn gyfarwydd â'r galwadau am archwilio heriau gweithredu, yn arbennig lle bo'r ymateb i'r Cynnig Gweithredol yn araf.<br><br>Rwy'n siomedig na lwyddwyd i gael hyd i dir canol yn achos yr argymhelliad hwn.<br><br>Er enghraifft, nid Llywodraeth Cymru sy'n casglu'r data ynghylch faint sy'n derbyn y Cynnig Gweithredol ar hyn o bryd, felly gallai fod anghysondeb o ran adrodd a monitro. Dyma un newid y gallai Llywodraeth Cymru ei ystyried.<br><br>Os oes anawsterau ymarferol yn codi yn achos y Cynnig Gweithredol, dylai Llywodraeth Cymru edrych ar ganllawiau diwygiedig a/neu gynnal digwyddiadau i geisio sefydlu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | eiriolaeth i drefnu cyfarfod cychwynnol gyda'r plentyn neu'r person ifanc'. Rydym yn cytuno'n llwyr â datganiad y Pwyllgor bod rhaid i leisiau plant gael eu clywed. Rydym yn rhannu'r safbwynt hwnnw ac yn parhau i archwilio sut y gallwn barhau i weithio i sicrhau bod y lleisiau hynny'n cael eu clywed. Bydd y Siarter Rhianta Corfforaethol yn chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo lleisiau plant a'r Cynnig Gweithredol fel rhan o'r Dull Cenedlaethol. | dull gweithredu cyson sy'n cydymffurfio ar draws Cymru. Dylai hynny edrych hefyd ar sut caiff y Cynnig ei hwyluso ar gyfer plant iau, y rhai ag anableddau dysgu dwys a lluosog, a'r rhai nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Ar ben hynny, er bod hawl i eiriolaeth ar unrhyw adeg yn ystod y daith trwy ofal, mae'n hanfodol cael gwybod pryd a sut mae'r Cynnig yn cael ei ailgyflwyno ar gyfer pobl ifanc nad ydynt o reidrwydd yn dymuno manteisio ar eiriolaeth wrth gael eu derbyn i'r system. Mae llawer o weithwyr proffesiynol yn ymwneud â bywyd plentyn a gall fod yn gyfnod llethol pan fydd newid lleoliad yn digwydd, er enghraifft, ond dylid mynd ati'n barhaus i adolygu'r Cynnig Gweithredol, gyda'r Swyddog Adolygu Annibynnol (IRO) o bosib yn cyflawni rôl oruchwylio, i sicrhau nad yw'r cynnig yn cael ei golli ar ôl yr achlysur cyntaf. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Argymhelliad 13.<br><br>Mae'r Pwyllgor yn argymell:<br>Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob plentyn mewn cartref gofal preswyl yng Nghymru yn cael mynediad at eiriolaeth breswyl ac eiriolaeth unigol drwy:<br>• ddiwygio'r trefniadau sydd ar waith o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i wneud darparu eiriolaeth breswyl ym mhob cartref plant (gan ddarparwr eiriolaeth cofrestredig dan gontract) yn ofyniad cofrestru fel darparwr cartrefi gofal plant yng Nghymru<br>• gweithio gyda llywodraethau eraill y DU yn ôl yr angen i sicrhau bod pob plentyn sy'n hanu o'r tu allan i Gymru, ond sydd wedi'i leoli mewn cartref gofal preswyl yng Nghymru, yn cael cynnig eiriolwr unigol | Mae ein Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol yn rhoi mynediad at eiriolwr i bob plentyn sy'n derbyn gofal preswyl yng Nghymru a'r tu allan i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ailddatgan yn gyson bod eiriolaeth yn hanfodol i amddiffyn hawliau plant a phobl ifanc ac i sicrhau bod eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu clywed a'u parchu ac yr ymatebir iddynt. Rydym wedi ymgorffori'r hawliau hynny yn ein deddfwriaeth a'n canllawiau ar draws portffolios y Gweinidogion ac wedi cydgynhyrchu trefniadau partneriaeth sy'n rhoi'r hawliau hynny ar waith drwy ein Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol i sicrhau y gellir cyflawni ein disgwyliadau a rennir.  Mae ein Dull Cenedlaethol yn cynnwys Cynnig Gweithredol clir a diamwys o eiriolaeth i bob plentyn mewn gofal, nid yn unig y rhai mewn lleoliadau preswyl, ond hefyd y rhai mewn trefniadau maethu neu ofal gan berthynas. Mae ein Dull Cenedlaethol hefyd yn sicrhau'r un hawliau i Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol i'r rhai a allai fod yn destun trefniadau neu ymholiadau diogelu, yn ogystal â phob plentyn a pherson ifanc fel rhan o ddyletswyddau ehangach awdurdodau lleol i ddarparu gofal a chymorth iddynt o dan ein Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.  Gall eiriolaeth dda gael effaith ddofn ar fywydau plant a phobl ifanc. Drwy Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), rydym wedi datblygu a chyflwyno disgrifyddion clir i reoleiddio Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol sy'n rhagnodi safonau ynghylch y gwasanaeth a ddarperir yn ogystal â'r darparwr gwasanaeth a'r unigolyn cyfrifol. | Mae'n destun siom bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod yr argymhelliad hwn. Er bod holl blant Cymru yn cael mynediad at y dull gweithredu cenedlaethol a'r Cynnig Gweithredol, yn ymarferol os lleolir plentyn gryn bellter o'u cartref neu'r awdurdod lleol sy'n canfod lle iddynt, gall hynny effeithio ar eu mynediad at waith cymdeithasol rheolaidd neu gysylltiadau eiriolaeth, gan fod teithio yn rhwystr pwysig. Nid oes trefniadau cyfatebol ar waith rhwng awdurdodau lleol i gomisiynu eiriolwyr lleol, er enghraifft, er bod modd i wasanaethau megis nyrsio plant sy'n derbyn gofal, o dan rai amgylchiadau, gael eu cynnig gan aelod staff lleol i'r lleoliad, trwy drefniant ymlaen llaw.<br><br>Bu TGP Cymru yn mynegi pryderon ers meitin ynghylch mynediad at eiriolaeth annibynnol mewn cartrefi preswyl preifat. Trwy eu gwaith ymchwil 'Out of Sight – Out of |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Rydym wedi sefydlu a chyflwyno systemau eraill i alluogi i blant gael eu clywed ac i'w barn, eu dymuniadau a'u teimladau gael eu gweithredu arnynt. Rydym yn gweithio i gryfhau rôl y Rhiant Corfforaethol drwy'r Siarter Rhianta Corfforaethol a gyhoeddwyd ar 29 Mehefin. Mae gan bob plentyn sy'n derbyn gofal Swyddog Adolygu Annibynnol i wrando arnynt a gweithredu fel eu hyrwyddwr personol wrth ddwyn gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau i gyfrif a sicrhau bod y dyletswyddau sy'n ddyledus i'r plant hynny'n cael eu cyflawni'n gynhwysfawr ac yn gyson.  Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn trafod darpariaeth eiriolaeth gyda llywodraethau eraill y DU i sicrhau bod pob plentyn sy'n byw y tu allan i Gymru ond sy'n cael ei leoli mewn cartref gofal preswyl yng Nghymru yn cael cynnig eiriolwr unigol<br>. | Rights', canfuwyd bod 100% o gartrefi plant awdurdodau lleol yn comisiynu gwasanaeth eiriolaeth oedd yn ymweld yn rheolaidd, o gymharu â 5-10% o gartrefi plant yn y sector annibynnol.[9] Gan fod mwyafrif cartrefi plant Cymru yn y sector annibynnol, mae'n bwysig nad oes system 'dwy haen' ar waith, yn ôl sut mae eich lleoliad yn cael ei gomisiynu/ddarparu.<br><br>Yn dilyn y gwaith ymchwil yma, mae TGP Cymru wedi galw am wneud trefniadau eiriolaeth trwy ymweliad yn ofynnol ar gyfer Cofrestru ac Arolygu gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, er mwyn sicrhau bod yr hawl hon wedi'i gwreiddio'n ddyfnach mewn gwasanaethau i blant agored i niwed. Mae hwn yn argymhelliad rwy'n ei gefnogi.<br><br>Yn yr un modd, pan wyf wedi |

[9] https://www.tgpcymru.org.uk/evaluation-of-covid-19-residential-visiting-advocacy-project/

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ymweld â chartrefi plant lle mae eiriolydd yn ymweld yn rheolaidd, mae'r plant a'r bobl ifanc sy'n byw yn y lleoliadau hynny wedi gwneud defnydd da ohonyn nhw.<br><br>Mae'n destun siom nad yw Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i archwilio'r mater hwn ymhellach, er mwyn sicrhau y gallwn ni fod yn hyderus bod pob plentyn sydd â hawl i eiriolaeth yn ei derbyn.<br><br>Mae'n bwysig osgoi cymharu â Swyddogion Adolygu Annibynnol ac Eiriolwyr Annibynnol hefyd. Mae ceisio cefnogaeth i fynychu cyfarfodydd yn aml yn un o'r prif resymau pam mae plant yn dymuno derbyn y Cynnig Gweithredol ar gyfer eiriolaeth. |
| | Argymhelliad 27.<br><br>Mae'r Pwyllgor yn argymell:<br><br>Fel rhan o ddiwygiadau ymbarél i | Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i hyrwyddo addysg drydyddol i "grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol" ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn fod ag amod cofrestru | Dylid ystyried newid y canllawiau atodol i sicrhau ei bod yn gwbl ddealledig bod y dehongliad o 'grwpiau a dangynrychiolir' yn cynnwys |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | rianta corfforaethol (gweler diwygiad radical 3), dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 i wneud y canlynol:<br>• gosod dyletswydd i hyrwyddo addysg drydyddol i bobl â phrofiad o fod mewn gofal; ac<br>• ychwanegu amod cofrestru gorfodol sy'n ymwneud â hyrwyddo cyfranogiad, cadw, lleihau bylchau, cyrhaeddiad a chymorth i bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal. | ar gyfer darparwyr sy'n ymwneud â chyfranogiad, cadw, lleihau bylchau cyrhaeddiad, a chymorth ar gyfer "grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol". Diffinnir "grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol" yn y Ddeddf fel "grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg drydyddol Gymreig o ganlyniad i ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol".<br><br>Mae'r disgrifiad hwn yn cynnwys, yn fwriadol, bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal, ac mae adroddiad y pwyllgor yn tanlinellu ymhellach yr angen i'r Comisiwn weithio gyda sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach i annog cyfranogiad pobl â phrofiad o fod mewn gofal mewn addysg drydyddol ac i roi cyfle cyfartal iddynt yn yr addysg honno. Bydd y Ddeddf fel y'i pasiwyd yn ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny. | pobl ifanc â phrofiad o ofal. |

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Derek Walker
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

20 Gorffennaf 2023

**Cais am ymateb i ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad, 'Os nad nawr, pryd?'**

Annwyl Derek,

Fel y gwyddoch, ar 24 Mai 2023, cyhoeddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ei adroddiad ar ddiwygio radical ar gyfer gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad ar 5 Gorffennaf 2023.

Cynhaliwyd dadl yn y Senedd ar yr adroddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru ar 12 Gorffennaf 2023. Gwnaethom wahodd y plant a'r bobl ifanc, y gweithwyr proffesiynol a'r academyddion a gyfrannodd i'n hymchwiliad i ddod i'r Senedd i wylio'r ddadl honno'n fyw o'r oriel gyhoeddus. Roeddem wrth ein boddau y daeth tua 90 o bobl, bron yn llenwi'r oriel gyhoeddus. Gallwch ddod o hyd i gyfraniadau Aelodau ar draws y Senedd yn ystod y ddadl honno o ddiddordeb.

Fel Pwyllgor, rydym yn siomedig gydag ymateb Llywodraeth Cymru. Felly, rydym wedi gofyn i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol roi rhagor o dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 14 Medi i drafod ei hymateb yn fanylach. Rydym yn falch bod y Dirprwy Weinidog wedi derbyn y gwahoddiad hwnnw.

Rydym wedi ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog i ofyn am wybodaeth ychwanegol i ategu'r sesiwn honno. Hoffem hefyd glywed eich barn chi am ymateb Llywodraeth Cymru i'n helpu i ystyried sut i fwrw ymlaen â'r materion pwysig hyn.

A allwch roi eich barn chi i ni am ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad erbyn dydd Gwener 25 Awst fan bellaf?

Os yw'r amserlen hon yn heriol, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â'n clercod (SeneddPlant@Senedd.Cymru).

Yn gywir,



Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Trwy e-bost

25 Awst 2023

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Gorffennaf 2023 ynglŷn â'r adroddiad **'Os nad nawr, pryd?'** a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'ch cais am fy marn ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwn.

Nodaf y papur briffio diweddar a luniwyd gan Dîm Ymchwil y Senedd, sy'n tynnu sylw at y darlun cymhleth sydd wedi arwain at gynnydd yn nifer y plant sy'n mynd i ofal awdurdodau lleol Cymru. Mae mwy nag un plentyn o bob cant yng Nghymru mewn gofal ac mae'r niferoedd wedi cynyddu'n sylweddol yn y deng mlynedd diwethaf.

Rwyf wedi adolygu ymateb Llywodraeth Cymru i'ch adroddiad a'r ddadl ddilynol a gynhaliwyd yn y Senedd. Nodaf y nifer helaeth o argymhellion a wrthodwyd neu a dderbyniwyd yn rhannol a gallaf ddeall siom y Pwyllgor o ganlyniad. Yn anffodus, nid oes gan fy swyddfa dystiolaeth nac ymchwil helaeth sy'n ymwneud yn benodol â'r mater penodol hwn i lywio'r ddadl ymhellach.

Deallaf fod y Comisiynydd Plant hefyd wedi ysgrifennu at y Pwyllgor ynghylch y mater hwn, a hoffwn innau hefyd bwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu clir rhwng y Llywodraeth, rhanddeiliaid a'r cyhoedd ynghylch y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi plant mewn gofal. Rwy'n annog pob plaid yn gryf i ddarllen sylwadau'r Comisiynydd Plant i'ch pwyllgor yn llawn.

Rwy'n rhannu'r teimlad ei bod yn hanfodol i'r holl randdeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, gymryd rhan weithredol a blaengar mewn trafodaethau sy'n ceisio diogelu a chyfoethogi bywydau ein plant a'n pobl ifanc.

Edrychaf ymlaen yn eiddgar at archwiliad parhaus y Pwyllgor ar y mater hwn, yn enwedig y sesiwn sydd i ddod gyda'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Medi. Er y gall fy nghyfraniadau uniongyrchol fod yn gyfyngedig yn y maes hwn, mae gennyf ddiddordeb bob amser mewn trafodaethau a chynigion i hybu buddiannau ac anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Comisinydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Tramshed Tech, Heol Pendyris
Caerdydd, CF11 6BH
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Tramshed Tech, Pendyris Street
Cardiff, CF11 6BH
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

Edrychaf ymlaen at rannu fy mlaenoriaethau ar gyfer fy nghyfnod gyda Phwyllgorau yn y misoedd nesaf ac os gall fy Swyddfa fod o unrhyw gymorth pellach, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Yr eiddoch yn gywir,

Marie Brousseau-Navarro
Dirprwy Gomisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol

Comisinydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru
Tramshed Tech, Heol Pendyris
Caerdydd, CF11 6BH
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Tramshed Tech, Pendyris Street
Cardiff, CF11 6BH
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

For more information contact deborah.smith@kinship.org.uk

# Briefing for the Deputy Social Care Minister's appearance before the Children, Young People and Education Committee on 14th September on children's social care


## Summary

- It makes sense to invest in kinship care. It delivers better outcomes and experiences for children by keeping them within their loving families, and is good value for the public purse.
- Yet despite caring for children with very similar needs and experiences to those in care or who are adopted, kinship carers typically receive far less practical, emotional and financial support than foster carers or adopters, and their children are often ineligible for statutory support with their education and health needs.
- Our evidence shows that kinship carers are experiencing financial hardship due to the lack of support and the rising cost of living. Welsh Government's commitment to ensuring financial parity for kinship foster carers and mainstream foster carers is welcome, but the review of allowances should also look at financial support for all kinship carers, regardless of legal status.
- More widely, there are financial benefits and other supports currently available for looked after children and adoptive families that could be easily rolled out to kinship care families.
- As part of the Child Poverty Strategy (currently in draft form), Welsh Government should review where financial and other supports could be expanded to include kinship carers and children and young people in kinship care.
- Welsh Government's focus on reforming children's social care is welcome and they are taking some steps to improve support for some kinship carers. As the various reform programmes continue, there is an opportunity to take a more holistic view of the support needs of kinship carers and the children living in kinship care arrangements to ensure the best outcomes.


## If not now, then when? Radical reform for care experienced children and young people

Kinship welcomed the publication of the Children, Young People and Education Committee's report '*If not now, then when? Radical reform for care experienced children and young people*'.

In particular we were pleased to see the Committee highlight calls for increased support for kinship carers in line with mainstream foster carers. The report also noted the perverse incentive in the current system for families to continue in a kinship foster care arrangement, where the child is 'looked after' in local authority care despite living with their kinship carer, in order to continue to receive financial and other support, where a special guardianship order might be more appropriate, by providing the kinship carer with parental responsibility and the family arrangement greater permanence.

The Committee recommended that the Welsh Government should consult widely to better understand the extent to which kinship care is being increasingly used as an alternative to placing children in foster or residential care, the experiences of children in kinship care, and the support needs of kinship carers. It also recommended that Welsh Government should "explore the potential of amending by regulations the criteria that kinship carers are required to meet to be entitled to the same financial support as foster carers."

In their response, Welsh Government:

- underlined its commitment to ensuring kinship foster carers and mainstream foster carers receive the same level of financial support said that their current review of fees and financial allowances for foster carers will be looking to ensure that kinship foster carers can also access enhanced allowances where they meet the relevant criteria;
- committed to reviewing the regulatory framework to determine if changes need to be made for the assessment of kinship foster carers;
- set out its intention to expand the remit of its expert group reviewing support available for those with a Special Guardianship Order to look at the use of and support available for kinship foster carers; and
- said its commitment to foster carers through Foster Wales for training and support also applies to kinship foster carers.

During the debate in Plenary on 12th July, Deputy First Minister Julie Morgan said that the Welsh Government "greatly values kinship care, and this is one of the areas that we are developing." She reiterated the establishment of the special guardianship expert group. She also highlighted the work of Foster Wales and the package of support they had developed for all foster carers, including kinship foster carers.

While these steps are welcome, from our work with kinship families in Wales, we believe that there are significant further steps Welsh Government needs to take to support the nearly 10,000 children living in kinship care in Wales and their families to make sure the kinship arrangement is a success.

The Minister's appearance before the Committee to discuss further the Welsh Government's response to your report provides an opportunity to understand further Welsh Government's plans for improving support for kinship care families across Wales.

## What is kinship care?

Kinship care is when a child lives with a relative or friend because their parents aren't able to care for them. Most children growing up in kinship care are living in households headed by a grandparent[1], but many other relatives including older siblings, aunts, uncles, as well as family friends can also be kinship carers. Analysis of census data from 2011 shows that **at least 9,500 children in Wales are living in kinship care**.[2]

The vast majority of kinship care arrangements are 'informal' – where a family member has stepped in to look after a child without intervention from social services or the courts. In addition, there are around 1,600 kinship foster carers in Wales. This means that a child with 'looked after' status has been placed by a local authority with a friend or family member, who will go through an assessment and approval process as a foster carer. Other formalised kinship family arrangements include those secured by a legal order such as a child arrangements order or special guardianship order which can be made either via public law at the end of care proceedings or via private law with less involvement from children's services.[3]

Research shows that children in kinship care, regardless of legal status, have experienced similar adversities to those looked after children who are placed in mainstream foster care or residential care. For example, in Selwyn et al's 2013 study of informal kinship care, parental drug or alcohol misuse was a reason for kinship care in as many as 68% of families. For more than a third (37%) domestic abuse was involved, whilst more than a quarter (26%) of children had experienced parental mental illness or parental death. Two thirds of the carers said that the child had been abused and/or neglected, some over a considerable period.[4]

## What support is available for kinship families?

[1] Analysis of 2011 Census data found that 60% of kinship households in Wales were headed by a grandparent: https://www.bristol.ac.uk/media-library/sites/sps/documents/kinship/wales-kinstast-briefing-paper.pdf
[2] Ibid
[3] https://compass.kinship.org.uk/advice-and-information/what-is-kinship-care/
[4] https://research-information.bris.ac.uk/ws/portalfiles/portal/190043151/Full_report.pdf

**Most kinship families do not receive any financial, practical or emotional support.** For some, typically only those families with formalised kinship care arrangements involving local authority children's services and the family court, there may be some financial and practical support available. However, the availability of this support varies considerably across local authorities and typically depends both on presence of a legal order securing the family arrangement and the child's journey into kinship care. Families in informal kinship arrangements may be unknown to local authorities and ineligible for any kind of support, despite experiencing similar needs.

**The love and sacrifice of kinship carers saves the public purse millions a year by preventing children from going into the care system.** For every 1000 children raised in kinship families rather than in local authority care, the state saves £40 million and increases the lifetime earnings of those children by £20 million.[5] It clearly makes sense to invest in kinship care. Yet, in a survey of over 100 kinship carers we carried out last year, 28% per cent of respondents said that the lack of support may mean that have to stop caring for their child in the future.[6] This would come with devastating consequences for children and families, and for the state, as the only alternative for those children would likely be local authority care.

## What do kinship families in Wales need?

### Financial support

"*We don't do it for the money, but without the money we can't do it*."

Kinship carer

Taking on the responsibility to raise a child costs money. Kinship foster carers, a small number of the overall cohort, are the only group of kinship carers who are guaranteed financial support. It is welcome that Welsh Government is working to ensure parity for kinship foster carers with mainstream foster carers. However, it should be noted that the difference in legal order between kinship foster carers and other types of kinship carers does not mean there will be any difference in their financial support needs.

Moreover, at population level, kinship carers tend to live in more deprived areas and are generally poorer than mainstream foster carers. While an estimated one in 67 children in Wales are growing up in the care of relatives, this rises to one in 46 children living in the poorest 20% of areas. For kinship families, the unexpected addition of an extra family member or members as a result of a family emergency is only going to add strain to the household finances. Indeed, in a survey we carried out last year of over 100 kinship carers in Wales **almost 6 in 10 said they did not always feel able to meet their children's needs in their current financial situation**. Nearly 6 in 10 also told us that over the last year they were going into debt or selling possessions to help make ends meet.[7] Targeting all kinship carers with financial support would therefore also help Welsh Government in its aim to tackle child poverty, targeting some of the most vulnerable households.

### Practical, emotional and educational support for kinship families

Kinship carers in Wales tell us they would benefit from greater access to peer-to-peer support and clearer information on their options at the beginning of their kinship journey. They also talk about the need for training and workshops to help them to better support the children in their care as well as direct therapeutic support for their children and extra help/awareness at school. In many cases, they want the equivalent support that is offered to foster families and to children with looked after status, including access to the Pupil Development Grant.

A further **expansion to the Special Guardianship Expert Group to look at the support needs of all kinship carers** (and not just kinship foster carers, as per the response to your report) would help Welsh Government identify where the support is most needed and the best ways for it to be delivered in Wales. Extra resource and clear prioritisation of this work will be needed alongside any expansion to the remit to ensure that

[5] https://kinship.org.uk/news/the-economic-case-for-kinship-care/
[6] https://kinship.org.uk/cost-of-loving/
[7] https://kinship.org.uk/cost-of-loving/

reforms can be pursued at the pace needed. We would also like to support Welsh Government to look across its programme of reform of children's social care to identify **how its reforms could be adapted to ensure that kinship carers, regardless of legal status, get the help they need.**

During the debate on the Committee's report, Mental Health Minister Lynne Neagle put on the record the Welsh Government's commitment to ensuring that care experienced children and young people could access trauma-informed therapeutic support. While we welcome this commitment, not all children living in kinship care will be defined as care experienced. Yet, as outlined above research shows that children in kinship care, regardless of legal status, have experienced similar adversities to looked after children. It is therefore clear that **children living in kinship care should be able to access the same therapeutic support as care experienced children** and we would expect this to be reflected in the forthcoming mental health strategy.

In addition, as part of the **mental health strategy**, the particular emotional and mental health needs of children and young people in kinship care as well as the specific needs of kinship carers who are having to deal with the wider impact of the family crisis that has resulted in the child or children coming to live with them needs full consideration.

## Key questions to ask the Minister

- What action will Welsh Government take to ensure that all kinship carers can access the financial support they need?
- Will Welsh Government consider using the opportunity of its review of fees and financial allowances for foster carers to look at the needs of all kinship carers, regardless of legal status?
- What consideration has Welsh Government made to both expanding its Special Guardianship Expert Group to reviewing the support needs of all kinship carers and ensuring this work has sufficient resource?
- How will Welsh Government ensure the reforms it is taking forward within children's social care also support kinship families, regardless of the legal status of the arrangement?
- What discussions is the Minister having around how the draft Child Poverty Strategy can be amended to better reflect the needs of kinship carers?
- What can the Minister tell us about her discussions with the Mental Health Ministers about any plans to include the needs of children in kinship care and kinship carers in the forthcoming mental health strategy?
- Has the Minister discussed with the Education Minister the need to ensure Pupil Development Grants are available to support children in kinship care?

## About Kinship

Kinship is the leading kinship care charity in England and Wales. We offer kinship carers financial, legal, practical, and emotional support and understanding from the moment they need it, for as long as they need it. We want every kinship family to be recognised, valued, and supported. For more information about our policy and research work, please visit kinship.org.uk/policy-and-research.

# Eitem 3.25

**Cytunodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg i rannu â'r Pwyllgor ystadegau ar lefel y cyswllt rhwng Gyrfa Cymru a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.**

Mae 91% o garfan ADY 2023 wedi cael cyngor, gwybodaeth neu arweiniad. Mae hyn ar gyfer ysgolion arbennig a rhai prif ffrwd.

Mae 99.7% o garfan â datganiad neu gyfwerth 2023 mewn ysgolion prif ffrwd wedi rhyngweithio ag ymgynghorydd Gyrfa Cymru (un-i-un/cyswllt rhiant/presennol mewn adolygiad pontio/eiriolaeth/sesiwn grŵp).

Mae 90.4% o garfan â datganiad neu gyfwerth 2023 mewn ysgolion arbennig wedi rhyngweithio ag ymgynghorydd Gyrfa Cymru (un-i-un/cyswllt rhiant/presennol mewn adolygiad pontio/eiriolaeth/sesiwn grŵp).

| **Gweithgaredd** | **Medi 22 - Mehefin 23** | **Ebrill 23 - Mehefin 23** |
|---|---|---|
| Cyfweliadau | 29,932 | 6,838 |
| Sesiynau grŵp (ysgolion arbennig yn unig) | 23 o sesiynau gyda 154 yn bresennol | 6 sesiwn gyda 65 yn bresennol |
| Yn bresennol mewn adolygiadau pontio | 3,561 | 439 |
| Cysylltiadau rhieni | 14,736 | 3,173 |
| Cynlluniau Dysgu a Sgiliau | dros 500 | |
| Apiau Arbenigol | 93 | |
| Digwyddiadau ymgysylltu â chyflogwyr (ysgolion arbennig yn unig) | 85 | 21 |

**<u>Y Cefndir</u>**

Mae gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn golygu bod ysgolion a Gyrfa Cymru yn gweithredu dwy system wrth i'r prosesau newydd gael eu cyflwyno'n raddol. Mae hyn wedi achosi peth dryswch ac mae rhywfaint o gamddealltwriaeth wedi bod ynghylch rôl Gyrfa Cymru. Mae Gyrfa Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol ac ysgolion i symud tuag at ddull gweithredu cyson, o fewn pob awdurdod lleol, mewn perthynas â chynllunio pontio/adolygu Cynlluniau Datblygu Unigol.

**Cynnig Gyrfa Cymru ar gyfer 2022-23**

<u>Mynd i Adolygiadau Pontio</u>

Gan fod pobl ifanc ym mlynyddoedd 9, 12, 13 ac 14 wedi cadw eu datganiadau, parhaodd Gyrfa Cymru i ddarparu cymorth arweiniol, gan fynd i'r adolygiad blynyddol fel yr amlinellir yn y Cod Ymarfer AAA.

Er bod pobl ifanc ym mlynyddoedd 10 ac 11 â datganiadau wedi'u trosglwyddo i Gynlluniau Datblygu Unigol, cynhaliodd Gyrfa Cymru eu lefel o gefnogaeth a mynd i adolygiadau, pan wahoddwyd hwy i gefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd gyda'u cynlluniau pontio. Roedd angen iddynt flaenoriaethu'r rhai a fyddai'n gadael yr ysgol ar ddiwedd blwyddyn 11 a'r rhai sy'n aros ymlaen ond sydd ag anghenion cymhleth.

Cynlluniau Dysgu a Sgiliau

Parhaodd Cynghorwyr Gyrfaoedd i lunio Cynlluniau Dysgu a Sgiliau ar gyfer pobl ifanc ym mlynyddoedd 12-14 a oedd yn gadael yr ysgol i fynd i addysg bellach neu addysg uwch neu ddarpariaeth Twf Swyddi Cymru +.

Ceisiadau am gyllid

Ar gyfer pobl ifanc a oedd yn gadael blynyddoedd 12-14 ac angen lleoliad coleg arbenigol, parhaodd Cynghorwyr Gyrfaoedd i gasglu a chyflwyno ceisiadau am gyllid coleg arbenigol.

Ar gyfer y rhai a oedd yn gadael blwyddyn 11, darparodd Gyrfa Cymru arweiniad a chefnogaeth i'r bobl ifanc, eu teuluoedd ac, ar gais, staff ysgol/awdurdodau lleol gan mai'r awdurdod lleol fydd yn penderfynu a oes angen lleoliad arbenigol ac yn gwneud y cais am gyllid.

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Wrth i'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol fynd rhagddi bydd Gyrfa Cymru yn symud i fodel ledled Cymru lle bydd eu cynghorwyr ADY yn canolbwyntio ar bobl ifanc mewn ysgolion arbennig a bydd cynghorwyr gyrfaoedd mewn ysgolion yn cefnogi'r rhai ag ADY sy'n cael darpariaeth brif ffrwd.

Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Jane Bryant AS
Cadeirydd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Jane.bryant@senedd.cymru

26/07/2023

Annwyl Gadeirydd,

**Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

Diolch yn fawr am eich llythyr ynghylch yr ymchwiliad uchod. Fel y gwyddoch, mae'r gwaith a gyhoeddwyd gennyf i a Chomisiynydd Plant Cymru yn amlygu'r ffaith nad yw plant a phobl ifanc sydd yn dymuno cael addysg cyfrwng Cymraeg wastad yn cael mynediad cyfartal at ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) addas. Byddwn felly yn dymuno i chi ystyried y dystiolaeth sydd wedi'i chynnwys yn ein papur fel rhan o'ch ymchwiliad.

Mae eich llythyr yn gofyn a oes unrhyw faterion penodol mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg neu ddarpariaeth gofal plant ar gyfer plant a phobl ifanc niwrowahanol neu anabl y dylai'r Pwyllgor fod yn ystyried fel rhan o'r ymchwiliad. Y tu hwnt i'r dystiolaeth gyffredinol sydd wedi'i chynnwys yn ein cyhoeddiad ar ADY, mae un argymhelliad penodol yn y papur sydd yn berthnasol iawn i'ch ymchwiliad. Mae argymhelliad cyntaf y papur yn ymwneud â gwella dealltwriaeth ynghylch y graddau mae anghenion dysgwyr cyfrwng Cymraeg yn cael eu diwallu ar hyn o bryd. Mae'n tystiolaeth ni yn awgrymu nad oes ar hyn o bryd ddarlun llawn o'r ddarpariaeth, a bod angen gwneud mwy i ddeall y bylchau sy'n bodoli yn y ddarpariaeth bresennol a'r mathau o heriau sy'n wynebu plant a theuluoedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Credwn felly y gall ymchwiliad y Pwyllgor gyfrannu at wella dealltwriaeth ynghylch hyn, ac at wneud yn siŵr bod llais plant a phobl ifanc anabl sy'n siarad Cymraeg yn cael ei glywed.

Yn ogystal â sicrhau fod y Gymraeg yn thema fydd yn cael ei ystyried ar draws yr ymchwiliad, credaf y dylai'r Pwyllgor gymryd camau penodol er mwyn casglu barn a thystiolaeth ynghylch profiadau plant a theuluoedd sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Un ffordd o wneud hyn fyddai sicrhau mewnbwn sefydliadau fel Mudiad Meithrin a Rhieni

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

dros Addysg Gymraeg (RhAG) sydd â dealltwriaeth fanwl ac arbenigol o'r materion hyn. Gwyddom hefyd fod gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno eu hadroddiadau adolygu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg erbyn 31 Gorffennaf 2023. Mae'n bosib felly y bydd y gwaith o fonitro cynnydd yn erbyn deilliant 6 y cynlluniau (sef gwella darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg) yn berthnasol i'ch ymchwiliad yn ogystal. Yn olaf, efallai eich bod yn ymwybodol fod gan y Llywodraeth fwriad sefydlu Grŵp Rhanddeiliaid Cenedlaethol ADY a'r Gymraeg, a hefyd i benodi swyddog gweithredu cenedlaethol ADY a'r iaith Gymraeg cyn diwedd y flwyddyn. Er na fydd y datblygiadau hyn mewn lle er mwyn cyfrannu at ymchwiliad y Pwyllgor, rwy'n siŵr y bydd canfyddiadau'r ymchwiliad o ddiddordeb i'r grŵp rhanddeiliaid ac i'r swyddog gweithredu cenedlaethol.

Hoffwn ddiolch i chi eto am gynnal yr ymchwiliad pwysig hwn, ac am sicrhau y bydd anghenion siaradwyr Cymraeg yn cael eu hystyried yn llawn.

Yr eiddoch yn gywir,

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
—
**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCCGG@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

1 Awst 2023

Capasiti'r gwasanaeth sifil

Annwyl Jayne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Mehefin 2023 yn nodi pryderon y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch capasiti'r Gwasanaeth Sifil o dan bortffolio'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'i dirprwyon.

Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn rhannu pryderon tebyg ynghylch capasiti a gallu ehangach y Gwasanaeth Sifil yng Nghymru.

Yn ddiweddar, gwnaethom ystyried adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gynllunio ar gyfer y gweithlu Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 8 Medi 2022. Gwnaethom gymryd tystiolaeth ynghylch cynnwys yr adroddiad, ochr yn ochr â'n gwaith craffu ar y Cyfrifon ar gyfer 2021-22, ac rydym yn disgwyl cyflwyno adroddiad arnynt cyn diwedd toriad yr haf.

Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried a oedd gan Lywodraeth Cymru ddull cadarn o gynllunio'r gweithlu, gan fyfyrio ar gynllunio'r gweithlu'n weithredol, y dull sy'n dod i'r amlwg o gynllunio'r gweithlu'n strategol a'r ymateb i anghenion presennol y gweithlu.

Fe wnaethom gytuno â chanfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu datblygiad ei strategaeth ar gyfer y gweithlu a'i Fframwaith Dirprwyo ac Atebolrwydd. Roeddem yn arbennig o bryderus bod Llywodraeth Cymru yn dibynnu'n ormodol ar ddatrysiadau staffio dros dro drud, gan gynnwys staff asiantaeth ar gontractau tymor penodol, i fodloni pwysau staffio.

Cododd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Bumed Senedd bryderon tebyg gyda Llywodraeth Cymru yn ystod ei waith craffu ar Gyfrifon 2019-20, ac er ei fod yn galonogol bod y defnydd o Lwfansau Dyletswyddau Dros Dro a Lwfansau Dyrchafiad Dros Dro yn lleihau, mae’n rhaid gwneud mwy i sicrhau bod adrannau'n gallu bod yn hyblyg wrth recriwtio staff addas. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio trwy weithredu cynllun gwaith sylweddol y bydd dibyniaeth Llywodraeth Cymru ar ddatrysiadau dros dro yn lleihau, gan werthfawrogi ar yr un pryd y byddant yn angenrheidiol, ac yn werthfawr, mewn rhai achosion.

Mae'r dystiolaeth a glywsom gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn awgrymu y gallai diffyg staff cyfreithiol a pholisi arbenigol effeithio ar gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu ac mae'n arwydd gofidus o’r bylchau mewn sgiliau yn y sefydliad. Rydym yn pryderu ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r bylchau mewn sgiliau hyn yn ei gweithlu i sicrhau bod yr arbenigedd cywir ar gael i gyflawni ei swyddogaethau.

Yn ein hadroddiad, byddwn yn nodi'r pryderon a godwyd yn eich llythyr a byddwn yn parhau i fonitro'r materion hyn wrth graffu ar gyfrifon yn y dyfodol. Bydd ein hadroddiad hefyd yn gwneud nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'i chynlluniau ar gyfer y gweithlu a byddwn yn cadw golwg ar y materion hyn.

Byddaf yn sicrhau bod copi o’n hadroddiad yn cael ei rannu â chi pan gaiff ei gyhoeddi.

Yn gywir,

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Eitem 3.28

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

15 Awst 2023

**Hiliaeth mewn ysgolion**

Annwyl Jeremy

Fel y gwyddoch, cwrddais yn ddiweddar â'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig a gododd bryderon am lefelau ac effaith bwlio hiliol mewn ysgolion ledled Cymru. Yn y cyfarfod hwn, amlinellwyd rhai achosion sy'n peri pryder mawr a daeth nifer o faterion i'r amlwg, gan gynnwys:

- Tangofnodi a chofnodi digwyddiadau bwlio fel rhai hiliol eu natur;
- Heriau wrth gofnodi bwlio hiliol; a
- Chysylltiadau rhwng bwlio hiliol, gwahardd o'r ysgol a disgyblion ethnig leiafrifol.

Maent hefyd wedi ysgrifennu at y Pwyllgor, ac rwyf wedi amgáu copi o'r llythyr. Maent yn codi nifer o gwestiynau a byddem yn croesawu eich barn am y materion hyn.

Rydym yn ymwybodol bod Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn nodi diffyg data am fwlio hiliol ac aflonyddu mewn ysgolion, sy'n golygu ei bod yn anodd deall maint y broblem a'r rhwystrau sy'n wynebu plant a phobl ifanc sy'n cael profiad o hiliaeth. Byddwch yn cofio bod mater tebyg ynglŷn â diffyg data penodol am fathau o fwlio ac aflonyddu wedi'i nodi yn ein hymchwiliad i aflonyddu rhywiol gan gymheiriaid y llynedd.

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn nodi bod Llywodraeth Cymru "wrthi'n ystyried system o gofnodi a chasglu data i Gymru gyfan, a fydd yn casglu data penodol mewn perthynas â bwlio ac aflonyddu, gan gynnwys ar sail nodweddion gwarchodedig." A allwch roi diweddariad inni am sut y

mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo a phryd rydych yn disgwyl y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud am yr hyn a gaiff ei gofnodi a sut?

Rydym hefyd yn deall bod gwaith ar y gweill i adolygu'r canllawiau gwrth-fwlio “Hawliau, Parch, Cydraddoldeb”. A allwch roi diweddariad inni ynghylch pryd y bydd y canllawiau diwygiedig hyn yn cael eu cyhoeddi, a sut y byddant yn rhoi sylw i natur ac effaith benodol bwlio hiliol? Yn olaf, sut fyddwch yn helpu awdurdodau lleol ac ysgolion i gyflawni'r canllawiau hyn?

Byddem yn gwerthfawrogi cael ymateb erbyn 4 Hydref 2023.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Wedi’i hatodi: Gohebiaeth gan y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Jeremy Miles AS/MS**

**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Awst 2023

Annwyl Jayne

**Diweddariad bob chwe mis ar yr adferiad ar ôl COVID-19 fel y mae'n berthnasol i blant a phobl ifanc**

Mewn ymateb i argymhellion adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23, rwyf wedi ymrwymo i roi diweddariadau bob chwe mis ar yr adferiad ar ôl COVID-19 ac amlinellu sut rydym yn helpu ein plant a'n pobl ifanc i ddod dros effeithiau parhaus pandemig COVID-19. Mae'r llythyr hwn yn nodi'r datblygiadau allweddol dros y chwe mis diwethaf, sydd â'r nod o ddatblygu ein dysgwyr a'n hymarferwyr. Mae'r llythyr hwn yn adeiladu ar y diweddariad cyntaf a roddwyd i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2022.

**Ymyrraeth gynnar ac atal**

Mae'r **Gronfa Help Cynnar** a gyflwynwyd yn 2021 wedi dod i ben bellach. Diben y Gronfa oedd mynd i'r afael ag effeithiau andwyol y tarfu a fu ar blant a phobl ifanc 0-25 oed o ganlyniad i'r pandemig, gan gynnwys y rhai a oedd newydd eu gwneud yn agored i niwed. Sicrhawyd bod £14 miliwn o gyllid ychwanegol ar gael i'r Grant Plant a Chymunedau rhwng 2021/23.

Roedd adroddiadau cynnydd yn manylu ar dargedau a cherrig milltir a gyflawnwyd drwy'r Gronfa Help Cynnar yn cael eu cyflwyno fel rhan o brosesau rheoli grant arferol ar gyfer 2021-22 a chyflwynwyd adroddiadau pellach gan awdurdodau lleol ar gyfer 2022-23. Mae'r adroddiadau hyn wedi rhoi gwybodaeth fanwl am y mathau o ymyriadau a chymorth a ariannwyd gan ddyraniadau ychwanegol y Gronfa Help Cynnar.

Amlinellir isod rai enghreifftiau o'r prosiectau a ariannwyd o dan bob pennawd gweithgaredd:

*Buddsoddiad ychwanegol mewn gwasanaethau a ddarperir o dan raglenni sy'n bodoli eisoes:*

- Grwpiau a sesiynau i deuluoedd plant cyn oed ysgol, gan gynnwys cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu, cymorth cynenedigol, grwpiau cymorth i rieni/gofalwyr, sesiynau i rieni a phlant bach a grwpiau babanod.
- Mwy o ddarpariaeth gymunedol ar gyfer plant a oedd yn ei chael hi'n anodd dod yn rhan o fywyd yr ysgol unwaith eto yn sgil absenoldebau o ganlyniad i COVID-19.
- Cymorth un i un er mwyn i unigolion mewn lleoliadau gofal plant bontio i ddechrau yn yr ysgol yn llwyddiannus.

*Buddsoddiad mewn gwasanaethau a all hybu darpariaeth mewn un maes a lleddfu'r pwysau mewn maes arall:*

- Nifer o brosiectau i gefnogi llesiant emosiynol sy'n amrywio o gymorth cwnsela, therapi gwybyddol ymddygiadol a phrosiectau sydd wedi rhoi'r adnoddau i deuluoedd feithrin cydnerthedd.
- Llinellau cyngor sy'n cynnig cyngor, gwybodaeth a chyfeiriadau at wasanaethau eraill, gan gynnwys anfon pecynnau adnoddau, cynnig cyngor sylfaenol ar hawliau lles a chymorth arall i deuluoedd ar ffurf ymyriadau cynnar tra byddant ar y rhestr aros.

*Buddsoddiad mewn hyfforddiant ac uwchsgilio'r gweithlu:*

- Hyfforddiant i gefnogi sgiliau magu plant sy'n cynnwys hyfforddiant ar fynd i'r toiled, cysgu a Solihull[1].
- Buddsoddiad mewn uwchsgilio staff i gynnwys hyfforddiant ar y Cylch Diogelwch, Ymarfer Systematig, Cydnerthedd Staff, Anhwylder Obsesiynol Cymhellol, Goruchwyliaeth Gwrthsefyll Di-drais, hyfforddiant Trawma a Datblygiad Ymennydd y Plentyn yr NSPCC a hyfforddiant Profedigaeth/Colled Cruse.

*Buddsoddiad i wella gallu ac adnoddau'r gweithlu presennol:*

- Cyllid i gyflogi ymarferwyr teuluol i weithio gyda theuluoedd y mae angen cymorth un i un arnynt.
- Cyllid ychwanegol i gynyddu lefelau staffio mewn gwasanaethau megis y Tîm Gofalwyr Ifanc, y rhaglen mentora ieuenctid, y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth a'r tîm Adeiladu Teuluoedd Cryfach.

Ochr yn ochr â hyn, sefydlwyd y **Gronfa Datblygiad Plant.** Dyrannwyd hyd at £18.5m o gyllid i'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru rhwng mis Hydref 2020 a mis Mawrth 2023 i'w helpu i ddarparu cymorth ychwanegol i'r plant a theuluoedd y mae'r cyfyngiadau symud o ganlyniad i COVID-19 wedi effeithio arnynt fwyaf, i fynd i'r afael â phryderon yn ymwneud ag oedi o ran datblygiad, mewn meysydd fel lleferydd, iaith a chyfathrebu, sgiliau echddygol manwl a bras a datblygiad personol a chymdeithasol. Mae'r Gronfa Datblygiad Plant wedi dod i ben bellach.

Ers cael ei sefydlu, mae'r Gronfa Datblygiad Plant wedi sicrhau

[1] Mae Dull Gweithredu Solihull yn cynnwys tîm o weithwyr proffesiynol yn y GIG. Maent yn gweithio gydag ymarferwyr a rhieni i ddatblygu adnoddau newydd i gefnogi iechyd a llesiant emosiynol mewn plant, teuluoedd, oedolion ac oedolion hŷn.

- y gellir cefnogi amrywiaeth o ymyriadau, sy'n cynnwys adnoddau sgrinio, asesu a datblygu gwell i fynd i'r afael ag oedi mewn sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu:
- Gweithgareddau ac adnoddau i hyrwyddo chwarae a llythrennedd corfforol
- Cymorth rhianta i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol
- Cynnydd yn y ddarpariaeth gofal plant a ariennir er mwyn cefnogi datblygiad plant
- Cyrsiau hyfforddiant amrywiol i weithwyr proffesiynol gofal plant, ymwelwyr iechyd, ymarferwyr y blynyddoedd cynnar er mwyn cefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu
- Darparu adnoddau â ffocws er mwyn cefnogi hyfforddiant a galluogi rhieni a theuluoedd i barhau â chymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y cartref er mwyn helpu datblygiad, darparu hyfforddiant ac adnoddau megis ERIC – *The Children's Bowel and Bladder Charity*
- Nifer o brosiectau sy'n galluogi plant i ryngweithio a datblygu eu sgiliau cymdeithasol, corfforol a chyfathrebu, megis sesiynau darganfod celf bach, sesiynau ysgolion coedwig
- Cynyddu adnoddau staffio mewn gwasanaethau, megis gwasanaethau cyngor a chymorth, gwasanaethau nyrsio ymataliaeth a gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal, er mwyn helpu i ymdrin â'r cynnydd yn nifer yr achosion sy'n cael eu hatgyfeirio, anghenion a nodwyd, gwella ansawdd y gofal a gynigir a lleihau llwythi gwaith.

**Chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar**

Yn 2019, lansiodd y Prif Weinidog ein polisi ar gyfer addysg a gofal plentyndod cynnar i bob baban a phlentyn 0-5 oed, a fydd yn adeiladu ar ein rhaglenni presennol a datblygu darpariaeth addysg a gofal plentyndod cynnar o ansawdd uchel ymhellach yng Nghymru. Ym mis Mehefin 2023, yn dilyn adborth gan randdeiliaid sy'n cynrychioli'r sector addysg a'r sector gofal plant ac ar ôl ystyriaeth ofalus, cytunodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a minnau y dylai'r term addysg a gofal plentyndod cynnar gael ei ddisodli gan y term chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar. Mae'r newid yn adlewyrchu ein ffocws ar fabanod a phlant ifanc unigol a'u taith dysgu a gofal ac ar roi chwarae wrth wraidd ein dull gweithredu yng Nghymru.

Er mwyn gwella ansawdd darpariaeth, a fydd yn gwella gallu lleoliadau i fynd i'r afael ag effeithiau ar fabanod a phlant ifanc, rydym wedi cyhoeddi Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru a'i ddogfennau cysylltiedig, Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru: Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol a Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: Llwybrau Datblygu 0-3 yn ddiweddar.

Mae Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar wedi cael ei ddatblygu drwy gyd-awduro gan ymarferwyr, dros ymarferwyr. Mae wedi'i eirio o safbwynt ymarferwyr, ac mae'n defnyddio arbenigedd y sector chwarae, addysg a gofal plentyndod cynnar 0-5 oed. Nod y Fframwaith Ansawdd yw sicrhau, ni waeth pa leoliad y mae plentyn yn ei fynychu, boed hynny mewn ysgol, lleoliad gofal dydd neu warchodwr plant, fod disgwyliadau ynglŷn â'u profiad a sut y cânt eu cefnogi a'u meithrin yr un fath ac y darperir chwarae, dysgu a gofal plentyndod cynnar o ansawdd sy'n bodloni gofynion y Cwricwlwm i Gymru a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir yng Nghymru i bob plentyn.

**Adolygiad Gweinidogol o Chwarae**

Ar 3 Chwefror 2023, croesawodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol adroddiad gan Grŵp Llywio annibynnol yr Adolygiad Gweinidogol o Chwarae. Un o'r themâu allweddol yw chwarae ac addysg, sy'n helpu plant i gael eu hawl i chwarae ym mhob lleoliad addysgol yn ystod oriau ysgol a'r tu allan iddynt. Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda swyddogion Polisi Chwarae i sicrhau'r canlyniad gorau i blant a phobl ifanc. Mae'r Dirprwy Weinidog yn ystyried yr argymhellion a bydd yn ymateb yn ffurfiol ar ôl toriad yr haf.

**Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu**

Cyhoeddwyd Siarad gyda fi: cynllun cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu ym mis Tachwedd 2020. Cafodd elfennau o'r cynllun eu blaenoriaethu a / neu eu datblygu i liniaru effaith y pandemig. Mewn ymateb i dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg am effaith y cyfyngiadau symud ar ddatblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu plant, caiff cyllid ychwanegol ei ddarparu i'r gwasanaethau Therapi Lleferydd ac Iaith ym mhob bwrdd iechyd a chanolfan arbenigol bob blwyddyn o 2020-21 i 2023-24.

Mae'r adborth ar effeithiau'r gweithgarwch a gynhaliwyd yn 2022-23 yn cynnwys y canlynol:

- mae hyfforddiant ac adnoddau cynyddol wedi bod o fudd i'r gweithlu cyfan, ac wedi gwella'r gwasanaethau a ddarperir a llesiant.
- mae wedi gwella amseroedd aros i ddefnyddwyr gwasanaethau.
- gall plant ag anhwylderau yn y sbectrwm awtistig/neu yr amheuir bod ganddynt anhwylderau yn y sbectrwm awtistig fanteisio ar therapi wedi'i dargedu i wella'r ffordd y maent yn rhyngweithio.
- mae staff ychwanegol wedi arwain at ymyriadau cynharach sydd wedi atal problemau rhag gwaethygu.

Ar 13 Gorffennaf 2023 cyhoeddodd Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth adroddiad yn dwyn y teitl **‘Cefnogi Datblygiad Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn y Blynyddoedd Cynnar: Adolygiad o Dystiolaeth o Ymyriadau Cyffredinol, Poblogaeth ac Wedi’u Targedu.** Bydd hwn yn helpu ymarferwyr ledled Cymru i ddewis ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu ar lefelau ymyriadau cyffredinol, poblogaeth ac wedi’u Targedu. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod gwasanaethau sy'n darparu cymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu wedi gweld cynnydd yn y galw a chymhlethdod achosion ers y pandemig ac felly mae'n bwysicach nag erioed yn awr bod plant yn cael yr hawl i gael cymorth, gan y person cywir, ar yr adeg gywir.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Un cyfraniad pwysig at hyn yw sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle gorau i ddatblygu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu cadarn, sy'n arwain at ganlyniadau gwell yn ystod plentyndod hŷn a phan fyddant yn oedolion. Er y bydd angen ymyriadau arbenigol ar rai, mae anghenion llawer o blant o ran datblygu'r sgiliau hyn yn rhai dros dro, y gellid eu dileu pe bai ymyriad cynnar. Mae tystiolaeth bod y fath ymyriadau cyffredinol, poblogaeth ac wedi'u targedu yn effeithiol, ond mae'n llai amlwg pa rai sydd fwyaf cadarn a mwyaf tebygol o sicrhau'r budd mwyaf i blant yn unol â'u hanghenion.

Nod yr ymchwil hon oedd nodi ymyriadau lle mae tystiolaeth gryf o wella canlyniadau lleferydd, iaith a chyfathrebu i blant 0 i 4 oed 11 mis ac y gellid eu mabwysiadu neu eu haddasu i'w defnyddio yng Nghymru ar lefel ymyriadau cyffredinol, poblogaeth ac wedi'u targedu. Caiff canfyddiadau'r adroddiad hwn eu rhannu'n eang â phartneriaid a rhanddeiliaid drwy'r system Blynyddoedd Cynnar gyfan yng Nghymru (ymarferwyr Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf, timau lleferydd, iaith a chyfathrebu, timau cydberthnasau rhiant/baban, athrawon cynghorol ar y Blynyddoedd Cynnar, gwasanaethau cymorth rhianta) a bydd yn bwydo i mewn i'r broses o ddatblygu'r elfen o Becyn Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud ag ymyriadau.

**Cefnogi canlyniadau dysgu a llesiant plant a phobl ifanc**

**Parhad Dysgu**

Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig – Datganiad Ysgrifenedig: Cyhoeddi canllawiau i leoliadau addysg a gofal plant ar gynllunio at argyfyngau ac ymateb iddynt a pharhad dysgu (29 Tachwedd 2022) | LLYW.CYMRU a gyfeiriodd at gyhoeddi **Canllawiau Parhad Dysgu** – Canllawiau parhad dysgu [HTML] | LLYW.CYMRU (a gafodd eu hadolygu a'u diweddaru ym mis Ebrill 2023).

Diben y canllawiau hyn yw sicrhau bod effeithiau unrhyw darfu ar ddysgu plant a phobl ifanc yn y dyfodol cael eu lleihau i'r eithaf a sicrhau na welan nhw darfu ar ddysgu ar raddfa pandemig COVID-19 byth eto yn ein hysgolion yng Nghymru. Mae'r canllawiau yn nodi'r disgwyliad y dylai pob ysgol yng Nghymru ddatblygu cynllun parhad dysgu. Mae hyn yn golygu, pe bai tarfu ar ddysgu, am unrhyw reswm (heb gynnwys tarfu o ganlyniad i weithredu diwydiannol), yna bydd rhieni a gofalwyr, staff addysgu, staff cymorth a dysgwyr i gyd yn deall y bydd dysgu o bell yn lle dysgu wyneb yn wyneb.

Y disgwyl yw y bydd ysgolion yn datblygu eu cynlluniau parhad dysgu mewn partneriaeth â'u hawdurdod lleol fel rhan o'u trefniadau cynllunio busnes arferol ac yn eu cysylltu â'r canllawiau ehangach i leoliadau addysg a gofal plant ar gynllunio at argyfyngau ac ymateb iddynt Canllawiau i leoliadau addysg a gofal plant ar gynllunio at argyfyngau ac ymateb iddynt [HTML] | LLYW.CYMRU. Caiff gwaith cynllunio parhad dysgu ei gefnogi ymhellach drwy gyhoeddi **Cynllun Addysg Ddigidol** sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac a fydd yn cael ei lansio ar ddiwedd mis Medi 2023.

**Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau**

Yn 2020, cyflwynwyd y rhaglen gyllido Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau. Mae'r cyllid hwn wedi'i gynllunio i'w gwneud yn bosibl i bob ysgol yng Nghymru recriwtio staff ychwanegol er mwyn sicrhau bod gan yr ysgol yr adnoddau sydd eu hangen i gefnogi dysgu a llesiant plant a phobl ifanc a sicrhau bod effeithiau'r pandemig yn cael eu lleihau i'r eithaf. Mae'r cyllid wedi cael ei ddosbarthu i bob ysgol yng Nghymru, gyda phwysoliad ychwanegol ar gyfer dysgwyr mwy agored i niwed a difreintiedig. O dan y rhaglen, dyrannwyd £59.1 miliwn o gyllid i ysgolion yn 2020-21, £68.9 miliwn yn 2021-22 a £37.5 miliwn yn 2022-23. Roedd bwriad i ddechrau tapro'r cyllid yn y flwyddyn ariannol 2023-24, ond mae'r cyllid wedi parhau ar yr un lefel am flwyddyn arall er mwyn cydnabod y pwysau parhaus o ganlyniad i'r pandemig. Felly, bydd cyllid yn parhau yn 2023-24 ar

£37.5 miliwn ac mae £28.5 miliwn wedi cael ei ddyrannu i'w ddosbarthu i ysgolion yn y flwyddyn ariannol 2024-25.

Caiff cyllid ei ddosbarthu i ysgolion a lleoliadau nas cynhelir i'w galluogi i ddefnyddio'r cyllid mewn ffordd hyblyg ar ddulliau gweithredu sydd wedi'u teilwra i gefnogi anghenion penodol eu dysgwyr. Cafodd y fformiwla gyllido ei llywio gan ffocws ar y dysgwyr mwyaf agored i niwed ac mae'n seiliedig ar nifer o bwysoliadau sy'n gysylltiedig â nodweddion penodol gyda chyllid cyffredinol wedi'i gapio i £125K fesul ysgol. Mae fformiwla gyllido'r rhaglen ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23 fel a ganlyn:

- Dyraniad o 50% - Cyfanswm nifer y disgyblion mewn meithrinfa hyd at flwyddyn 10 ym mis Chwefror 2022

- Dyraniad o 50% - Cyfanswm:

a) Nifer y disgyblion ym Mlynyddoedd 1, 7 ac 11
b) Nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu sydd wedi'u diogelu yn ystod y cyfnod pontio (y dosbarth derbyn i flwyddyn 10)
c) Nifer y disgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig neu gynlluniau datblygu unigol (meithrinfa i flwyddyn 10)
d) Nifer y disgyblion o gefndiroedd Du ac Ethnig Leiafrifol neu Sipsiwn, Roma a Theithwyr 5+ oed (dosbarth derbyn i flwyddyn 10)
e) Nifer y disgyblion yr addysgir Cymraeg fel iaith gyntaf iddynt (dosbarth derbyn i flwyddyn 10)
f) Nifer y disgyblion mewn ysgolion/lleoliadau sydd wedi'u diffinio'n rhai gwledig (meithrinfa i flwyddyn 10).

Mae gwerthusiad cychwynnol o'r rhaglen wedi cael ei gynnal gan Miller Research a chafodd ei gyhoeddi ym mis Mai 2023 – Gwerthuso’r Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau | LlYW.CYMRU. Mae'n amlwg o'r gwerthusiad hwn bod ysgolion wedi cael budd sylweddol o gyllid y rhaglen. Mae penaethiaid wedi croesawu'r hyblygrwydd i recriwtio'r staff cywir i gefnogi anghenion eu dysgwyr unigol, o fewn cyd-destun unigryw eu hysgol.

Mae'r canfyddiadau allweddol o'r adroddiad gwerthuso fel a ganlyn:

- Amcangyfrifir bod 2,452 o staff cyfwerth ag amser llawn wedi’u cyllido drwy’r Rhaglen.
- Anghenion y dysgwyr oedd y brif ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau ynghylch y dyraniadau cyllido, a hynny’n cael ei arwain gan wybodaeth yr ysgolion eu hunain am eu dysgwyr.
- Roedd cyngor a chymorth yr awdurdodau lleol yn fwy rhagnodol mewn lleoliadau gofal plant nag ysgolion.
- Cymorth lles oedd y dull gweithredu mwyaf effeithiol. Mae'r ffocws hwn wedi bod yn elfen ganolog yn yr holl feysydd dysgu er mwyn sicrhau mwy o ymgysylltu a galluogi datblygiad plant mewn addysg gynnar.
- Bydd effeithiau COVID-19 ar ddysgwyr, ac ysgolion yn para yn yr hirdymor. Bydd y profiad o'r tarfu ar eu haddysg yn aros gyda phlant, a bydd y gweithlu yn wynebu tarfu o hyd o ganlyniad i absenoldebau COVID-19.

**Ysgolion Bro a Phresenoldeb**

Y llynedd, buddsoddwyd £3.84m i gynyddu nifer y swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a gyflogir gan ysgolion, gan sicrhau bod rhan o'u rôl yn canolbwyntio ar wella presenoldeb disgyblion. Cynyddodd y swm hwn i £6.5m yn y flwyddyn ariannol hon.

Rydym wedi cyhoeddi canllawiau ar Ysgolion Bro ac Ymgysylltu â theuluoedd ac rydym yn datblygu gwaith ymchwil, canllawiau ac astudiaeth achos pellach dros y misoedd i ddod.

**Iechyd meddwl a llesiant**

Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi Iechyd Cyhoeddus Cymru i helpu ysgolion i weithredu ac ymgorffori'r Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol drwy recriwtio tîm o gydgysylltwyr gweithredu i weithio'n uniongyrchol gydag ysgolion i werthuso eu darpariaeth bresennol o ran llesiant, gan nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda, unrhyw fylchau mewn darpariaeth a lle mae angen gwella. Erbyn diwedd mis Mehefin 2023 roedd 886 o ysgolion yn ymgysylltu â'r cydgysylltwyr gweithredu, sy'n cyfateb i 60.5% o holl ysgolion Cymru.

Er mwyn cefnogi'r broses o roi'r Fframwaith ar waith ymhellach, rydym wedi comisiynu arolwg o ysgolion, a ddaeth i ben ar 28 Gorffennaf. Drwy hyn, rhoddwyd cyfle i uwch-arweinwyr ysgol wneud sylwadau ar effaith ein gwaith a llywio gweithgarwch yn y maes ymhellach.

Mae cwnsela yn rhan allweddol o sicrhau bod plant a phobl ifanc y mae angen cymorth arnynt oherwydd eu hiechyd emosiynol a'u hiechyd meddwl yn cael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £2.1m yn 2023-24 i gyllido darpariaeth cwnsela drwy'r awdurdodau lleol. Defnyddir cyllid i gefnogi gwelliannau mewn cwnsela ac estyn y ddarpariaeth islaw'r trothwy presennol sef blwyddyn 6, yn unol ag argymhellion yr adolygiad o wasanaethau cwnsela sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion ac yn y gymuned gan Brifysgol Caerdydd. Mae'r adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, yn gwneud argymhellion i helpu i wella'r gwasanaeth, drwy estyn yr hawl i blant iau a gwella trefniadau monitro a gwerthuso.

Hefyd, rydym yn darparu mwy na £16.4m dros gyfnod o dair blynedd (2022-2025) er mwyn sicrhau bod gwasanaeth mewngymorth CAMHS yn cael ei ddarparu'n genedlaethol. Fel rhan o'r gwasanaeth hwn mae ymarferwyr iechyd meddwl pwrpasol wedi'u lleoli mewn ysgolion fel ymgynghorwyr, i fod yn ddolen gyswllt ac i roi cyngor a hyfforddiant. Mae'r gwasanaeth hwn bellach wedi'i ymgorffori ym mhob un o'r saith bwrdd iechyd, ac rydym wedi cael adroddiadau diwedd y flwyddyn sy'n dangos y gweithgarwch hyd yma. Mae hyn yn cael ei ddadansoddi ar hyn o bryd ac mae'r canfyddiadau cychwynnol yn dangos bod y rhan fwyaf yn cynnig gwasanaeth tebyg ond bod rhywfaint o hyblygrwydd o ran eu dulliau gweithredu, sy'n cael ei fonitro. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â chydgysylltwyr cenedlaethol a chynhaliwyd yr un diwethaf ar 12 Gorffennaf 2023.

Rydym wedi comisiynu Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu pecyn cymorth "beth sy'n gweithio" a fydd yn helpu ysgolion i nodi ymyriadau cyffredinol ac wedi'u targedu priodol i'w defnyddio yng nghymuned eu hysgol. Bydd yn ffynhonnell o gyngor annibynnol, sy'n

seiliedig ar dystiolaeth ar amrywiaeth o ymyriadau, rhaglenni a hyfforddiant sydd ar gael ar hyn o bryd ac sy'n cael eu marchnata i ysgolion. Mae hyn wedi cael ei gyd-awduro drwy waith gydag athrawon a rhieni. Mae gwybodaeth wedi cael ei chasglu ar yr hyn y mae angen i ysgolion ei wybod wrth ystyried cyflwyno adnoddau i helpu i hyrwyddo iechyd meddwl a llesiant, ac mae cryn dipyn o waith yn cael ei wneud i sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir yn briodol ar gyfer y gynulleidfa arfaethedig.

Nodwyd grŵp cychwynnol o chwe ymyriad ac maent wedi cael eu cyhoeddi ar HWB ac maent yn gyfuniad o'r canlynol:

- dulliau cyffredin i bob plentyn neu'r ysgol gyfan
- ymyriadau i blant a all fod yn agored i broblemau iechyd emosiynol neu iechyd meddwl
- ymyriadau i blant a all ddangos arwyddion o broblemau iechyd meddwl neu iechyd emosiynol

Bydd y gwaith hwn yn llywio'r defnydd o £1.1m a ddarparwyd gennym yn 2023-24 i gefnogi'r broses o gyflwyno ymyriadau cyffredinol ac wedi'u targedu, a hyfforddiant i athrawon ac aelodau eraill o staff yr ysgol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi creu adnodd ar-lein sy'n hyrwyddo'r nifer mawr o adnoddau digidol a gynlluniwyd yn benodol i gefnogi pobl ifanc gyda'u hiechyd meddwl a'u lles emosiynol eu hunain. Mae Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc yn cysylltu pobl ifanc 11-25 oed â gwefannau, apiau, llinellau cymorth a mwy er mwyn meithrin gwydnwch a'u cefnogi.

**Llesiant a datblygiad**

Gan adeiladu ar lwyddiant Haf o Hwyl, a gynhaliwyd yn ystod haf 2021, ym mis Hydref 2021 gwnaethom gyhoeddi £20m ar gyfer y rhaglen Gaeaf Llawn Lles er mwyn cefnogi'r ymrwymiadau a nodwyd yn Adnewyddu a Diwygio ymhellach a chynnig mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc 0-25 oed i ddatblygu eu llesiant cymdeithasol, emosiynol a chorfforol. Cyflwynwyd y rhaglen drwy bum maes gweithgarwch, gyda'r sefydliadau canlynol yn cael cyllid i ddarparu gweithgareddau Gaeaf Llawn Lles:

- £6m i awdurdodau lleol: a ddarparwyd gweithgareddau drwy swyddogion arweiniol Chwarae yn bennaf a thrwy barhau â gwaith Haf o Hwyl; roedd partneriaid yn cynnwys y trydydd sector a'r sector preifat.
- £3m i sefydliadau cenedlaethol: a ddarparwyd gan Chwaraeon Cymru, Cymdeithas y Prif Lyfrgellwyr, y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol, Urdd Gobaith Cymru ac Amgueddfa Cymru, a Ffederasiwn Amgueddfa ac Orielau Celf Cymru.
- £10.7m o gyllid a ddyrannwyd i leoliadau a darparwyr addysg, gan gynnwys:
    - ysgolion cynradd ac uwchradd
    - colegau addysg bellach
    - £1.3m a ddyrannwyd i CCAUC er mwyn sicrhau bod sefydliadau yn cydweithio ag Undebau Myfyrwyr i ddarparu'r gweithgareddau.
- £300k i gefnogi gwerthusiad amlweddog.

Hefyd, fel rhan o'r Gaeaf Llawn Lles, darparwyd dros £700,000 gennym i gefnogi'r broses o dreialu Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol mewn ysgolion a wirfoddolodd yn ystod y flwyddyn academaidd 2021/22. Roedd y treial yn gwarantu pum awr o weithgareddau chwaraeon, diwylliannol, creadigol, adloniadol a hamdden yr wythnos (am 10 wythnos) i ddysgwyr cyn a/neu ar ôl oriau ysgol arferol. Roedd angen i 20% o leiaf o'r amser (awr yr wythnos) gyd-fynd â chymorth academaidd drwy deilwra gweithgareddau chwaraeon neu gyfoethogi i gynnwys rhai sgiliau academaidd craidd. Cafodd 13 o ysgolion (wyth ysgol gynradd a thair ysgol uwchradd a dwy ysgol pob oed (4-16 oed)) ac un coleg gymorth gan Lywodraeth Cymru i sefydlu a chyflwyno Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol.

Cafodd gwerthusiadau o'r Gaeaf Llawn Lles a'r Treialon Sesiynau Cyfoethogi Ychwanegol eu cyhoeddi, ar wahân, ar ddechrau 2023 ac roedd canfyddiadau'r naill a'r llall yn gadarnhaol iawn. Arweiniodd y treialon at effeithiau cadarnhaol i'r dysgwyr a gymerodd ran. Roedd hyn yn cynnwys mwy o gymdeithasoli, gwell llesiant, datblygu sgiliau newydd, gan gynnwys bod yn egniol yn gorfforol, a gwelliannau o ran ymddygiad, presenoldeb yn yr ysgol ac ymgysylltu yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r gwerthusiadau bellach yn cael eu hystyried yng nghyd-destun ein polisïau a'n diwygiadau addysgol ehangach.

**Rhaglen Gwella Gwyliau’r Haf**

Dyrannwyd £4.85m ar gyfer y rhaglen yn 2022-23. Gwnaeth cyfanswm o 139 o ysgolion mewn 21 o ardaloedd cyngor gyflwyno'r rhaglen i 196.5 o garfannau, a oedd yn darparu 7860 o leoedd y dydd tra oedd yn rhedeg. Mae ffigurau presenoldeb gwirioneddol yn dangos bod 6884 o blant wedi mynychu o leiaf unwaith. Mae cyfanswm o £4.85m wedi cael ei ddyrannu unwaith eto yn 2023-24, gyda 176 o gynlluniau yn yr arfaeth ledled Cymru ar gyfer yr haf hwn, a fydd yn cynnig bron 11,000 o leoedd i ddysgwyr y dydd tra bydd y cynlluniau yn rhedeg. Hefyd, eleni, mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, bydd plant sy'n dod yn cael cynnig ‘Bag Bwyd’ (bag a fydd yn cynnwys nwyddau groser sylfaenol) i fynd adref ag ef.

**Cyfleoedd chwarae yn ystod gwyliau'r ysgol**

Fel rhan o'n hymateb i'r argyfwng costau byw, cyllidwyd rhaglen Haf o Hwyl yn 2022, a gynigiodd weithgareddau am ddim a chyfle i gael i blant a phobl ifanc 0-25 oed gael byrbrydau iach yn ystod gwyliau'r ysgol. Cafodd dros 300,000 o blant a phobl ifanc a'u teuluoedd fudd o gymryd rhan yn y gweithgareddau. Nid oes unrhyw gyllid wedi cael ei ddyrannu ar gyfer Hwyl o Haf arall yn 2023.

Mae cyllid Prosiect Gwyliau Playworks gwerth £1m wedi cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol ar gyfer 2023-24, sy'n ategu darpariaeth Bwyd a Hwyl Rhaglen Gwella Gwyliau’r Haf drwy gynnig byrbrydau iach mewn darpariaeth sy'n cael ei staffio gan Playworks yn ystod gwyliau'r haf.

**Cynllun ôl-16 a phontio**

Mae'r Cynllun Ôl-16 a Phontio Adnewyddu a Diwygio, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, yn amlinellu'r ffordd y byddai Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda darparwyr addysg ôl-16 i gefnogi dysgwyr ac ymarferwyr ledled Cymru i symud ymlaen o bandemig COVID-19.

Gwerthusiad o gyllid adfer ôl-16 wedi COVID-19

Ym mis Ebrill 2022, gwnaethom gomisiynu gwerthusiad o effeithiolrwydd cyllid cysylltiedig â COVID-19 a ddyrannwyd yn flaenorol ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16. Bydd y gwerthusiad yn rhoi tystiolaeth i lywio dulliau strategol a gweithredol Llywodraeth Cymru o roi cymorth parhaus ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16 wrth i'r sector adfer yn sgil effeithiau tarfu'r pandemig. Bydd hefyd yn archwilio'r opsiynau ar gyfer gwerthusiad o effaith yn y dyfodol a fframwaith gwerth am arian. Bydd yr holl ddata'n cael eu dadansoddi a'u syntheseiddio a'u cyhoeddi mewn adroddiad terfynol ym mis Gorffennaf 2023.

Gweithgarwch presennol i gefnogi dysgwyr ôl-16

Mae'r prosiectau canlynol yn parhau i gefnogi dysgwyr ôl-16 y mae'r pandemig a'r broses bontio wedi effeithio arnynt:

a) **Mentora** – Mae CCAUC yn gweithio gyda Phartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru i gyflwyno rhaglen fentora ar-lein i nifer o ysgolion a rhai colegau ledled Cymru. Caiff y rhaglen fentora ei chyflwyno gan fyfyrwyr addysg uwch rhwng mis Chwefror a mis Mai/Mehefin 2023. Rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Mawrth 2023, cofrestrodd 390 o ddysgwyr â'r prosiect, yr oedd 232 ohonynt wedi cofrestru ar lwyfan Brightside ac roeddent yn gallu cysylltu â mentoriaid. Mae menteion wedi cael eu recriwtio o wyth coleg a 16 o ysgolion Ymgyrraedd yn Ehangach â blaenoriaeth sy'n cynnwys chweched dosbarth yng Nghymru. Recriwtiwyd 132 o fentoriaid o chwe phrifysgol, dau goleg a thrwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae 97 o fentoriaid wedi ymgysylltu â menteion drwy'r llwyfan. Caiff yr adroddiad gwerthuso terfynol ei gyhoeddi ym mis Hydref 2023.

b) **Cyn-fyfyrwyr** – yn 2022-23 mae Gyrfa Cymru wedi helpu pob ysgol yng Nghymru i sefydlu a chynnal rhwydweithiau o gyn-fyfyrwyr. Mae swyddogion bellach wedi cael yr adroddiad gwerthuso terfynol ar y prosiect. Mae 800 o gyn-fyfyrwyr o 80 o ysgolion uwchradd wedi cynnig cymorth i'w hen ysgol. Daeth Gyrfa Cymru i'r casgliad y gallai adeiladu ar lwyddiant prosiect y cyn-fyfyrwyr drwy ymgorffori'r model yn ei ddarpariaeth graidd. Yn y flwyddyn ariannol 2023-24, bydd pob Cynghorydd Ymgysylltu â Busnes yn helpu un ysgol yn yr ardal i sefydliad rhwydwaith o gyn-fyfyrwyr.

c) **Profiad gwaith wedi'i deilwra** – Yn dilyn cynllun peilot gyda dysgwyr B10, mae Gyrfa Cymru wedi cael swm o £500k i ymgysylltu ymhellach â chyflogwyr a chynnig hyd at 500 o leoliadau profiad gwaith wedi'u targedu yn 2023/24. Bydd y lleoliadau profiad gwaith hyn yn cefnogi dysgwyr B11 sydd wedi cael anhawster i ailgydio yn eu haddysg ar ôl tarfu'r pandemig yn bennaf. Bydd ysgolion o bob un o'r 22 ALl yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y prosiect. Mae Gyrfa Cymru wedi cyflogi 8.5 Cynghorydd Ymgysylltu â Busnes i reoli'r lleoliadau.

d) **Yn barod ar gyfer y Brifysgol** – Mae'r Brifysgol Agored a phob prifysgol yng Nghymru wedi cael cyllid ar gyfer 2022-2025 i gydweithio i ddatblygu Hwb Yn Barod ar gyfer y Brifysgol. Yn 2023-24, bydd Y Brifysgol Agored a SAUau ledled

Cymru yn parhau i ddatblygu ac ehangu'r ystod o adnoddau ar yr Hwb Barod ar gyfer y Brifysgol sy'n rhoi cymorth a chyngor i amrywiaeth eang o ddysgwyr sy'n pontio i Addysg Uwch. Mae SAUau wrthi'n creu cyfres o bodlediadau dwyieithog lle bydd myfyrwyr yn trafod amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys pryderon ynglŷn â bywyd ac arian myfyrwyr a rhwystrau sy'n atal unigolion rhag gwneud cais i'r brifysgol a phontio i Addysg Uwch.

e) **Seminarau Galwedigaethol Cymraeg** – Yn ystod y pandemig, cafodd dysgwyr o gartrefi di-Gymraeg a oedd yn mynd i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg lai o gyfleoedd i ddysgu a rhyngweithio'n gymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae llawer o'r dysgwyr hyn bellach wedi symud ymlaen i raglenni galwedigaethol ôl-16 yn y coleg lle gallant fod ymhlith lleiafrif bach o siaradwyr Cymraeg rhugl. Yn 2022/23, gwnaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ddatblygu a threialu cyfres o seminarau pwnc i ddysgwyr 16-19 oed sy'n dilyn cyrsiau galwedigaethol. Gwnaeth y cynllun peilot ddwyn ynghyd ddysgwyr galwedigaethol sy'n siarad Cymraeg o holl golegau AB Cymru, a oedd yn astudio drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf, ar gyfer cyfres o seminarau rhithwir o dan arweiniad tiwtoriaid sy'n siarad Cymraeg ac sy'n arbenigo ym maes **Busnes** a'r **Celfyddydau Perfformio**. Mae'r prosiect hwn wedi dod i ben bellach, a bydd yr adroddiad gwerthuso terfynol yn dod i law cyn hir.

f) **Cyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr** – Yn 2021-22, cafodd cyllid adferiad a chynnydd dysgwyr gwerth £33m ei ddyrannu i golegau AB a darpariaeth chweched dosbarth er mwyn iddynt gefnogi dysgwyr y mae'r pandemig wedi tarfu arnynt. Dyfarnwyd swm ychwanegol o £21m ar gyfer adferiad a chynnydd dysgwyr yn 2022/23. Mae'r cyllid hwn wedi galluogi colegau AB a darpariaeth chweched dosbarth i ddarparu oriau dysgu ychwanegol i ddysgwyr ym mlynyddoedd 12, 13, Coleg B1, B2 ac uwch. Roedd dysgwyr yn gallu ymgymryd â dysgu mewn grŵp, dysgu ar sail un i un neu gyfuniad o'r ddau. Cafodd dysgwyr gyfle i fynd dros ddysgu blaenorol eto a dyfnhau eu gwybodaeth er mwyn bodloni gofynion eu cwrs, cael cymorth bugeiliol penodol, gan gynnwys meithrin gwydnwch a hyder a datblygu eu sgiliau ymarferol. Yn 2023/24, mae swm pellach o £10.563m o gyllid Adferiad a Chynnydd Dysgwyr wedi cael ei ddyrannu i golegau addysg bellach a darpariaeth chweched dosbarth.

g) **Cyllid Pontio** – cafodd colegau AB a darpariaeth chweched dosbarth gyllid pontio gwerth £12m yn 2021/22/ Mae swm pellach o £3m o gyllid pontio wedi cael ei ddyrannu i golegau AB a darpariaeth chweched dosbarth ar gyfer y flwyddyn academaidd 2022/23 er mwyn codi ymwybyddiaeth dysgwyr o'r amrywiaeth eang o opsiynau mewn addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae canllawiau wedi cael eu hadolygu yn seiliedig ar astudiaethau achos ac adborth monitro ac maent yn argymell y dylai darparwyr drefnu diwrnodau rhagflas ar y coleg, dosbarthiadau meistr neu weithdai rhyngweithiol a rhaglenni haf i ddysgwyr B10 a B11 er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg ar y cam nesaf yn eu llwybr addysgol, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Iechyd meddwl a llesiant staff a dysgwyr ôl-16

Roedd pryder am yr effaith ar ddysgwyr a staff yn parhau i dyfu drwy gydol y pandemig a phwysleisiodd adborth gan y sector yr effaith sylweddol yr oedd hyn yn ei chael ar iechyd meddwl a llesiant dysgwyr a staff.Cafodd pob person ifanc bron rywfaint o brofiad o orbryder, iselder a rhwystredigaeth a oedd yn gysylltiedig â'r cyfnod hir o darfu ar ei addysg, arholiadau a gollwyd, eu llwybr ymlaen i'r brifysgol a/neu eu rhagolygon cyflogaeth.

Mae effeithiau'r pandemig wedi bod yn bellgyrhaeddol ac ar sail adborth o'r sector, mae'r prif effeithiau ar ddysgwyr a staff yn cynnwys:

- **Pwysau academaidd** – terfynau amser, arholiadau, diffyg dealltwriaeth a newidiadau i ddisgwyliadau, pwysau ymdopi, dryswch, pwysau gan rieni, dychwelyd i'r coleg a dysgu wyneb yn wyneb, ofn methu, meddwl am y dyfodol, cyfraddau cadw.
- **Anawsterau cymdeithasol a phersonol** – cydberthnasau, bywydau cymdeithasol, bywyd y cartref, teulu, problemau personol, hiraeth/unigrwydd/teimlo'n ynysig, bwlio, pwysau gan gyfoedion, teimlo eu bod yn methu siarad ag eraill, adleoli, marwolaeth aelod o'r teulu/partner/ffrind, effaith y cyfryngau cymdeithasol, cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, gofal plant, addysg yn y cartref, cynnydd mewn hunan-niweidio a chamddefnyddio sylweddau.
- **Straen, iselder a gorbryder** – diffyg sgiliau rheoli straen
- **Materion ariannol** – colli incwm y teulu
- **Cymorth a mynediad digidol** – diffyg hyfforddiant neu fynediad i gyfarpar

Dyrannwyd buddsoddiad cychwynnol o £2m i'r sector AB yn 2020-21 gyda £2.5m pellach yn cael ei ddyrannu ym mis Ionawr 2021 i gefnogi effaith pandemig COVID-19 ar ddysgwyr a staff AB. Clustnodwyd £500,000 o'r swm hwn ar gyfer dysgu seiliedig ar waith.

Rhoddodd y cyllid ategol hwn o £2.5m adnodd ychwanegol i alluogi sefydliadau i fuddsoddi ymhellach mewn darparu cymorth i staff a dysgwyr. Defnyddiwyd y rhan fwyaf o'r cyllid hwn i recriwtio staff a mentoriaid cwnsela a llesiant ychwanegol ac, mewn rhai sefydliadau, i brynu gwasanaeth cwnsela y tu allan i oriau. Defnyddiwyd cyllid hefyd i ddarparu hyfforddiant gwydnwch yn ymwneud yn benodol â COVID-19 i staff.

Hefyd, yn 2022/23, darparwyd £700,000 i gefnogi iechyd a llesiant dysgwyr, staff a sefydliadau prentisiaeth. Bydd hyn yn helpu dysgwyr i barhau i ddilyn rhaglen i gwblhau eu prentisiaeth, gan barhau â'n ffocws ar gynnal a datblygu darpariaeth o safon a sicrhau canlyniadau llwyddiannus. Yn 2023/24, mae swm pellach o £1m wedi cael ei ddyrannu i gefnogi'r maes hwn.

Mae effeithiau COVID-19 yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac mae buddsoddiad yn parhau i gryfhau'r cymorth ar gyfer iechyd meddwl a llesiant dysgwyr a staff mewn addysg bellach. Yn ogystal â'r dyraniad blynyddol sylfaenol o £2m, dyrannwyd swm ychwanegol o £4m yn 2022/23, a swm ychwanegol o £2m yn 2023/24, er mwyn helpu i fynd i'r afael ag effeithiau'r pandemig ar iechyd meddwl a llesiant.

Mae adborth gan golegau yn awgrymu eu bod yn parhau i weld effeithiau andwyol ar lesiant dysgwyr, gan gynnwys mwy o bryder a phroblemau ymddygiadol. Mae'r

buddsoddiad ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i ddarparu'r cymorth ychwanegol sydd ei angen i gynyddu maint timau llesiant/lles er mwyn iddynt allu ymateb i'r nifer cynyddol o atgyfeiriadau, darparu gwasanaethau cwnsela i ddysgwyr ac ariannu gweithgareddau i feithrin gwydnwch a chefnogi llesiant cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr. Mae gwaith helaeth yn cael ei wneud gyda cholegau i ymgorffori ymarfer a lywir gan drawma, yn ogystal â chyflwyno cynrychiolwyr llesiant staff drwy'r sector cyfan.

Dysgu digidol addysg bellach

Ym mis Rhagfyr 2022, lansiais “alwad i weithredu” digidol i'r sector AB. Gofynnais i bob sefydliad baratoi cynlluniau strategol digidol yn dangos sut y byddant yn adeiladu ar brofiadau'r pandemig i sefydlu dull dysgu digidol cynaliadwy. Rwyf wedi gofyn i sefydliadau ddangos sut y byddant yn:

1. Cydweithio i ehangu mynediad at gyfleoedd dysgu
2. Datblygu galluoedd digidol dysgwyr a staff a'u hyder ar gyfer dysgu, bywyd a gwaith
3. Defnyddio technoleg i'r eithaf er mwyn grymuso, ennyn brwdfrydedd ac ysbrydoli dysgwyr
4. Ymgorffori dulliau cyflawni ystwyth, cydnerth a chynaliadwy

Er mwyn helpu i baratoi'r cynlluniau mae £8m o gyllid cyfalaf wedi cael ei ddyrannu dros dair blynedd ar gyfer seilwaith ac arloesi digidol. Rydym hefyd wedi comisiynu ymchwil gan Jisc, sy'n defnyddio profiadau yn ystod y pandemig, er mwyn helpu i nodi lle y gall y defnydd o ddysgu digidol gael yr effaith a'r budd mwyaf.

**Ymchwil a thystiolaeth**

Ymchwil a Thystiolaeth y Blynyddoedd Cynnar

Mae'r tîm Tystiolaeth Plant, Teuluoedd a Gofal Plant wedi comisiynu sawl darn o waith i ddeall y sectorau gofal plant a chwarae yn well ar ôl COVID-19. Mae'r rhain yn cynnwys yr Adolygiad o Warchodwyr Plant a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac ymchwil sy'n parhau ynglŷn ag Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant a'r gweithlu gofal plant a chwarae. Mae'r darnau hyn o waith gyda'i gilydd yn rhoi tystiolaeth wedi'i diweddaru inni ynglŷn â'r sector ar hyn o bryd, a'i anghenion yn y dyfodol.

Gwerthuso'r Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau

Cyhoeddwyd yr adroddiad gwerthuso hwn ar 3 Mai 2023. Gwerthuso’r Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau | LLYW.CYMRU

Canfyddiadau:

- Amcangyfrifir bod 2,452 o staff cyfwerth ag amser llawn wedi’u cyllido drwy’r Rhaglen.
- Anghenion y dysgwyr oedd y brif ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau ynghylch y dyraniadau cyllido, a hynny’n cael ei arwain gan wybodaeth yr ysgolion eu hunain am eu dysgwyr.
- Roedd cyngor a chymorth yr awdurdodau lleol yn fwy rhagnodol mewn lleoliadau gofal plant nag ysgolion.

- Cymorth lles oedd y dull gweithredu mwyaf effeithiol. Mae'r ffocws hwn wedi bod yn elfen ganolog yn yr holl feysydd dysgu er mwyn sicrhau mwy o ymgysylltu a galluogi datblygiad plant mewn addysg gynnar.

Argymhellion:

- Parhau i ganolbwyntio ar ddiwallu angen, fel y caiff ei ddiffinio ar lefel ysgol a lleoliad gofal plant, ar y cyd â blaenoriaethau ar lefel genedlaethol.
- Archwilio'r posibilrwydd o bennu isafswm dyraniad grant.
- Ystyried pwysoliad ychwanegol wrth gyfrifo grantiau ar gyfer natur wledig lleoliadau.
- Parhau i fabwysiadu dulliau cyfannol a gwneud y defnydd gorau o ddulliau amlasiantaethol er mwyn diwallu anghenion 3-7 oed yn llawn.
- Parhau i gefnogi addysg a gofal plant cynnar y tu allan i'r ysgol, gan gynnwys lleoliadau gofal plant nas cynhelir ac nas ariennir.
- Nodi mai diben unrhyw hyfforddiant a ddarperir gan y grantiau yw gwella adnoddau staff gyda dysgwyr, nid dim ond uwchsgilio'r gweithlu presennol.
- Cysylltu'n agosach â mentrau eraill i gynyddu nifer y staff. Er enghraifft, rhaglenni sy'n cefnogi mynediad i'r gweithlu yn y sector gofal plant a'r sector ysgolion.
- Dylai Llywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol annog cydweithio a gweithio mewn clwstwr ar lefel ysgolion a gofal plant.
- Sefydlu adnodd cenedlaethol i fesur yn gyson anghenion lleol y tu allan i'r carfannau â blaenoriaeth fel y gall dyraniadau grant gefnogi pob angen yn effeithiol.
- Sicrhau bod data cadarn yn cael eu casglu drwy gyflwyno trefniadau cyffredin i ysgolion a lleoliadau gofal plant ar gyfer monitro faint o adnoddau ychwanegol sydd, a gofnodir fel FTE, nifer y staff a'r maes dysgu lle maent yn gweithredu.

Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN)

Mae'r Adroddiad Cenedlaethol ar Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN) ar gyfer 2021/22 bellach ar gael. [Dangosfwrdd Data Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (shinpyapps.io)]

Mae dangosfwrdd SHRN yn fyw o ran data iechyd a lles o arolwg 2017, 2019 a 2021 SHRN ar lefel genedlaethol a lefel ALl/bwrdd iechyd. Gellir rhyngweithio â'r data yn y dangosfwrdd neu ei lawrlwytho i'w dadansoddi.Mae'r arolwg, a gynhelir bob dwy flynedd, yn rhoi ciplun rheolaidd ar ymddygiadau iechyd a lles dysgwyr 11-16 oed. Drwy hyn, gellir cynnal asesiad parhaus o bobl ifanc yng Nghymru, yn genedlaethol ac yn rhanbarthol, a rhoddir cyfleoedd i lunio cymariaethau rhyngwladol o dueddiadau ym maes iechyd a lles y glasoed.

Cafodd y dangosfwrdd ei greu ar y cyd â thîm DECIPHer Prifysgol Caerdydd. Nod y cydweithrediad oedd helpu defnyddwyr i weld rhai darnau o ddata arolwg Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN) ar lefel ddaearyddol is nag erioed o'r blaen. Mae'r dangosfwrdd yn cynnwys 32 o bynciau gwahanol ar gyfer tair blwyddyn o'r arolwg (2017, 2019 a 2021), y gellir eu gweld ar lefelau rhywedd, oedran, cyfoeth teuluol a daearyddol gwahanol. Mae DECIPHer hefyd wedi cyhoeddi Adroddiad Cenedlaethol sy'n cynnwys amrywiaeth ehangach o ddata mwyaf diweddar arolwg SHRN yn 2021 ar lefel Cymru.

Gyda'i gilydd, mae'r ddau gynnyrch yn edrych yn fanwl ar iechyd a lles myfyrwyr mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru.

Mae categorïau SHRN fel a ganlyn:

- Bwyd a gweithgarwch corfforol
- Llesiant ac iechyd emosiynol
- Defnyddio a chamddefnyddio sylweddau
- Rhyw a pherthnasoedd
- Bywyd ysgol
- Cyfeillgarwch a bwlio

Bydd SNRN yn cynnig ffynhonnell allweddol o ddata i lywio astudiaeth hirdymor newydd gyda'r nod o fonitro ac olrhain effeithiau sydd newydd ymddangos ac effeithiau parhaus pandemig COVID-19 ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Caiff y canfyddiadau eu defnyddio i lywio mesurau lliniaru effeithiol a sicrhau parhad dysgu.

<u>Rhwydwaith Tystiolaeth Gydweithredol (CEN)</u>

Yn 2021, gofynnodd Llywodraeth Cymru am ddatganiadau o ddiddordeb mewn ymchwil gydweithredol i'w chynnal gan academyddion yn ein prifysgolion i wahanol agweddau ar addysg a oedd yn ymwneud ag anghenion y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad (NSERE). Yn sail i hyn, bu ffocws ar effeithiau pandemig COVID-19 a sut y gellir lliniaru'r rhain. Yn dilyn proses ymgeisio, rhoddwyd y cyllid i gyfanswm o 18 o brosiectau mewn pum sefydliad blaenllaw.

Y diweddaraf:

- Cynhaliwyd y trydydd seminar mewn cyfres o chwe seminar ar 04/05/23. Yn y seminar hwn, lledaenwyd canfyddiadau'r tri phrosiect a oedd yn canolbwyntio ar **iaith, llythrennedd a llenyddiaeth**. Roedd hyn yn cynnwys ymchwil i'r ffordd y mae'r pandemig wedi effeithio ar ddarpariaeth llythrennedd a darllen, archwiliad o'r ffordd y mae'r pandemig a digwyddiadau eraill ar yr un pryd wedi effeithio ar addysgu llenyddiaeth a throsolwg o adnodd newydd ar 'drawsieithu' er mwyn helpu addysgwyr sy'n gweithio gyda phlant sy'n defnyddio neu sy'n dysgu mwy nag un iaith. Ers y diweddariad diwethaf, mae tri adroddiad CEN arall wedi cael eu cyhoeddi ar Hwb, sef:
- **Effaith COVID-19 ar ddysgwyr sy'n ffoaduriaid yng Nghymru.** Ar gael: Effaith COVID-19 ar ddysgwyr sy'n ffoaduriaid yng Nghymru (llyw.cymru)
- **Cefnogi plant ifanc tawel, swil a phryderus yn yr ysgol.** Ar gael: Cefnogi plant ifanc tawel, swil a phryderus yn yr ysgol (llyw.cymru)
- **COVID–19, Addysg a Dysgu: Codi Lleisiau Plant Ifanc.** Ar gael: COVID–19, Addysg a Dysgu: Codi Lleisiau Plant Ifanc (llyw.cymru)
- Cynhaliwyd y pedwerydd seminar mewn cyfres o chwe seminar ar 03/07/23. **Yn y seminar hwn, lledaenwyd canfyddiadau'r tri phrosiect a oedd yn canolbwyntio ar newid dulliau gweithredu yn yr ystafell ddosbarth.** Roedd hyn yn cynnwys ymchwil i lais y disgybl; addysgu a dysgu yn yr awyr agored; ac arferion grwpio ar gyfer cymorth dysgu. Caiff yr adroddiadau hyn eu cyhoeddi ar Hwb yn yr wythnosau nesaf.

Y Camau Nesaf:

Mae dwy astudiaeth arall sydd eto i'w cyflwyno i'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi i'w dadansoddi. Themâu'r ddau seminar arall yw:

- Pontio i ôl-16 a thu hwnt
- Dysgu ac ymgysylltu yn yr ysgol

Bwriedir i'r rhain gael eu cynnal erbyn diwedd 2023.

<u>Are the kids alright? The early careers of education leavers since the COVID-19 pandemic</u>

Ffocws yr Astudiaeth:

- Yn yr adroddiad hwn, cyflwynir tystiolaeth ynglŷn â hanes carfannau o bobl ifanc a ymunodd â'r farchnad lafur yn ystod y pandemig hyd yma. Mae'r drafodaeth yn canolbwyntio ar y canlynol:
- Sut y datblygodd canlyniadau'r farchnad lafur dros y pandemig a chymharu tueddiadau â'r dirwasgiad yn 2008 er mwyn dangos maint ysgytwad COVID-19 i bobl ifanc.
- Profiadau carfannau o bobl ifanc a ymunodd â'r farchnad lafur yn ystod blynyddoedd COVID-19 neu ychydig cyn hynny. Cymharu eu cyfraddau cyflogaeth a mesurau lluosog o ansawdd swyddi â rhai'r carfannau cynharach er mwyn asesu i ba raddau y maent yn debygol o brofi creithiau hirdymor o ganlyniad i'r pandemig.
- Rhagolygon carfannau yn y dyfodol sydd ar fin ymuno â'r farchnad lafur.

Canfyddiadau Allweddol:

- **Mae'r dystiolaeth o ddirwasgiadau blaenorol yn dweud wrthym fod pobl ifanc sy'n ymuno â'r farchnad lafur yn ystod cyfnodau o ddirywiad economaidd yn tueddu i wynebu canlyniadau gwaeth o ran gyrfa** sy'n cymryd sawl blwyddyn i adfer yn eu sgil.
- **Cafodd y garfan a raddiodd yn 2020, yn enwedig unigolion â graddau prifysgol, ganlyniadau gwaeth i ddechrau ar rai mesurau.**
- **Mae'n ymddangos bod yr adferiad economaidd cyflym a'r cynnydd yn nifer y swyddi gwag newydd ers 2021 wedi rhoi cyfle i newydd-ddyfodiaid adennill tir a gollwyd yn gyflym.**
- Ar wahân i garfan 2020**, ni welodd carfannau eraill a ymunodd â'r farchnad lafur yn ystod y pandemig neu ychydig cyn hynny gynnydd galwedigaethol arafach ac nid oedd eu swyddi o ansawdd gwaeth**, gydag un eithriad: roedd y rhai o gefndiroedd difreintiedig yn fwy tebygol o fod yn yr un swydd ag roeddent yn ei dal yn yr ysgol neu'r brifysgol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw arwydd, hyd yma, fod hyn wedi effeithio ar fesurau eraill o ansawdd eu swydd.
- **Mae'n bosibl nad yw rhai effeithiau negyddol pandemig COVID-19 wedi amlygu eu hunain eto.**
- Yr hyn sy'n achosi mwy o bryder o bosibl yw rhagolygon y ddwy garfan nesaf o raddedigion. Byddant wedi dioddef **dwy ergyd anffodus iawn, gyda tharfu yn**

**ystod cam allweddol o'u haddysg oherwydd y pandemig, ac wedyn ddirwasgiad economaidd** ar ôl iddynt ymuno â'r farchnad waith.

Diweddariad ar y Gwerthusiad Ôl-16

Dyrannodd Llywodraeth Cymru dros £294 miliwn i gefnogi darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16 ledled Cymru, er mwyn hwyluso eu gwaith mewn ymateb i bandemig COVID-19 sy'n dal i fynd rhagddo ac adfer yn ei sgil. Dyfarnwyd y contract i Ecorys UK gynnal gwerthusiad annibynnol o effeithiolrwydd ac effeithiau cynnar y defnydd o'r cyllid hwn. Y gwerthusiad fydd y cam adrodd terfynol a chyflwynwyd y drafft cyntaf o'r adroddiad terfynol yn yr wythnos yn dechrau 05/06. Mae'r adroddiad wedi cael ei ddosbarthu i'w adolygu gan gydweithwyr polisi a chaiff ei gyhoeddi ym mis Medi 2023.

Canfyddiadau Allweddol ac Argymhellion:

Er bod profiadau cyffredin o fewn y sector, roedd heriau'r pandemig ac effaith cyllid gan Lywodraeth Cymru yn amrywio rhwng Addysg Bellach, Addysg Uwch, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

- Cyfeiriodd sefydliadau yn y sector at nifer o effeithiau buddiol yn deillio o'r grwpiau/fforymau a sefydlwyd i gyfathrebu/cydweithredu'n agosach â Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig.
- Un canfyddiad cyffredin ym mhob lleoliad ôl-16 oedd yr alwad am fwy o hyblygrwydd yng nghwmpas y gweithgareddau a'r adnoddau a oedd yn gymwys i gael cymorth ariannol.
- Dylid ystyried y gofynion monitro sydd ynghlwm wrth unrhyw gyllid yn y dyfodol ar ddechrau'r broses o lunio modelau cyllido a dylid ystyried cysylltu data ym mhob gweithgaredd casglu data yn y dyfodol.
- Dylid tynnu sylw ar yr angen parhaus am hyfforddiant a datblygiad proffesiynol mewn sgiliau digidol i staff yn y sector ôl-16 a rhoi blaenoriaeth iddo.
- Dylid ystyried opsiynau i goladu a rhannu arferion gorau a dysgu ynglŷn â rhoi cymorth iechyd meddwl a llesiant i staff mewn sefydliadau ôl-16.

Diweddariad ar Atal Gwaharddiadau o'r Ysgol

Nod yr ymchwil hon yw ystyried arferion a dulliau gweithredu a ddefnyddir gan ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion sy'n effeithiol o ran atal gwaharddiadau am gyfnod penodol, a pharhau i gysylltu ac ymgysylltu â dysgwyr wedi'u gwahardd a'u helpu i ailintegreiddio â dysgu prif ffrwd. Bydd y canfyddiadau yn llywio'r gwaith o ddatblygu canllaw sy'n crynhoi dulliau gweithredu o atal gwaharddiadau o'r ysgol mewn ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion. Disgwylir i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ar ddiwedd mis Medi 2023.

Yr Astudiaeth Hirdymor

Cefndir:

- Rydym wrthi ar y cam o gwmpasu'r astudiaeth hirdymor sy'n canolbwyntio ar yr effaith y mae pandemig COVID-19 wedi'i chael, ac yn parhau i'w chael, ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Y gobaith yw y bydd y gwaith yn helpu i sicrhau bod

unrhyw effeithiau ar ddysgu a llesiant yn cael eu nodi'n gynnar, a bod camau lliniaru priodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r effeithiau hyn.

- Ar hyn o bryd, rydym yn cynnal adolygiadau o'r llenyddiaeth mewn tri maes â blaenoriaeth, sef: llesiant, presenoldeb a chyrhaeddiad a chynnydd. Disgwylir i'r rhain gael eu drafftio erbyn diwedd mis Gorffennaf.
- Yn ogystal â hyn, rydym wedi cynnal trafodaethau cychwynnol â chydweithwyr polisi a chydweithwyr yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn ôl meysydd polisi (y blynyddoedd cynnar, ysgolion ac ôl-16). Bwriedir cynnal rhagor o sgyrsiau o ganlyniad i hyn (e.e., WHERA a thimau ADR/PANDAR).
- Mae'r sgyrsiau hyn yn ymwneud ag ystyried anghenion tystiolaeth cydweithwyr polisi. Mae hyn yn arwain at ddatblygu cyfres o gwestiynau ymchwil a fydd yn sail i'r astudiaeth hirdymor.
- Rydym wrthi'n llunio archwiliad o dystiolaeth ac archwiliad o ddata. Mae'r archwiliadau o dystiolaeth a data yn brosiect parhaus sy'n gofyn am waith adolygu a chynnal a chadw rheolaidd. Bydd yr archwiliadau yn ein galluogi i fapio'r dystiolaeth sy'n bodoli eisoes y gellir ei defnyddio i ymateb i'r cwestiynau ymchwil a ddatblygir. Byddant hefyd yn ein helpu i nodi bylchau lle y bydd angen comisiynu gwaith newydd o bosibl.
- Bydd astudiaeth gwmpasu yn mynd rhagddi tan fis Awst a bydd cam cychwynnol yr astudiaeth yn dechrau ym mis Medi ac yn para tan fis Mawrth 2025 pan fydd adolygiad gan y Grŵp Cynghori ar Barhad Dysgu.

Y Camau Nesaf:

- Rydym yn awyddus i wella ein dealltwriaeth o faint y broblem hon a'r hyn y mae'n ei olygu i ymarferwyr. Rydym hefyd yn gobeithio nodi ffynonellau o ddata a thystiolaeth y gellid eu defnyddio i ategu ac olrhain y dybiaeth hon dros amser, y dadansoddiadau y maent yn eu galluogi yn ogystal ag unrhyw heriau a chyfyngiadau ar eu defnydd.
- Trafodaethau pellach a chwblhau'r broses o ddrafftio'r adolygiadau o'r llenyddiaeth
- Ystyried ffynonellau data ymhellach
- Parhau i hyrwyddo'r archwiliad o ddata
- Profi cwestiynau ymchwil â chydweithwyr perthnasol
- Hwyluso digwyddiadau cydweithredol ar-lein i lansio'r astudiaeth hirdymor a rhoi llwyfan i ymchwil arall â ffocws ar effaith y pandemig.
- Sicrhau bod y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ac Addysg yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf lawn am yr holl ganfyddiadau wrth i'r astudiaeth hirdymor fynd rhagddi.

<u>Eitemau o ddiddordeb sydd yn yr arfaeth</u>

- Gwerthusiadau Arfaethedig: Polisïau'r Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru a Dyfodol Wedi'r Pandemig: Ymchwil Dulliau Cymysg. Bydd yr ymchwil hon yn ein galluogi i ddechrau deall y graddau y mae angen mireinio, gwella, neu ddatblygu polisïau/rhaglenni'r Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru er mwyn gwrthsefyll unrhyw fathau o anfantais ac oedi a brofir gan blant ifanc a'u teuluoedd o ganlyniad i'r pandemig

- Adroddiad Met Caerdydd/Rhondda Cynon Taf ar Bresenoldeb: yn aros am ddyddiad cyhoeddi

- Y cyswllt rhwng disgyblion sy'n defnyddio banciau bwyd a chanlyniadau TGAU cliciwch yma; Dysgwyr Cymraeg mewn ardaloedd trefol a llesiant cliciwch yma

- Astudiaeth COSMOS cam 1: yn cynnwys briffiadau ar Gyrhaeddiad ac Asesu; Iechyd Meddwl a Llesiant; Cynlluniau a Dyheadau yn y Dyfodol; Adferiad addysgol a dal i fyny a Dysgu o dan Gyfyngiadau Symud.

Bydd y diweddariad nesaf i'r Pwyllgor yn cael ei roi ym mis Rhagfyr 2023.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jane Bryant AS
Cadeirydd

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

SeneddPlant@senedd.cymru

17 Awst 2023

Annwyl Jane,

Yn ystod sesiwn graffu'r Gweinidogion ar addysg a sgiliau ôl-16 ar 5 Gorffennaf, dywedais y byddwn yn ysgrifennu at y pwyllgor am y niferoedd presennol sy'n ymgymryd â phrentisiaethau gradd yng Nghymru. Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth sydd ynghlwm o gymorth.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Cytunodd Gweinidog yr Economi i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ar ehangu gradd-brentisiaethau.**

Yn ystod cyfnod peilot gradd-brentisiaethau 2018 – 2021, paratôdd Llywodraeth Cymru lwybrau mewn tri fframwaith – Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch, Technoleg Ddigidol a Pheirianneg. O'r llwybrau hyn, datblygodd prifysgolion gymwysterau megis rheoli seiberddiogelwch, peirianneg meddalwedd, peirianneg fecanyddol, gweithgynhyrchu uwch ac eraill. Mae yna 23 fframwaith yn y llyfrgell fframweithiau, ac ers cwblhau'r peilot rydym wedi dechrau ehangu ein hystod o fframweithiau a llwybrau.

Ym mis Ionawr 2024 caiff graddau peirianneg rheilffyrdd eu cyflwyno. Mae Prifysgol De Cymru yn rhagweld y bydd 20-25 o fyfyrwyr yn dechrau ar gyrsiau peirianneg rheilffyrdd yn ystod y flwyddyn. Mae llwybrau yn cael eu datblygu ym meysydd rheoli adeiladu, tirfesur cyffredinol, gwasanaeth mesur meintiau a pheirianneg sifil, gyda'r nod o lansio cyrsiau i ddechrau ym mis Medi 2024. Rydym hefyd yn ymchwilio i sut y gall gradd-brentisiaethau gefnogi blaenoriaethau sero net Llywodraeth Cymru.

Defnyddiwyd sawl ffynhonnell wybodaeth i nodi blaenoriaethau wrth ddatblygu fframwaith prentisiaethau, gan gynnwys dadansoddi'r galw mewn prifysgolion. Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol hefyd wedi nodi sectorau twf blaenoriaeth, ynghyd â thystiolaeth o'r galw am y brif raglen brentisiaethau. Mae angen sgiliau penodol hefyd ar gyfer y rhan fwyaf o bortffolios gweinidogol, ac mae swyddogion wedi gweithio ar draws y llywodraeth i nodi'r anghenion am sgiliau uwch mewn nifer o alwedigaethau sy'n gysylltiedig â buddsoddiad Llywodraeth Cymru.

Dyma'r ffigurau:

**Myfyrwyr blwyddyn gyntaf yng Nghymru ar radd-brentisiaethau a gyllidir gan CCAUC (2019/20 i 2021/22)**

| 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---:|---:|---:|
| 260 | 300 | 305 |

Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr CCAUC drwy Lywodraeth Cymru[1]

[1] Cyfrifir y data ar sail cyfwerth â pherson llawn. Talgrynnir y data i'r 5 agosaf. Mae'r data yn seiliedig ar fyfyrwyr sydd:
1. Yn y boblogaeth gofrestru safonol
2. Yn astudio gyda darparwr Addysg Uwch yng Nghymru neu yng nghanolfan genedlaethol Gymreig y Brifysgol Agored
3. Ar gynllun gradd-brentisiaeth a gyllidir gan CCAUC.
4. Yn eu blwyddyn astudio gyntaf
Nid yw'r data ar gyfer 2018/19 ar gael ar hyn o bryd.

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

22 Awst 2023

Annwyl Jayne

**Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022**

Ar ôl gwneud Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Ddarfodol) 2023 ('y Gorchymyn') yr wythnos hon, roeddwn am achub ar y cyfle heddiw i ddiweddaru'r Pwyllgor ar bwrpas y Gorchymyn, a sut mae'n cefnogi gweithredu Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 a sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ('y Comisiwn').

Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r ddau ddyddiad allweddol:

- 4 Medi 2023 – dyddiad sefydlu'r Comisiwn, hwn fydd y dyddiad y bydd pob aelod craidd yn dechrau yn eu swyddi a'r Comisiwn yn dod yn gwbl sefydledig.
- 1 Ebrill 2024 - dyma'r dyddiad pan fydd y Comisiwn yn dod yn weithredol ac yn cymryd cyfrifoldeb am ei swyddogaethau craidd ar ôl diddymu CCAUC.

Diben y Gorchymyn yw galluogi'r Comisiwn i gymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod y trefniadau gweithredol a llywodraethu gofynnol ar waith i gefnogi proses drosglwyddo llyfn er mwyn iddo ddod yn weithredol, a'i alluogi i ddechrau datblygu rhai elfennau penodol sydd eu hangen i gefnogi gweithredu diwygiadau allweddol.

Rhwng mis Medi ac Ebrill bydd CCAUC yn cadw'r cyfrifoldeb am gyllido, ansawdd a rheoleiddio addysg uwch, tra bydd Llywodraeth Cymru yn cadw'r cyfrifoldeb am addysg bellach, prentisiaethau, y chweched dosbarth etc.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu lle gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cychwyn mewn perthynas â'r cyfnod sefydlu

Mae'r Gorchymyn yn darparu ar gyfer dod â'r darpariaethau canlynol o Ran 1 o'r Ddeddf i rym ar 4 Medi 2023:

- Rhyddid academaidd darparwyr addysg uwch a staff (adran 17);
- Awtonomi sefydliadol darparwyr addysg drydyddol (adran 18);
- Cydnawsedd â chyfraith elusennau a dogfennau llywodraethu darparwyr addysg drydyddol (adran 19);
- Dyletswydd ar y Comisiwn i roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (adran 20);
- Darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddiadau cyffredinol i'r Comisiwn ynghylch defnyddio unrhyw un o'i swyddogaethau (adran 21);
- Darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i roi swyddogaethau atodol i'r Comisiwn drwy reoliadau (adran 22);
- Darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud cynlluniau ar gyfer trosglwyddo staff ac eiddo, hawliau a rhwymedigaethau o CCAUC a Gweinidogion Cymru i'r Comisiwn (adran 24 ac atodlen 2).

Mae darpariaethau Atodlen 1 hefyd yn dod i rym ar yr un dyddiad. Mae Atodlen 1 yn nodi statws y Comisiwn, yn gwneud darpariaeth ynghylch aelodaeth o'r Comisiwn gan gynnwys rhai telerau ac amodau, ac yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i gael Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi, Pwyllgor Ansawdd a phwyllgor penodi aelodau o staff.

Mae'r Atodlen hon hefyd yn galluogi'r Comisiwn i sefydlu pwyllgorau eraill gan gynnwys cyd-bwyllgorau, ac yn gwneud darpariaeth ynghylch aelodaeth o'r Comisiwn (gan gynnwys cynrychiolwyr ar ran y gweithlu a dysgwyr), archwilio a chyfrifon, dyletswydd i sicrhau gwerth da, gofynion adrodd blynyddol ynghyd â gofynion gweithredol eraill megis dirprwyaethau, achosion, cofrestr buddiannau ac arfer swyddogaethau.

Nid yw'r Gorchymyn yn cynnwys darpariaeth mewn perthynas â'r agweddau canlynol ar Atodlen 1 - bydd y rhain yn cychwyn o fis Ebrill 2024 drwy Orchymyn cychwyn yn y dyfodol:

- penodi aelod cyswllt staff y Comisiwn a sefydlu'r pwyllgor penodi aelod y staff;
- dyletswydd y Comisiwn i baratoi adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon blynyddol.

Er mwyn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gallu darparu cyllid i'r Comisiwn o'i ddyddiad sefydlu, daw adran 85(1), (2)(a) a (2)(b) o'r Ddeddf i rym ar 4 Medi 2023. Mae gweddill adran 85 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chytundebau canlyniadau ac yn dod i rym ar 1 Ebrill 2024.

Nid yw adran 86, sy'n gosod cyfyngiadau ar y telerau ac amodau y gall Gweinidog Cymru eu gosod ar y cyllid ddarperir i'r Comisiwn mewn perthynas â chyllido addysg uwch, ymchwil ac arloesi ac addysg bellach, yn cael ei chychwyn drwy'r Gorchymyn. Nid oes angen y cyfyngiadau hyn yn ystod y cyfnod sefydlu gan na fydd pwerau cyllido perthnasol y Comisiwn mewn grym bryd hynny.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn dod â swyddogaethau perthnasol mewn perthynas â gwybodaeth, data a chyngor i rym ar 4 Medi 2023.

Mae adran 130 o'r Ddeddf, a gychwynnir yn llawn, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ddarparu gwybodaeth a chyngor, mewn perthynas â'i swyddogaethau, i Weinidogion Cymru pan fo'r Gweinidogion yn gofyn am wybodaeth o'r fath. Gall y Comisiwn hefyd roi i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth neu gyngor y mae'n ei ystyried yn briodol. Mae'r adran hon hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu unrhyw wybodaeth i'r Comisiwn yn ymwneud â chyflawni ei swyddogaethau.

Mae darparu gwybodaeth gan Weinidogion Cymru neu'r Comisiwn wedi'i gyfyngu i swyddogaethau'r Comisiwn sydd mewn grym bryd hynny.

Mae adran 132 o'r Ddeddf yn galluogi'r Comisiwn i rannu gwybodaeth, at ddibenion cyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau, gyda'r cyrff a'r personau a restrir ar wyneb y Ddeddf (neu a wneir mewn Rheoliadau o dan adran 132(1)(k)). Mae'r Gorchymyn yn cychwyn yr adran hon ar 4 Medi ac eithrio is-adran (1)(f) sy'n ymwneud â'r corff sydd i'w ddynodi gan y Comisiwn mewn perthynas ag asesu ansawdd addysg uwch.

Fel gydag adran 130, bydd rhannu gwybodaeth o dan adran 132 wedi'i gyfyngu i faterion sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn sydd mewn grym ar yr adeg y mae'r wybodaeth yn cael ei rhannu.

<u>Cylch cynllunio strategol a dyletswyddau strategol</u>

Bydd dyletswydd Gweinidogion Cymru i gyhoeddi datganiad o'u blaenoriaethau ar gyfer ac mewn cysylltiad ag addysg drydyddol ac ymchwil yn dod i rym ar 4 Medi 2023, ac fy mwriad o hyd yw cyhoeddi'r datganiad cyntaf ym mis Rhagfyr 2023.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn cychwyn, ar yr un dyddiad, adran 14 o'r Ddeddf a thrwy hynny ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn baratoi cynllun strategol sy'n nodi sut mae'n bwriadu cyflawni ei ddyletswyddau strategol a mynd i'r afael â datganiad o flaenoriaethau Gweinidogion Cymru.

Ni fydd gwneud y Comisiwn yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn adran 14 yn golygu ei bod yn ofynnol iddo gwblhau ei gynllun strategol yn ystod y cyfnod sefydlu, gan mai'r ddyletswydd yn yr adran honno yw paratoi'r cynllun yn unig. Yn hytrach, adran 15 sy'n pennu'r dyddiad y mae'n rhaid i'r Comisiwn gyflwyno ei gynllun strategol drafft i Weinidogion Cymru.

Mae'r Gorchymyn yn cychwyn adran 15 o'r Ddeddf ar 1 Ebrill 2024 gyda darpariaeth ddarfodol sy’n ei gwneud yn ofynnol cyflwyno'r cynllun strategol drafft cyntaf erbyn 15 Rhagfyr 2024.

I gefnogi datblygiad y cynllun strategol, mae'r Gorchymyn hefyd yn cychwyn adrannau 2 i 12 o'r Ddeddf sy'n nodi'r dyletswyddau strategol. Mae cychwyn y dyletswyddau strategol wedi'i gyfyngu i'r pwrpas o alluogi'r Comisiwn i baratoi ei gynllun strategol. Mae'r cychwyn cyfyngedig hwn, at y diben penodedig, yn golygu na fydd y Comisiwn yn ddarostyngedig i'r

dyletswyddau hynny yn ystod y cyfnod sefydlu. Bydd y dyletswyddau strategol yn dod i rym ym mis Ebrill 2024, gyda darpariaeth i'w gwneud mewn Gorchymyn yn y dyfodol.

Mae adran 16, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn adolygu ei gynllun strategol cyhoeddedig os yw Gweinidogion Cymru yn diwygio'r datganiad o flaenoriaethau, hefyd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2024.

Darpariaethau sy'n cael eu dwyn i rym yn rhannol i gefnogi gweithredu'r system gofrestru a thryloywder ariannol

Mae'r Gorchymyn yn darparu ar gyfer cychwyn yn rhannol, ar 4 Medi 2023, y darpariaethau sy'n angenrheidiol i alluogi'r Comisiwn i ymgymryd â'r gweithgareddau paratoi canlynol mewn perthynas â'r system gofrestru:

- Dechrau datblygu'r ddogfen sy'n pennu'r gofynion y mae'n rhaid i ddarparwyr eu bodloni er mwyn bodloni'r amodau cofrestru cychwynnol (adran 27(1) a (2));

- Dechrau penderfynu ar yr amodau cofrestru parhaus cyffredinol sydd i'w cymhwyso i ddarparwyr pan gânt eu hychwanegu i'r gofrestr (adran 28(1) i (3), adran 31(1)(a) i (f), (i), (j) a (2) ac adrannau 32 a 33);

- Dechrau paratoi canllawiau yn ymwneud â'r amodau cofrestru parhaus (adrannau 35 a 36);

- Gwneud gwaith paratoi i benderfynu sut y bydd yn monitro cydymffurfiaeth darparwyr cofrestredig â'r amodau cofrestru parhaus (adrannau 35 a 36);

- Dechrau paratoi datganiad ar ei bolisi cyllido (adran 87).

Nid yw cychwyn y darpariaethau hyn yn rhannol yn gwneud y Comisiwn yn ddarostyngedig i ddyletswyddau cysylltiedig; bydd y rhain yn dod i rym ar y dyddiad angenrheidiol yn y dyfodol trwy Orchymyn cychwyn arall. Mae rhai o'r swyddogaethau'n cael eu cychwyn yn llawn lle nad yw hynny'n gwneud y Comisiwn yn ddarostyngedig i ddyletswyddau na fydd yn gallu eu cyflawni yn ystod y cyfnod sefydlu.

Yn ogystal â dechrau'r darpariaethau sy'n darparu'n benodol ar gyfer pob un o'r swyddogaethau uchod, cychwynnir darpariaethau cysylltiedig hefyd i ddarparu cyd-destun ychwanegol lle bo angen ac i sicrhau bod unrhyw groesgyfeiriadau o fewn y darpariaethau yn gweithredu fel y bwriadwyd.

Pwerau gwneud rheoliadau Gweinidogion Cymru

Yn ogystal â dwyn i rym swyddogaethau'r Comisiwn naill ai'n llawn neu'n rhannol, mae'r Gorchymyn hefyd yn dwyn i rym y pwerau sydd eu hangen i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud yr is-ddeddfwriaeth angenrheidiol i gefnogi sefydlu'r Comisiwn a gweithredu'r Ddeddf.

Os oes gennych chi neu aelodau eich Pwyllgor unrhyw gwestiynau penodol yn y cyfamser, byddwn yn falch o ddarparu gwybodaeth ychwanegol lle bo hynny'n bosibl.

Rwyf wedi anfon copi o’r llythyr hwn i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a byddaf yn ei rannu â’n rhanddeiliaid er gwybodaeth.



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

# Eitem 3.32

Correspondence from Children in Wales**,** Save the Children Cymru, Barnardo's Cymru, Action for Children Cymru/Wales, NSPCC Cymru/Wales, The Children's Society, TGP Cymru, NYAS Cymru, Home-Start Cymru

Good afternoon Jayne

I'm getting in touch to let you know and seek your support/action. There has been significant disquiet this week amongst our national children charities members* in regard to media reports that free school meals during the school holiday will no longer be available for children in Wales. Our understanding is that some parents have begun receiving letters via their schools (but not all have as yet), informing them that Welsh Government will be ceasing the provision of holiday vouchers for free school meals with immediate effect. With three weeks before the summer break, this leaves parents little time to plan (for those of course who can). As the cost-of-living crisis plunges more families into poverty, this decision will result in more children going hungry over the coming weeks.

We have today written, alongside 8 other national children's charities, to the Minister for Education/Minister for Social Justice/DM for Social Services to express our profound concern of the impact this will have on children, parents and the third sector services who are already overstretched trying to meet rapidly growing need. We have also asked why there has been no public announcement this week or prior notification that this was going to happen.

This also comes at a time when the Welsh Government are consulting on their Child Poverty Strategy; have announced a cut in the Schools Essential Grant from next school term and have received recommendations from the United Nations Committee on the Rights of the Child to address food insecurity, improve access to free school meals for disadvantaged children and to enhance children's access to food.

I'm sure that you share our concerns, and we would be delighted if you and/or other members could raise this with Welsh Government at the earliest opportunity.

Should you require more information, please do get in touch

Diolch

Sean

***** Children in Wales**,** Save the Children Cymru, Barnardo's Cymru, Action for Children Cymru/Wales, NSPCC Cymru/Wales, The Children's Society, TGP Cymru, NYAS Cymru, Home-Start Cymru

I write to you ahead of the Children, Young People and Education Committee's scrutiny session of the Deputy Minister for Social Services on radical reform for care experienced children and young people.

NSPCC Cymru welcomes the Committee's report and the clear commitment to listen and make positive recommendations for change for children and young people in the care system and their families. It is particularly heartening to see the extensive engagement the Committee has had with young people, parents and project staff across Wales. We also welcome Welsh Government's commitment to radically transform the delivery of children's services in Wales, as outlined in the Programme for Government.

Despite ongoing work to make this commitment a reality, we feel that there is a need for greater transparency to enable regular scrutiny of progress in this crucial area of work. This is why the NSPCC has been calling for the publication of a detailed, fully resourced roadmap on transforming children's social care, with measurable outcomes. We believe it is crucial to clearly outline what actions the Welsh Government are taking to ensure children are protected and abuse and neglect are prevented from the offset. Children's voices must inform the roadmap and we want to see a young people advisory group set up to monitor delivery and outcomes.

Below are some of the areas we believe must also be addressed as a priority:

**Before care**

In our evidence, we called on the Committee to focus on what work needs to be done to ensure safe, nurturing home environments where babies and children grow up with responsive and attuned care-giving relationships, and free from abuse and neglect. We also asked the Committee to explore evidence looking at what preventative approaches have worked best and what can be done to ensure these approaches are maximised. **We therefore particularly welcome Recommendation 8 which calls on the Welsh Government to ensure nationwide access to preventative services such as Barnardo's Baby and Me and to develop a nationwide, long term, sustainable funding model for them. While we are pleased that Welsh Government have committed to reviewing the evaluation of such programmes before deciding on next steps and roll out, we remain of the view that the issue of sustainable, long term funding must be addressed to ensure parity and continued access to support for families across Wales.**

Our response also highlighted the negative impact of poverty on vulnerable families and the increased risk of abuse and neglect for children when families are under intense pressure and are not having their own needs met. We are delighted that the Committee has clearly identified poverty as a driver for family break up. **While we appreciate that some of the levers to alleviate poverty are non-devolved, we are disappointed not to see a clearer call to Welsh Government to do all it can to mitigate the impact of poverty on vulnerable families. We are disappointed that the link between poverty and social care involvement has not been outlined in the draft revised Child Poverty Strategy and would urge Members of the Senedd to continue to call for this.**

In addition, we highlighted concerns about number of babies and infants that are entering care. The Nuffield Family Justice Observatory report *'Born into care'* (2019) shows that disproportionate numbers of infants are appearing in care proceedings compared to any other aged child in Wales. It is also extremely important to protect the mental health and wellbeing of expectant and new parents as research demonstrates that maternal mental health is a crucial determinant of a child's mental health. To reduce the number of infants taken into care, more must be done to develop

strong working relationships between health and social care in order to strengthen the pre-birth support available for vulnerable families. There also needs to be more emphasis placed on identifying and addressing perinatal mental health problems within social work pre-birth assessments, with flexible outreach to engage and support mums early. **We urge Members of the Senedd to scrutinise the development of Welsh Government forthcoming mental health strategy, ensuring it accounts for the needs of vulnerable babies and infants who are at risk of going into care.**

**In Care**

We are pleased that the Committee report placed renewed emphasis on the difficulties care experienced young people encounter when trying to access specialist mental health services across Wales. This is evidenced in our 2019 NSPCC Cymru Listen, Act, Thrive research: all participants talked about how challenging it is for those in care to access CAMHS services because of the high threshold for referral. Many spoke about needing to have a mental health diagnosis or be in 'crisis' before receiving support. They also spoke about long waiting times to access CAMHS and how a young person would be placed at the bottom of the waiting list if they moved placements. Despite the requirement for mental health assessments to be conducted on entry into care, our Listen Act Thrive research also found that assessments are inadequate, guidance is lacking and training for staff is needed. Recent evidence from Care Inspectorate Wales also points to a lack of availability of emotional and therapeutic support for care experienced young people. **This is why we are disappointed that Welsh Government has only accepted in part Recommendation 5 relating to legislation to introduce a statutory right to specialist therapeutic mental health support. We recognise that positive steps are being taken with the introduction of the NEST/NYTH framework but we must see a commitment to regularly review implementation to ensure that care experienced young people can access support when they need it.**

The Committee report rightly highlights the importance of children and young people being heard in the care system. We were pleased to see Recommendations 12 and 13 on a statutory right to advocacy for children, including those in residential care. **It is disappointing that despite the evidence submitted to the Committee, Welsh Government has rejected both recommendations. It is crucial that we see a review of the implementation of the National Approach to ensure that it is delivering on its intention.**

I would be grateful if you would consider raising these points during the session on Thursday,

Yours sincerely


**Cecile Gwilym**
***Policy & Public Affairs Manager***
***Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus***
Tel/Ffon: 02920108051

NSPCC

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon